Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

## Memorandwm Esboniadol

yn ymgorffori'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a
Nodiadau Esboniadol

**Ebril 2026**

# Memorandwm Esboniadol Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru), a gyflwynwyd gennyf ar *02 Mehefin 2025*, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Huw Irranca-Davies AS**

Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Deddf

02 Mehefin 2025

# Tudalen gynnwys


**RHESTR O ACRONYMAU**

**Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**

1. Disgrifiad Tudalen 6
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol Tudalen 10
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael Tudalen 11
4. Ymgynghoriad Tudalen 144
5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth Tudalen 153

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Tudalen 162
7. Opsiynau Tudalen 168
8. Costau a manteision Tudalen 221
9. Asesiadau Effaith Tudalen 253
10. Asesiad Fforddiadwyedd Tudalen 267
11. Adolygiad ar ôl gweithredu Tudalen 271

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol** Tudalen 274

**ATODIAD 2** - **Mynegai Rheolau Sefydlog** Tudalen 318

**ATODIAD 3** – **Atodlen Diwygiadau** Tudalen 322

## Rhestr Termau a Byrfoddau

| | |
|---|---|
| AAS | Asesiad amgylcheddol strategol |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| BAU | Busnes fel arfer |
| CCEI | Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith |
| CE | Y Comisiwn Ewropeaidd |
| CJEU | Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CBD | Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol |
| Deddf 2016 | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| Deddf Amaethyddiaeth | Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| EIA | Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| EMFF | Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop |
| EIR | Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol |
| ESS | Safonau Amgylcheddol yr Alban |
| FUW | Undeb Amaethwyr Cymru |
| GBF | Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal |
| GDP | Cynnyrch Domestig Gros |
| GDPR | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data |
| ICO | Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth |
| IIA | Asesiadau Effaith Integredig |
| IEPAW | Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru |
| IUCN | Yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur |
| JNCC | Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur |
| KAS | Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NRAP | Cynllun Gweithredu Adfer Natur |
| NNRP | Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol |
| NPV | Gwerth Presennol Net |
| OfWat | Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr |
| OEP | Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd |
| RIA | Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
| RSPB | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| SLM | Rheoli Tir yn Gynaliadwy |
| SLIAC | Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru |
| SMNR | Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy |
| SoNaRR | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| TCA | Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE |
| TEU | Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd |
| TFEU | Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| UKBI | Dangosyddion Bioamrywiaeth y DU |

| | |
|---|---|
| WWF | Worldwide Wildlife Fund (for nature) |
| Y DU | Y Deyrnas Unedig |

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn ategu'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, sef "gweithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth." Bydd effeithiau a manteision y darpariaethau hyn yn disgyn ar draws sawl sector a byddant yn gwella ein gallu cyfunol i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur ac ymateb iddynt. Nod y Bil yw cryfhau a gwella ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

1.2. Mae'r Bil yn sefydlu rhai egwyddorion amgylcheddol ac amcan amgylcheddol. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC"), wrth wneud polisi, a rhai awdurdodau cyhoeddus eraill, wrth gynnal asesiad amgylcheddol strategol ("SEA"), gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

1.3. Bydd y Bil yn sefydlu corff statudol, "Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru" ("SLIAC"), a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan gyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

1.4. Mae'r Bil yn diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") i sefydlu fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth.

1.5. Bydd y Bil, sydd wedi'i rannu'n 4 Rhan, yn gwneud darpariaeth ar gyfer y canlynol:

### RHAN 1 – AMCAN AMGYLCHEDDOL AC EGWYDDORION AMGYLCHEDDOL

1.6. Mae Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaeth am amcan amgylcheddol, egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

1.7. Bydd yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a CNC, wrth wneud polisi, i roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd.

1.8. Bydd yn gosod dyletswydd ar rai awdurdodau cyhoeddus i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth gynnal asesiad amgylcheddol o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 neu unrhyw ddarpariaeth gyfatebol sy'n disodli'r Rheoliadau hynny.

## RHAN 2 – SWYDDFA LLYWODRAETHIANT AMGYLCHEDDOL CYMRU

1.9. Bydd yn sefydlu SLlAC i ddarparu goruchwyliaeth strategol annibynnol ar effeithiolrwydd, cymhwyso a gweithredu cyfraith amgylcheddol, gan gynnwys unrhyw fethiannau gan awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

1.10. Fel rhan o'i rôl, bydd SLlAC yn monitro ac yn adrodd ar effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Drwy'r gwaith monitro hwn, bydd yn casglu gwybodaeth am ddiffyg cydymffurfiaeth gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys drwy sylwadau a wneir gan y cyhoedd neu sefydliadau eraill, i gefnogi ymchwiliad i feysydd sy'n peri pryder. Yn dilyn yr ymchwiliad hwn, bydd yn pennu'r ffordd orau o ddatrys y pryderon hyn, a allai fod ar ffurf datrysiad anffurfiol, argymhellion lle gellir gwneud gwelliannau ac, os oes angen, camau gorfodi ffurfiol.

1.11. Bydd y Bil yn grymuso SLlAC i weithredu'n annibynnol a defnyddio ei harbenigedd ei hun ynghylch y mecanwaith mwyaf priodol ac effeithiol tuag at gyflawni datrysiad, yn unol â'i diben cyffredinol.

## *RHAN 3 – TARGEDAU BIOAMRYWIAETH*

1.12. Bydd yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf 2016 i gyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth.

1.13. Bydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth mewn rheoliadau, ar yr amod eu bod yn fodlon y byddai cyrraedd y targed yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth, yn enwedig drwy gynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gwella gwydnwch ecosystemau neu gynyddu amrywiaeth enetig.

1.14. Bydd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod gerbron y Senedd, o fewn dwy flynedd o'r Cydsyniad Brenhinol i'r Bil, reoliadau drafft sy'n pennu:

(a) targed tymor byr a thymor hir ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol, a
- Rheoli ecosystemau yn effeithiol.

(b) o leiaf un targed ym mhob un o'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Lleihau llygredd, ac
- Ansawdd y dystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso.

1.15. Bydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu effeithlonrwydd yr holl dargedau cyfredol o leiaf unwaith bob deng mlynedd i weld a fyddai targedau eraill yn cyfrannu'n well at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth. Os daw adolygiad i'r casgliad y byddai targedau eraill yn fwy effeithiol, yna rhaid i Weinidogion Cymru osod fersiwn ddrafft o'r targedau hynny gerbron y Senedd o fewn dwy flynedd ar ôl yr adolygiad.

1.16. Bydd yn gwella swyddogaethau cynllunio ac adrodd Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf 2016.

1.17. Bydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdodau cyhoeddus, gan ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hynny

gymryd camau gweithredu i gyfrannu at gyflawni'r targed bioamrywiaeth y maent wedi'u dynodi ar ei gyfer.

1.18. Bydd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a bygythiadau i fioamrywiaeth.

## *RHAN 4 – CYFFREDINOL*

1.19. Bydd yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â’r pwerau i wneud rheoliadau drwy’r Bil yn ei gyfanrwydd, dehongli cyffredinol, pryd y daw pob darpariaeth o dan y Bil i rym a materion penodol eraill.

## *ATODLEN 1 - SWYDDFA LLYWODRAETHIANT AMGYLCHEDDOL CYMRU*

## *ATODLEN 2 - SWYDDFA LLYWODRAETHIANT AMGYLCHEDDOL CYMRU: STRATEGAETH*

## *ATODLEN 3 - CYNLLUNIAU TROSGLWYDDO STAFF*

## *ATODLEN 4 - DIWYGIADAU CANLYNIADOL*

## 2. Cymhwysedd Deddfwriaethol

2.1 Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau yn y Bil yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

# Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

## *Cyflwyniad*

3.1 Mae amgylchedd iach yn hanfodol i'n llesiant. Mae'n cefnogi ein ffyniant, ein hiechyd ac mae'n rhan allweddol o'n diwylliant a'n hunaniaeth. Mae'n darparu'r adnoddau naturiol sy'n sylfaenol i'n bywydau a'n bywoliaethau, ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Rydym yn dibynnu ar ein hadnoddau naturiol ar gyfer deunyddiau crai, dŵr ac ynni; o'n hanghenion unigol i anghenion ein diwydiannau allweddol. Mae polisi a strwythurau llywodraethiant amgylcheddol effeithiol yn hanfodol wrth ddiogelu'r amgylchedd, gan ein galluogi i fynd i'r afael â heriau brys o ran newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a niwed arall i'r amgylchedd, megis llygredd.

3.2 Cydnabu ein Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026[1] yr angen i ymwreiddio ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn. Yn ogystal, ymrwymodd y Rhaglen wedi'i diweddaru i weithio tuag at dargedau a dyletswydd statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth. Mae mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon.

## *Yr argyfyngau hinsawdd a natur*

3.3 Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd, gan gydnabod yr angen brys i fynd i’r afael â bygythiad newid hinsawdd. Tynnodd y datganiad sylw at y ffaith bod yr argyfwng hinsawdd yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd, ac i'r economi, cymdeithas, seilwaith ac amgylchedd naturiol Cymru, a bod angen gweithredu ar frys i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.

[1] Llywodraeth Cymru - Rhaglen Lywodraethu - Diweddariad

3.4 Yn 2021, cyhoeddodd y Senedd argyfwng natur mewn ymateb i'r dirywiad brawychus mewn bioamrywiaeth yng Nghymru. Roedd y datganiad hwn yn cydnabod yr angen brys i fynd i'r afael â'r bygythiadau i fywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol gan weithgareddau dynol, megis colli cynefinoedd, newid hinsawdd a llygredd.

3.5 Er mwyn mynd i'r afael â'r ddau argyfwng hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod, er enghraifft, targedau allyriadau ar gyfer gostyngiad yn yr holl nwyon tŷ gwydr (a ddisgrifir ymhellach isod), yn ogystal â gwneud nifer o ymrwymiadau polisi, megis adfer 30% o ardaloedd gwarchodedig erbyn 2030. Mae hefyd wedi gweithredu mentrau amrywiol i amddiffyn bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd naturiol. Nod yr ymdrechion hyn yw cydbwyso heriau byrdymor â gwella'r amgylchedd yn yr hirdymor.

3.6 Mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn darparu cyd-destun sylfaenol bwysig a threiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth hon.

## *Newid Hinsawdd*

3.7 Mae gweithgarwch dynol sy'n cynhyrchu allyriadau carbon yn cyflymu'r broses cynhesu byd-eang sy'n achosi newid hinsawdd ac yn creu effeithiau negyddol ledled y byd mewn sawl ffordd, o donnau gwres a stormydd eithafol sy'n digwydd yn fwyfwy aml i'r tarfu ar systemau bwyd a chynnydd mewn clefydau. Mae newid hinsawdd hefyd yn fygythiad sylweddol i gymunedau Cymru, yn enwedig drwy effeithiau megis llifogydd, prinder dŵr, tanau gwyllt a newidiadau i ansawdd aer. Mae bygythiadau'n cynnwys:

- Tymheredd uwch: Cofnodwyd y tymheredd uchaf yng Nghymru, sef 37.1°C, ym Maes Awyr Penarlâg, Sir y Fflint yn 2022. Heb weithredu pellach, rhagwelir y bydd tymereddau blynyddol cyfartalog yng Nghymru yn cynyddu 2.0°C erbyn y 2040au a 3.3°C erbyn y 2080au, o gymharu â llinell sylfaen 1961-1990.
- Patrymau glawiad yn newid: Mae disgwyl i lawiad yr haf ostwng, gan arwain at amodau mwy sych, yn enwedig yn y Dwyrain a'r

De. I'r gwrthwyneb, rhagwelir y bydd gaeafau'n mynd yn wlypach, gyda digwyddiadau glawiad mwy aml a dwys. Mae hyn yn golygu y bydd rhai lleoliadau yng Nghymru'n wynebu risg uwch o ddigwyddiadau llifogydd mwy aml a difrifol.

- Lefel y môr yn codi: Rhagwelir y bydd lefel gymharol y môr o amgylch Cymru yn codi 36cm erbyn y 2080au, gan roi ardaloedd arfordirol mewn mwy o berygl o lifogydd ac erydu.

3.8 Er mwyn mynd i'r afael â'r bygythiadau hyn, nod Cymru yw cyrraedd sero net erbyn 2050, a fyddai'n golygu y byddai'r nwyon tŷ gwydr sy'n cael eu tynnu o'r atmosffer yn cydbwyso ag allyriadau.

3.9 I gefnogi'r amcan hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019, gan dynnu sylw at arwyddocâd tystiolaeth o Adroddiad Arbennig y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd ar effeithiau cynhesu byd-eang o 1.5°C.

3.10 Y targed allyriadau presennol ar gyfer 2050 yw gostyngiad o 100% yn yr holl nwyon tŷ gwydr[2] (o gymharu â llinell sylfaen o 1990 neu 1995, yn dibynnu ar y nwyon tŷ gwydr). Mae targed interim o ostyngiad o 27% erbyn 2020 wedi'i osod a chyfres o gyllidebau carbon bob 5 mlynedd wedi'i sefydlu. Mae'r targed interim nesaf wedi'i osod sef gostyngiad o 63% mewn allyriadau erbyn 2030 ac 89% erbyn 2040[3].

3.11 Mae'r rhain yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru.

## *Argyfwng Natur*

3.12 Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025[4] yn nodi:

---

[2] Adran 29, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
[3] Adran 30, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a rheoliad 2, Rheoliadau Newid hinsawdd (Targedau Allyriadau Interim) (Cymru) 2018.
[4] Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2025 - crynodeb (2024)

> *"Yn fyd-eang, mae tua 1 miliwn o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid bellach dan fygythiad diflannu. Gan adlewyrchu'r duedd fyd-eang hon, mae bywyd gwyllt Cymru yn parhau i ddirywio, yn bennaf oherwydd y ffordd yr ydym yn rheoli ein tir ar gyfer amaethyddiaeth, effeithiau newid hinsawdd, llygredd, gor-ecsbloetio a rhywogaethau goresgynnol. Mae'r golled hon ym myd natur yn bygwth cydnerthedd ecosystemau a gallu byd natur i gefnogi ein cymdeithas a'n llesiant, a'i gallu i addasu i newid hinsawdd a lliniaru yn ei erbyn."*

3.13 Mae tystiolaeth o adroddiad Sefyllfa Natur Cymru yn 2023[5] yn dangos ffigurau rhywogaethau o'r adroddiad, er enghraifft, ac i ddangos maint yr argyfwng, yn cynnwys:

- Mae 18% (663 o rywogaethau) o'r 3,897 o rywogaethau a aseswyd mewn perygl o ddiflannu o Gymru.
- Mae toreithrwydd 380 o rywogaethau tir a dŵr croyw wedi gostwng 20% ar gyfartaledd ledled Cymru ers 1994.
- Ar gyfartaledd, rhywogaethau gwyfynod sydd wedi profi'r dirywiad cryfaf: 43%.
- Mae toreithrwydd eog yr Iwerydd (*Salmo salar*) wedi gostwng yn sylweddol ledled Cymru yn y degawd diwethaf ac, yn 2021, aseswyd bod yr holl stociau mewn afonydd 'mewn perygl' (91%) neu 'mewn perygl yn ôl pob tebyg' (9%).

## *Yr argyfyngau natur a hinsawdd a diogelu'r amgylchedd*

3.14 Mae achosion ac effeithiau'r argyfyngau hyn yn eang, yn gymhleth ac yn berthnasol i'r rhan fwyaf o agweddau ar gymdeithas. Maent hefyd yn gydgysylltiedig. Er enghraifft, gall datgoedwigo sbarduno colli bioamrywiaeth (sydd yn ei dro yn gallu cyflymu datgoedwigo) a chreu argyfyngau amgylcheddol sylweddol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, megis, er enghraifft, mwy o lifogydd.

[5] Sefyllfa Natur – Cymru – Adroddiad Cryno 2023, tudalen 3: [stateofnature.org.uk/wp-content/uploads/2023/09/TP26053-SoN-Wales-summary-report-v10.pdf](stateofnature.org.uk/wp-content/uploads/2023/09/TP26053-SoN-Wales-summary-report-v10.pdf)

3.15 Mae bioamrywiaeth yn cyfrannu at liniaru ac addasu i newid hinsawdd a achosir gan bobl drwy gefnogi amodau sy'n lleihau effaith allyriadau carbon. Coedwigoedd, er enghraifft, yw ein dalfeydd carbon uwchben y ddaear mwyaf effeithiol. Gall newid hinsawdd gyflymu colli coedwigoedd a bioamrywiaeth, gan ei gwneud yn anoddach bodloni nodau polisi a chydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

3.16 Felly, mae perthynas synergaidd glir rhwng newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a diogelu'r amgylchedd. Drwy ddiogelu'r amgylchedd, gallwn liniaru a rheoli effaith yr argyfyngau hyn ar lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

3.17 Mae agweddau eraill ar ddiogelu'r amgylchedd, megis sut mae gwastraff yn cael ei drin a sut rydym yn rheoli llygredd aer a dŵr glân, hefyd yn cael eu heffeithio gan frwydro yn erbyn effeithiau newid hinsawdd a cholli natur. Fel enghraifft o'r rhyngweithiadau cymhleth hyn, gall newid hinsawdd arwain at law trwm sy'n golchi llygryddion o'r tir i ddyfrffyrdd. Gall y gorlwytho maethynnau hwn sbarduno twf algâu, gan arwain at 'barthau marw' lle nad oes digon o ocsigen a rhyddhau mwy o fethan, gan gyflymu newid hinsawdd ymhellach.

3.18 Ers i'r DU ymadael â'r UE, nid oes fframwaith statudol bellach i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol ar lefel strategol. Rydym o'r farn bod absenoldeb 'sylfaen' diogelu'r amgylchedd o ran llunio polisïau, ynghyd ag amcan cyffredinol priodol, yn tanseilio effeithiolrwydd ymatebion polisi i'r ddau argyfwng hyn a risgiau amgylcheddol ehangach y gall yr argyfyngau hynny eu gwaethygu ac a allai gael eu gwaethygu ganddynt. Yn unol â hynny, mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwneud darpariaeth sy'n ceisio ymateb yn effeithiol ac ar frys i'r argyfyngau sylfaenol hyn.

## *Egwyddorion Amgylcheddol*

3.19 Nod y darpariaethau egwyddorion amgylcheddol yw sefydlu fframwaith cadarn ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â thair her graidd: brwydro yn erbyn effaith gyfunol yr argyfyngau hinsawdd a natur, diogelu'r amgylchedd rhag niwed ac ymateb i newidiadau mewn strwythurau llywodraethiant amgylcheddol yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

3.20 Bwriad y darpariaethau yw cyfrannu at lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd, gan gyd-fynd â chyd-destunau polisi a deddfwriaethol ehangach Cymru, a rhoi ymrwymiadau rhyngwladol ar waith yn effeithiol. Mae'r egwyddorion, a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd, yn gymwys i lunio polisïau ar draws pob maes, nid dim ond y rhai sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r amgylchedd. Mae'r dull cyfannol hwn yn sicrhau bod yr egwyddorion a diogelu'r amgylchedd wedi'u hymwreiddio wrth gynllunio a gweithredu polisïau amrywiol, gan hyrwyddo datblygu cynaliadwy a lliniaru effeithiau negyddol newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

3.21 Yr egwyddorion amgylcheddol yw'r egwyddor ragofalus, yr egwyddor o atal, yr egwyddor y dylid cywiro difrod amgylcheddol yn y ffynhonnell, a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Mae'r egwyddorion hyn yn gynyddol ennill eu plwyf ac yn cael eu cydnabod yn eang mewn cyfraith a pholisi rhyngwladol, gan arwain penderfyniadau i sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn briodol.

3.22 Gwneir darpariaeth i osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a CNC, wrth wneud polisi, i roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Mae'r dyletswyddau hyn yn pwysleisio pwysigrwydd yr egwyddorion wrth lunio polisïau, gan sicrhau eu bod yn cael cryn ddylanwad a phwys. Drwy integreiddio diogelu'r amgylchedd i'r broses o lunio polisïau, nod y darpariaethau yw atgyfnerthu'r ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur a risgiau amgylcheddol eraill. Ochr yn ochr â

hyn, bydd dyletswyddau ar rai awdurdodau cyhoeddus sy'n cynnal asesiadau amgylcheddol strategol i roi sylw i’r egwyddorion, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd, er mwyn cyfrannu at lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd wrth baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni perthnasol.

3.23 Gwneir darpariaeth hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi datganiad egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd, a fydd yn darparu canllawiau ar ddehongli a chymhwyso'r egwyddorion. Bydd y datganiad hwn yn gwella dealltwriaeth, hygyrchedd a chraffu, ac yn caniatáu addasiadau priodol yn seiliedig ar dystiolaeth neu ddatblygiadau newydd.

## ***Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru***

3.24 Mae rhan 2 o'r Bil yn sefydlu SLlAC fel corff statudol sy'n darparu goruchwyliaeth strategol ar gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru â chyfraith amgylcheddol. Mae'r oruchwyliaeth a ddarperir gan y corff yn deillio o ymadawiad y DU â'r UE, a adawodd fwlch yn yr oruchwyliaeth a ddarperir gan y Comisiwn Ewropeaidd (“CE”) a Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (“CJEU”).

3.25 Bydd SLlAC yn monitro, adrodd a gorfodi cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, gan sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cadw at reoliadau amgylcheddol yn effeithiol ac yn gyson. Ni fydd yn disodli rheoleiddwyr rheng flaen presennol megis CNC ond bydd yn eistedd uwchlaw'r haen hon o reoleiddio, gan alluogi rôl oruchwylio strategol.

3.26 Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau ar gyfer sefydlu fframwaith gweithredol SLlAC, gan gynnwys ei haelodaeth, ei staff a'i phwyllgorau. Mae'n pwysleisio'r angen i aelodau fod ag arbenigedd mewn cyfraith, polisi a gwyddor amgylcheddol i sicrhau penderfyniadau gwybodus a llywodraethiant effeithiol. Er mwyn cefnogi tryloywder ac atebolrwydd,

mae'n ofynnol i SLIAC lunio a chyhoeddi strategaeth sy'n manylu ar ei dull o gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys monitro, adrodd, ymchwilio a gorfodi cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol. Bydd y strategaeth hon yn destun adolygiad ac ymgynghori rheolaidd â Senedd Cymru a chyrff perthnasol eraill.

3.27 Bydd gan SLIAC bwerau i gyhoeddi hysbysiadau cydymffurfio ac adroddiadau gwella, gan fynd i'r afael â methiannau unigol a materion systemig o fewn llywodraethiant amgylcheddol. Bydd yn mabwysiadu dull uwchgyfeirio er mwyn gorfodi, gan weithio ar y cyd ag awdurdodau cyhoeddus i ddatrys pryderon cydymffurfio cyn troi at gamau ffurfiol.

3.28 Mae'r trefniadau interim yn cynnwys penodi Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ("IEPAW") i reoli materion cyfraith amgylcheddol nes bod SLIAC yn gwbl weithredol. Mae cylch gwaith yr IEPAW yn gyfyngedig o gymharu â chwmpas arfaethedig SLIAC ond mae'n darparu mecanwaith dros dro ar gyfer goruchwylio ac argymhellion. Mae'r Bil hefyd yn amlinellu dyletswydd SLIAC i gydweithredu â chyrff goruchwylio amgylcheddol eraill yn y DU, megis Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) ac Environmental Standards Scotland (ESS), gan sicrhau bod materion amgylcheddol trawsffiniol yn cael eu trin ar y cyd.

3.29 I grynhoi, mae'r Bil yn ceisio cywiro'r bwlch goruchwylio a adawyd gan ymadawiad y DU â'r UE, gan gryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru drwy sefydlu SLIAC. Ei nod yw gwella effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol drwy sicrhau cydymffurfiaeth, darparu goruchwyliaeth strategol a meithrin cydweithrediad ymysg awdurdodau cyhoeddus a chyrff amgylcheddol.

## ***<u>Bioamrywiaeth</u>***

3.30 Nod cyffredinol y rhan hon o'r Bil yw cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Bydd y Bil yn diwygio Deddf 2016 drwy gyflwyno fframwaith gosod targedau

bioamrywiaeth, a fydd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth (a dyletswydd i'w cyflawni), ochr yn ochr â chryfhau'r swyddogaethau cynllunio, monitro ac adrodd presennol yn adran 6 o Ddeddf 2016, a dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth.

3.31 Ni ddylid trin y Bil fel endid ar wahân. Mae'n rhan o waith ehangach o fewn Rhaglen Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, ac mae'n adeiladu ymhellach ar y gwaith hwnnw. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys:-

- Gweithredu argymhellion o'r "archwiliad dwfn bioamrywiaeth[6]" a oedd yn canolbwyntio ar ymateb Cymru i'r targed "30 erbyn 30[7]" o'r GBF[8], sef targed byd-eang er mwyn amddiffyn a rheoli 30 y cant o'n tir, ein dyfroedd croyw a'n moroedd erbyn 2030.
- Y Rhaglen Rhwydweithiau Natur[9] sy'n ceisio gwella cyflwr a chysylltedd ein rhwydwaith safleoedd gwarchodedig. Mae'r rhaglen hon hefyd yn annog ymgysylltu â'r gymuned a chynyddu'r gallu i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau i alluogi ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf gwerthfawr i ffynnu
- Mentrau megis y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd[10], Lleoedd Lleol ar gyfer Natur[11] a Choedwig Genedlaethol Cymru.[12]
- Mae adfer natur yn elfen allweddol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy[13] a gafodd ei lansio yn 2026.
- Diweddaru Polisi Cynllunio Cymru[14] i ddarparu eglurder ar sicrhau budd net i fioamrywiaeth drwy gymhwyso'r dull fesul cam (sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ddilyn hierarchaeth liniaru i osgoi,

[6] Datganiad Ysgrifenedig: Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth (3 Hydref 2022) | LLYW.CYMRU
[7] Targed 3
[8] Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal
[9] Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhwydweithiau Natur - gwybodaeth am brosiectau natur
[10] Cyfoeth Naturiol Cymru / Y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd
[11] Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur | LLYW.CYMRU
[12] Coedwig Genedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU
[13] Cynllun Ffermio Cynaliadwy | LLYW.CYMRU
[14] Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 12

lleihau, lliniaru ac, fel dewis olaf, digolledu am ddifrod i fioamrywiaeth ac ecosystemau), pwyslais cryfach ar gymryd ymagwedd ragweithiol at seilwaith gwyrdd a chryfhau'r broses o ddiogelu safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig ("SoDdGA").

- Cynllun Grant Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig[15], sy’n cefnogi cynigion i wella dealltwriaeth o bwysau a chyflwyno mesurau i wella rheolaeth o’n rhwydwaith ardaloedd morol gwarchodedig.

## *Dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru (ac yn fyd-eang)*

3.32 Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at bethau byw yn eu holl amrywiaeth, gan gynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, yr amrywiaeth o wahanol gynefinoedd ac ecosystemau sy’n gartref i’r rhywogaethau hynny, yn ogystal â’r amrywiaeth genetig o fewn rhywogaethau a rhyngddynt.

3.33 Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau iach yn hanfodol ar gyfer ein goroesiad, gan ddarparu aer glân, dŵr, bwyd, meddyginiaethau, tanwydd, ffeibr a phren, yn ogystal â chefnogi ein hiechyd a’n llesiant.

3.34 Mae bioamrywiaeth wrth wraidd ecosystemau sy’n gweithredu’n iach a’u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol neu fanteision i lesiant pobl. Mae’r gwasanaethau hyn, megis darparu dŵr glân, rheoleiddio’r hinsawdd, perygl llifogydd, iechyd pridd ar gyfer cynhyrchu bwyd a llawer mwy, yn cael eu diraddio gan golli bioamrywiaeth.

3.35 Mae bioamrywiaeth fyd-eang wedi dirywio, gyda gostyngiad o 69% yn nhoreithrwydd cymharol poblogaethau bywyd gwyllt sy’n cael eu monitro rhwng 1970 a 2018.[16] Yn y DU, mae toreithrwydd a dosbarthiad rhywogaethau hefyd wedi dirywio ers y 1970au ar gyfartaledd.[17] Cyn y

---

[15] Cynllun Grant Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig: canllawiau | LLYW.CYMRU
[16] WWF, 2022.
[17] Hayhow et al., 2019.

1970au, roedd dirywiad eisoes wedi bod yn digwydd ers canrifoedd, felly mae'r dirywiad hwn yn dilyn llinell sylfaen a oedd eisoes wedi dirywio.

3.36 Mae Adroddiad Sefyllfa Natur Cymru, a baratowyd gan y Bartneriaeth Sefyllfa Natur yn 2023,[18] yn nodi bod Cymru, ynghyd â gwledydd eraill y DU ac fel y rhan fwyaf o ranbarthau eraill ledled y byd, wedi gweld colled sylweddol mewn bioamrywiaeth. Mae'r tueddiadau mewn natur yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu, ar y mwyaf, 50 mlynedd, ond maent yn dilyn newidiadau mawr i natur Cymru dros y canrifoedd blaenorol. O ganlyniad, mae Cymru bellach ymysg y gwledydd ar y Ddaear sydd wedi gweld ei natur yn teneuo fwyaf.

3.37 Nododd Adroddiad Risgiau Byd-eang 2025 Fforwm Economaidd y Byd[19] mai colli bioamrywiaeth yw'r ail risg fwyaf difrifol ar raddfa fyd-eang dros y 10 mlynedd nesaf.

### *Yr argyfyngau hinsawdd a natur*

3.38 Cydnabu adroddiad diweddar[20] ar atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd yr ymrwymiadau mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030. Cydnabu'r adroddiad hefyd fod gan bob un ohonom gyfraniad i'w wneud at achub natur Cymru. Mae ymrwymiadau a thargedau natur Llywodraeth Cymru yn ddiystyr heb y camau gweithredu—ac, yn bwysicaf oll, y bobl sy'n eu cyflawni.

### *Ymateb rhyngwladol i'r argyfwng bioamrywiaeth*

3.39 Nod y GBF, a gytunwyd ym mhymthegfed Cynhadledd y Partïon i'r CBD ym mis Rhagfyr 2022 ("COP15"), yw catalyddu, galluogi a sbarduno

---

[18] Sefyllfa Natur 2023 - adroddiad ar fioamrywiaeth bresennol y DU
[19] WEF_Global_Risks_Report_2025.pdf
[20] Atal a gwrthdroi colli natur: Cynnydd tuag at y targed 30 erbyn 30

camau gweithredu brys a thrawsnewidiol gan Lywodraethau, ac awdurdodau is-genedlaethol a lleol, gyda chyfranogiad cymdeithas gyfan, er mwyn atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, a chyflawni'r canlyniadau yng Ngweledigaeth, Cenhadaeth, Nodau a Thargedau'r GBF.

3.40 Mae'r GBF yn canolbwyntio ar weithredu a chanlyniadau a'i nod yw arwain a hyrwyddo, ar bob lefel, adolygu, datblygu, diweddaru a gweithredu polisïau, nodau, targedau, a strategaethau a chamau gweithredu cenedlaethol ar fioamrywiaeth, a hwyluso monitro ac adolygu cynnydd yn erbyn y targedau ar bob lefel mewn ffordd fwy tryloyw a chyfrifol. Mae'r GBF yn cynnwys 23 o dargedau sy'n canolbwyntio ar weithredu er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith ac yn cael eu cyflawni erbyn 2030. Bydd y targedau hyn yn helpu i lywio sut y mae Gweinidogion Cymru yn datblygu targedau bioamrywiaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

3.41 Mae fframwaith monitro manwl yn cyd-fynd â’r GBF. Mae’n cynnwys cyfres o ddangosyddion y cytunwyd arnynt ar gyfer olrhain cynnydd tuag at nodau a thargedau’r GBF. Mae’r fframwaith monitro yn cynnwys prif ddangosyddion sy’n cael eu hargymell ar gyfer monitro cenedlaethol, rhanbarthol a byd-eang, a dangosyddion elfen ac ategol manylach. Y bwriad yw i'r gwaith monitro ac adrodd a gyflwynwyd drwy'r Bil gyd-fynd â'r GBF i sicrhau y gellir defnyddio'r data a gesglir ar gyfer ein targedau bioamrywiaeth i adrodd yn rhyngwladol hefyd, ochr yn ochr ag adroddiadau domestig a chenedlaethol eraill. Mae hyn yn cynnwys drwy Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol y DU sy'n nodi sut y bydd pedair gwlad y DU yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth[21].

### *Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*

3.42 Mae Rhan 1 o Ddeddf 2016 yn darparu fframwaith cyflawni hyblyg sy’n ceisio sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

[21] UK national biodiversity strategy and action plan - GOV.UK

Cyflwynwyd elfennau allweddol o'r fframwaith hwnnw i helpu i gynllunio ac i reoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol, a hynny drwy gyfrwng gofynion penodol i lunio adroddiad SoNaRR, NNRP a datganiadau ardal.

3.43 Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau yng Nghymru ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Nod y "ddyletswydd adran 6" hon yw gwrthdroi’r dirywiad a sicrhau gwydnwch hirdymor bioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru.

3.44 Mae'r ddyletswydd adran 6 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus lunio a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno a hefyd adrodd ar y camau y maent wedi'u cymryd i gydymffurfio â'u dyletswydd adran 6 bob tair blynedd. Bydd y Bil hwn yn adeiladu ar y fframwaith a gyflwynwyd drwy Ddeddf 2016 i fireinio ymhellach y gofyniad ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

### *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

3.45 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (“Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol”) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, i gyflawni'r nodau llesiant. Cyflwynodd y Ddeddf hon hefyd y pum ffordd o weithio, sef cydweithio, integreiddio, cynnwys, hirdymor ac atal. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a’r saith nod llesiant yn darparu fframwaith i’r awdurdod cyhoeddus allu gwneud penderfyniadau y bydd rhaid i’r gwaith o ddatblygu a gweithredu ein fframwaith natur-bositif eu hadlewyrchu. Mae'r nod llesiant ‘*Cymru gydnerth*’ yn nodi bod Cymru'n genedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid hinsawdd).

## Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth (Cymru))

# RHAN 1 – EGWYDDORION AMGYLCHEDDOL

***Cyflwyniad***

3.46 Wrth wneud darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer egwyddorion amgylcheddol yn y Bil hwn, mae Gweinidogion Cymru'n ceisio mynd i'r afael â thair her graidd fel mater o bolisi:

(i) brwydro yn erbyn effaith gyfunol bygythiadau cynyddol sy'n gysylltiedig â'r argyfyngau hinsawdd a natur;

(ii) cymryd camau pellach i ddiogelu'r amgylchedd rhag niwed (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, niwed o golli bioamrywiaeth a newid hinsawdd);

(iii) ymateb i newidiadau i strwythurau llywodraethiant amgylcheddol, yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

3.47 Ein bwriad yw sefydlu dull i sicrhau bod cymhwyso'r egwyddorion yn cyfrannu at lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd, fel rhan bwysig o'r ymateb brys a pharhaus i ganlyniadau newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth a mathau eraill o niwed amgylcheddol, gan gynnwys llygredd dŵr, llygredd aer a mathau eraill o lygredd. Wrth wneud hynny, bwriad y polisi yw sicrhau bod y darpariaethau hyn yn cyd-fynd â chyd-destun polisi a deddfwriaethol ehangach Cymru a chyfrannu at weithredu ymrwymiadau rhyngwladol yn effeithiol.

## *Egwyddorion Amgylcheddol yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) ac yn rhyngwladol*

3.48 Mae'r amgylchedd wedi bod yn rhan allweddol o bolisi a chyfraith yr UE ers degawdau[22], ac roedd llawer o'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru yn deillio o gyfraith amgylcheddol yr UE, naill ai'n uniongyrchol effeithiol neu wedi'i throsi gan ddarpariaeth ddomestig briodol. Felly, mae corff sylweddol o gyfraith amgylcheddol yng Nghymru (a gweddill y DU) wedi datblygu o gyfraith yr UE. Yn ei dro, mae cyfraith amgylcheddol yr UE wedi datblygu mewn cyd-destun rhyngwladol ehangach lle mae egwyddorion amgylcheddol wedi cael cydnabyddiaeth sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys cytundebau rhyngwladol allweddol, megis Datganiad Stockholm 1972[23] a Datganiad Rio 1992[24]. Mae'r cytundeb hwn, a lofnodwyd gan 172

---

[22] Gwnaeth Cytuniad Maastricht (1993) yr amgylchedd yn faes polisi swyddogol yr UE, er bod polisi amgylcheddol yr UE yn dyddio'n ôl i'r Cyngor Ewropeaidd a gynhaliwyd ym Mharis ym 1972.

[23] Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd Dynol, Stockholm 1972 | Y Cenhedloedd Unedig

[24] Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu, Rio de Janeiro, Brasil, 3-14 Mehefin 1992 | Y Cenhedloedd Unedig

o lywodraethau, gan gynnwys y DU, yn Uwchgynhadledd y Ddaear 1992, yn nodi 27 egwyddor i lywio cyflawni datblygu cynaliadwy.

3.49 Ymhellach, mae egwyddorion amgylcheddol wedi helpu i lywio cytundebau rhyngwladol pwysig eraill megis Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol[25], Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd[26] a'r Confensiwn ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Gwneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol (Confensiwn Aarhus[27]), sy'n helpu i osod fframwaith rhyngwladol ar gyfer mynd i'r afael â heriau hanfodol gan gynnwys colli bioamrywiaeth, newid hinsawdd a chyfranogiad y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau amgylcheddol. Mae egwyddorion amgylcheddol hefyd yn ymddangos mewn cyfreitheg ryngwladol[28].

3.50 O fewn y cyd-destun rhyngwladol ehangach hwn, mae'r UE wedi gwneud darpariaeth, drwy’r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd a’r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd (y "TEU"), ar gyfer egwyddorion ac amcanion amgylcheddol allweddol sy’n ceisio sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i lefel uchel[29].

3.51 Mae Erthygl 191(1) o'r TFUE yn nodi:

*“Union policy on the environment shall contribute to pursuit of the following objectives:*

- *preserving, protecting and improving the quality of the environment,*
- *protecting human health,*
- *prudent and rational utilisation of natural resources,*

---

[25] 15/4. Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal, Montreal, Canada, 19 Rhagfyr 2022

[26] UNFCCC

[27] Testun y Confensiwn | UNECE

[28] Er enghraifft, *Pulp Mills on the River Uruguay (Argentina v. Uruguay),* Dyfarniad, I.C.J. Reports 2010).

[29] Er enghraifft, Erthyglau 11, 114(3) a 191(1) a (2), TFUE (Consolidated version of the Treaty on the Functioning of the European Union (legislation.gov.uk)) ac Erthygl 3(3) TUE (Consolidated version of the Treaty on European Union (legislation.gov.uk)).

- *promoting measures at international level to deal with regional or worldwide environmental problems, and in particular combating climate change."*

3.52 Mae erthygl 191(2) yn parhau:

*"Union policy on the environment shall aim at a high level of protection taking into account the diversity of situations in the various regions of the Union. It shall be based on the precautionary principle and on the principles that preventive action should be taken, that environmental damage should as a priority be rectified at source and that the polluter should pay".*

3.53 Felly, yr egwyddorion amgylcheddol a nodir yn Erthygl 191(2) o'r TFUE yw:

(a) Yr egwyddor ragofalus;

(b) Yr egwyddor ataliol;

(c) Yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell; a

(d) Yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

3.54 Nid yw'r egwyddorion wedi'u diffinio ymhellach yn y TFUE. Mae ystyr yr egwyddorion a'r ddealltwriaeth ohonynt yn fwy datblygedig mewn rhai achosion nag eraill, ac mae'r broses o ddehongli a chymhwyso'r egwyddorion yn parhau i ddatblygu, drwy gyfraith achosion, datganiadau a chytundebau rhyngwladol ac wrth i ddealltwriaeth wyddonol ddatblygu, er enghraifft.

3.55 Yn ogystal, mae Erthygl 11 o'r TFEU yn nodi bod rhaid integreiddio gofynion diogelu'r amgylchedd wrth ddiffinio a gweithredu polisïau a gweithgareddau'r Undeb, yn enwedig er mwyn hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Y nod yw sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn cael ei ymgorffori ym mhob polisi a gweithgarwch, gan sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn rhan o bob polisi a gweithred, nid dim ond y rhai hynny sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

3.56 Mae Erthygl 114(3) o'r TFUE ac Erthygl 3(3) o'r TUE yn gwneud darpariaeth bellach sy'n ymwneud â'r nod o sicrhau lefel uchel o ddiogelu'r

amgylchedd a gwella ansawdd yr amgylchedd mewn cysylltiad â'r Comisiwn, Senedd a Chyngor Ewrop a marchnad fewnol yr UE.

3.57 Mae CJEU hefyd yn cymhwyso'r egwyddorion wrth ddehongli deddfwriaeth yr UE, gan gynnwys y Cytuniadau. Mae CJEU wedi dibynnu ar yr egwyddor ataliol, yr egwyddor ragofalus, integreiddio, a'r egwyddor cywiro yn y ffynhonnell i helpu i ddod i'w gasgliadau mewn gwahanol achosion mewn perthynas ag iechyd anifeiliaid[30], cynefinoedd[31] a gwastraff[32], er enghraifft.

### *Cyfraith amgylcheddol yr UE yn y DU ac ymadael â'r UE*

3.58 Mae'r rhan fwyaf o gyfraith amgylcheddol yng Nghymru (a gweddill y DU) dros y deugain mlynedd diwethaf wedi deillio o'r UE. Mae amcanion diogelu'r amgylchedd ac egwyddorion amgylcheddol yr UE yn llifo drwy bolisïau'r UE ac yn cael eu mabwysiadu yn neddfwriaeth yr UE ac, yn y modd hwn, maent wedi cael effaith sylweddol iawn ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru (a gweddill y DU).

3.59 Cyn i'r DU ymadael â'r UE, roedd deddfwriaeth yr UE naill ai'n cael effaith uniongyrchol yn y DU, megis, er enghraifft, Rheoliad yr UE ar REACH[33], neu'n cael ei throsi gan ddeddfwriaeth ddomestig, megis Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, gan weithredu'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff[34]. Yn y modd hwn, mae deddfwriaeth yr UE ac egwyddorion amgylcheddol yr UE wedi llywio polisi a

---

[30] Achos C-180/96 *UK v Commission* [1998] ECR (EUR-Lex - 61996CJ0180 - EN - EUR-Lex (europa.eu)). Gweler, er enghraifft, paragraffau 99 a 100 am gymhwyso'r egwyddor ataliol ac integreiddio.
[31] Achos C-127/02 *Landelijke Vereniging tot Behoud van de Waddenzee v Staatssecretaris van Landvouw* (EUR Case C-127/02). Gweler, er enghraifft, paragraffau 44 a 56 am gymhwyso'r egwyddor ragofalus.
[32] Achos C-2/90 *Commission v Belgium* (EUR-Lex – 61990CJ0002 – EN – EUR-Lex (europa.eu)). Gweler, er enghraifft, paragraffau 34 a 35 am gymhwyso'r egwyddor cywiro yn y ffynhonnell.
[33] Rheoliad (CE) Rhif 1907/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 18 Rhagfyr 2006 sy'n ymwneud â Chofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau.
[34] Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor.

deddfwriaeth ddomestig. Cyfeiriwyd at yr egwyddorion hefyd mewn cyfraith achosion ddomestig[35].

3.60 Roedd goruchwyliaeth o gyfraith amgylcheddol yn cael ei ddarparu'n flaenorol gan y Comisiwn Ewropeaidd ("CE"), CJEU a llysoedd domestig y DU. Pe bai Aelod-wladwriaeth, gan gynnwys y DU, wedi methu â chyflawni ei rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE, gallai'r CE ymchwilio a dwyn achos gorfodi. Mae rôl CJEU yn cynnwys sicrhau bod cyfraith yr UE yn cael ei dehongli'n gywir, penderfynu a yw Aelod-wladwriaethau wedi cyflawni eu rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE, a darparu dehongliadau o gyfraith yr UE ar gais barnwyr cenedlaethol. Fel yr esboniwyd eisoes, mae cyfraith achosion CJEU yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a rhoi'r egwyddorion amgylcheddol ar waith.

3.61 Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, nid yw'r rôl oruchwylio hon gan y CE mwyach. Ymhellach, ni all llysoedd domestig gyfeirio cwestiynau dehongli cyfraith yr UE at CJEU mwyach.

3.62 Ar ben hynny, yn dilyn diwedd cyfnod pontio Brexit (31 Rhagfyr 2020), nid yw'r DU bellach yn cael ei rhwymo gan Gytuniadau'r UE nac unrhyw gyfraith newydd yn yr UE a fyddai wedi cael effaith uniongyrchol yn flaenorol (megis Rheoliadau'r UE), ac nid yw'n ofynnol iddi chwaith drosi unrhyw gyfraith yr UE newydd sy'n cael effaith anuniongyrchol, megis Cyfarwyddebau'r UE.

3.63 Sicrhaodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y "Ddeddf Ymadael") y byddai cyfreithiau penodol a luniwyd tra bod y DU yn aelod o'r UE yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl Brexit. Wrth wneud hynny, datblygwyd categori newydd o gyfraith y DU a elwir yn gyfraith yr UE a ddargedwir. Roedd hyn yn cynnwys deddfwriaeth ddomestig benodol sy'n

[35] Gweler, er enghraifft, *Re Bluestone Chemicals Ltd (in liquidation)* [1999] 4 All ER 684 ac *R (on the application of) v Environment Agency & Ors* [2007] EWCA Civ 611.

deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a oedd mewn grym yn union cyn y diwrnod ymadael, yn ogystal â rhai hawliau ac effeithiau dehongli (yn adrannau 4 a 6, er enghraifft). Yng nghyd-destun cyfraith amgylcheddol, cafodd corff cyfraith amgylcheddol yr UE ei ddargadw. Cafodd egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a gydnabuwyd gan CJEU cyn diwedd y cyfnod pontio eu hymgorffori hefyd yn llyfr statud y DU o dan y Ddeddf Ymadael, ond gyda rhai cyfyngiadau, fel mai dim ond i helpu i ddehongli cyfraith yr UE a ddargedwir y ceir eu defnyddio.

3.64 Mae Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 ("Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir") yn dileu gweddill effeithiau egwyddorion cyffredinol a ddargedwir o gyfraith yr UE fel nad ydynt bellach yn dylanwadu ar ddehongli cyfraith yr UE a oedd wedi'i dargadw ar lyfr statud y DU. Yn ogystal â diddymu egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE, tynnodd Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir nodweddion eraill o gyfraith yr UE a ddylanwadodd ar sut roedd cyfraith yr UE yn cael ei dehongli a'i chymhwyso gan lysoedd domestig, gan gynnwys yr egwyddor o oruchafiaeth cyfraith yr UE, dehongliad cyson, effaith uniongyrchol a hawliau uniongyrchol effeithiol (adrannau 2 i 4). Mae cyfraith yr UE a ddargedwir, ar ôl tynnu'r nodweddion hyn, wedi cael ei hadnabod fel 'cyfraith a gymathwyd' o ddiwedd 2023.

3.65 Cyflwynodd Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir hefyd brofion newydd i'r llysoedd eu cymhwyso wrth benderfynu a ddylid gwyro oddi wrth gyfraith achosion a gymathwyd gyda'r nod o'i gwneud yn haws i lysoedd wneud hynny. Fodd bynnag, mae llawer o gyfraith achosion CJEU sy'n ategu sut y dylid dehongli darnau penodol o gyfraith amgylcheddol yr UE o safbwynt egwyddorion amgylcheddol yr UE. Yn y cyd-destun hwn, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch sut y bydd y fath ddeddfwriaeth yn cael ei dehongli gan lysoedd domestig wrth roi egwyddorion domestig dehongli statudol ar waith ar ôl y diwygiadau hyn.

3.66 Mae hyn yn arbennig o bwysig yng Nghymru ar hyn o bryd, o gofio bod egwyddorion amgylcheddol yn absennol o'i llyfr statud. Bwriad

Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol nawr yw ymgorffori egwyddorion amgylcheddol i ateb ystod o heriau a chyfleoedd polisi, ac sy'n ystyried newidiadau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE, fel bod egwyddorion amgylcheddol yn cael eu gweithredu'n glir ac yn effeithiol ar sail statudol unwaith y daw'r Ddeddf i rym. Bydd hyn yn darparu sylfaen a fframwaith strategol i lunio polisïau, ac asesiad amgylcheddol strategol, a fydd yn helpu i gryfhau'r ymateb i ystod o faterion polisi pwysig, gan gynnwys yn enwedig yr argyfyngau hinsawdd a natur, a ddisgrifir yn gynharach yn y bennod hon.

### *Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE*

3.67 Ar 1 Mai 2021, daeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE (y "TCA") i rym[36], gan nodi telerau'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Mae'r rhaglith i'r TCA yn cydnabod ymrwymiad y partïon i safonau uchel o ran diogelu'r amgylchedd (ac i ymdrechu i barhau i wella'r safonau hynny) a'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd. Mae darpariaeth sy'n berthnasol i'r amgylchedd yn rhan o’r TCA ar ystod eang o feysydd, gan gynnwys newid hinsawdd, ansawdd aer, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth.

3.68 Mae Rhan 2, Pennawd 1, Teitl XI, Pennod 7 yn gwneud darpariaeth benodol am yr amgylchedd. Mae Teitl XI, Pennod 7 yn cadarnhau hawl pob parti i osod ei bolisïau a'i flaenoriaethau yn y meysydd a gwmpesir gan y Bennod honno (yr amgylchedd a'r hinsawdd), i bennu lefelau diogelu'r amgylchedd a lefelau diogelu'r hinsawdd y mae'n eu hystyried yn briodol ac i fabwysiadu neu addasu ei gyfraith a'i bolisïau mewn modd sy'n gyson ag ymrwymiadau rhyngwladol pob parti. Mae pob parti yn cytuno i beidio â gwanhau na lleihau, mewn modd sy'n effeithio ar fasnach neu fuddsoddiad rhwng y partïon, ei lefelau diogelu'r amgylchedd neu ei lefelau diogelu'r hinsawdd yn is na'r lefelau sydd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio, gan gynnwys drwy fethu â gorfodi ei gyfraith amgylcheddol neu ei

---

[36] EU-UK_Trade_and_Cooperation_Agreement_24.12.2020.pdf (publishing.service.gov.uk).

lefelau diogelu'r hinsawdd yn effeithiol. Mae pob parti hefyd yn cytuno i ymdrechu i gynyddu eu lefelau diogelu'r amgylchedd priodol neu eu lefelau diogelu'r hinsawdd priodol y cyfeirir atynt yn y Bennod honno[37].

3.69 Mae'r DU a'r UE hefyd yn ymrwymo i barchu'r egwyddorion amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol y maent wedi ymrwymo iddynt, yn benodol:

- yr egwyddor y dylid integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth wneud polisïau, gan gynnwys drwy asesiadau effaith;
- yr egwyddor ataliol i atal difrod amgylcheddol;
- yr egwyddor ragofalus y cyfeirir ati yn Erthygl 356(2)[38] [Right to regulate, precautionary approach and scientific and technical information];
- yr egwyddor y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro unrhyw ddifrod amgylcheddol yn y ffynhonnell; a
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu[39].

3.70 Bydd y ddeddfwriaeth hon yn helpu i weithredu'r ymrwymiadau a nodir yn y TCA i barchu'r egwyddorion hynny.

## *Yr amcan amgylcheddol*

3.71 Gwneir darpariaeth ar gyfer "amcan amgylcheddol" i fynegi'n glir yr uchelgais polisi ac i lywio'r gwaith o gymhwyso a gweithredu'r dyletswyddau i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Wrth i Weinidogion Cymru wneud polisïau ac wrth i rai "awdurdodau cyhoeddus" penodol gynnal asesiadau amgylcheddol, rhaid iddynt gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r

---

[37] Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, Rhan 2, Pennawd 1, Teitl XI, Erthygl 391.

[38] "The Parties acknowledge that, in accordance with the precautionary approach, where there are reasonable grounds for concern that there are potential threats of serious or irreversible damage to the environment or human health, the lack of full scientific certainty shall not be used as a reason for preventing a Party from adopting appropriate measures to prevent such damage" (Erthygl 356(2)).

[39] Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE, Rhan 2, Pennawd 1, Teitl XI, Erthygl 393.

amgylchedd, er mwyn cyfrannu at yr amcan. Bydd dehongli a chymhwyso'r amcan a'r egwyddorion, a rhai materion cysylltiedig, yn cael eu mynegi ymhellach drwy'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio datganiad diogelu'r amgylchedd ("y datganiad egwyddorion amgylcheddol"), a ddisgrifir ymhellach yn y bennod hon.

3.72 Nid yw'r amcan yn berthnasol i'r dyletswyddau sydd i'w gosod ar CNC. Mae gan CNC ei ddiben cyffredinol ei hun eisoes[40], sef:

(a) ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, a

(b) cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol,

wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol.

3.73 Gan fod gan CNC ei ddiben cyffredinol ei hun eisoes, gyda'r nod o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ni ystyrir y byddai'n briodol cymhwyso'r amcan amgylcheddol i CNC. Mae'r diben cyffredinol, a'r amcan amgylcheddol, yn gyflenwol ac yn gefnogol i'r ddwy ochr ac, ar y cyd, byddant yn canolbwyntio camau gweithredu ar ganlyniadau gwell. Bydd diben cyffredinol CNC yn parhau i fod yn berthnasol i CNC a bydd yn ofynnol i CNC roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd, yng nghyd-destun y diben hwnnw.

3.74 Bydd y datganiad egwyddorion amgylcheddol yn esbonio sut y mae'r dyletswyddau sydd i'w gosod ar Weinidogion Cymru a CNC, wrth lunio polisi, a'r dyletswyddau sydd i'w gosod ar awdurdodau cyhoeddus penodol, wrth gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), yn ymwneud â'i gilydd. Esbonnir hyn ymhellach isod.

3.75 Prif ffocws yr amcan amgylcheddol yw cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella ansawdd yr amgylchedd. Mae hyn yn gosod yr egwyddorion a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd

[40] Erthygl 4(1), Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, fel y'i hamnewidiwyd gan adran 5, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

mewn cyd-destun strategol ac yn darparu ffocws polisi clir i'w hystyried a'u cymhwyso. Darperir diffiniadau o "ddiogelu'r amgylchedd" a'r "amgylchedd" i helpu i egluro cwmpas yr amcan. Mae'r diffiniadau hyn yn gymwys ar draws y Bil hwn.

3.76 Yn ogystal, mae'r amcan yn pwysleisio nifer o ganlyniadau penodol a fydd yn deillio o gyfrannu, drwy gymhwyso'r dyletswyddau hyn, at gyflawni lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd. Mae'r rhain fel a ganlyn:

(i) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,

(ii) cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a’r manteision y maent yn eu darparu,

(iii) lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddo, a

(iv) cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth.

3.77 Mae'r canlyniadau penodol hyn sy'n gysylltiedig â'r amcan yn gosod nodau penodol y dylai'r broses o gyflawni lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd geisio eu cyflawni, a chydnabyddir hefyd y gall cyflawni lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd a gwella ansawdd yr amgylchedd hefyd arwain at ganlyniadau a manteision eraill. Trafodir y canlyniadau penodol nesaf.

*(a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*

3.78 Gwneir darpariaeth i sicrhau bod yr amcan yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy mewn ffordd sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddyletswydd hon yn cael ei harwain gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a'i nod yw cyflawni nodau llesiant. Mae’r

egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod rhaid i gorff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain[41].

3.79 Rhaid i gyflawni datblygu cynaliadwy gynnwys gosod a chyhoeddi amcanion (a elwir yn "amcanion llesiant") a ddyluniwyd i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion llesiant hynny[42].

3.80 Mae'r dyletswyddau hyn a osodir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eang ac yn gyfannol, gan ganolbwyntio ar wella llesiant cyffredinol Cymru. Rydym o'r farn bod y dyletswyddau hyn yn gysylltiedig â chanlyniadau polisi dymunol yr amcan amgylcheddol. Er mwyn adlewyrchu hyn, bwriad ein dull yw cyfrannu at y nodau llesiant (lle bo hynny'n berthnasol) a diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, gan sefydlu cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chefnogi ei gweithrediad ehangach, gan ffurfio naratif polisi cydlynol a chyflenwol. Y ffocws o hyd fydd cyfrannu at lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd ac yn y cyd-destun hwnnw, cydnabyddir y bydd y cyfraniad at nodau llesiant yn amrywio gan ddibynnu ar eu perthnasedd o dan yr amgylchiadau, Fel hyn, bydd y cyfraniad at y nodau llesiant (lle byddant yn berthnasol), yn yr achos hwn, yn ganlyniad i ysgwyddo'r dyletswyddau perthnasol i gyfrannu at lefel uchel o ddiogleu'r amgylchedd ac at wella'r amgylchedd.

*(b) Y "dull ecosystemau"*

[41] Adran 5(1), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
[42] Adran 3(2), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

3.81 Mae Rhan 1 o Ddeddf 2016 yn gosod dyletswyddau ar CNC, Gweinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ymwneud â defnyddio adnoddau naturiol a chymryd camau eraill sy'n cynnal ac yn gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu[43]. Mae'r dyletswyddau hyn wedi'u seilio, felly, ar ddull ecosystemau, sef dull sydd hefyd yn ymddangos yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[44] a Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 ("y Ddeddf Amaethyddiaeth")[45].

3.82 Rydym o'r farn bod y dull ecosystemau hwn yn hanfodol gan ei fod yn ystyried y gydberthynas gymhleth o fewn ecosystemau, gan hyrwyddo gwneud penderfyniadau cyfannol yn hytrach na mynd i'r afael â materion ar wahân. Drwy roi pwyslais ar gynnal a gwella gwydnwch ecosystemau o fewn yr amcan amgylcheddol, mae ein dull hefyd yn cyd-fynd â Deddf 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Amaethyddiaeth, gan sicrhau cysondeb ar draws deddfwriaeth.

3.83 Mae'r ffactorau penodol sy'n berthnasol i gydnerthedd ecosystemau a sefydlwyd gan Ddeddf 2016 (adran 4(i)) fel rhan o'r egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol[46], ac a gynhwysir fel rhan o'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy o dan y Ddeddf Amaethyddiaeth (adran 1(7)), wedi'u nodi i bwysleisio eu pwysigrwydd wrth gynnal a gwella gwydnwch ecosystemau ac i ategu'r dulliau polisi a'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol.

(*c*) *lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo*

---

[43] Diffinnir rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn adran 3, Deddf 2016.
[44] Gweler, er enghraifft, y nod 'Cymru gydnerth', sef 'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd)" (adran 4, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).
[45] Adran 1(4) a (7), Deddf Amaethyddiaeth.
[46] Adran 4, Deddf 2016.

3.84 Mae newid hinsawdd yn effeithio'n sylweddol ar y byd rydym yn byw ynddo, o newid patrymau tywydd i ddylanwadu ar ddosbarthiad rhywogaethau. Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, bydd effeithiau newid hinsawdd yn eang ac yn sylweddol, gan gynnwys tymereddau uwch, patrymau glawiad yn newid a fydd yn golygu hafau mwy sych a gaeafau gwlypach, a lefel y môr yn codi. Gall yr effeithiau hyn arwain at lifogydd, prinder dŵr, tanau gwyllt a newidiadau i ansawdd aer, er enghraifft. Bydd integreiddio diogelu'r amgylchedd a'r egwyddorion amgylcheddol i'r broses o lunio polisi i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol yn gwneud cyfraniad hanfodol wrth gefnogi ein gallu i liniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo, hyrwyddo iechyd yr amgylchedd ac ecosystemau a sicrhau bod camau a gymerir yn ymateb i heriau amgylcheddol nawr ac yn y dyfodol.

*(d) cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth*

3.85 Bydd integreiddio diogelu'r amgylchedd a'r egwyddorion amgylcheddol yn y broses o wneud penderfyniadau i gyfrannu at yr amcan amgylcheddol hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy ein galluogi i feithrin polisïau sy'n blaenoriaethu cadwraeth a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn well. Fel y nodwyd yn gynharach, mae bioamrywiaeth yn hanfodol ar gyfer lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd a gwella'r amgylchedd, er enghraifft, drwy sefydlogrwydd a chynhyrchiant ecosystemau, gan ddarparu gwasanaethau hanfodol megis peillio, puro dŵr a rheoleiddio'r hinsawdd. Drwy ymwreiddio egwyddorion amgylcheddol a diogelu'r amgylchedd yn y broses o lunio polisïau, gallwn atal cynefinoedd rhag cael eu colli, amddiffyn rhywogaethau sydd mewn perygl ac adfer ecosystemau sydd wedi dirywio. Disgwylir i'r dull rhagweithiol hwn fynd i'r afael â'r bygythiadau uniongyrchol i fioamrywiaeth a hefyd sicrhau iechyd a chydnerthedd hirdymor ein hamgylchedd naturiol, gan fod o fudd i gymdeithasau bywyd gwyllt a phobl.

## *Yr egwyddorion amgylcheddol*

3.86 Gwneir darpariaeth ar gyfer rhai egwyddorion amgylcheddol i sefydlu fframwaith llywodraethiant amgylcheddol newydd. Bwriad y rhain yw bod yn sylfaen i ddull newydd sy'n rhoi diogelu'r amgylchedd wrth wraidd y broses llunio polisi yng Nghymru, ac ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur yn arbennig.

3.87 Yn bwysig, mae'r egwyddorion wedi'u datblygu i weithio gyda'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol unigryw am yr amgylchedd a chynaliadwyedd a wnaed eisoes yng Nghymru, ac i'w hategu, yn enwedig y dyletswyddau i gyflawni datblygu cynaliadwy ac i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan gynnwys y pum ffordd o weithio[47], a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r darpariaethau rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys yr egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a sefydlwyd o dan Ran 1 o Ddeddf 2016.

3.88 Gwneir darpariaeth, felly, ar gyfer yr egwyddorion amgylcheddol canlynol:

- yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd;
- yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;
- yr egwyddor y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro unrhyw ddifrod amgylcheddol yn y ffynhonnell;
- yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

3.89 Yn ogystal, gwneir darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i integreiddio diogelu'r amgylchedd, a thrafodir hyn ymhellach isod.

3.90 Mae'r dehongliad o'r egwyddorion hyn yn fwyfwy sefydledig ac yn parhau i ddatblygu mewn gwahanol gyd-destunau, gyda rhyngweithiadau cymhleth rhwng ymrwymiadau rhyngwladol, cyfraith ryngwladol, deddfwriaeth ddomestig a chyfraith achosion. Darperir cefndir byr isod ar

[47] Adran 5(2).

sut y mae'r egwyddorion wedi'u dehongli a'u cymhwyso, a bydd esboniad a manylion llawnach am gymhwysiad yr egwyddorion yng nghyd-destun y dyletswyddau hyn, a'r dehongliad ohonynt, yn cael eu nodi yn y datganiad egwyddorion amgylcheddol sydd i'w gyhoeddi o dan y Ddeddf.

3.91 Mae'r **egwyddor ragofalus** yn egwyddor sefydledig a gydnabyddir yn eang mewn cyfraith a pholisi rhyngwladol, gyda'r nod o atal risgiau posibl i iechyd y cyhoedd, diogelwch a'r amgylchedd ac arwain penderfyniadau i flaenoriaethu'r amgylchedd, diogelwch a chynaliadwyedd dros fuddiannau economaidd. Mae'n cyfiawnhau gweithredu lle mae achos ac effaith risgiau posibl yn cael eu deall a lle mae ansicrwydd gwyddonol ynghylch achos ac effaith risgiau posibl, neu nad yw'r risgiau'n cael eu deall yn llawn.

3.92 Mae'r **egwyddor ataliol** yn gysylltiedig â'r egwyddor ragofalus ac maent bron bob amser yn cael eu defnyddio gyda'i gilydd. Mae'r egwyddor ataliol yn hollbwysig i sicrhau bod difrod amgylcheddol yn cael ei osgoi neu ei gyfyngu gan ei fod yn caniatáu neu'n gofyn am weithredu yn gynnar[48]. Mae'r ffocws ar atal difrod rhag digwydd, yn hytrach nag atgyweirio difrod ar ôl iddo ddigwydd. Mae hyn yn ceisio osgoi dirywiad amgylcheddol, a allai fod yn anadferadwy neu'n ddrud iawn i'w atgyweirio.

3.93 Mae'r **egwyddor o gywiro difrod amgylcheddol yn y ffynhonnell** yn golygu y dylid mynd i'r afael â difrod amgylcheddol, fel blaenoriaeth, yn ei ffynhonnell, yn hytrach nag yn yr amgylchedd ehangach, ac (ochr yn ochr â'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu) gan y llygrwr, yn hytrach na chymdeithas ehangach. Gellir ei ddefnyddio i flaenoriaethu gweithredu yn y ffynhonnell ar draws ystod o feysydd (er enghraifft, newid hinsawdd, cynhyrchu gwastraff, datgoedwigo a llygredd) lle na ellir atal difrod amgylcheddol yn gyfan gwbl.

---

48 Gweler, er enghraifft, *R v Minister of Agriculture* (C-157-96) a United Kingdom v Commission *(C-180/96*) am gymhwysiad yr egwyddor ataliol a hefyd integreiddio.

3.94 Bwriad yr **egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu** yw sicrhau mai'r rhai sy'n achosi difrod amgylcheddol sy'n talu costau'r difrod neu'n ei unioni, yn hytrach na'r gymuned ehangach. Y bwriad yw sicrhau atebolrwydd am niwed amgylcheddol, hyrwyddo arferion cynaliadwy ac alinio â nodau amgylcheddol ehangach. Mae'n symud costau ariannol llygredd amgylcheddol i'r person sy'n achosi'r llygredd ac i ffwrdd o'r rhai yr effeithir arnynt a'r gymdeithas ehangach.

## *Dyletswyddau Gweinidogion Cymru wrth lunio polisi*

3.95 Gwneir darpariaeth fel bod rhaid i Weinidogion Cymru, at ddibenion cyfrannu at yr amcan amgylcheddol, roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru ac integreiddio diogelu'r amgylchedd yn y broses o lunio polisi o'r fath.

3.96 Mae'r ddyletswydd uniongyrchol a chlir hon yn hanfodol fel rhan bwysig o'r ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac i risgiau amgylcheddol eraill, gan gynnwys llygredd. Bydd yn cyfrannu at y fframwaith deddfwriaethol presennol, ac yn cyd-fynd ag ef, gan gynnwys, yn arbennig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Rhan 1 o Ddeddf 2016 (rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy) a Rhan 1 o'r Ddeddf Amaethyddiaeth (rheoli tir yn gynaliadwy). Bydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i newidiadau yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE ac i gryfhau a gwneud darpariaeth benodol ar gyfer egwyddorion amgylcheddol ac amcan diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Ar ben hynny, bydd yn cefnogi gweithredu a chyflwyno cytundebau rhyngwladol yn effeithiol, gan gynnwys darpariaethau perthnasol y TCA.

3.97 Gwneir darpariaeth i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i integreiddio diogelu'r amgylchedd (fel y'i diffinnir) yn y broses o lunio polisi, yn hytrach na'i chynnwys fel egwyddor integreiddio. Mae hyn yn cyferbynnu ag enghreifftiau mewn rhannau eraill o ddeddfwriaeth y DU[49],

[49] Er enghraifft, adran 17(5), Deddf yr Amgylchedd 2021 ac adran 13(1), Deddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (yr Alban) 2021.

ond rydym o'r farn bod y dull hwn yn gosod rhwymedigaeth gliriach ar Weinidogion Cymru. Fel gyda'r egwyddorion eu hunain, bydd y ddyletswydd hon yn berthnasol nid yn unig i 'bolisi amgylcheddol', ond i bob maes llunio polisi o ran Cymru. Nod hyn yw sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn cael ei ystyried ar draws pob maes polisi, gan fod y difrod mwyaf i'r amgylchedd yn digwydd mewn meysydd eraill, nid o fewn y fframwaith polisi amgylcheddol.

3.98 Nid yw’r ddyletswydd hon yn gymwys os na chaiff y polisi dan sylw effaith neu fawr o effaith ar yr amgylchedd (gweler y disgrifiad isod).

3.99 Diffinnir "Cymru" yn fras i gynnwys, i'r graddau y mae'r polisi'n ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, yr ardal o barth Cymru sydd y tu hwnt i derfyn atfor y môr tiriogaethol (yn ogystal ag arwynebedd tir Cymru a'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos i Gymru yn unol â'r diffiniad o "Cymru" yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019). Diffinnir "parth Cymru" gan Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

3.100 Gwneir darpariaeth i Weinidogion Cymru roi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi. Mae dyletswydd i roi "sylw arbennig" i fater penodol yn mynnu bod y penderfynwr y mae'r ddyletswydd yn berthnasol iddo yn rhoi "cryn bwysigrwydd a phwys" i'r mater hwnnw. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw arbennig o gryn bwysigrwydd a phwys i'r egwyddorion wrth lunio polisi.

3.101 Mae hyn yn cyferbynnu â dyletswydd "sylw dyladwy", lle mae'r pwys a roddir i ffactorau perthnasol yn fater i'r sawl sy’n penderfynu ac felly gellir, ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus mewn achos penodol, rhoi ychydig iawn o bwys, os o gwbl, i’r ffactorau hynny (ar yr amod nad yw'r penderfynwr yn gweithredu'n afresymol).

3.102 Yn yr un modd â dyletswydd i roi "sylw dyladwy", mae'n parhau i fod yn wir fod ymarfer cydbwyso i'w gyflawni ond, yn achos dyletswydd "sylw arbennig", bydd y ffactorau hynny y mae'r penderfynwr i fod i roi sylw arbennig iddynt yn cael pwysigrwydd arbennig yn yr ymarfer cydbwyso. Yn yr achos hwn, mae hyn yn golygu bod rhaid i'r egwyddorion amgylcheddol ymddangos yn amlwg yn yr ymarfer cydbwyso.

3.103 Mae hyn yn cryfhau rôl egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi, gan adlewyrchu eu pwysigrwydd a chynnal hyblygrwydd a fydd yn angenrheidiol ar draws meysydd polisi amrywiol. Mae'r ddyletswydd "sylw arbennig" yn sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol yn ymddangos yn amlwg wrth wneud penderfyniadau, ac yn galluogi Gweinidogion Cymru i gydbwyso'r egwyddorion amgylcheddol ag ystyriaethau perthnasol eraill (e.e. iechyd y cyhoedd, costau) yn dibynnu ar y cyd-destun.

3.104 Er enghraifft, gall yr amgylchiadau olygu y dylid rhoi mwy o bwyslais i ystyriaethau pwysig eraill neu ffactorau gwrthweithiol, megis, er enghraifft, ystyriaethau iechyd y cyhoedd, costau gormodol neu effeithiau eraill, na'r egwyddorion. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol, o dan yr holl amgylchiadau, i roi mwy o effaith i un neu fwy o'r egwyddorion. Mewn achosion sy'n cael effaith amgylcheddol fach, gall yr egwyddorion gael ychydig iawn o effaith, os o gwbl. Bwriad y dull a ddefnyddir yw pwysleisio pwysigrwydd yr egwyddorion, er mwyn osgoi "esgus" eu cymhwyso, gan ddarparu ar gyfer meysydd a ffactorau amrywiol i'w hystyried gan Weinidogion Cymru wrth lunio polisi mewn perthynas â Chymru.

3.105 Gwneir darpariaeth i’w gwneud yn glir na fydd dyletswydd Gweinidogion Cymru, wrth lunio polisi, i roi sylw arbennig i’r egwyddorion ac integreiddio diogelu’r amgylchedd yn gymwys os na fydd y polisi dan sylw yn cael effaith neu fawr o effaith ar yr amgylchedd. Mae’n bwysig rhoi’r trothwy hwn gan mai’r bwriad yw i’r dyletswyddau a osodir ar Weinidogion Cymru fod yn fawr eu heffaith, a bod yn gymwys ar draws holl waith llunio polisi Llywodraeth Cymru, nid polisi amgylcheddol yn unig.

Byddai'n amhriodol a gwrthgynhyrchiol ysgwyddo'r dyletswyddau wrth lunio polisi lle bo'n amlwg na châi'r polisi effaith neu fawr o effaith ar yr amgylchedd gan fod perygl y gallai hynny droi'r ddyletswydd i fod yn fawr fwy nag ymarfer "ticio blychau" a thynnu sylw oddi wrth weithredu effeithiol a gâi effeithiau amgylcheddol mwy arwyddocaol, gan danseilio effeithiau'r dyletswyddau. Y bwriad yn lle hynny yw rhoi'r grym i lunwyr polisi fynd i'r afael mewn ffordd adeiladol ac ystyrlon â'r dyletswyddau hyn.

3.106 Mae peidio â chael effaith neu fawr o effaith yn drothwy isel iawn, ac yn ymarferol, ystyrir mai prin fydd y polisïau na fydd yn cael effaith neu fawr o effaith ar yr amgylchedd. Gellid diffinio 'fawr o effaith' fel rhywbeth sydd mor fach neu ddibwys fel nad oes diben ei ystyried a'i fwriad yw eithrio dim y polisïau hynny sydd ag effaith ddi-nod neu ddibwys ar yr amgylchedd. Digwyddiad prin ac eithriadol felly fydd cael polisi na châi effaith neu fawr o effaith ar yr amgylchedd i'r graddau na fydd gofyn gwneud y ddyletswydd.

3.107 Bydd gofyn i lunwyr polisi asesu'n ofalus effaith eu polisi i benderfynu a yw'n bodloni'r trothwy hwn. Rhaid gwneud hynny yn y cychwyn cyntaf a gydol y broses o lunio polisi a rhaid i'r asesiad gynnwys unrhyw effeithiau cronnus neu gyfun polisi ar yr amgylchedd gan y gallai nifer o effeithiau bach sy'n gysylltiedig â'r polisi droi'n arwyddocaol o'u hystyried gyda'i gilydd.

3.108 Mae'n bwysig ei gwneud yn glir nad dim ond o safbwynt a allai polisi greu difrod amgylcheddol y dylid edrych ar y dyletswyddau hyn a'r trothwy 'dim effaith neu fawr o effaith'. Dylid ystyried hefyd a allai'r polisi wella'r amgylchedd. Er enghraifft, bydd y ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd a'r nod amgylcheddol yn gofyn bod llunwyr polisi yn ystyried sut gallai'u polisi gael effaith bositif ar yr amgylchedd, yn ogystal â chanolbwyntio ar osgoi effeithiau negyddol. Felly, os gwelir y gall polisi greu cyfle credadwy i sicrhau manteision neu welliannau amgylcheddol

sy’n fwy na rhai di-nod neu ddibwys, yna byddai’r dyletswyddau hynny’n gymwys.

3.109 Mae hyn yn sicrhau bod y potensial am ganlyniadau amgylcheddol positif yn cael ei ystyried yn fanwl a hefyd, lle bo hynny’n briodol, yn cael ei wireddu fel rhan o broses datblygu’r polisi.

3.110 Dylid asesu’r effeithiau hyn, gan gynnwys unrhyw gyfleoedd positif, yn y dechrau a’u hadolygu gydol proses datblygu’r polisi, yn unol â’r angen cyffredinol i barhau i ystyried effeithiau amgylcheddol yn ofalus – y rhai drwg a’r rhai da.

3.111 Wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau i roi sylw arbennig i'r egwyddorion, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r datganiad egwyddorion amgylcheddol. Bydd y ddogfen bwysig hon yn esbonio sut y mae'r egwyddorion a'r ddyletswydd integreiddio yn berthnasol o dan wahanol amgylchiadau a beth y maent yn ei olygu i'r amgylchiadau hynny. Mae rhagor o fanylion am y datganiad isod.

3.112 Gwneir darpariaeth i egluro ystyr "polisi" a "llunio polisi" mewn cysylltiad â dyletswyddau Gweinidogion Cymru. Mae'r ddarpariaeth yn egluro bod "polisi" yn cynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth, a bod "llunio polisi" yn cynnwys datblygu, mabwysiadu neu ddiwygio polisïau. Nodir yn glir nad yw penderfyniadau gweinyddol mewn perthynas â pherson neu achos penodol o fewn cwmpas y dyletswyddau hyn. Y bwriad yw bod y datganiad egwyddorion amgylcheddol yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru lunio disgrifiad mwy cynhwysfawr o’r hyn a olygir wrth ‘bolisi’ yn y cyd-destun hwn, os gwelant fod hynny’n beth priodol i’w wneud.

3.113 Nid yw dyletswyddau Gweinidogion Cymru wedi'u bwriadu i gael eu cymhwyso i benderfyniadau rheoleiddio, cynllunio neu drwyddedu unigol a

wneir gan Weinidogion Cymru (neu awdurdodau sy'n gweithredu ar eu rhan). Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, penderfyniadau cynllunio wedi'u "galw i mewn" o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Byddai penderfyniadau o'r fath yn cael eu gwneud o fewn y fframwaith polisi cynllunio. Wrth baratoi'r fframwaith polisi cynllunio hwn, byddai Gweinidogion Cymru, fel mater o lunio polisi, yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau i integreiddio diogelu'r amgylchedd a chymhwyso'r egwyddorion. Yn hyn o beth, bydd y dyletswyddau wedi'u cymhwyso i'r fframwaith polisi, a bydd y fframwaith hwn yn llywio penderfyniadau gweinyddol unigol. Rydym o'r farn bod y dull hwn yn effeithiol ac yn briodol ac yn osgoi cymhwyso'r egwyddorion i benderfyniadau gweinyddol unigol a fyddai'n gymhleth, yn heriol ac o bosibl yn ddyblygol, i'r graddau eu bod yn anymarferol, gyda budd cyfyngedig.

3.114 Yn ymarferol, mae prosesau llunio polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yn cael eu datblygu gan adrannau Llywodraeth Cymru ar ran y Gweinidogion ac, yn aml, maent ar ffurf cyngor a gyflwynir i Weinidogion i'w ystyried a'i gymeradwyo. Mewn perthynas ag awdurdodau cyhoeddus ehangach, yn y rhan fwyaf o achosion nid yw eu swyddogaethau'n cynnwys llunio polisi ar ran Llywodraeth Cymru.

3.115 Fodd bynnag, cydnabyddir y gall rhai awdurdodau cyhoeddus ddatblygu cynigion polisi ar gyfer Gweinidogion Cymru mewn cysylltiad â meysydd penodol. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried fesul achos o ran a fyddent yn dod o fewn cwmpas proses llunio polisi Gweinidogion Cymru, fel y'i diffinnir gan y Bil. Fodd bynnag, gallai enghreifftiau dangosol o hyn gynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i):

- Datblygodd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion gynigion polisi ar gyfer Gweinidogion a argymhellodd fframwaith ffioedd diwygiedig[50].
- Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn darparu cyngor polisi ac arweiniad i Weinidogion Cymru, er enghraifft, ar y dull y dylai

[50] Charges for statutory services provided by APHA: proposed changes - GOV.UK

Awdurdodau Cymwys ei ddefnyddio, fel y nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru[51].

3.116 Bydd y dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i roi sylw arbennig i'r egwyddorion, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd yn y broses o lunio polisi, yn berthnasol pan fo awdurdodau eraill yn datblygu polisi (gan gynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth) i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru. Bydd angen i Weinidogion Cymru ddangos cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau p'un a yw'r polisi'n cael ei lunio gan Weinidogion Cymru neu awdurdod arall ar eu rhan. Bydd trefniadau gweinyddol priodol yn cael eu gwneud gyda'r awdurdodau perthnasol i fynd i'r afael â'r senario hwn.

### *Dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru wrth lunio polisi*

3.117 Gwneir darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi mewn perthynas â Chymru, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd (fel y'i diffinnir) wrth lunio polisi o'r fath. Mae hyn yn adlewyrchu'r cyfrifoldebau rheoleiddio a'r cyfrifoldebau eang eraill sydd gan CNC mewn perthynas â'r amgylchedd, nad yw'n debyg i'r rhan fwyaf o sefydliadau eraill. Felly, rydym o'r farn bod rôl a chylch gwaith CNC yn ei wahaniaethu oddi wrth awdurdodau cyhoeddus eraill (bydd llawer ohonynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd gulach mewn cysylltiad ag asesiad amgylcheddol a ddisgrifir ymhellach isod). Mae hyn yn golygu bod y dull mewn perthynas â CNC yn fwy cydnaws â'r dyletswyddau sydd i'w gosod ar Weinidogion Cymru.

3.118 Mae polisïau CNC, sy'n fframio ei ffyrdd o weithio, yn cael effaith amgylcheddol sylweddol, felly dylent gael eu llywio'n uniongyrchol gan yr egwyddorion amgylcheddol a dyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd. Mae rôl CNC yn cynnwys (ond nid yw'n gyfyngedig i):

- **Cynghorydd** i Lywodraeth Cymru ar Bolisi Adnoddau Naturiol, a chynghorydd i ddiwydiant a'r sector cyhoeddus a gwirfoddol

[51] Trosolwg o ymgynghoriad yr Asiantaeth Safonau Bwyd

ehangach, a chyfathrebwr ar faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol.

- **Rheoleiddiwr** y diwydiannau morol, coedwigaeth a gwastraff (ymysg eraill), gan gynnwys rhoi trwyddedau, cynnal asesiad cydymffurfiaeth a chymryd camau gorfodi, lle bo hynny'n briodol.
- **Dynodwr** Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – ardaloedd o werth am eu bywyd gwyllt neu eu daeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â datgan Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, a disgrifio Ardaloedd Cymeriad Morol.
- **Ymatebwr** i tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol a adroddir bob blwyddyn fel ymatebwr brys Categori 1.
- **Ymgynghorai statudol** i tua 7,000 o geisiadau cynllunio datblygu y flwyddyn.
- **Rheolwr/Gweithredwr:** rheoli saith y cant o arwynebedd tir Cymru, gan gynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd dŵr a llifogydd, a gweithredu pum canolfan ymwelwyr, cyfleusterau hamdden, deorfeydd a labordy.
- **Partner, Addysgwr a Galluogwr:** cydweithredu â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, darparu cymorth grant a helpu ystod eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd fel adnodd dysgu; gweithredu fel catalydd ar gyfer gwaith pobl eraill.
- **Casglwr tystiolaeth:** monitro'r amgylchedd, comisiynu a chynnal ymchwil, datblygu gwybodaeth a bod yn gorff cofnodion cyhoeddus.
- **Cyflogwr** i bron i 1,900 o staff, yn ogystal â chefnogi cyflogaeth arall drwy waith contract, a phrofiad gwaith.

3.119 Ar ben hynny, fel rheoleiddiwr amgylcheddol, mae gan CNC gyfrifoldeb am ystod eang o weithgareddau. Mae enghreifftiau’n cynnwys:

- diwydiant mawr (purfeydd, cemegau, sment, gorsafoedd pŵer, haearn a dur, bwyd a diod ac ati)
- diwydiant gwastraff (storio, trin, gwaredu)

- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig - cydsyniadau
- sylweddau ymbelydrol (niwclear ac anniwclear)
- trwyddedau ar gyfer gwaith sy'n effeithio ar rywogaethau a warchodir
- trwyddedu morol
- trwyddedu cwympo coed
- gollyngiadau dŵr (dŵr wyneb a dŵr daear)
- adnoddau dŵr (tynnu dŵr, cronni dŵr, sychder)
- rheoliadau pecynnu a chynlluniau masnachu
- pysgodfeydd masnachol (llyswennod, eogiaid, pysgod cregyn)
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 – cyfyngiadau mynediad, tir mynediad agored.

3.120 Yn y cyd-destun uchod, rydym yn ystyried y bydd gosod dyletswydd ar CNC i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi yn fuddiol i sicrhau prosesau diogelu'r amgylchedd cyson ac effeithiol. Bwriad y polisi yw rhoi pwyslais penodol ar yr egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd drwy sicrhau eu bod yn cael eu hystyried a'u cymhwyso fel rhan sylfaenol o brosesau llunio polisi CNC.

3.121 Gwneir y ddarpariaeth hon drwy ddiwygiad i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, sy'n gosod y rhwymedigaethau newydd hyn o fewn rolau a chyfrifoldebau ehangach CNC. Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn cynnwys diben cyffredinol CNC yn erthygl 4 o'r Gorchymyn, sy'n ei gwneud yn ofynnol i CNC:

(a) ymgyrraedd at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru, [52]a

(b) cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol[53],

[52] Diffinnir "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" gan adran 3, Deddf 2016 (erthygl 4(2), Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012).
[53] Mae i "egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" yr ystyr a roddir gan adran 4, Deddf 2016 (erthygl 4(2), Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012).

wrth arfer ei swyddogaethau, i’r graddau y bo hynny’n gyson â’u harfer yn briodol.

3.122 Bydd y dyletswyddau'n helpu i roi effaith i'r diben cyffredinol, ac ystyrir bod y dyletswyddau a'r diben yn gyflenwol ac yn gefnogol i'w gilydd. Bydd ei gwneud yn ofynnol i CNC gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi yn cyfrannu at gynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu, a bydd yn gyson ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn ategu eu cymhwysiad. Bydd hyn yn cael ei esbonio ymhellach yn y datganiad egwyddorion amgylcheddol.

3.123 Mae'r ddyletswydd ar CNC i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol yn ddyletswydd i roi "sylw arbennig" i'r egwyddorion amgylcheddol pan fydd CNC yn llunio polisi (mewn modd tebyg i'r ddyletswydd a osodwyd ar Weinidogion Cymru a ddisgrifir uchod). Trafodir diben ac effaith y ddyletswydd "sylw arbennig" uchod yng nghyd-destun y ddyletswydd a osodwyd ar Weinidogion Cymru.

3.124 Fel yr esboniwyd yn fanylach uchod, mae dyletswydd i roi "sylw arbennig" yn golygu bod rhaid i CNC roi "cryn bwysigrwydd a phwys" i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi. Mae'r ddyletswydd yn sicrhau bod yr egwyddorion amgylcheddol yn amlwg wrth lunio polisi, gan gymhwyso hyblygrwydd angenrheidiol ar yr un pryd, gan alluogi CNC i gydbwyso'r egwyddorion amgylcheddol ag ystyriaethau perthnasol eraill. Mae'r fframwaith hwn yn cael ei ystyried yn briodol i CNC ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, wrth fynd ar drywydd ei ddiben cyffredinol.

3.125 Ar ben hynny, bydd y ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn rhan hanfodol o'r broses o lunio polisi ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddiben cyffredinol CNC.

3.126 Yng nghyd-destun dyletswyddau CNC, bydd gan "polisi" a "llunio polisi" yr un ystyr â mewn perthynas â'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru (ac a fanylir uchod). Unwaith eto, nodir yn glir nad yw penderfyniadau gweinyddol mewn perthynas â pherson neu achos penodol o fewn cwmpas y dyletswyddau hyn.

3.127 Mae "Cymru" hefyd yn cael ei ddiffinio yn yr un modd, er mwyn cyflawni effaith eang sy'n cynnwys, i'r graddau y mae'r polisi'n ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, yr ardal o barth Cymru sydd y tu hwnt i derfyn atfor y môr tiriogaethol (yn ogystal ag arwynebedd tir Cymru a'r môr tiriogaethol sy'n gyfagos i Gymru yn unol â'r diffiniad o "Cymru" yn Neddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019). Diffinnir "parth Cymru" gan Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

3.128 Wrth gydymffurfio â'i ddyletswyddau i roi sylw arbennig i'r egwyddorion, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi, rhaid i CNC roi sylw i'r datganiad egwyddorion amgylcheddol a fydd yn nodi canllawiau ar sut i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn a materion cysylltiedig.

### *Asesiadau amgylcheddol: dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus*

3.129 Gwneir darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol (a ddisgrifir yn ddiweddarach yn y bennod hon), roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd (fel y'i diffinnir) at ddiben cyfrannu at yr amcan amgylcheddol. Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol wrth gyflawni swyddogaethau mewn cysylltiad ag asesu cynlluniau a rhaglenni (a elwir hefyd yn Asesiad Amgylcheddol Strategol neu "AAS") sy'n ymwneud â Chymru yn unig neu ag unrhyw ran o Gymru yn unig o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

3.130 Mae'r gofyniad i gynnal AAS yn deillio o Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r UE wneud asesiad amgylcheddol ar gyfer cynlluniau a rhaglenni sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol ac sy'n ceisio sicrhau "....a high level of protection of the environment and to contribute to the integration of environmental considerations into the preparation and adoption of plans and programmes with a view to promote sustainable development..." (erthygl 1).

3.131 Gweithredwyd y Gyfarwyddeb honno gan Reoliadau 2004, o ran cynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud â Chymru gyfan yn unig neu ag unrhyw ran o Gymru yn unig. Gweithredwyd y Gyfarwyddeb hefyd gan ddeddfwriaeth arall mewn perthynas â rhannau eraill o'r DU, gan gynnwys Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 ("Rheoliadau AAS"), mewn perthynas â chynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud â Lloegr yn unig neu Loegr a rhan arall o'r DU (gan gynnwys cynlluniau a rhaglenni trawsffiniol).

3.132 Mae Rheoliadau 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r "awdurdod cyfrifol" gynnal AAS ar gyfer cynlluniau a rhaglenni penodol sy'n debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol, gan gynnwys y rhai sy'n gosod fframweithiau ar gyfer cydsyniad datblygu mewn rhai sectorau.

3.133 Mae'r asesiad yn cynnwys llunio adroddiad amgylcheddol sy'n manylu ar effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol a dewisiadau amgen rhesymol, ynghyd ag ymgynghori helaeth, gan gynnwys gyda CNC a Cadw. Ni ellir mabwysiadu'r cynllun neu'r rhaglen nes bod materion penodol wedi'u hystyried, gan gynnwys yr adroddiad amgylcheddol ar gyfer y cynllun neu'r rhaglen a'r ymgynghoriad. Ar ôl ei fabwysiadu, rhaid i'r awdurdod cyfrifol gyhoeddi'r cynllun neu'r rhaglen, yr adroddiad amgylcheddol a datganiad yn esbonio sut y cafodd yr adroddiad ei ystyried a sut y mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio yn y cynllun neu'r rhaglen. Rhaid iddynt hefyd fonitro gweithrediad y cynllun neu'r

rhaglen ar gyfer effeithiau amgylcheddol andwyol annisgwyl a’r gallu i gymryd camau adfer priodol.

3.134 Drwy wneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd wedi'i thargedu ar rai awdurdodau cyhoeddus penodol i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol, ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd, wrth gynnal AAS, defnyddir dull cytbwys a fydd yn gwella'r broses o ddiogelu'r amgylchedd heb osod beichiau gormodol.

3.135 Bwriad y dull hwn hefyd yw ategu'r dyletswyddau llunio polisi ehangach sydd gan Weinidogion Cymru, a CNC, drwy ganolbwyntio ystyriaeth o'r egwyddorion a diogelu'r amgylchedd y tu hwnt i lunio polisi ar senarios o effaith amgylcheddol sylweddol. Mae asesiadau amgylcheddol yn arwain at well prosesau diogelu'r amgylchedd, cynlluniau mwy cadarn ac ystyriaeth bellach o ddewisiadau amgen. Fel y cyfryw, mae'r ddarpariaeth hon yn darparu cyfle pellach, wedi'i dargedu i gyflawni'r nodau deddfwriaethol sylfaenol yn well, yn enwedig i gyfrannu at lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd ac at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol wrth lunio a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni perthnasol.

3.136 Mae'r dyletswyddau'n berthnasol i gynlluniau neu raglenni sy'n ymwneud â Chymru gyfan yn unig neu unrhyw ran o Gymru o dan Reoliadau 2004 ac nid i ddeddfwriaeth AAS arall. Mae hyn yn osgoi cymhlethdod sylweddol posibl mewn perthynas â chynlluniau a rhaglenni trawsffiniol (sy'n cael eu trin gan y Rheoliadau AAS a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol).

3.137 Mae'r dyletswyddau wedi'u fframio i fod yn berthnasol i Reoliadau 2004 fel y cânt eu diwygio, eu dirymu a'u disodli neu eu hailddeddfu o bryd i'w gilydd, fel bod y dyletswyddau'n berthnasol waeth ym mha ffordd y gwneir darpariaeth ar gyfer asesiad amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud â dim ond Cymru gyfan neu unrhyw ran ohoni (ac nid ydynt yn dod i ben os caiff Rheoliadau 2004 eu dirymu neu eu diwygio).

3.138 Dyletswydd i "roi sylw" yw'r sylw sy'n "briodol o dan yr holl amgylchiadau”[54]. Rhaid arfer y ddyletswydd yn ei sylwedd, gyda thrylwyredd a meddwl agored[55]. Gall awdurdod cyhoeddus roi'r fath bwysau ag y mae'n ystyried yn briodol i'r angen i gyflawni'r amcanion statudol[56]. Mae hyn yn destun adolygiad gan y llysoedd ar sail afresymoliaeth[57].

3.139 Mae dyletswydd i "roi sylw" i'r egwyddorion amgylcheddol yn briodol yn yr achos hwn o ystyried cymhwysiad y ddyletswydd i AAS. Mae'r drefn AAS yn canolbwyntio ar effeithiau amgylcheddol cynlluniau a rhaglenni penodol ac, yn y cyd-destun hwnnw, nid oes angen ychwanegu pwysau a phwyslais pellach at gymhwysiad yr egwyddorion fel gyda'r dyletswyddau "sylw arbennig" sy'n berthnasol i brosesau llunio polisi Gweinidogion Cymru a CNC. Mae'r dull "sylw arbennig" a ddefnyddir ar gyfer y dyletswyddau sy’n berthnasol i brosesau llunio polisi Gweinidogion Cymru a CNC wedi'i ddatblygu i sicrhau bod yr egwyddorion yn cael eu cymhwyso gyda’r pwysau a'r pwyslais ychwanegol i'r egwyddorion y mae dyletswydd i roi 'sylw arbennig' yn ei ddarparu.

3.140 Gwneir darpariaeth fel bod cymhwysiad y dyletswyddau hyn gan rai awdurdodau cyhoeddus penodol yn cyfrannu at yr amcan amgylcheddol yn yr un modd ag y mae'r amcan hwnnw'n berthnasol i'r dyletswyddau sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru. Mae nodau'r amcan amgylcheddol (a ddisgrifir ymhellach uchod) yr un mor berthnasol a phriodol i gymhwyso'r dyletswyddau hyn yng nghyd-destun AAS, gan ystyried diben ac uchelgeisiau polisi AAS a'r ddeddfwriaeth hon.

---

[54] *Hotak v Southwark LBC* [2015] UKSC 30, ym mharagraff 74 yn ôl yr Arglwydd Neuberger PSC.

[55] *R (Brown) v Secretary of State for Work and Pensions and another (Equality and Human Rights Commission intervening)* [2009] PTSR 1506 ym mharagraff 82.

[56] *R (on the application of Baker and others) v Secretary of State for Communities and Local Government and another* [2008] LGR 239 ym mharagraff 34.

[57] *R (Brown) v Secretary of State for Work and Pensions and another (Equality and Human Rights Commission intervening)* [2009] PTSR 1506 ym mharagraff 82.

3.141 Mae'r dyletswyddau hyn yn berthnasol i rai awdurdodau cyhoeddus penodol. Diffinnir yr awdurdodau hynny fel person sy'n (a) awdurdod datganoledig o Gymru o fewn yr ystyr a roddir gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu (b) wedi'i restru ym mharagraff 9(2) neu (6) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno, ond heb gynnwys Gweinidogion Cymru neu CNC (y gwneir darpariaeth amgen mewn perthynas â hwy fel y disgrifir uchod).

3.142 Wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau i roi sylw i'r egwyddorion, ac i integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth gynnal AAS, rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r datganiad egwyddorion amgylcheddol, a fydd yn nodi canllawiau ar sut i gydymffurfio â'r dyletswyddau hyn a materion cysylltiedig.

## *Datganiad polisi egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd*

3.143 Gwneir darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi dogfen (a elwir yn "ddatganiad egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd”). Diben y datganiad hwn yw egluro a rhoi esboniad o sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol i'w dehongli a'u cymhwyso, ac i gwmpasu ystod o faterion cysylltiedig. Fel y nodwyd uchod, mae dehongliad a chymhwysiad yr egwyddorion amgylcheddol yn fwyfwy sefydledig ac yn parhau i ddatblygu. Mae eu dehongliad hyd yma wedi deillio o nifer o ffynonellau, gan gynnwys cyd-destun yr UE. Ar ben hynny, rhaid cymhwyso'r egwyddorion a'r amcan amgylcheddol mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol yng Nghymru, ac yn ei hategu, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf 2016 a'r Ddeddf Amaethyddiaeth.

3.144 Bwriad cyhoeddi'r datganiad egwyddorion amgylcheddol, a'r broses a ragnodwyd ar gyfer ei lunio, yw darparu cyfle i wella dealltwriaeth o ddehongliad a chymhwysiad yr egwyddorion a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd, gwella hygyrchedd a hwyluso craffu ac ymgysylltu.

Bydd y datganiad egwyddorion amgylcheddol hefyd yn darparu hyblygrwydd priodol i ddiweddaru dehongliad a chymhwysiad yr egwyddorion, er enghraifft, i adlewyrchu tystiolaeth newydd berthnasol, neu ddatblygiadau gwyddonol, technolegol a byd-eang eraill.

3.145 Gwneir darpariaeth i fanylu ar ofynion yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y datganiad egwyddorion amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys manylion am sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cydymffurfio â'u dyletswyddau i roi sylw arbennig i'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r datganiad egwyddorion amgylcheddol esbonio sut y mae'r egwyddorion yn berthnasol o dan wahanol amgylchiadau a'r hyn y maent yn ei olygu ar gyfer yr amgylchiadau hynny. Nid yw'n bwriadu nodi manylion polisïau penodol a sut y mae'r egwyddorion yn ymwneud â hwy, ond gall gynnwys enghreifftiau i ddangos sut y cydymffurfir â'r dyletswyddau.

3.146 Mae'r ddarpariaeth yn nodi hefyd y rhyngweithiau pwysig a materion eraill y bydd angen eu cofnodi yn y datganiad egwyddorion amgylcheddol, megis sut mae Gweinidogion Cymru'n ystyried sut mae dehongli'r egwyddorion amgylcheddol, sut mae Gweinidogion Cymru'n cynnig penderfynu na fydd polisi yn cael effaith neu fawr o effaith ar yr amgylchedd,

sut mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn ymwneud â'r amcan amgylcheddol, sut y mae'r dyletswyddau'n ymwneud â deddfwriaeth ehangach, a sut y mae'r egwyddorion yn ymwneud â'i gilydd ac â'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd.

3.147 Rhaid i'r datganiad egwyddorion amgylcheddol hefyd gynnwys canllawiau i CNC ac awdurdodau cyhoeddus ar sut i gydymffurfio â'r dyletswyddau a osodwyd arnynt. Yn achos CNC, rhaid i hyn hefyd esbonio sut i wneud hynny mewn ffordd sy'n rhoi effaith i'w ddiben cyffredinol, a nodir yn erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu)

2012. Rhaid i'r canllawiau hefyd gynnwys rhai materion penodol eraill, gan gynnwys sut y mae'r dyletswyddau'n ymwneud â phwerau a dyletswyddau eraill.

3.148 Gwneir darpariaeth hefyd i ganiatáu i'r datganiad egwyddorion amgylcheddol gwmpasu unrhyw faterion eraill a ystyrir yn briodol gan Weinidogion Cymru.

### *Datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd: Gofynion gweithdrefnol*

3.149 Wrth baratoi fersiwn ddrafft o'r datganiad egwyddorion amgylcheddol neu ddatganiad diwygiedig, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â CNC, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ac unrhyw bobl eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol. Gwneir darpariaeth i Weinidogion Cymru allu bodloni’r gofyn hwn i ymgynghori cyn i’r ddarpariaeth ddod i rym. Bwriad hynny yw er mwyn gallu bwrw ymlaen â’r datganiad egwyddorion amgylcheddol mor effeithiol ac effeithlon â phosib cyn y cychwyniad.

3.150 Rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru gopi o’r datganiad drafft ochr yn ochr â dogfen sy’n disgrifio manylion yr ymgynghoriad. Os bydd Senedd Cymru, cyn diwedd y cyfnod o “40 diwrnod” (fel y’i diffinnir gan is-adran (8)), yn gwneud argymhellion ynghylch y drafft, rhaid i Weinidogion Cymru osod eu hymateb i’r argymhellion gerbron y Senedd.

3.151 Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi datganiad terfynol a’i osod gerbron y Senedd. Rhaid peidio â gosod y datganiad terfynol cyn y diwrnod y bydd Gweinidogion Cymru’n gosod eu hymateb, os yw’r Senedd wedi gwneud argymhellion o fewn y cyfnod 40 diwrnod neu ar ddiwedd y cyfnod 40 diwrnod.

3.152 Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r datganiad terfynol pan gaiff ei osod gerbron y Senedd a rhaid gosod y datganiad terfynol gerbron y Senedd ddim hwyrach na 31 Mawrth 2027. Mae hynny'n alinio â chychwyn y ddyletswydd o dan adrannau 3 i 5 o'r Bil.

3.153 Bydd gofyn i Weinidogion Cymru adolygu'r datganiad ar ôl pob "etholiad cyffredinol" (fel y'i diffinnir yn isadran (10)). Bydd hynny'n sicrhau bod y datganiad yn cael ei adolygu o leiaf unwaith bob tymor Seneddol. Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r datganiad unrhyw bryd arall hefyd.

3.154 Ar ôl ei adolygu, caiff Gweinidogion Cymru baratoi datganiad diwygiedig. Bydd y gofynion gweithdrefnol hyn felly yn gymwys i unrhyw ddatganiad diwygiedig (ac eithrio'r gofyniad i osod y datganiad gerbron y Senedd erbyn 31 Mawrth 2027 sy'n berthnasol i'r datganiad cyntaf yn unig).

3.155 O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r darpariaethau hyn yn cynyddu tryloywder, ymgysylltiad ac atebolrwydd wrth baratoi'r datganiad egwyddorion amgylcheddol, er enghraifft trwy gynnwys sefydliadau allweddol yn y broses ymgynghori a rhoi cyfle i'r Senedd ystyried a chyflwyno sylwadau ar y datganiad drafft.

# RHAN 2 – SWYDDFA LLYWODRAETHIANT AMGYLCHEDDOL CYMRU

## *Cyflwyniad*

3.156 Mae'r amgylchedd wedi bod yn rhan allweddol o bolisi a chyfraith yr UE ers degawdau, ac mae llawer o'r gyfraith amgylcheddol yn awdurdodaethau cyfreithiol y Deyrnas Unedig ("y DU") yn deillio o gyfraith

amgylcheddol yr UE; naill ai drwy Gytuniadau a Rheoliadau'r UE sy'n effeithiol yn uniongyrchol, neu Gyfarwyddebau'r UE sydd wedi'u trosi i gyfraith ddomestig.

3.157 Bwriad y Bil yw nodi mewn deddfwriaeth ofyniad i SLIAC ddarparu goruchwyliaeth strategol ar unrhyw ofynion ar awdurdod cyhoeddus (fel y'i diffinnir yn y Bil) i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, i wneud cyfraith amgylcheddol effeithiol ac i weithredu/cymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol.

3.158 Yn flaenorol, roedd cyfraith amgylcheddol ac atebolrwydd Aelod-wladwriaethau'r UE yn cael eu goruchwylio gan y CE a'r CJEU, yr olaf ynghyd â llysoedd domestig y DU. Pe bai Aelod-wladwriaeth yn methu â chyflawni ei rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE, megis methu â gweithredu cyfarwyddeb yr UE neu ei chymhwyso'n gywir, gallai'r CE ymchwilio a dwyn achos gorfodi[58]. Cyflwynodd y CE achos tor rheolau o'r fath (a elwir hefyd yn "achos am dorri cyfraith Ewropeaidd") yn erbyn y DU mewn cyd-destun cyfraith amgylcheddol. Er enghraifft, pan oedd o'r farn bod y DU wedi methu â chydymffurfio â chyfarwyddeb trin dŵr gwastraff trefol (Cyfarwyddeb 91/271/EEC)59 ac wedi methu â chydymffurfio â gofynion ansawdd aer amgylchynol o dan y Gyfarwyddeb Ansawdd Aer (Cyfarwyddeb 2008/50/EC).[60]

3.159 Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, nid yw'r rôl oruchwylio hon gan y CE mwyach.[61] Mae hyn wedi arwain at bryder am oruchwyliaeth cyfraith amgylcheddol yn y DU, gan nad oes corff annibynnol sydd â goruchwyliaeth gyfatebol dros a yw'r DU yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Er bod Adolygiad Barnwrol yn parhau i fod yn ffordd bosibl o gyflwyno her lle honnir bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â

58 58 Gweler, er enghraifft, Erthygl 258 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr UE ("y TFUE").

59 Gweler IP/09/1488.

60 60 Gweler hefyd ddyfarniad CJEU yn erbyn y DU yn European Commission v United Kingdom (C-664/18).

61 61 Ar ôl 31 Rhagfyr 2020 (y dyddiad a roddwyd ar gyfer "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" o dan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020), nid oedd y DU bellach yn rhwym gan y TFUE, na chafodd ei arbed fel rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir drwy Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, adran 3.

chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, yn amodol ar sefyllfa ymgeisydd ac ystyriaethau eraill, mae'n rhwymedi cyfyngedig ac nid yw'n ymddangos ei fod yn mynd i'r afael yn llwyr â'r bwlch mewn goruchwyliaeth a adawyd gan ymadawiad y DU â'r UE. Ac, wrth gwrs, roedd Adolygiad Barnwrol ar gael pan oedd y DU yn aelod o'r UE ac yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth y CE.

3.160 Mae nifer o gyrff cyhoeddus yn "rheoleiddwyr rheng flaen" cyfraith amgylcheddol, megis CNC. Rhoddir pwerau rheoleiddio penodol i'r rheoleiddwyr rheng flaen hyn, naill ai'n uniongyrchol mewn deddfwriaeth neu trwy ddirprwyaeth swyddogaethau gan Weinidogion Cymru, i ddwyn erlyniadau a chamau gorfodi eraill yn erbyn pobl sy'n torri cyfraith amgylcheddol mewn achosion penodol. Ein bwriad yw i SLIAC eistedd uwchben yr haen hon o reoleiddio a darparu goruchwyliaeth strategol o effeithiolrwydd, cymhwysiad a gweithrediad, yn ogystal ag unrhyw fethiannau gan awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, a allai gynnwys, er enghraifft, dwyn camau gorfodi yn erbyn y rheoleiddwyr rheng flaen eu hunain.

3.161 Ymhellach, mae fframwaith ehangach o sefydliadau domestig eraill sy'n cyflawni swyddogaethau amgylcheddol ac a all, o dan amgylchiadau cyfyngedig, ddwyn Llywodraeth Cymru a chyrff eraill i gyfrif ar faterion amgylcheddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru,** sy’n adrodd ar y cynnydd y mae cyrff cyhoeddus wedi’i wneud ac y dylent ei wneud mewn perthynas â gosod a bodloni amcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae’n gallu rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus yn ogystal â chynnal adolygiadau o’r ffordd mae cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau.
- **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** sy’n cael cwynion am y ffordd mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau ac yn eu dwyn i gyfrif, a materion camweinyddu.

- **Archwilydd Cyffredinol Cymru**, sydd, fel archwilydd allanol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut y maent yn sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.
- **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)** yw'r swyddfa reoleiddio annibynnol sy'n ymdrin â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebiadau Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 ledled y DU; a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac, i raddau cyfyngedig, yn yr Alban.

3.162 Y tu hwnt i'r sefydliadau hyn, gellir defnyddio fframweithiau cyfreithiol sefydledig ar gyfer diogelu'r amgylchedd er mwyn gorfodi deddfwriaeth amgylcheddol ddomestig bresennol drwy'r system llysoedd. Fodd bynnag, gall ceisio rhwymedïau drwy'r system gyfreithiol at ddibenion gorfodi amgylcheddol fod yn hir, yn ddrud a gall gymryd llawer o amser. Yn ein barn ni, ni fyddai dibynnu ar y mesurau llys cyfyngedig hyn i geisio sicrhau cyfiawnder amgylcheddol yn rhoi cefnogaeth ddigonol i'r ymrwymiadau mynediad at gyfiawnder a nodir yng Nghonfensiwn UNECE ar Fynediad at Wybodaeth, Cyfranogiad y Cyhoedd wrth Wneud Penderfyniadau a Mynediad at Gyfiawnder mewn Materion Amgylcheddol (Confensiwn Aarhus) y mae'r DU, ac felly Cymru, yn llofnodwr iddo).

3.163 Yn ogystal â'r uchod, ar 1 Mai 2021, daeth y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE (y "TCA") i rym[62], gan nodi telerau'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Gweithredwyd y TCA gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Perthynas yn y Dyfodol) 2020. Mae'r TCA yn cynnwys cydweithrediad parhaus ar ymrwymiadau amgylcheddol mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys newid hinsawdd, ansawdd aer, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth, yn ogystal ag ymrwymiad i beidio â

[62] EU-UK_Trade_and_Cooperation_Agreement_24.12.2020.pdf (publishing.service.gov.uk).

"weaken or reduce… its environmental levels of protection… below the levels that are in place at the end of the transition period… including by failing to effectively enforce its environmental law or climate level of protection". Mae erthyglau 394 (enforcement of non-regression from levels of protection) a 395 o'r TCA (co-operation on monitoring and enforcement) yn arbennig o berthnasol.

## ***Trefniadau interim***

3.164 Er nad oes gan Gymru gorff llywodraethiant amgylcheddol parhaol ar waith hyd yma, penodwyd IEPAW ar 1 Mawrth 2021[63]. Rôl yr Asesydd yw ystyried materion yn ymwneud â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno adroddiadau ar faterion o'r fath i Weinidogion Cymru yn nodi ei argymhellion. Mae'r Asesydd hefyd yn darparu dull i aelodau'r cyhoedd allu cyflwyno sylwadau am weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ac mae wedyn yn ystyried dilysrwydd y sylwadau hynny a gall argymell unrhyw gamau y mae'r Asesydd o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru eu cymryd.

3.165 Mae IEPAW wedi cyflawni rôl werthfawr mewn perthynas â gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ond mae ei gylch gwaith a'i bwerau yn llai eang na'r trefniadau a oedd yn bodoli cynt o dan fframwaith llywodraethiant amgylcheddol yr UE. Yn benodol, nid oes gan IEPAW bwerau ymchwilio, gwybodaeth a gorfodi statudol i fynd i'r afael â chwynion am gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol.

## ***Gweinyddiaethau Eraill***

3.166 Mae Senedd y DU a Senedd yr Alban eisoes wedi deddfu i fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch y diffyg goruchwyliaeth o gyfraith amgylcheddol drwy sefydlu cyrff llywodraethiant amgylcheddol yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a'r Alban yn y drefn honno.

---

[63] Mae rhagor o wybodaeth am IEPAW ar gael yma.

3.167 Sefydlwyd OEP gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Yn fras, mae gan OEP swyddogaeth oruchwylio mewn perthynas â chyrff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau amgylcheddol yn y DU, ac eithrio swyddogaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu Senedd yr Alban.

3.168 Sefydlwyd Environmental Standards Scotland ("ESS") gan Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021 ("Deddf yr Alban”).

3.169 Oherwydd drafftio Deddf yr Amgylchedd 2021, mae swyddogaethau sy’n ymwneud yn llwyr neu’n bennaf â diogelu’r amgylchedd yn cael eu cyflawni yng Nghymru, neu mewn perthynas â Chymru, nad ydynt yn cael eu goruchwylio gan OEP. Nid oes corff llywodraethiant cyfatebol i'r CE yng Nghymru sydd â goruchwyliaeth dros gyfraith amgylcheddol sy'n "swyddogaeth ddatganoledig" ac o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

3.170 Fel rhan o'n dull gweithredu, rydym wedi myfyrio ar y gwersi a ddysgwyd gan sefydliadau a rhanddeiliaid wrth sefydlu'r cyrff hyn. Rydym wedi ceisio adeiladu ar elfennau cadarnhaol o bob un a sicrhau bod y corff Cymru yn cael ei osod yn briodol ac yn effeithiol yng nghyd-destun Cymru.

### *Sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru*

3.171 Mae'r ddarpariaeth a nodir yn y Bil hwn yn adlewyrchu'r weledigaeth gyffredinol a'r bwriad polisi sydd gan Weinidogion Cymru ar gyfer SLIAC, gan gynnwys ei diben, ei chwmpas a'i swyddogaethau.

3.172 Rydym o'r farn bod angen gosod llywodraethiant amgylcheddol ar sail statudol yng Nghymru er mwyn cefnogi ystod sylweddol o fesurau polisi a sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu'n effeithiol a bod sefydliadau unigol yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan gyfraith amgylcheddol. Mae newid sylfaenol i strwythurau llywodraethiant amgylcheddol ar ôl ymadawiad y DU â'r UE wedi arwain at leihau

goruchwyliaeth llywodraethiant amgylcheddol, heb unrhyw gorff presennol yng Nghymru sy'n addas nac yn gallu cyflawni'r rôl a oedd gan gomisiwn yr UE yn flaenorol mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol yr UE, boed yn uniongyrchol gymwys neu wedi'i weithredu mewn cyfraith ddomestig.

3.173 Mae'r Bil hwn hefyd yn cyflwyno cyfle i gryfhau'r rôl llywodraethiant amgylcheddol hon drwy ganolbwyntio cylch gwaith corff yn y dyfodol y tu hwnt i gyfraith amgylcheddol yr UE, gan ei alluogi i fod â goruchwyliaeth fwy cynhwysfawr ac ymatebol o gyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Bwriad yr oruchwyliaeth hon yw bod yn 'gefnogol' yn hytrach nag yn awdurdodol, ac rydym wedi dylunio'n benodol ddarpariaeth gorfodi i fod yn uwchgyfeiriol ei natur, gan adlewyrchu'r angen i weithio ar y cyd ar draws y sector cyhoeddus i fynd i'r afael ag effeithiau niwed amgylcheddol, gan ddarparu hefyd ddigon o 'ddannedd' i ysgogi camau adferol.

3.174 Yn y bôn, drwy arfer ei swyddogaethau, bydd SLIAC yn darparu rôl gefnogol graidd i bolisi a deddfwriaeth amgylcheddol ehangach, gan 'gloi' manteision y mesurau polisi hyn drwy orfodi effeithiol, yn ogystal ag argymell gwelliannau. Wrth wneud hynny, disgwylir i SLIAC gyfrannu at gynyddu diogelu'r amgylchedd a gwella ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru.

3.175 Er mwyn cyflawni hyn, rydym o'r farn bod angen sefydlu bwrdd annibynnol gydag arbenigedd amgylcheddol perthnasol ac addas, a chymorth gweinyddol priodol, gydag offer i fonitro effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yn agosach, yn ogystal â'u grymuso i weithredu pan fydd ganddynt bryderon ynghylch cydymffurfiaeth a / neu effeithiolrwydd y gyfraith amgylcheddol honno.

3.176 Bydd SLIAC yn gorff goruchwylio annibynnol. Bydd yn dwyn awdurdodau cyhoeddus, fel y'u diffinnir yn y Ddeddf, a gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i gyfrif mewn perthynas â'u rhwymedigaethau amgylcheddol drwy bwerau a ddarperir iddo yn y Bil hwn. Yn hyn o beth, mae annibyniaeth y corff yn hollbwysig er mwyn gweithredu’n effeithiol, ac

rydym wedi cymryd cyfleoedd i gryfhau hyn fel rhan o'n dull gweithredu. Un ffordd o sicrhau'r annibyniaeth honno yw trwy ddarpariaeth sy'n benodol yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth iddynt arfer eu swyddogion o ran yr SLIAC, roi sylw i'r angen i ddiogelu annibyniaeth SLIAC.

3.177 Bydd gan SLIAC rôl graidd o ran monitro ac adrodd ar effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Drwy'r gwaith monitro hwn, bydd yn casglu gwybodaeth am ddiffyg cydymffurfiaeth gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys drwy sylwadau a wneir gan y cyhoedd neu sefydliadau eraill, i gefnogi ymchwiliad i feysydd sy'n peri pryder. Drwy'r ymchwiliad hwn, bydd SLIAC yn pennu'r ffordd orau o ddatrys y pryderon hyn, a allai fod ar ffurf datrysiad anffurfiol, argymhellion lle gellir gwneud gwelliannau ac, os oes angen, camau gorfodi ffurfiol. Rydym wedi grymuso SLIAC i ddefnyddio ei harbenigedd ei hun ynghylch y mecanwaith mwyaf priodol ac effeithiol tuag at gyflawni datrysiad, yn unol â'i diben cyffredinol.

3.178 Bydd SLIAC yn gallu ymchwilio i sylwadau a wneir gan bobl neu sefydliadau a bydd yn ofynnol iddi lunio a chyhoeddi dogfen sy'n nodi'r weithdrefn y caniateir cyflwyno'r sylwadau drwyddi, a sut y bydd personau yn cael eu hysbysu am ymateb SLIAC ac unrhyw gamau gweithredu y mae'n eu cymryd. Bydd hefyd yn gallu gweithredu ar ei menter ei hun i gynnal ymchwiliad. Os bydd yn penderfynu bod angen gweithredu, bydd yn defnyddio dull uwchgyfeiriol o orfodi i sicrhau y gall awdurdodau cyhoeddus symud tuag at gydymffurfiaeth mewn ffordd mor gyflym ac effeithlon â phosibl. Os oes angen, bydd SLIAC yn gallu cymryd camau gorfodi yn erbyn achosion o dorri amodau gan awdurdodau cyhoeddus.

3.179 Ni fydd SLIAC yn rheoleiddiwr rheng flaen, ac nid yw'n bwriadu disodli rheoleiddwyr unigol megis CNC neu OfWat. Rhaid iddi hefyd ffitio'n gydlynol o fewn matrics sefydliadau ehangach sy'n ymgymryd â rolau goruchwylio tebyg. Mae'r rhain yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i)

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

3.180 Bydd yn ofynnol i SLIAC weithredu'n ddiduedd, yn wrthrychol, yn gymesur ac yn dryloyw yn unol â'i diben cyffredinol. Bydd yn gyfrifol am lunio strategaeth i'w chyhoeddi a fydd yn manylu ar sut y mae SLIAC yn bwriadu defnyddio ei swyddogaethau i fynd ar drywydd ei diben cyffredinol.

### *Diben cyffredinol ac ati*

3.181 Gwneir darpariaeth i SLIAC arfer ei swyddogaethau at y diben cyffredinol o

a. cyfrannu at gyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd, a
b. sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn effeithiol ac y cydymffurfir â hi, y'i gweithredir ac y'i cymhwysir.

3.182 Mae'r diben cyffredinol hwn yn gymesur â'r amcan amgylcheddol y manylir arno yn gynharach yn y bennod hon, a bwriedir iddo ddarparu cyfeiriad strategol drwy egluro'r canlyniadau polisi y mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl i SLIAC gyfrannu atynt wrth arfer ei swyddogaethau.

3.183 Bydd cyfraniad SLIAC at yr amcan hwn mewn perthynas â'i swyddogaethau, sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, gweithrediad a chymhwysiad cyfraith amgylcheddol yn ogystal ag asesu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol (ac a fanylir ymhellach yn y paragraffau canlynol). Yn hyn o beth, nid ydym yn rhagweld y byddai SLIAC yn darparu cyngor nac yn llunio adroddiadau mewn perthynas â materion polisi nad ydynt yn dod o fewn cwmpas 'cyfraith amgylcheddol'. Mae hyn yn annymunol gan y byddai nid yn unig y tu allan i ddyluniad polisi SLIAC, ond y gallai hefyd greu dryswch a

gorgyffwrdd pellach â chyfrifoldebau sefydliadau ehangach, megis CNC (e.e. mewn perthynas â pholisi adnoddau naturiol) a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (mewn perthynas â Datblygu Cynaliadwy).

3.184 Bydd yn ofynnol i SLIAC hefyd weithredu'n ddiduedd, yn wrthrychol, yn gymesur ac yn dryloyw. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau ar bob corff cyhoeddus ond maent yn arbennig o bwysig mewn perthynas â SLIAC yng nghyd-destun darparu annibyniaeth sylweddol ac, yn ein barn ni, angenrheidiol, ar Weinidogion Cymru. Yn hyn o beth, mae'n hanfodol bod gan y cyhoedd yr hyder bod SLIAC yn gweithredu'n briodol, ac mae hyn yn cael ei gryfhau drwy'r ddyletswydd gyfreithiol hon a roddir ar SLIAC i wneud hynny.

### *Dyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth*

3.185 Mae dyletswydd ar SLIAC i lunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau. Bydd yn ofynnol i SLIAC arfer ei swyddogaethau yn unol â'r strategaeth hefyd. Diben y ddarpariaeth hon yw cynorthwyo tryloywder a dealltwriaeth o swyddogaethau SLIAC, a'u cymhwysiad, drwy fynnu bod dogfen sy'n wynebu'r cyhoedd yn cael ei llunio y bydd yn ofynnol i SLIAC ymgynghori arni a hefyd ei chyhoeddi. Mae Atodlen 2 yn nodi darpariaeth fanwl ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i'r strategaeth ei gynnwys a'r gofynion gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â llunio'r strategaeth. Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried yn fanylach isod.

### *Monitro ac Adrodd*

3.186 Mae'r Bil yn darparu swyddogaethau i SLIAC fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â gweithrediad a chymhwysiad cyfraith amgylcheddol. Y bwriad yw i'r gwaith monitro ac adrodd hwn ffurfio rhan allweddol o asesiad SLIAC o p’un a yw cyfraith amgylcheddol yn effeithiol ai peidio. Disgwylir i'r swyddogaeth hon hefyd ddarparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch a yw awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â'r wybodaeth a geir mewn sylwadau uniongyrchol gan y cyhoedd

3.187 Fel un o allbynnau'r gweithgarwch monitro hwn, caiff SLIAC gyhoeddi adroddiadau. Gallai'r adroddiadau hyn ymwneud â chydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, gweithrediad a chymhwysiad cyfraith amgylcheddol, neu fel arall unrhyw fater sy'n ymwneud â gwneud cyfraith amgylcheddol neu ei heffeithiolrwydd. Bwriad y pwerau monitro ac adrodd hyn yw ategu swyddogaethau SLIAC sydd wedi'u targedu'n well (megis y pwerau i gyhoeddi hysbysiadau cydymffurfiaeth ac adroddiadau gwella), gan alluogi SLIAC i asesu'n annibynnol a manylu ar unrhyw ganfyddiadau sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Mae'r bwriad hwn yn cael ei gefnogi ymhellach gan ddyletswydd i SLIAC gyhoeddi unrhyw adroddiadau a luniwyd felly, yn ogystal â gosod copïau o'r adroddiadau hyn gerbron Senedd Cymru. Yn ei dro, disgwylir i hyn wella dealltwriaeth ac atebolrwydd y cyhoedd mewn perthynas â gwaith SLIAC.

3.188 Bydd gan SLIAC rôl hefyd o ran monitro unrhyw dargedau statudol sy'n ymwneud â'r amgylchedd fel elfennau o 'gyfraith amgylcheddol', y bwriedir iddi gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y targedau bioamrywiaeth a osodir mewn perthynas â rhan 3 o'r Bil. Nid ydym wedi ceisio nodi targedau, nac unrhyw agwedd benodol ar gyfraith amgylcheddol, er mwyn rhoi digon o gwmpas i SLIAC weithredu'n annibynnol a phenderfynu ar ei blaenoriaethau ei hun, yn seiliedig ar ei harbenigedd ei hun.

3.189 Mae'r hyblygrwydd hwn hefyd yn darparu cwmpas i SLIAC weithio gyda sefydliadau eraill sy'n asesu a/neu'n cynghori ar dargedau amgylcheddol, yn enwedig mewn cyd-destun trawsffiniol, megis OEP, ESS a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod SLIAC yn myfyrio ar sicrhau bod y targedau hyn yn effeithiol a bod cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â hwy, mae Atodlen 2 yn ei gwneud yn ofynnol i SLIAC nodi yn ei strategaeth sut y bydd yn monitro unrhyw dargedau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a osodir gan gyfraith amgylcheddol, neu oddi tani, nid o reidrwydd mewn perthynas â thargedau penodol ond fel trosolwg mwy cyffredinol.

## *Cynghori Gweinidogion Cymru*

3.190 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth y caiff SLIAC roi cyngor i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r canlynol:

a) cynnig ar gyfer gwneud cyfraith amgylcheddol newydd neu ddeddfiad newydd arall sy'n ymwneud â'r amgylchedd yng Nghymru,
b) newid arfaethedig i gyfraith amgylcheddol neu ddeddfiad arall sy'n ymwneud â'r amgylchedd yng Nghymru, neu
c) unrhyw fater arall sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol.

3.191 Bwriad y ddarpariaeth hon yw galluogi Gweinidogion Cymru i gael mynediad at yr arbenigedd sylweddol y disgwylir iddo gael ei ddarparu gan SLIAC mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol wrth geisio datblygu neu wella canlyniadau polisi ar gyfer yr amgylchedd. Bydd hefyd yn galluogi SLIAC i ddarparu cyngor yn rhagweithiol ar faterion o'r fath (er enghraifft, drwy ddarparu cyngor ar gynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r amgylchedd). Bwriad y ddarpariaeth hon yw gweithredu y tu hwnt i unrhyw ofynion ymgynghori ar Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth arall.

3.192 SLIAC sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylid rhoi cyngor. Er y caiff Gweinidogion Cymru ofyn am gyngor, caiff SLIAC benderfynu peidio â darparu'r cyngor y gofynnwyd amdano, er bod rhaid iddi ddarparu datganiad ynglŷn â'i rhesymu. Bwriad y dull hwn yw cydbwyso gallu Gweinidogion Cymru i gael mynediad at gyngor arbenigol a chadw annibyniaeth SLIAC a hefyd ei gallu i flaenoriaethu adnoddau fel y gwêl yn dda.

3.193 Bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd hefyd i roi sylw i unrhyw gyngor a roddir felly gan SLIAC mewn perthynas â'r adran hon.

3.194 Bwriad adran 12(6) yw darparu eglurder mewn perthynas â maint cwmpas SLIAC mewn perthynas ag unrhyw ddeddfiad newydd arall sy'n ymwneud â'r amgylchedd yng Nghymru. Yr effaith yw y caiff cyngor SLIAC

ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod yn ardal parth Cymru y tu hwnt i derfyn atfor y môr tiriogaethol (sydd y tu allan i ystyr "Cymru" a roddir gan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019).

### *Cyngor, canllawiau a chymorth ar gyfraith amgylcheddol*

3.195 Gwneir darpariaeth i SLIAC roi canllawiau (boed yn gyffredinol neu'n benodol), neu gyngor neu gymorth arall i unrhyw berson, ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Byddai'r ddarpariaeth hon, er enghraifft, yn caniatáu i SLIAC gynghori ar feysydd lle nad yw cydymffurfiaeth neu weithrediad cyfraith amgylcheddol awdurdod cyhoeddus yn cyfiawnhau gorfodi, er nad yw ei chyngor wedi'i fwriadu i fod wedi'i gyfyngu i'r achosion hyn. Gallai'r senario hwn ddigwydd ar ôl ymchwilio i gydymffurfiaeth awdurdod cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, lle gall SLIAC fod â phryderon ynghylch gweithrediad neu gymhwysiad cyfraith amgylcheddol gan awdurdod cyhoeddus nad yw'n cynrychioli achos clir o ddiffyg cydymffurfiaeth. Felly, caiff argymell gwelliannau i brosesau neu ganllawiau er mwyn lliniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r pryderon hyn.

3.196 Nid yw hyn wedi'i fwriadu i fod y ffordd 'ddiofyn' y mae SLIAC yn ymdrin â diffyg cydymffurfiaeth, ond mae'n darparu mecanwaith ychwanegol i SLIAC gyfyngu ar y risg o ddiffyg cydymffurfiaeth yn y dyfodol a'r broses uwchgyfeirio arfaethedig i'w mabwysiadu gan SLIAC. Mae'r dull 'ataliol' hwn yn cael ei ategu ymhellach gan ddarpariaeth lle caiff SLIAC, os yw'n darparu cyngor i awdurdod cyhoeddus sy'n cynnwys argymhellion yn ymwneud â chymhwysiad neu weithrediad yr awdurdod o gyfraith amgylcheddol, ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ymateb i'r argymhellion o fewn cyfnod a bennir gan SLIAC. Mae hyn er mwyn sicrhau bod cyngor SLIAC wedi'i ystyried ac, os nad yw SLIAC yn fodlon bod hyn yn wir, efallai y bydd yn dewis parhau i fonitro'r sefyllfa hon os yw o'r farn bod risg

weddol uchel o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol yn y dyfodol.

3.197 Er mwyn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, bydd yn ofynnol i SLIAC gyhoeddi unrhyw ganllawiau a ddarperir gan ddefnyddio'r pwerau yn yr adran hon.

### *Hysbysiadau gwybodaeth*

3.198 Mae mynediad at wybodaeth gyfredol a chywir yn elfen hanfodol o alluogi SLIAC i fonitro ac ymchwilio'n effeithiol i'r meysydd hynny sy'n peri pryder yn ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Bydd awdurdodau cyhoeddus o dan ddyletswydd gyffredinol i gydweithredu â SLIAC (a fanylir yn ddiweddarach yn y bennod hon). Ar gyfer y mwyafrif o achosion, disgwylir y dylai hyn alluogi SLIAC i gael mynediad at wybodaeth sydd ei hangen arni mewn modd amserol. Fodd bynnag, os nad yw awdurdod cyhoeddus yn ymateb yn wirfoddol i gais am wybodaeth gan SLIAC, neu os yw SLIAC o'r farn nad yw'n briodol dibynnu ar ddull gwirfoddol, mae gan SLIAC y pŵer i gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus gyflenwi gwybodaeth y mae SLIAC ei hangen yn rhesymol at ddibenion arfer ei swyddogaethau, ac y mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio ag ef.

3.199 Diben y ddarpariaeth hon yw rhoi cefnogaeth benodol i allu SLIAC i fonitro ac ymchwilio i unrhyw bryderon ynghylch effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, neu ddiffyg cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, drwy osod gweithdrefn glir y gellir ei huwchgyfeirio mewn achosion lle nad yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i darparu.

3.200 Wrth gyhoeddi hysbysiad gwybodaeth, rhaid i SLIAC fodloni meini prawf penodol er mwyn i'r hysbysiad fod yn ddilys. Rhaid i’r hysbysiad bennu'r canlynol:

a) yr wybodaeth, neu natur yr wybodaeth, sydd i'w rhoi,

b) y dibenion y mae angen yr wybodaeth ar eu cyfer,
c) sut y dylid rhoi’r wybodaeth, a
d) y cyfnod y mae'r wybodaeth i'w rhoi ynddo.

3.201 Er mwyn rhoi digon o amser i awdurdodau cyhoeddus ystyried a chydymffurfio â'r hysbysiad gwybodaeth, y cyfnod y mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio ynddo yw o leiaf 2 fis yn dechrau ar y diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad. Cyfrifoldeb SLIAC fydd darparu cyfnod hirach o amser ar gyfer darparu'r wybodaeth hon os yw'n credu bod hyn yn briodol, er enghraifft, wrth ystyried faint o wybodaeth sydd i'w darparu.

3.202 Bydd awdurdodau cyhoeddus yn gallu cyflwyno dadl yn erbyn yr hysbysiad gwybodaeth os nad ydynt o'r farn, er enghraifft, ei bod yn briodol neu'n bosibl darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Bydd y rhain yn cael eu hystyried gan SLIAC a bydd yr amserlen a nodir ar gyfer darparu'r wybodaeth yn cael ei hoedi tra bod y sylwadau'n cael eu hystyried. Mae gan SLIAC y pŵer i dynnu hysbysiad gwybodaeth yn ôl neu ei amrywio am unrhyw reswm.

## *Sylwadau*

3.203 Gwneir darpariaeth sy’n egluro y caiff person gyflwyno sylwadau i SLIAC ynghylch unrhyw faterion sy’n ymwneud ag:

a. cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol,
b. sut mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith a’i chymhwyso, ac
c. effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol.

*Nid yw’r cyfeiriad at "person" yn cynnwys awdurdodau a gedwir yn ôl pan fyddai’r ddarpariaeth fel arall yn newid swyddogaethau’r awdurdodau mewn modd a fyddai y tu hwnt i bwerau’r Senedd.*

Rhaid i SLIAC hefyd lunio a chyhoeddi dogfen sy’n nodi’r weithdrefn y caniateir i bersonau gyflwyno sylwadau drwyddi ac yn gosod allan bolisi SLIAC ar hysbysu pobl o’i hymateb i’w sylwadau ac unrhyw gamau y mae’n eu cymryd.

3.204 Pwrpas y darpariaethau hyn yw gwella’r cyfleoedd i ddinasyddion a sefydliadau anllywodraethol gael at gyfiawnder amgylcheddol, yn enwedig trwy sicrhau bod y broses ar gyfer cyflwyno sylwadau i SLIAC yn glir ac yn ddealladwy.

## *Ymchwiliadau*

3.205 Bydd y pŵer i ymchwilio i fethiannau posibl i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â gweithrediad, cymhwysiad ac effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, yn bŵer allweddol i SLIAC. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn ffurfio'r cam cyntaf yn y broses orfodi a byddai'n anodd iawn, os nad yn amhosibl, gorfodi unrhyw ofynion yn effeithiol heb fod â'r pŵer i ymchwilio'n drylwyr i unrhyw fethiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, neu gymhwysiad, gweithrediad neu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Am y rheswm hwn, gwneir darpariaeth i alluogi SLIAC i ymchwilio i unrhyw fater sy'n ymwneud â'r canlynol:

a. p’un a yw awdurdod cyhoeddus yn methu, neu wedi methu ar unrhyw adeg, â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol,
b. sut y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu a'i chymhwyso, neu
c. effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol.

3.206 Bwriad y pŵer i ymchwilio i p’un a yw awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol neu wedi methu gwneud hynny ar unrhyw adeg yw cefnogi swyddogaethau SLIAC mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth a gorfodi. Disgwylir iddi gymryd camau angenrheidiol i gasglu gwybodaeth ynghylch a fu diffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol a phennu pa gamau fyddai eu hangen i gywiro'r diffyg cydymffurfiaeth hwn. Bydd SLIAC yn gallu lansio ymchwiliad yn seiliedig ar unrhyw achos lle mae ganddi gred resymol bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, a gall hyn fod oherwydd

menter SLIAC ei hun neu mewn ymateb i unrhyw sylwadau a wneir iddi gan unrhyw berson.

3.207 Mae'r ddarpariaeth yn caniatáu i SLIAC ystyried methiannau i gydymffurfio sydd wedi dechrau ar unrhyw adeg, ac a allai gynnwys cyn sefydlu SLIAC.

3.208 Bwriad y pwerau i ymchwilio i sut y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu a'i chymhwyso, ac effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, yw cefnogi'r swyddogaethau ynghylch gwella a chynghori ar gyfraith amgylcheddol. Disgwylir y bydd y pwerau hyn yn dibynnu ar, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymchwiliad i feysydd sy'n peri pryder sy'n gysylltiedig â materion systemig yn ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Yn yr achos hwn, efallai na fydd SLIAC yn ystyried y byddai mater yn cael ei ddatrys yn gyfan gwbl drwy gamau cydymffurfio ac y byddai'n fwy priodol pe bai'n cael ei drin naill ai drwy lunio adroddiadau gwella, neu gyngor strategol i Lywodraeth Cymru ac eraill lle bo'n briodol mewn perthynas ag effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, a pha newid a allai fod yn angenrheidiol i wella ei effeithiolrwydd.

3.209 Er mwyn cynorthwyo gyda thryloywder ac atebolrwydd ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus a'r cyhoedd, bydd yn ofynnol i SLIAC nodi ei bolisi ymchwilio fel rhan o'i strategaeth.

## *Hysbysiadau cydymffurfio*

3.210 Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae'r Bil yn gadael lle yn fwriadol i unrhyw feysydd sy'n peri pryder gael eu datrys drwy fesurau amgen, megis drwy ddatrysiad anffurfiol neu drwy ddarparu cyngor. Fodd bynnag, cyfrifoldeb SLIAC fydd pennu a fyddai'n briodol neu'n effeithiol datrys y meysydd o bryder hyn drwy'r mecanweithiau hynny. Mewn unrhyw achos, bydd gan SLIAC y pŵer i gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef.

3.211 Mae gan SLIAC y pŵer i gyflwyno hysbysiad cydymffurfio mewn dau senario

a. mewn amgylchiadau lle mae awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, neu
b. pan fo hysbysiad gwybodaeth wedi'i gyhoeddi ond bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio ag ef.

3.212 Bwriad amgylchiadau lle mae awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ar hyn o bryd yw cofnodi methiant parhaus awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, waeth pryd y dechreuodd y methiant i gydymffurfio. Er enghraifft, gallai hyn ymwneud â darpariaeth lle mae'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus nodi plaladdwyr a bioladdwyr a ganiateir i'w defnyddio ar gyfer datblygiad lleol mewn canllawiau. Pe bai SLIAC yn ymchwilio ac yn canfod nad yw'r canllawiau'n gweithredu nac yn cymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol oherwydd, er mwyn dadl, ei fod yn caniatáu i ddatblygwyr ddefnyddio sylwedd sydd wedi'i wahardd mewn mannau eraill mewn deddfwriaeth a/neu y gwyddys ei fod yn achosi difrod amgylcheddol sylweddol, byddai SLIAC yn gallu cymryd camau cydymffurfio yn erbyn yr awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am y canllawiau, gan fynnu bod camau adfer yn cael eu cymryd.

3.213 Mae'n bwysig nodi, yn yr enghraifft hon, fod camau cydymffurfio'n cael eu cymryd yn erbyn yr awdurdod cyhoeddus sy'n gyfrifol am y canllawiau, ac nid y datblygwyr sydd wedi dilyn y canllawiau. Mae hyn oherwydd, o safbwynt y datblygwr, eu bod wedi dilyn y canllawiau, y mae’n rhesymol iddynt ddibynnu arnynt, hyd yn oed os oeddent yn anghywir ar y pryd. Os oes diffyg cydymffurfiaeth gan ddatblygwr a'i fod wedi methu â chydymffurfio â'r drefn reoleiddio, byddai hyn yn cael ei drin yn fwy priodol ac effeithiol gan gyrff rheoleiddio, a byddai unrhyw fesurau lliniaru yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses honno. Yn benodol, nid yw'r bil hwn yn

deddfu yn y maes hwn gan fod darpariaeth eisoes i'r rheoleiddiwr gymryd camau o'r fath lle bo angen.

3.214 Mae'r ail senario yn berthnasol i amgylchiadau lle mae hysbysiad gwybodaeth wedi'i gyhoeddi ond nad yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio ag ef (h.y. nid yw'r wybodaeth wedi'i darparu). Mae hyn yn gyfle i uwchgyfeirio'r hysbysiadau hyn, gan alluogi SLIAC i gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio sy'n gorfodi'r camau yn yr hysbysiad gwybodaeth sydd i'w cymryd. Mewn geiriau eraill, rhaid darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.

3.215 Gwneir darpariaeth hefyd i nodi'r elfennau penodol y mae'n rhaid eu nodi mewn hysbysiad cydymffurfio er mwyn iddo fod yn ddilys. Ar gyfer amgylchiadau lle mae awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ar hyn o bryd, neu wedi methu â gwneud hynny ar unrhyw adeg, mewn amgylchiadau sy'n ei gwneud yn debygol y bydd y methiant yn cael ei ailadrodd, y rhain yw:

a. y gyfraith amgylcheddol y mae'r methiant honedig yn ymwneud â hi,
b. yr ymddygiad sydd wedi achosi i SLIAC ystyried bod yr awdurdod cyhoeddus yn methu, neu wedi methu, â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol,
c. un neu fwy o gamau y mae SLIAC yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r methiant (a all gynnwys camau sydd wedi'u bwriadu i unioni neu liniaru'r methiant, neu i sicrhau nad yw'r methiant yn cael ei ailadrodd), a
d. y cyfnod y mae'n rhaid cymryd pob cam ynddo.

3.216 Ni all y cyfnod y mae'n rhaid cymryd camau ynddo ar gyfer hysbysiad cydymffurfio cyffredin fod yn gynharach na 30 diwrnod (gan ddechrau gyda'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad). Mae hyn er mwyn rhoi amser rhesymol i'r awdurdod cyhoeddus ystyried yr hysbysiad ac, os oes angen, gofyn am adolygiad os nad yw'n cytuno â chynnwys yr hysbysiad cydymffurfio. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol yn achos

hysbysiadau cydymffurfio brys (a fanylir yn ddiweddarach yn y bennod hon).

3.217 Pan fo hysbysiad cydymffurfio wedi'i gyflwyno mewn perthynas â diffyg cydymffurfiaeth â hysbysiad gwybodaeth, rhaid iddo nodi'r canlynol:

a. pam y mae SLlIAC o'r farn bod yr awdurdod cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â'r hysbysiad gwybodaeth,
b. y camau y mae SLlAC yn mynnu bod yr awdurdod yn eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r methiant, a
c. y cyfnod y mae'n rhaid cymryd y camau ynddo.

3.218 Rhaid i bob hysbysiad cydymffurfio hefyd gynnwys gwybodaeth am yr hawl i ofyn am adolygiad o hysbysiad cydymffurfio, gan gynnwys y cyfnod y mae'n rhaid gwneud y cais ynddo ac esboniad o ganlyniadau methu â chymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad. Ymdrinnir â gweithdrefnau ynghylch adolygu hysbysiadau cydymffurfio ac atgyfeiriadau i Uchel Lys Cymru a Lloegr yn ddiweddarach yn y Memorandwm Esboniadol hwn.

3.219 Gwneir darpariaeth i alluogi SLlAC i dynnu'r hysbysiad yn ôl neu ei amrywio fel y gwêl yn dda, drwy gyflwyno hysbysiad i'r awdurdod cyhoeddus,. Mae hyn yn darparu digon o gwmpas ar gyfer trafod, os oes angen, ar ôl cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio, yn unol â'r broses uwchgyfeirio y cyfeiriwyd ati yn gynharach yn y Memorandwm Esboniadol.

3.220 Gwneir darpariaeth benodol i egluro na chaiff hysbysiad cydymffurfio ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gamau gweithredu gael eu cymryd mewn cysylltiad â phenderfyniad gweinyddol a wneir gan awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â pherson penodol neu achos penodol (er enghraifft, penderfyniad ar gais am ganiatâd cynllunio, cyllid neu drwydded, neu benderfyniad ar orfodi rheoleiddiol mewn achos penodol). Nid yw'n fwriad polisi y byddai SLlAC yn newid penderfyniadau a wneir, er enghraifft, gan gorff rheoleiddio, megis mewn perthynas â phenderfyniad cynllunio neu drwyddedu, ond disgwylir y gallai SLlAC ystyried y penderfyniadau hyn os

ydynt yn pwysleisio mater ehangach o fewn cwmpas rôl oruchwylio strategol SLIAC. Mae hyn ar y sail y gall y penderfyniadau hyn ddarparu tystiolaeth ehangach o awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol neu'n methu â gweithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol.

### *Hysbysiadau cydymffurfio brys*

3.221 Mae darpariaeth benodol wedi'i gwneud i alluogi SLIAC i weithredu'n gyflym i ddatrys pryderon cydymffurfio, sy'n berthnasol mewn achosion lle mae angen i awdurdod cyhoeddus gymryd camau a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio brys i atal neu liniaru risg bod niwed difrifol ar fin digwydd i'r amgylchedd neu i iechyd pobl. Gelwir hyn yn 'hysbysiad cydymffurfio brys'.

3.222 Y prif wahaniaeth rhwng hysbysiadau cydymffurfio brys a chyffredin yw y gall hysbysiadau cydymffurfio brys nodi camau sydd i'w cymryd o fewn cyfnod o 7 i 30 diwrnod. Y rhesymeg dros gyfnod o 7 diwrnod yw darparu amser rhesymol i awdurdod cyhoeddus ystyried yr hysbysiad cydymffurfio brys ac, os yw'n dymuno, gofyn am adolygiad o'r hysbysiad, gan gyfrif am fecanweithiau ymgysylltu a chlirio pellach o fewn sefydliadau mwy, yn ogystal â chyfrif am ddiwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau busnes. Nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol, nac yn rhesymol, galluogi SLIAC i fynnu bod camau'n cael eu cymryd o fewn llai na 7 diwrnod, gan nad yw'n rheoleiddiwr rheng flaen a'i bod yn annhebygol y bydd yn ymdrin â materion o'r fath frys y byddent yn arwain at niwed sylweddol i'r amgylchedd oni bai eu bod yn cael eu datrys ar unwaith.

3.223 Serch hynny, rydym yn rhagweld y gallai fod achosion lle gallai diffyg cydymffurfio alluogi risg bod niwed difrifol ar fin digwydd i'r amgylchedd neu i iechyd pobl lle na fyddai'n briodol aros am y cyfnod o 30 diwrnod a nodir o dan yr hysbysiad cydymffurfio cyffredin ac a fyddai, mewn gwirionedd, yn arwain at gyfnod llawer hirach o amser cyn i unrhyw gamau gael eu cymryd mewn gwirionedd.

3.224 Os yw SLIAC yn penderfynu cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio i awdurdod cyhoeddus sy'n nodi camau sydd i'w cymryd mewn cyfnod o lai na 30 diwrnod, rhaid iddo nodi ei fod yn hysbysiad cydymffurfio brys at ddibenion y ddeddfwriaeth.

## *Adolygiad SLIAC o hysbysiadau cydymffurfio*

3.225 Ar ôl i hysbysiad cydymffurfio gael ei gyhoeddi i awdurdod cyhoeddus, gall ofyn am adolygiad o'r hysbysiad cydymffurfio os nad yw'n cytuno â'r camau a nodir yn yr hysbysiad.

3.226 Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus ofyn am adolygiad drwy gyflwyno hysbysiad i SLIAC o fewn naill ai;

a. 30 diwrnod ar gyfer hysbysiad cydymffurfio cyffredin
b. 7 diwrnod ar gyfer hysbysiad cydymffurfio brys

3.227 Rhaid i'r adolygiad gael ei gynnal gan bwyllgor a sefydlwyd gan SLIAC (y cyfeirir ato fel 'y pwyllgor adolygu', a fanylir yn ddiweddarach yn y bennod hon) a rhaid ei gynnal cyn gynted ag sy’n rhesymol ymarferol ar ôl i gais ddod i law SLIAC

3.228 Rhaid i'r rhesymau dros ofyn am adolygiad fod yn sylweddol ac nid yn wacsaw. Mae'r Bil yn nodi y gall y pwyllgor adolygu ddiystyru unrhyw fethiant, diffyg neu wall o'r fath yn yr hysbysiad os yw'r pwyllgor o'r farn nad yw'n sylweddol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gwall teipograffig. Y diben yw sicrhau nad oes unrhyw oedi diangen wrth gywiro materion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

3.229 Yn dilyn yr adolygiad, rhaid i'r pwyllgor adolygu naill ai
a. cadarnhau'r hysbysiad cydymffurfio,
b. tynnu'r hysbysiad cydymffurfio yn ôl, neu
c. amrywio'r hysbysiad cydymffurfio.

3.230 Mae hyn er mwyn sicrhau na all canfyddiadau'r pwyllgor adolygu gael eu diystyru gan SLIAC fel corff ehangach a sicrhau annibyniaeth y pwyllgor adolygu ar SLIAC cyn belled ag y bo'n ymarferol. Mae'r Bil yn amlinellu camau pellach i sicrhau annibyniaeth y pwyllgor ar SLIAC, lle bo'n briodol, a manylir ar hyn ymhellach ym mharagraff 10 o Atodlen 1 i'r Bil, sy'n ymwneud â'r pwyllgor adolygu.

3.231 Bydd yn ofynnol i'r pwyllgor adolygu roi hysbysiad o'i benderfyniad ar adolygiad yn uniongyrchol i'r awdurdod cyhoeddus a ofynnodd am yr adolygiad. Mae penderfyniad y pwyllgor adolygu yn derfynol; ni fydd unrhyw benderfyniad gan SLIAC yn drech na phenderfyniad y pwyllgor, ac ni chaniateir gwneud unrhyw geisiadau pellach am adolygiad mewn perthynas â'r un hysbysiad cydymffurfio. Ni fydd hysbysiad cydymffurfio wedi'i amrywio yn cael ei ystyried fel yr un hysbysiad.

3.232 Wrth ystyried yr adolygiad, efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth ar y pwyllgor adolygu i ddod i benderfyniad. O ganlyniad, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus sydd wedi gofyn am yr adolygiad ddarparu unrhyw wybodaeth bellach sy'n rhesymol ofynnol gan y pwyllgor adolygu.

3.233 Pan mae cais wedi'i wneud am adolygiad, mae'r cyfnod amser y mae'n ofynnol cymryd y camau gweithredu o'i fewn yn ôl yr hysbysiad cydymffurfio yn cael ei oedi nes bod y pwyllgor wedi gwneud ei benderfyniad i gadarnhau'r hysbysiad, ei dynnu'n ôl neu ei amrywio. Mae 'stopio'r cloc' yn dechrau ar y diwrnod y mae'r awdurdod cyhoeddus yn gofyn am yr adolygiad ac yn gorffen ar y diwrnod y mae'r pwyllgor adolygu yn rhoi ei benderfyniad.

### *Adolygiad yr Uchel Lys ar ôl methiant i gymryd camau penodedig*

3.234 Mae'r adran hon yn manylu ar yr amgylchiadau lle mae SLIAC wedi cyhoeddi hysbysiad cydymffurfio ond bod awdurdod cyhoeddus wedi

methu â chymryd y camau gweithredu a nodir o fewn y cyfnod penodedig ac nad ofynnwyd am unrhyw adolygiad neu fod adolygiad wedi bod yn aflwyddiannus. O dan amgylchiadau o'r fath, caiff SLIAC atgyfeirio'r mater i Uchel Lys Cymru a Lloegr, gan wneud cais am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus naill ai gymryd y camau a nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio, neu gymryd y camau y mae'r Llys yn ystyried eu bod yn briodol. Bwriad y ddarpariaeth hon yw darparu cyfle pellach i uwchgyfeirio os nad yw awdurdodau cyhoeddus yn cymryd y camau i ddatrys diffyg cydymffurfiaeth a nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio ac i alluogi'r camau gweithredu i gael eu gorfodi i'r graddau y mae'r Uchel Lys yn credu ei fod yn briodol.

3.235 Mae'r Bil yn darparu, oni bai bod yr hysbysiad cydymffurfio yn 'hysbysiad cydymffurfio brys', na chaniateir gwneud y cais hwn i'r Llys cyn yr hwyraf o naill ai:

i. diwedd y cyfnod y mae'n ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus gymryd y camau ynddo, neu
ii. unrhyw derfyn amser sy'n berthnasol i gychwyn adolygiad barnwrol ar gyfer cwestiynu'r ymddygiad honedig y cyflwynwyd yr hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas ag ef.

3.236 Mae hyn er mwyn caniatáu i unrhyw bartïon ofyn am adolygiad barnwrol o’r modd y cyflwynwyd yr hysbysiad o fewn y cyfnod ar gyfer adolygiad barnwrol. Mae hyn yn ystyried dim ond yr amserlenni cyffredin a gymhwysir i weithdrefnau adolygiad barnwrol, ac nid unrhyw estyniad i'r cais y gall y Llys gytuno iddo a fyddai y tu allan i gwmpas y ddeddfwriaeth hon.

3.237 Mewn achosion lle mae hysbysiad cydymffurfio brys wedi'i gyflwyno, ni chaniateir gwneud y cais i'r llysoedd cyn diwedd y cyfnod y mae'n ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus gymryd y camau gweithredu ynddo. Mae hyn er mwyn caniatáu digon o amser i'r camau gael eu cymryd, a galluogi atgyfeiriad llys i ddigwydd yn gyflymach nag o dan hysbysiadau cydymffurfio 'cyffredin'. Nid yw'r gofyniad i ystyried y cyfnod y gellid

gwneud cais am adolygiad barnwrol ynddo yn berthnasol, a'r bwriad yw adlewyrchu'r amgylchiadau brys y cyhoeddir yr hysbysiadau cydymffurfio hyn oddi tanynt.

3.238 Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch yr hyn mae'n rhaid i unrhyw orchymyn ei gynnwys, ac y caniateir i unrhyw orchymyn ei gynnwys, yn dilyn adolygiad o hysbysiad cydymffurfio. Os yw'n bwriadu rhoi gorchymyn, rhaid i'r Llys nodi'r cyfnod y mae'n ofynnol i'r camau gael eu cymryd ynddo. Os yw'r Llys o'r farn bod hysbysiad cydymffurfio neu ran o hysbysiad cydymffurfio yn afresymol neu na ddylai'r hysbysiad neu ran o'r hysbysiad, am unrhyw reswm arall, fod wedi'i gyflwyno (yn rhannol neu yn ei gyfanrwydd), rhaid i'r Llys ei gwneud yn ofynnol i SLIAC dynnu'r hysbysiad neu (fel y digwydd) y rhan o hysbysiad yn ôl.

3.239 Wrth ystyried a yw'r hysbysiad cydymffurfio, neu ran ohono, yn afresymol, mae'r Llys yn debygol o ystyried a yw'r diffyg cydymffurfiaeth sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad yn cyfrif fel diffyg cydymffurfiaeth yn ei farn ef. Mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth na fyddai'n rhesymol gwneud hysbysiad diffyg cydymffurfiaeth o'r fath gan na fu diffyg cydymffurfiaeth. Fel arall, bydd y Llys yn penderfynu ar ei broses ei hun ar gyfer ymdrin ag atgyfeiriadau o'r fath, gan sicrhau cyfeiriad at ofynion y Bil lle bo hynny'n berthnasol.

## *Adroddiadau gwella*

3.240 Wrth ystyried meysydd sy'n peri pryder sy'n ymwneud â materion amgylcheddol, caiff SLIAC benderfynu bod y mater o natur strategol na fyddai'n cael ei drin yn effeithiol gan hysbysiad cydymffurfio, boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Gallai hyn, er enghraifft, fod oherwydd bod effeithiolrwydd cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn mynd y tu hwnt i weithredoedd un awdurdod cyhoeddus, ac yn hytrach yn pwysleisio diffyg strwythurol yn y system. Gallai diffyg o'r fath godi oherwydd cyfraith amgylcheddol nad yw wedi'i gwneud yn effeithiol (gan awgrymu diffyg yn y

ddeddfwriaeth) neu gallai hefyd fod yn fethiant i weithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol (er enghraifft, canllawiau statudol ategol nad ydynt yn adlewyrchu nac yn gweithredu'r ddeddfwriaeth yn ddigonol).

3.241 Am y rheswm hwn, mae gan SLIAC y pŵer i gyhoeddi adroddiad gwella o dan amgylchiadau tebyg i'r hysbysiad cydymffurfio, hynny yw, os yw'n ystyried bod awdurdod cyhoeddus yn methu, neu wedi methu ar unrhyw adeg, â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol neu weithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol. Fodd bynnag, bwriedir i natur adroddiad gwella fod yn wahanol i hysbysiad cydymffurfio.

3.242 Bydd hysbysiad cydymffurfio yn gorfodi cydymffurfiaeth drwy gamau gweithredu penodol y mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus unigol eu cymryd. I'r gwrthwyneb, bydd adroddiad gwella yn edrych ar yr amgylchiadau ehangach sy'n sbarduno'r diffyg cydymffurfiaeth hwn ac yn darparu argymhellion ynghylch sut y gellir gwella'r amgylchiadau hyn. Er enghraifft, gallai adroddiad gwella gynnwys argymhellion i fynd i'r afael â dyletswydd amgylcheddol ar awdurdodau cyhoeddus sydd, ym marn SLIAC, wedi'i wneud yn y fath fodd fel nad yw'n cyflawni'r canlyniad deddfwriaethol a fwriadwyd. Yn yr enghraifft hon, ni fyddai hysbysiad cydymffurfio yn briodol gan nad oes 'diffyg cydymffurfiaeth'.

3.243 Mae'r Bil yn caniatáu i SLIAC gyhoeddi adroddiad gwella os yw'n ystyried bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â gwneud cyfraith amgylcheddol. Mae hyn i ddarparu ar gyfer yr amgylchiadau cyfyngedig lle mae gan awdurdod cyhoeddus, megis CNC, bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth neu is-ddeddfau.

3.244 Gall un adroddiad gwella hefyd ymwneud â methiant gan ddau awdurdod cyhoeddus neu fwy, ond dim ond os yw SLIAC yn fodlon bod yr holl awdurdodau dan sylw wedi arfer eu swyddogaethau yn y fath fodd fel ei fod wedi arwain at yr un methiant honedig, neu fethiant tebyg. Dyluniwyd y ddarpariaeth hon i gipio 'diffygion systemig' a allai fod yn sbarduno diffyg cydymffurfiaeth gan awdurdodau cyhoeddus. Yn y cyd-

destun hwn, efallai na fydd yn gymesur nac yn rhesymol cymryd camau yn erbyn un awdurdod cyhoeddus pan fo'r system ei hun ar fai, felly adroddiad gwella fyddai'r mecanwaith mwyaf effeithiol ar gyfer datrys y mater sylfaenol.

3.245 Pan fydd SLIAC yn cyhoeddi adroddiad gwella, rhaid iddi anfon copi at yr awdurdod cyhoeddus y mae ei fethiant wedi arwain at yr ymchwiliad ac, os nad Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cyhoeddus yn yr achos hwnnw, rhaid iddi anfon copi at Weinidogion Cymru hefyd. Mae hyn oherwydd bod y materion a nodwyd drwy adroddiad gwella yn debygol o fod yn strategol ac yn drawsbynciol ym mron pob achos. Felly, disgwylir y bydd yr argymhellion mewn adroddiad gwella yn gofyn am gamau gweithredu gan Weinidogion Cymru yn gyfan gwbl neu i raddau helaeth. Am y rheswm hwn, rhaid gosod copi o'r adroddiad gwella gerbron Senedd Cymru hefyd er mwyn cynyddu atebolrwydd a thryloywder.

### *Adroddiadau gwella: cynnwys*

3.246 Gwneir darpariaeth i nodi'r elfennau penodol y mae'n rhaid eu cynnwys ym mhob adroddiad gwella er mwyn iddo gael ei ystyried yn ddilys. Rhaid i’r adroddiad gwella:

a. nodi manylion y methiant honedig i
    i. cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol,
    ii. gweithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol, neu
    iii. gwneud cyfraith amgylcheddol effeithiol;
b. egluro rhesymau SLIAC dros ystyried bod methiant o'r fath wedi bod;
c. nodi effaith neu effaith bosibl y methiant;
d. argymell camau gweithredu i Weinidogion Cymru eu cymryd mewn ymateb i'r methiant;
e. cynnig amserlenni ar gyfer cymryd y camau gweithredu hynny.

3.247 Fel gyda hysbysiadau cydymffurfio, gwneir darpariaeth i egluro na all adroddiadau gwella ddirymu neu amrywio penderfyniadau gweinyddol unigol (megis caniatâd cynllunio). Fodd bynnag, caiff SLIAC adolygu'r penderfyniadau hyn i nodi methiannau systemig o ran cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol. Mae hyn yn caniatáu i SLIAC awgrymu gwelliannau ehangach, heb wyrdroi canlyniadau achosion penodol, sy'n eistedd y tu allan i gylch gwaith SLIAC ac sy'n ddarostyngedig i lwybr herio amgen.

### *Cynlluniau gwella*

3.248 Pan fo SLIAC yn cyhoeddi adroddiad gwella, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Weinidogion Cymru ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw drwy lunio cynllun gwella. Rhaid i'r 'cynllun gwella' hwn nodi'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei wneud mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad gwella, gan gynnwys yn benodol—

i. y camau gweithredu y mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu eu cymryd i weithredu'r argymhellion (yn llawn neu'n rhannol),
ii. yr amserlenni arfaethedig ar gyfer gweithredu'r argymhellion,
iii. y trefniadau ar gyfer adolygu cynnydd wrth weithredu'r argymhellion, ac adrodd arno,

3.249 Mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru'n nodi'n glir eu hymateb i'r pwyntiau ar wahân mewn adroddiad gwella. O ganlyniad, y disgwyliad yw y bydd Gweinidogion Cymru'n darparu ymateb i bob un o'r argymhellion mewn adroddiad gwella. Os nad yw Gweinidogion Cymru'n bwriadu gweithredu'r argymhellion (yn llawn neu'n rhannol), rhaid iddynt hefyd nodi eu rhesymau dros beidio â gwneud hynny. Bydd yn ofynnol hefyd i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cynllun gwella a gosod copi ohono gerbron Senedd Cymru i gynorthwyo tryloywder ac atebolrwydd.

3.250 O dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymateb i adroddiad gwella o fewn 6 mis i'r dyddiad yr anfonwyd yr adroddiad gwella atynt. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau lle bydd angen

ymgynghori ag unrhyw berson/bobl ynglŷn â'r cynllun, gellir ymestyn y ffenestr hon i hyd at 9 mis i ganiatáu ar gyfer cyfnod ymgynghori.

## *Dyletswyddau cydweithredu*

3.251 Rhoddir dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gydweithredu â SLIAC, ac i roi cymaint o gymorth rhesymol iddi ag y mae'n gofyn amdano (gan gynnwys darparu gwybodaeth), mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau SLIAC. Ar ben hynny, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd wneud pob ymdrech resymol i

a. datrys yn gyflym unrhyw fater y mae SLIAC yn ei godi ynghylch methiant yr awdurdod i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, i weithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol, neu i wneud cyfraith amgylcheddol effeithiol, a
b. dod i gytundeb gydag SLIAC ynghylch unrhyw gamau gweithredu adferol y dylai'r awdurdod eu cymryd at ddibenion diogelu'r amgylchedd.

3.252 Diben y ddyletswydd hon yw cefnogi SLIAC wrth arfer ei swyddogaethau a galluogi lle i fecanweithiau 'anffurfiol' er mwyn cael gwybodaeth a datrys pryderon heb yr angen i gymryd camau gorfodi mwy sylweddol. Er enghraifft, pe bai SLIAC yn penderfynu, yn dilyn ymchwiliad, bod awdurdod cyhoeddus wedi torri cyfraith amgylcheddol ond, yn ystod yr ymchwiliad hwn, fod yr awdurdod cyhoeddus wedi gweithio gydag SLIAC i ddatrys y pryderon yn rhagweithiol, ni fyddai angen defnyddio offer megis yr hysbysiad cydymffurfio i ddatrys y mater. Bwriad y dull hwn yw rhoi digon o hyblygrwydd i SLIAC, lle bo hynny'n bosibl, ddefnyddio dull uwchgyfeirio o orfodi ac i groesawu cydweithredu er mwyn ceisio datrys materion amgylcheddol yn gyflym. Ar ben hynny, bydd y ddyletswydd gyffredinol i gydweithredu yn sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus hefyd yn cymryd cyfleoedd i alluogi gweithio'n effeithiol gyda SLIAC.

## *Datgelu gwybodaeth i SLIAC*

3.253 Gwneir darpariaeth i alluogi awdurdod cyhoeddus i rannu gwybodaeth â SLIAC, wrth arfer ei swyddogaethau, heb dorri unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd sydd gan yr awdurdod cyhoeddus, nac unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth (sut bynnag y caiff ei osod).

3.254 Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol i'r adrannau canlynol o'r Bil

a. adran 15(1) (hysbysiadau gwybodaeth); ;
b. adran 20(10) (gofyniad i ddarparu gwybodaeth y mae'n rhesymol i SLIAC ofyn amdani at ddibenion adolygu hysbysiad cydymffurfio);
c. adran 25(1) (dyletswydd awdurdod cyhoeddus i gydweithredu â SLIAC)

3.255 Diben y ddarpariaeth hon yw sicrhau bod SLIAC yn gallu gweithio'n effeithiol gan gydnabod y gall rhywfaint o'r wybodaeth fod o natur sensitif. Effaith y ddarpariaeth yw rhoi sicrwydd i awdurdodau cyhoeddus, wrth ddarparu gwybodaeth o'r fath sy'n rhesymol ofynnol gan SLIAC mewn perthynas â'i swyddogaethau, na fyddent yn torri unrhyw rwymedigaeth neu gyfyngiadau wrth ddatgelu'r wybodaeth hon. Yn yr un modd, ni fyddai'n briodol i awdurdod cyhoeddus wrthod datgelu gwybodaeth o'r fath ar sail rhwymedigaethau neu gyfyngiadau ehangach sydd, yn ei farn ef, yn atal datgelu'r wybodaeth gan y gallai hyn rwystro gwaith SLIAC.

3.256 Fodd bynnag, gwneir darpariaeth benodol hefyd i egluro nad yw'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus ddarparu gwybodaeth i SLIAC

a. y byddai gan yr awdurdod hawlogaeth i wrthod ei darparu mewn achos sifil ar sail braint broffesiynol gyfreithiol, neu y byddai gan yr awdurdod hawlogaeth i wrthod ei darparu, neu y byddai unrhyw reol gyfreithiol yn ei gwneud yn ofynnol iddo wrthod ei darparu, mewn achos sifil ar sail imiwnedd budd y cyhoedd, neu
b. yn ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi datgelu [neu ddefnyddio] gwybodaeth a fyddai'n torri'r ddeddfwriaeth diogelu

data (ond mae’r ddyletswydd i’w hystyried neu mae’r pŵer i’w ystyried wrth benderfynu a fyddai datgelu [neu ddefnyddio] yr wybodaeth yn torri'r ddeddfwriaeth honno).

3.257 Mae hyn er mwyn sicrhau bod braint broffesiynol gyfreithiol yn cael ei chynnal, ac na ellid defnyddio'r wybodaeth i niweidio unrhyw achos sifil yn y dyfodol. Ni fydd y ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol chwaith i'r awdurdod cyhoeddus ddarparu gwybodaeth y gallai wrthod ei darparu mewn achos sifil am reswm imiwnedd budd y cyhoedd.

3.258 Yn yr un modd, gwneir darpariaeth i gyfeirio at adran 183A o’r Ddeddf Diogelu Data. Mae adran 183A yn darparu, os nad oes darpariaeth benodol i’r gwrthwyneb, bod pob darpariaeth am brosesu data personol yn dod o dan ofynion cyffredinol y brif ddyletswydd diogelu data. ddarparu nad oes unrhyw beth yn y Rhan hon o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus, nac yn ei awdurdodi, i fynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data o fewn yr ystyr a roddir yn Neddf Diogelu Data 2018.

## *Gofynion cyfrinachedd: SLlAC*

3.259 Mae'r adran flaenorol yn tynnu sylw at sut y caiff SLlAC dderbyn gwybodaeth a fyddai fel arall yn freintiedig, neu'n sensitif, ac nad yw'n cael ei datgelu fel arfer. Gwneir y ddarpariaeth hon i nodi sut y caiff SLlAC ddatgelu'r wybodaeth y mae'n ei chael, neu sut na chaiff wneud hynny. Rhaid i SLlAC beidio â datgelu gwybodaeth a ddarparwyd iddi yn rhinwedd adran 14(1) (hysbysiadau gwybodaeth), adran 18(10) (gofyniad i ddarparu gwybodaeth at ddibenion adolygu) ac adran 23(1) (dyletswydd i gydweithredu). Rhaid i SLlAC beidio â datgelu gohebiaeth rhwng SLlAC ac awdurdod cyhoeddus sy'n ymwneud â hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiadau cydymffurfio penodol, neu’r broses o lunio adroddiad gwella penodol. Rhaid i SLlAC hefyd beidio â datgelu gohebiaeth sy'n hysbysiad gwybodaeth, yn hysbysiad cydymffurfio, neu’n ddrafft heb ei gyhoeddi o adroddiad gwella, na gohebiaeth sy’n cynnwys un o’r uchod.

3.260 Nid yw'r gofyniad ar SLIAC i beidio â datgelu o dan amgylchiadau penodol yn ymestyn i'r sefyllfaoedd canlynol:

a. datgeliad a wneir gyda chydsyniad yr awdurdod cyhoeddus a ddarparodd yr wybodaeth neu'r ohebiaeth;
b. datgeliad a wneir at ddibenion sy'n gysylltiedig ag arfer swyddogaethau SLIAC;
c. datgeliad sy'n ymwneud â mater nad yw SLIAC yn bwriadu cymryd unrhyw gam gweithredu pellach o dan y Rhan hon mewn perthynas ag ef e.e. ar ôl cwblhau ymchwiliad.
d. datgeliad a wneir at ddibenion achos sifil;
e. datgeliad a wneir at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol neu at ddibenion atal troseddu neu ganfod trosedd;
f. datgeliad a wneir yn unol â gorchymyn llys neu dribiwnlys;
g. datgeliad a wneir yn unol â deddfiad sy'n gwneud y datgeliad yn ofynnol neu'n ei ganiatáu.

### *Gofynion cyfrinachedd: awdurdodau cyhoeddus*

3.261 Ochr yn ochr â gofynion cyfrinachedd SLIAC, rhoddir dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i gadw cyfrinachedd mewn perthynas â swyddogaethau SLIAC i gadw uniondeb unrhyw ymchwiliad etc. nes ei fod wedi dod i gasgliad priodol.

3.262 Felly, rhaid i awdurdod cyhoeddus beidio â datgelu gohebiaeth rhwng SLIAC a'i hun, neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall, sy'n ymwneud â hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad cydymffurfio penodol, neu â llunio adroddiad gwella penodol, neu sy'n cynnwys hysbysiad o'r fath neu ddrafft heb ei gyhoeddi o adroddiad o'r fath.

3.263 Darperir nifer o eithriadau hefyd i awdurdodau cyhoeddus sicrhau y gellir datgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'w swyddogaethau ehangach o dan rai meini prawf. Mae'r rhain yn cynnwys:

a. datgeliad sy'n ymwneud â hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad cydymffurfio penodol, neu â llunio adroddiad gwella penodol, a wneir gyda chydsyniad SLIAC a'r awdurdod cyhoeddus yr oedd SLIAC yn gohebu ag ef (os nad yr awdurdod cyhoeddus oedd yn gwneud y datgeliad);
b. datgeliad sy'n cynnwys hysbysiad o'r fath neu ddrafft heb ei gyhoeddi o adroddiad o'r fath, a wneir gyda chydsyniad SLIAC;
c. datgeliad a wneir at ddibenion sy'n gysylltiedig â chydweithredu ag ymchwiliad o dan adran 8 o'r Bil
d. datgeliad a wneir at ddibenion sy'n gysylltiedig â hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad cydymffurfio; (e) datgeliad a wneir at ddibenion sy'n gysylltiedig ag adolygiad yr Uchel Lys o dan adran 12, adolygiad statudol neu achos sifil;
e. datgeliad a wneir at ddibenion ymchwiliad troseddol neu achos troseddol neu at ddibenion atal troseddu neu ganfod trosedd;
f. datgeliad a wneir yn unol â gorchymyn llys neu dribiwnlys;
g. datgeliad a wneir yn unol â deddfiad sy’n gwneud y datgeliad yn ofynnol neu’n ei ganiatáu.

3.264 Mewn perthynas â'r meini prawf hyn, ni chaiff SLIAC gydsynio i ddatgelu hysbysiad neu ddrafft heb ei gyhoeddi o adroddiad yn unol ag is-adran oni bai bod yr hysbysiad neu'r adroddiad drafft yn ymwneud â mater nad yw SLIAC yn bwriadu cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach mewn perthynas ag ef o dan y Rhan hon. Bwriad hyn yw sicrhau nad yw unrhyw ymchwiliad parhaus neu'r gwaith o lunio adroddiad gwella yn cael ei danseilio yn sgil rhyddhau gwybodaeth yn gynnar. Ar ben hynny, os yw cais yr awdurdod cyhoeddus am gydsyniad i ddatgelu gwybodaeth yn ymwneud â hysbysiadau neu welliannau, ac nad yw SLIAC yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach, ni chaiff SLIAC wrthod ei chydsyniad.

## *Cymhwyso Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004*

3.265 Mae adran 27 yn gymwys pan fo'r wybodaeth y cyfeirir ati yn adran 25(1) ac a gedwir gan SLIAC, neu y cyfeirir ati yn adran 26(1), ac a gedwir

gan awdurdod cyhoeddus, yn "wybodaeth amgylcheddol" at ddibenion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) 2004.

3.266 Yr effaith yw y bydd yr wybodaeth mewn cysylltiad ag achosion cyfrinachol at ddibenion y Rheoliadau hynny, gan felly roi hawl bosibl i awdurdod cyhoeddus wrthod datgelu o dan y Rheoliadau hynny. Os yw achos gorfodi SLIAC yn parhau, gall yr wybodaeth y cyfeirir ati yn adrannau 25 a 26 fod yn gymwys ar gyfer eithriad o'r EIR sy'n rhoi'r hawl bosibl i awdurdod cyhoeddus wrthod datgelu pe bai'n peryglu cyfrinachedd yr achos gan yr awdurdod cyhoeddus hwnnw pan fo cyfrinachedd o'r fath wedi'i ddiogelu'n gyfreithiol

### *Cynlluniau trosglwyddo staff*

3.267 Mae'r adran hon yn rhoi effaith i atodlen 3 sy'n darparu i Weinidogion Cymru, os oes angen, wneud darpariaethau ar gyfer trosglwyddo staff o Lywodraeth Cymru i SLIAC i gefnogi sefydlu SLIAC mewn ffordd gyflym a di-drafferth. Manylir ar hyn ymhellach yn yr adran berthnasol ar yr atodlen hon.

### *Ystyr "cyfraith amgylcheddol”*

3.268 Gwneir darpariaeth i nodi ystyr "cyfraith amgylcheddol”. Mae hwn yn ddiffiniad arwyddocaol gan ei fod yn gosod cwmpas swyddogaethau SLIAC sy'n cael eu diffinio drwy gyfeirio at gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â ph’un a yw cyfraith amgylcheddol wedi'i gwneud, ei gweithredu a'i chymhwyso'n effeithiol.

3.269 Mae'r diffiniad yn egluro bod cyfraith amgylcheddol yn ymwneud â "darpariaeth ddatganoledig" yn unig. Mae hyn yn nodi paramedrau goruchwyliaeth SLIAC dros unrhyw ddeddfwriaeth sydd wedi'i gwneud, neu y gellid ei gwneud, gan Senedd Cymru. Mae hyn wedi'i fframio i gipio unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Mae hyn yn groes i adran 46 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 sydd, at ddibenion OEP, yn eithrio darpariaeth ddeddfwriaethol ddatganoledig o gwmpas diffiniad Deddf yr Amgylchedd

2021 o gyfraith amgylcheddol. Yn hyn o beth, bwriedir ychydig iawn o orgyffwrdd deddfwriaethol â swyddogaethau OEP, o ystyried y diffiniadau priodol o gyfraith amgylcheddol i gynnwys neu eithrio darpariaethau datganoledig

3.270 Mae'r diffiniad yn egluro bod cyfraith amgylcheddol yn ymwneud ag unrhyw ddarpariaeth ddatganoledig sy'n “ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd”.

3.271 Mae hyn yn berthnasol i ddarpariaethau/swyddogaethau penodol o fewn deddfiad, yn hytrach na deddfiad ei hun. Gallai rhai darpariaethau Deddf fod yn gymwys fel cyfraith amgylcheddol (h.y. sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd), ond efallai na fydd darpariaethau eraill yn yr un Ddeddf yn dod o fewn y cwmpas hwn. Er enghraifft, yn ein barn ni, byddai adran 1(3A) o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (cydbwyso coedwigaeth â chadwraeth) yn ymwneud yn bennaf â diogelu'r amgylchedd, ac felly'n dod o fewn cwmpas cyfraith amgylcheddol.

3.272 I'r gwrthwyneb, mae adran 1(2) (hyrwyddo coedwigaeth) o'r un ddeddf honno yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r diwydiant, ac felly nid yw'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd. Yn ein barn ni, ni fyddai'n cael ei ystyried fel cyfraith amgylcheddol o dan y diffiniad a gynigir. Y bwriad yw y dylai SLIAC fod â goruchwyliaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth benodol, er efallai na fydd ganddi oruchwyliaeth mewn perthynas â'r deddfiad yn ei gyfanrwydd.

3.273 Bydd SLIAC yn asesu, fesul achos, a yw darpariaeth ddeddfwriaethol yn dod o dan y diffiniad wrth bennu ei hawdurdod cyfreithiol i weithredu yn y maes hwnnw, ac felly a oes ganddi'r cwmpas i arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r ddarpariaeth ddeddfwriaethol benodol honno. Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y casgliad yn amlwg ac y bydd yr holl bartïon cysylltiedig yn cytuno arno. Fodd bynnag, mewn achosion o ansicrwydd neu anghytundeb, efallai y bydd angen i'r llysoedd benderfynu yn y pen

draw a yw darpariaeth benodol yn bodloni'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol.

3.274 Mae datgelu gwybodaeth neu fynediad at wybodaeth yn deillio o gwmpas cyfraith amgylcheddol y mae SLIAC yn ei goruchwylio. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw SLIAC yn ailadrodd a/neu'n gorgyffwrdd â swyddogaethau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gwneud cyfraniad hanfodol at oruchwylio sut y mae awdurdodau cyhoeddus yn ymdrin â gwybodaeth amgylcheddol yn y DU (gan gynnwys drwy orfodi'r EIR).

3.275 Yn ogystal, mae "trethiant, cyllid neu gyllidebau" hefyd wedi'u heithrio o'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw SLIAC yn ceisio cyfyngu ar ddyraniad adnoddau o fewn y Llywodraeth ac yn sicrhau bod y broses o graffu ar SLIAC yn parhau i ganolbwyntio ar ei diben arfaethedig. Er enghraifft, nid yw'n bwriadu i'r Corff oruchwylio'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn dewis ei ddyrannu o adnoddau ariannol ar gyfer diogelu'r amgylchedd.

3.276 Gwneir darpariaeth hefyd i Weinidogion Cymru allu nodi trwy isddeddfwriaeth y darpariaethau datganoledig sy’n gyfystyr ac nad ydynt yn gyfystyr â’r diffiniad o gyfraith amgylcheddol. Bydd hyn yn diogelu’r ddarpariaeth rhag newidiadau yn y dyfodol i dirwedd ddeddfwriaethol yr amgylchedd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y bydd angen i’r diffiniad o gyfraith amgylcheddol eu hadlewyrchu. Cyn gwneud rheoliadau o’r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â SLIAC ac unrhyw bersonau eraill fel y gwelant yn dda.

## *Ystyr "awdurdod cyhoeddus”*

3.277 Nod y diffiniad o awdurdodau cyhoeddus yw cipio awdurdodau cyhoeddus o fewn cwmpas/cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, gan gynnwys cwmnïau preifat sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus (megis cwmnïau dŵr). Fodd bynnag, er bod y diffiniad yn fwriadol eang ac yn addas i'r dyfodol, yn ymarferol dim ond y rhai sy'n arfer swyddogaethau

sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol (a drafodwyd uchod) a fydd yn cael eu goruchwylio gan y Corff. Mewn geiriau eraill, mae'n cynnwys unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd ag unrhyw swyddogaeth amgylcheddol unigol, nid yn unig y cyrff hynny sy'n gweithredu at ddibenion amgylcheddol yn unig. Nid yw SLlAC yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion y Bil hwn.

3.278 Nid yw'r diffiniad yn ymestyn ymhellach o ran ei gwmpas. Gan na fydd y Bil yn cynnwys pwerau goruchwylio i SLlAC mewn perthynas â rhai cyrff neilltuedig sy'n gweithredu yng Nghymru (megis y Weinyddiaeth Amddiffyn) ac nad oes gan OEP bwerau goruchwylio mewn perthynas â chyrff o'r fath, bydd "bwlch" goruchwylio. Fodd bynnag, gallai SLlAC geisio mynd i'r afael â materion o'r fath, os yn bosibl, mewn cydweithrediad ag OEP a'r cyrff perthnasol ar sail wirfoddol.

3.279 Yn y bôn, nod y diffiniad yw llywio'n ofalus gymhlethdodau cymhwysedd datganoledig y Senedd a gwneud y mwyaf o gwmpas awdurdodau cyhoeddus sy'n dod o fewn goruchwyliaeth SLlAC o fewn y cyfyngiadau hyn.

### *Ystyr "effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol"*

3.280 Darperir diffiniad o 'effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol' i roi eglurder i SLlAC a'r cyhoedd yn ehangach. Mae'n seiliedig ar gysyniadau tebyg a nodwyd o fewn yr amcan amgylcheddol, sy'n llywio SLlAC ar lefel strategol, ac mae'n canolbwyntio ar p’un a yw'r gyfraith yn cyflawni ei heffaith arfaethedig drwy gyfeirio at ei chyfraniad at ddiogelu'r amgylchedd (sydd hefyd wedi'i ddiffinio).

### *Ystyr "methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol"*

3.281 Bydd ystyr "methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol" yn sylfaenol i benderfyniad SLlAC ynghylch a ddylid cyhoeddi hysbysiad

cydymffurfio. Am y rheswm hwn, mae'r Bil yn egluro bod methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn gyfeiriad at awdurdod cyhoeddus yn arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n groes i gyfraith amgylcheddol neu'n methu ag arfer ei swyddogaethau pan fo'r methiant yn groes i gyfraith amgylcheddol. Mae hyn yn golygu y gallai methu â chydymffurfio fod o ganlyniad i weithred anghywir (e.e. gweithgarwch rheoleiddiol neu awdurdod lleol yn awdurdodi gweithgarwch nad yw'n cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol) yn ogystal ag anweithred. Er enghraifft, gallai anweithred godi o dan amgylchiadau lle mae rheoleiddiwr yn gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd ac adnoddau naturiol ac atal niwed amgylcheddol, ond nad yw wedi bod yn rhagweithiol mewn perthynas ag arolygu risgiau i ardaloedd cadwraeth arbennig ac mai dim ond ar ôl i niwed amgylcheddol ddigwydd y mae wedi cymryd camau gweithredu.

### *Cychwyn Darpariaethau SLIAC*

3.282 Gwneir darpariaeth i ddod â swyddogaethau o sylwedd sy’n ymwneud â gwaith gorfodi, monitro, adrodd, ymchwilio ac ymgynghori SLIAC i rym, ddim hwyrach na 24 mis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. Os na fydd darpariaethau’r Bil ynghylch swyddogaethau o sylwedd SLIAC wedi dod i rym trwy orchymyn erbyn y cyfnod a nodir yn yr is-adran honno, dônt i rym yn awtomatig. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru yr opsiwn i wneud rheoliadau i estyn y cyfnod 24 mis hwn hyd at gyfnod o 48 mis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu yr amser hiraf y caiff y darpariaethau hyn ddod i rym yw 48 mis gan ddechrau ar y diwrnod y mae’r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol. Bydd y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo’r Senedd felly dim ond gyda chymeradwyaeth y Senedd y gellir newid yr amserlen.

3.283 Ystyrir bod hyn yn briodol gan efallai y bydd Gweinidogion Cymru am ddefnyddio’r pŵer hwn i bennu cyfnod hirach os ymddengys iddynt na fydd hi’n debygol y gellir cychwyn swyddogaethau SLIAC yn effeithiol ar ddiwedd y cyfnod cychwynnol o 24 mis. Nid penderfyniad i Weinidogion

Cymru ar eu pen eu hunain yw hwn, ac i'w gydbwyso, bydd angen cymeradwyaeth y Senedd i roi dyddiad newydd. Bwriad y ddarpariaeth gyfan hon yw adlewyrchu ein hawydd i sicrhau bod SLIAC yn cael blaenoriaeth a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i'w sefydlu'n gyflym ond gan gydnabod y gall ffactorau allanol amharu ar yr amserlen a fwriedir.

# RHAN 3 – TARGEDAU BIOAMRYWIAETH ETC.

### *Cyflwyniad*

3.284 Prif ddiben y Rhan hon o'r Bil yw ysgogi camau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. Bydd y Bil yn cyflawni hyn drwy gyflwyno pwerau i osod targedau er mwyn sbarduno lefel yr uchelgais a'r llwybr sydd ei angen i ymateb i'r argyfwng natur.

3.285 Amcanion y Rhan hon o'r Bil yw:

- Cael Gweinidogion Cymru i osod targedau statudol sy'n gosod y llwybr ar gyfer gwella ac yn llywio'r camau sydd eu hangen i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth neu i adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth.
- Cryfhau swyddogaethau cynllunio, monitro ac adrodd Gweinidogion Cymru yn Neddf 2016 er mwyn darparu atebolrwydd clir a thryloywder wrth gyflawni dros fioamrywiaeth.
- Codi ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau iddi.

3.286 Gyda'i gilydd, nod y pwyntiau bwled uchod yw cyflawni camau trawsnewidiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yng Nghymru.

## Crynodeb o'r darpariaethau

3.287 Gan gydnabod yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, mae'r darpariaethau o fewn Rhan 3 yn canolbwyntio ar alluogi camau gweithredu i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru ac i gynnal a gwella bioamrywiaeth er mwyn rhoi natur ar lwybr tuag at adferiad er budd pobl yng Nghymru.

3.288 Bydd y Bil yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf 2016 i gyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth fel a ganlyn:

- Pŵer newydd i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth mewn rheoliadau, ar yr amod eu bod yn fodlon y byddai cyrraedd y targed yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth, yn enwedig drwy gynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gwella gwydnwch ecosystemau neu gynyddu amrywiaeth enetig.
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed tymor byr a thymor hir ar gyfer y meysydd blaenoriaeth (a) lleihau’r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol; a (b) rheoli ecosystemau’n effeithiol a gosod o leiaf un targed yn y ddau faes blaenoriaeth (c) lleihau llygredd a (d) ansawdd y dystiolaeth sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso, ac i osod drafft o'r rheoliadau targed hynny gerbron y Senedd o fewn dwy flynedd ar ôl rhoi cydsyniad Brenhinol i’r Bil.
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu effeithlonrwydd yr holl dargedau cyfredol o leiaf unwaith bob deng mlynedd i weld a fyddai targedau eraill yn cyfrannu’n well at atal neu wrthdroi’r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth. Os daw adolygiad i’r casgliad y byddai targedau eraill yn fwy effeithiol, yna rhaid i Weinidogion Cymru osod fersiwn ddrafft o’r targedau hynny gerbron y Senedd o fewn dwy flynedd ar ôl yr adolygiad.
- Gwella dyletswyddau cynllunio ac adrodd Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf 2016 drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnwys yn eu cynllun sy’n ofynnol gan adran 6(6) o’r Ddeddf honno:
    - y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i wireddu gweledigaeth GBF 2050;
    - cynigion ar gyfer meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru;

    - y camau y bwriadant eu cymryd i gyflawni targedau bioamrywiaeth;
    - sut bydd y targedau, o'u cyflawni, yn cyfrannu at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth;
    - y camau y maent yn cynnig eu cymryd i gadw at y safon a bennir mewn targed ar ôl ei gyflawni; a
    - pha gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth.
- Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ymgynghori â SLIAC, cymhwyso egwyddorion SMNR ac ymgynghori â'r personau neu'r cyrff hynny y maent yn ystyried bod ganddynt fuddiant mewn materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth ac aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, wrth baratoi eu cynllun adran 6. Rhaid i adroddiad sy'n crynhoi'r ymgynghori a gynhaliwyd ac unrhyw sylwadau a gafwyd gael ei gyhoeddi hefyd.
- Yn ogystal, rhaid i adroddiadau Gweinidogion Cymru o dan adran 6(7) o Ddeddf 2016 fonitro a chofnodi'r cynnydd at gyflawni'r targedau, ac ychwanegu adroddiad gwerthuso newydd sy'n asesu effaith ac effeithiolrwydd y polisïau a'r camau gweithredu yng nghynllun adran 6(6) Gweinidogion Cymru.
- Pŵer i Weinidogion Cymru, mewn rheoliadau, ddynodi awdurdodau cyhoeddus (a ddiffinnir yn adran newydd 6(11) o Ddeddf 2016) gan ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hynny gymryd camau gweithredu i gyfrannu at gyflawni'r targed bioamrywiaeth y maent wedi'u dynodi ar ei gyfer, a
- Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth.

3.289 Ar y cyd, mae'r darpariaethau hyn, ochr yn ochr â'r ddarpariaeth bresennol yn Rhan 1 o Ddeddf 2016, yn darparu fframwaith i ni fynd i'r afael â'r argyfwng natur, a chyfeirir at y fframwaith hwn drwy gydol y

Memorandwm Esboniadol hwn fel y "fframwaith natur-bositif”. Diben y fframwaith natur-bositif hwn yw darparu llwybr i Gymru wireddu gweledigaeth GBF 2050 sef, erbyn 2050, fod bioamrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, ei gadw, ei adfer a’i ddefnyddio’n ddoeth, gan gadw gwasanaethau ecosystem, cynnal planed iach a chyflawni buddion sy’n hanfodol i’r holl bobl.

3.290 Yn unol â Rheol Sefydlog 26.6C y Senedd, mae Atodiad 3 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn nodi geiriad Deddf 2016 fel y'i diwygiwyd gan y Bil.

## *Darpariaethau manwl*

3.291 Bydd adran 35(1) o'r Bil yn mewnosod fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth yn Rhan 1 o Ddeddf 2016 fel adrannau 6B i 6I newydd o'r Ddeddf honno. Mae'r adrannau y cyfeirir atynt isod, oni nodir yn wahanol, yn cyfeirio at yr adrannau newydd a fewnosodwyd yn Neddf 2016 gan y Bil.

## *Gosod targedau bioamrywiaeth*

**Pŵer Gweinidogion Cymru i osod targedau bioamrywiaeth**

3.292 Mae adran 6B yn rhoi pŵer cyffredinol i Weinidogion Cymru osod, mewn rheoliadau, dargedau mewn perthynas ag unrhyw fater sy’n ymwneud â bioamrywiaeth, sy'n cynnwys mynd i’r afael â cholli bioamrywiaeth a sbardunau colli bioamrywiaeth yng Nghymru.

3.293 Fodd bynnag, caiff Gweinidogion Cymru ond arfer y pŵer hwn os ydynt o'r farn y bydd cyrraedd y targed yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth yng Nghymru, yn enwedig drwy un neu fwy o'r elfennau sylfaenol canlynol o gadwraeth bioamrywiaeth ac adfer natur:

a. cynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol,

b. gwella gwydnwch ecosystemau, neu
c. gynyddu amrywiaeth enetig.

3.294 Bydd dyletswydd Gweinidogion Cymru yn adran 6(1) o Ddeddf 2016 yn cael ei chyflawni wrth arfer y pŵer hwn ac, fel y cyfryw, rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer hwn i osod targedau bioamrywiaeth mewn ffordd sy'n ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

3.295 Y bwriad yw datblygu targedau i alinio, lle bo hynny'n berthnasol, â'r CBD. Ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu alinio â'r GBF, a ddatblygwyd i fynd i'r afael â sbardunau allweddol colli bioamrywiaeth, ac mae'n cydnabod bod rhaid datblygu targedau mewn ffordd systematig i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Bydd angen i dargedau nid yn unig adlewyrchu elfennau bioffisegol bioamrywiaeth ond hefyd fynd i'r afael â'r sbardunau, y pwysau a'r ysgogiadau ehangach er mwyn mynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth.

3.296 Wrth ystyried a fyddai targed yn cyfrannu at gynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gwella gwydnwch ecosystemau neu gynyddu amrywiaeth enetig, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r rhestr a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf 2016. Dyma restr o'r organebau a'r cynefinoedd pwysicaf at ddibenion cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

3.297 Mae'r Bil yn diffinio rhywogaethau brodorol fel unrhyw rywogaeth sy'n digwydd yn naturiol neu sydd wedi digwydd yn naturiol yn y gorffennol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rhywogaethau mudol (y rhai sy'n bridio a'r rhai nad ydynt yn bridio) a gwladychwyr naturiol sy'n digwydd yn rheolaidd, a rhywogaethau sydd wedi'u hailgyflwyno yng Nghymru ar ôl difodiant yn y gorffennol. Ystyr coloneiddwyr naturiol yw rhywogaethau a gyrhaeddodd Gymru ar eu pennau eu hunain ac sydd wedi sefydlu, gan gynnwys y rhai sy'n dod yn rhywogaethau mudol. Felly, mae hyn yn eithrio rhywogaethau estron goresgynnol rhag cael eu cynnwys mewn targedau i gynyddu

toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gan na ddylai unrhyw dargedau gyfrannu at gynnydd mewn rhywogaethau estron goresgynnol.

3.298 Er mwyn sicrhau bod y targedau'n sbarduno'r newid angenrheidiol, dylai targedau ddilyn y meini prawf CAMPUS, sy'n golygu y dylent fod yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.[64,65] Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i bob targed:

- bennu safon i’w chyflawni, y mae'n rhaid gallu ei mesur yn wrthrychol (adran 6B(4)(a)),
- bod yn gyraeddadwy (adran 6D(4)),
- cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth (adran 6B(2)), a
- nodi erbyn pa ddyddiad y dylid ei gyflawni (adran 6B(4)(b)).

3.299 Er mwyn hwyluso'r gwaith o fonitro'r targedau, rhaid i'r rheoliadau gynnwys darpariaeth ynghylch sut i fesur cynnydd tuag at gyflawni safon, ac a yw safon wedi'i chyflawni, a nodi dangosyddion fel modd o fesur cyflawniad targedau. Gweler rhagor o wybodaeth am ddangosyddion yn yr adran *Monitro ac adrodd ar dargedau bioamrywiaeth* isod.

3.300 Mae hyblygrwydd o fewn y pŵer hwn i wneud rheoliadau i osod targedau sy'n seiliedig ar ganlyniadau neu gamau gweithredu. Mae targedau sy'n seiliedig ar gamau gweithredu yn canolbwyntio ar gamau gweithredu ymarferol sy'n seiliedig ar ddull rheoli addasol, boed hynny'n atal gweithgareddau penodol, ehangu eraill neu wneud newidiadau i'r ffordd rydym yn ymgymryd â gweithgareddau a allai arwain at golli bioamrywiaeth. Yn y cyfamser, mae targedau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn canolbwyntio ar nod terfynol a ddymunir, yn hytrach na'r camau sydd eu hangen i'w gyflawni. Bydd y math o darged a osodir yn dibynnu ar y dull gorau ar gyfer y targed penodol, a bydd yn pennu'r dull o ddatblygu'r targed.

---

64 Butchart et al 2016 Conservation Letters https://doi.org/10.1111/conl.12278
65 Green et al 2019 Conservation Biology https://doi.org/10.1111/cobi.13322

**Dyletswydd i osod targedau mewn meysydd blaenoriaeth**

3.301 Mae adran 6C yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod rheoliadau drafft gerbron y Senedd o fewn dwy flynedd i'r dyddiad y rhoddir Cydsyniad Brenhinol i'r Bil. Dylai'r rhain osod targedau mewn perthynas â'r meysydd blaenoriaeth canlynol:

(a) lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol;

(b) rheoli ecosystemau yn effeithiol

(c) lleihau llygredd, ac

(d) ansawdd y dystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso.

3.302 Datblygwyd y meysydd blaenoriaeth hyn yn dilyn ymarfer blaenoriaethu helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid mewn perthynas â 23 targed y GBF. Mae'r meysydd blaenoriaeth hyn yn seiliedig ar dargedau 4, 2 a 3, 7, 14 a 21 y GBF yn y drefn honno[66]. Diben y meysydd blaenoriaeth hyn yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n blaenoriaethu gosod targedau yn y meysydd y maent yn credu yw'r rhai pwysicaf ar gyfer bioamrywiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd.

3.303 Mae adran 6C yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targed tymor byr a thymor hir ar gyfer y meysydd blaenoriaeth (a) lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol; a (b) rheoli ecosystemau'n effeithiol a gosod o leiaf un targed yn y ddau faes blaenoriaeth (c) lleihau llygredd a (d) ansawdd y dystiolaeth sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso,

3.304 Mae targed yn un tymor byr os yw'r dyddiad ar gyfer ei gyflawni lai na 15 mlynedd ar ôl gosod y targed. Mae targed yn un tymor hir os yw'r dyddiad ar gyfer ei gyflawni o leiaf 15 mlynedd ar ôl dyddiad gosod y targed

[66] Targedau 2030 (gyda Nodiadau Cyfarwyddyd)

3.305 Rhaid i unrhyw dargedau a osodir yn y meysydd blaenoriaeth gyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth, yn ogystal â cheisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau yn unol â'r ddyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf 2016.

*Lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol*

3.306 Mae'r maes blaenoriaeth hwn yn bwysig oherwydd, er bod rhai achosion o ddiflannu o ganlyniad i brosesau naturiol, mae gweithredoedd dynol wedi cynyddu'n fawr cyfraddau diflannu cyfredol a'r risg yng Nghymru. Fel y nodwyd yn gynharach, mae Cymru ymysg y gwledydd ar y Ddaear sydd wedi gweld ei natur yn teneuo fwyaf. Mae'r cynnydd byd-eang mewn diflaniad a risg diflaniad hefyd yn cyfrannu at ddirywiad amrywiaeth enetig sy'n hanfodol ar gyfer sefydlogrwydd, addasrwydd a chydnerthedd hirdymor bioamrywiaeth, ar lefel rhywogaethau ac ecosystemau, ac mae'n cefnogi'r ddarpariaeth barhaus o gyfraniadau natur i bobl[67].

3.307 Mae'r risg o ddiflannu yn golygu'r tebygolrwydd y gallai rhywogaeth sy'n frodorol i Gymru ddiflannu o'r gwyllt. Asesir hyn trwy fesur newidiadau yn ei thoreithrwydd, gan gynnwys maint, hyfywedd a thuedd y boblogaeth, a'i gwasgariad, gan gynnwys ei dosbarthiad daearyddol a cysylltedd ei chynefinoedd ledled Cymru. Mae'r risg o ddiflannu yn adlewyrchu effeithiau cronnus gwasgfeydd megis colli cynefin, dirywiad cynefin, y newid yn yr hinsawdd, llygredd, rhywogaethau goresgynnol a'r newid mewn defnydd tir, ac fe'i defnyddir i lywio blaenoriaethau a gweithredoedd cadwraeth o dan fframweithiau bioamrywiaeth ac adfer natur Cymru.

3.308 Mae lleihau'r risg y gall rhywogaeth frodorol ddiflannu yn cyfeirio at fesurau ar gyfer rhwystro'r rhywogaeth rhag symud i gategori risg diflaniad uwch neu wella ei statws os yw eisoes mewn perygl. Mae hyn yn gyson â'r ymagwedd a ddilynir gan Restr Goch Rhywogaethau dan Fygythiad

[67] Targed 4

Undeb Rhyngwladol Cadwraeth Natur (IUCN) a chyda Tharged 4 y GBF. Y pwyslais yw lleihau'r tebygolrwydd y gwnaiff ddiflannu a lleihau'r gwasgfeydd sylfaenol – megis colli cynefin, llygredd neu'r newid yn yr hinsawdd – sy'n cynyddu'r risg honno. Mae hynny'n sicrhau ein bod yn ceisio atal diflaniadau rhag digwydd yn ogystal â gwella hyfywedd tymor hir y rhywogaeth a'r rhagolygon y gall y boblogaeth ymadfer.

*Rheoli ecosystemau yn effeithiol*

3.309 Mae'r maes blaenoriaeth hwn yn seiliedig ar darged y GBF i adfer 30% o'r holl ecosystemau diraddiedig ac i warchod a rheoli 30% o'n tir, ein dyfroedd croyw a'n moroedd erbyn 2030. Mae newid ecosystemau a diraddio cynefinoedd yn un o brif ysgogwyr uniongyrchol colli bioamrywiaeth yng Nghymru, ac adfer ecosystemau yw'r broses sydd â'r nod o wrthdroi'r difrod hwn.[3]

3.310 Mae adfer ecosystemau yn cyfeirio at y broses o reoli adferiad ecosystem sydd wedi'i diraddio, ei difrodi neu ei dinistrio. Mae'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) wedi datblygu set o egwyddorion ar adfer ecolegol, ac mae llawer ohonynt yn gydnaws â'n deddfwriaeth a'n polisi ni megis y fframwaith yn adrannau 4 a 6(2) o Ddeddf 2016 ar gyfer gwydnwch ecosystemau.[4]

3.311 Mae adfer ecosystemau yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, a ddefnyddir ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd, sydd â'r nod o atgyweirio ecosystemau diraddiedig o bob math ac mewn gwahanol gyflwr o ran dirywiad. Mae'r broses yn ceisio adfer uniondeb a gweithrediad ecosystemau drwy greu/ail-greu a rheoli cynefinoedd a bywyd gwyllt cysylltiedig i gyflwr mwy naturiol blaenorol sy'n cefnogi lefelau uwch o fioamrywiaeth. Mae ecosystemau o'r fath, drwy fod yn fwy amrywiol, yn

[3] Principles for ecosystem restoration to guide the United Nations Decade 2021–2030TP26053-SoN-Wales-summary-report-v10.pdf

[4] TP26053-SoN-Wales-summary-report-v10.pdf

fwy helaeth, yn fwy cysylltiedig ac mewn cyflwr gwell, yn fwy addasadwy ac yn gydnerth i newidiadau naturiol a dynol ac yn gallu parhau i ddarparu ystod o wasanaethau neu fanteision ecosystem pwysig ar gyfer er ein lles ni.

3.312 Mae ardaloedd gwarchodedig yn golofn hanfodol ar gyfer cadwraeth ac adferiad natur, ac mae momentwm byd-eang sylweddol wedi ffurfio o amgylch eu dynodiad. Mae ardaloedd gwarchodedig a reolir yn dda yn hanfodol i oroesiad rhywogaethau sydd dan fygythiad a chynefinoedd blaenoriaeth yng Nghymru.[5] Gallai diben targed hefyd gynnwys gwella maint a rheolaeth effeithiol ardaloedd gwarchodedig i gadw a gwneud mwy o le i natur ffynnu. Mae ardaloedd o'r fath wedi gwarchod craidd hanfodol o amrywiaeth fiolegol ledled Cymru, ond nid yw llawer ohonynt yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yn ddelfrydol, mae angen ehangu'r amddiffyniad i fod yn fwy cynrychiadol o fioamrywiaeth yng Nghymru ac i atal colli safleoedd agored i niwed o ansawdd da.

*Lleihau llygredd*

3.313 Llygredd yw un o brif ysgogwyr uniongyrchol colli bioamrywiaeth. Gall llygredd fod ar wahanol ffurfiau. Fodd bynnag, canfuwyd bod llygredd o faethynnau megis nitrogen a ffosfforws, plaladdwyr a chemegau a phlastigau peryglus iawn yn cael effeithiau arbennig o niweidiol ar fioamrywiaeth a swyddogaethau a gwasanaethau ecosystemau[68].

3.314 Mae'r Bil yn nodi na ellir gosod targed yn erbyn y maes blaenoriaeth hwn os caniateir gosod targed mewn perthynas â'r mater hwnnw o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. Mae hyn er mwyn ei gwneud yn glir nad oes unrhyw fwriad i ddyblygu pwerau neu ddyletswyddau gosod targedau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf honno.

---

[5] TP26053-SoN-Wales-summary-report-v10.pdf
68 Targed 7

*Ansawdd y dystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso*

3.315 Mae'r maes blaenoriaeth hwn yn seiliedig ar dargedau T14[69] a T21[70] y GBF i integreiddio bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ar bob lefel a sicrhau bod gwybodaeth ar gael ac yn hygyrch er mwyn llywio camau gweithredu ar fioamrywiaeth.

3.316 Amcan y maes blaenoriaeth hwn yw datblygu targedau sydd â'r nod o sicrhau bod y data, y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael am fioamrywiaeth ar gael yn rhwydd i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phobl berthnasol eraill i gefnogi polisi, cynllunio a phrosesau gwneud penderfyniadau gwybodus ar gyfer bioamrywiaeth, yn ogystal ag ar gyfer monitro, adolygu ac adrodd cynnydd wrth weithredu.

**Y broses o osod targedau**

3.317 Mae adran 6D yn darparu'r broses y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn wrth osod unrhyw darged wrth arfer eu pwerau gwneud rheoliadau yn adran 6B.

3.318 Cyn gosod targed mewn rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan arbenigwyr annibynnol. Wrth geisio barn arbenigwyr annibynnol, mae'n ofynnol o dan egwyddorion cyfraith gyhoeddus o ran gwneud penderfyniadau bod Gweinidogion Cymru'n ystyried cyngor o'r fath. Bydd ymgysylltu a chyd-gynllunio ag arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol wrth ddatblygu targedau, o ran y broses o osod targedau a'r targedau penodol. Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi sefydlu Panel anstatudol i Gynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth er mwyn cefnogi datblygu targedau. Mae'r Panel Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth wedi rhoi cyngor ar ddatblygu'r meysydd targed blaenoriaeth. Mae gofyniad hefyd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi

[69] Targed 14
[70] Targed 21

crynodeb o'r cyngor y maent wedi'i dderbyn, gyda'r bwriad o gynyddu tryloywder dros y broses o ddatblygu targedau.

3.319 Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gymhwyso'r egwyddorion SMNR yn adran 4 o Ddeddf 2016 wrth osod targedau, a fydd yn golygu, er enghraifft, ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd allu cyfrannu at wneud penderfyniad. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys cynnal rhyw fath o ymgynghoriad a gall hefyd gynnwys ystyried unrhyw ddangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd o dan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn berthnasol, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) diweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 8 o Ddeddf 2016, yr NNRP diweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 9 o Ddeddf 2016, a'r datganiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy diweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 4 o Ddeddf Amaethyddiaeth 2023, i'r graddau y mae'n ymwneud â bioamrywiaeth, ymysg eraill.

3.320 Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r ymgynghoriad ac unrhyw sylwadau a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad a gynhaliwyd.

3.321 Cyn y gall Gweinidogion Cymru osod targed, rhaid iddynt hefyd fod yn fodlon y gellir cyrraedd y targed sy'n cael ei osod neu ei ddiwygio e.e. y gellir cyflawni'r safon a bennwyd erbyn y dyddiad penodedig.

3.322 Nid oes angen dilyn y broses gosod targedau os yw'r rheoliadau ond yn diddymu targed sy'n bod eisoes ac sydd wedi'i gyflawni gan y byddai'r targed hwnnw eisoes wedi mynd trwy'r broses pan gafodd ei bennu ac nid oes angen ailadrodd y broses os y cyfan a wneir yw dileu'r targed o'r llyfr statud.

**Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyrraedd y targedau**

3.323 Mae adran 6E yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod y targedau a osodir mewn rheoliadau yn cael eu bodloni. Er mwyn

galluogi cyflawni'r ddyletswydd hon yn effeithiol, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu a thynnu ar holl ddarpariaethau'r fframwaith natur-bositif (yn ogystal â phwerau perthnasol eraill sydd ar gael iddynt) i gynllunio, monitro, gwerthuso ac adrodd ar gyflawni targedau yn effeithiol ochr yn ochr â darparu arweinyddiaeth ac ymgysylltiad effeithiol i gymryd camau trawsnewidiol i gyflawni'r targedau.

3.324 Mae hyn yn adlewyrchu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyrraedd targedau a osodwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (adran 4 o'r Ddeddf honno).

**Dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus a phŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi awdurdodau cyhoeddus i gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd targedau**

3.325 Mae adran 6F yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi, drwy reoliadau, awdurdod cyhoeddus o fewn yr is-adran (11) newydd o adran 6 o Ddeddf 2016, mewn perthynas â tharged a osodir o dan adran 6B. Dylid darllen y pŵer hwn gyda'r is-adrannau (2A) a (11) newydd o adran 6 o Ddeddf 2016 a fewnosodir gan adran 36(1) a (4) o'r Bil.

3.326 Mae is-adran (2A) o adran 6 o Ddeddf 2016 yn cyflwyno dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus o fewn is-adran (11) o'r adran honno, fel y byddant o dan ddyletswydd i gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd y targed y maent wedi'u dynodi ar ei gyfer os cânt eu dynodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o dan adran 6F.

3.327 Mae'r awdurdodau cyhoeddus o fewn is-adran (11) o adran 6 o Ddeddf 2016 yn cynnwys awdurdodau datganoledig yng Nghymru, ac eithrio SLIAC, oherwydd diwygio adran 6(9) o Ddeddf 2016 gan adran 36(4) o'r Bil, a'r awdurdodau hynny a gadwyd yn ôl pan nad oes gofyniad i gael cydsyniad Gweinidog y Goron i ddeddfu, megis ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth.

3.328 Mae'r adrannau hyn yn cydnabod, er mai Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am gyflawni'r targedau bioamrywiaeth, bod angen gweithredu ar draws y llywodraeth gyfan a'r gymdeithas gyfan i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Bydd y pŵer i ddynodi awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth.

3.329 Bwriedir i'r ddyletswydd i gyfrannu ategu'r ddyletswydd bresennol ar awdurdodau cyhoeddus yn adran 6(1) o Ddeddf 2016, sydd eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, o fewn adran 6(9) o'r Ddeddf honno, arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau. Bydd darparu ffocws ar gyfer cyflawni camau gweithredu bioamrywiaeth (h.y. targed penodol) hefyd yn darparu mwy o eglurder ar y cyfraniad penodol y gall awdurdodau cyhoeddus ei wneud tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydymffurfio â'u dyletswydd bresennol o dan adran 6(1).

3.330 Y bwriad y tu ôl i'r ddyletswydd newydd hon yw na fydd Gweinidogion Cymru ond yn cynnig dynodi awdurdod cyhoeddus y maent yn ystyried y gall, drwy eu swyddogaethau (ond heb effeithio ar arfer priodol y swyddogaethau hynny), gyfrannu'n ystyrlon at gyflawni targed. Fodd bynnag, cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cyhoeddus y maent yn bwriadu ei ddynodi a phartïon eraill â buddiant y maent yn eu hystyried yn briodol. Bydd hyn yn caniatáu i'r awdurdodau cyhoeddus hynny wneud sylwadau ynghylch a ydynt yn ystyried y gallant gymryd camau i gyfrannu at gyflawni targed.

3.331 Bydd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus dynodedig adrodd ar y camau y maent wedi'u cymryd yn unol â'r ddyletswydd hon i gyfrannu, a fydd yn helpu i oruchwylio cydymffurfiaeth a hefyd yn helpu Gweinidogion Cymru i fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth. Er mwyn osgoi cynyddu'r baich adrodd ar awdurdodau cyhoeddus dynodedig, ni fydd angen iddynt gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad ychwanegol. Yn hytrach, bydd yn ofynnol iddynt, yn unol â diwygiadau a wneir gan adran

38(1) o'r Bil, adrodd ar eu gweithredoedd drwy'r adroddiadau tair blynedd presennol o dan adran 6(7) o Ddeddf 2016.

3.332 Er mwyn cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus dynodedig i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon i gyfrannu, mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu yn diweddaru eu canllawiau ar gyfer y ddyletswydd adran 6.

3.333 Mae adran 36(2) o'r Bil yn diwygio is-adran (5)(d) o adran 6 o Ddeddf 2016 i gyfyngu'r awdurdodau cyhoeddus (i'r rhai a nodir yn adran 6(11) o'r Ddeddf honno) y mae'n ofynnol iddynt roi sylw i'r adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 6(1).

**Cynlluniau Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

3.334 Mae adran 37 o'r Bil yn diwygio dyletswydd Gweinidogion Cymru i lunio cynllun o dan adran 6(6) o Ddeddf 2016, sydd ar hyn o bryd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 6(1) i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

3.335 Bydd yr is-adran (6A) newydd o adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol ar waith ac ymgynghori â SLIAC ac unrhyw bersonau neu gyrff y maent yn ystyried bod ganddynt fuddiant mewn materion sy’n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru ac aelodau’r cyhoedd yng Nghymru, wrth iddynt baratoi eu cynllun adran 6 ac i gyhoeddi adroddiad yn crynhoi’r ymgynghoriad a gynhaliwyd wrth baratoi’r cynllun ac unrhyw sylwadau a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad. Rhoddir pwyslais penodol ar ymgynghori â SLIAC fel cydnabyddiaeth o’i buddiant a’i harbenigedd mewn perthynas â’r cynlluniau hyn a’r fframwaith gosod targedau yn

ehangach, ac mae'n gydnaws â'r gofynion ar Weinidogion Cymru i anfon adroddiadau at SLIAC.

3.336 Mae is-adran (6B) newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi yn eu cynllun adran 6(6):

(a) pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni gweledigaeth GBF 2050 ("by 2050, biodiversity is valued, conserved, restored and wisely used, maintaining ecosystem services, sustaining a health planet and delivering benefits essential for all people");
(b) cynigion ar gyfer meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru;
(c) y camau y bwriadant eu cymryd i sicrhau bod y targedau bioamrywiaeth yn cael eu cyflawni a phryd y cynigiant weithredu;
(d) sut bydd y targedau yn cyfrannu at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth;
(e) sut y bydd y targedau, o'u cyflawni, yn cadw'r safon honno; a
(f) pha gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo ymwybyddiaeth am fioamrywiaeth.

3.337 Mae'n bwysig bod y camau y mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu eu cymryd i gyflawni'r targedau yn y rheoliadau wedi'u nodi, er mwyn darparu cyfeiriad ar gyfer gweithgarwch, tryloywder ynghylch eu dull arfaethedig, ynghyd â manylion y llinell sylfaen ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd. Wrth wneud hynny, bydd y cynllun yn darparu'r dull strategol sy'n gosod y llwybr i gefnogi cyflawni a gweithredu yn erbyn y targedau gan awdurdodau cyhoeddus, rhanddeiliaid eraill a chymdeithas yn ehangach.

3.338 Wrth nodi'r dull arfaethedig, dylai'r cynllun nodi gweledigaeth natur-bositif hirdymor sy'n gyson â gweledigaeth GBF 2050, ond dylai hefyd adlewyrchu'r hyn y dylid ei gyflawni o fewn cyfnod amser pob cynllun. Rhaid i gynllun adran 6 Gweinidogion Cymru nodi'r polisïau a'r cynigion y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod y targed yn cael ei gyflawni ar gyfer y cyfnod adrodd adran 6 sydd ar ddod ar gyfer y targedau bioamrywiaeth.

3.339 Ochr yn ochr â bioamrywiaeth, mae gan Lywodraeth Cymru nifer o flaenoriaethau cystadleuol ar gyfer ein tir a'n hamgylchedd morol megis cyflawni targedau sero net, cynhyrchu bwyd, cefnogi cymunedau a llesiant. Mae'r GBF[71] yn cydnabod yr angen am gynllunio gofodol integredig a/neu brosesau rheoli effeithiol i ddadansoddi ac yna dyrannu dosbarthiad gofodol ac amserol gweithgareddau ym mhob amgylchedd yn effeithiol er mwyn cyflawni amcanion cymdeithasol, ecolegol ac economaidd amrywiol. O ystyried y gofynion cystadleuol, dylai'r cynllun adran 6(6) fabwysiadu dull cynllunio gofodol integredig a chyfranogol i ddod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd i ystyried sut rydym yn cyflawni bioamrywiaeth ar lawr gwlad.

3.340 Bydd y cynllun yn darparu sail ar gyfer adrodd a gwerthuso i gynghori ar gynnydd a chyfleoedd posibl ar gyfer gwell dull yn erbyn y targedau.

## Monitro ac adrodd ar dargedau bioamrywiaeth

### *Cyflwyniad*

3.341 Bwriad y fframwaith natur-bositif yw ysgogi uchelgais Gweinidogion Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, i greu dyfodol cynaliadwy i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol a chyfrannu at y nodau llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn y cyd-destun hwnnw, mae darpariaethau ar gyfer cylch monitro ac adrodd effeithiol, a gefnogir gan werthuso craff, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Cymru ar y trywydd iawn i gyflawni ei dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r fframwaith natur-bositif fel y darperir ar ei gyfer o dan Ddeddf 2016 (fel y'i diwygiwyd gan y Bil), a bod polisïau a ddefnyddir wrth gyflawni'r camau gweithredu hyn yn gwneud hynny'n effeithiol.

3.342 Mae cylch monitro ac adrodd clir a hygyrch yn cefnogi ymhellach ymgysylltu â'r cyhoedd, awdurdodau cyhoeddus, grwpiau â buddiant a'r

[71] Targed 1

Senedd. Mae'n hanfodol hefyd er mwyn asesu effeithiolrwydd y polisi ac i ddarparu sylfaen bwysig sy'n tyfu o dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi, drwy wella gwybodaeth, arloesi a nodi tueddiadau.

3.343 Mae'n bwysig i'r gwaith monitro ac adrodd gael ei strwythuro mewn ffordd sy'n cefnogi gofyniad Gweinidogion Cymru i adrodd i ymrwymiadau'r DU ac ymrwymiadau rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, Strategaeth Bioamrywiaeth Genedlaethol a Chynllun Gweithredu'r DU a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol.

***Dangosyddion i fesur targedau bioamrywiaeth***

3.344 Mae adran 6B(5) yn ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau a wneir o dan adran 6B yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut i fesur cynnydd tuag at gyflawni safon darged, a yw safon wedi'i chyflawni ac i bennu dangosyddion fel modd o fesur y pethau hynny.

3.345 Bydd dangosyddion yn cael eu sefydlu fel agweddau mesuradwy ar darged bioamrywiaeth. Mae dangosydd yn darparu'r metrigau sydd eu hangen i olrhain newidiadau o fewn maes targed, yn ogystal â chefnogi polisi a gwneud penderfyniadau.

3.346 Er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei gofnodi'n gywir ac yn effeithiol, rhaid i bob targed a osodir mewn is-ddeddfwriaeth fod yn gydnaws ag o leiaf un dangosydd. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cyflawnrwydd, gall targed fod yn gydnaws â mwy nag un dangosydd ond, yn yr achos hwn, gyda'i gilydd rhaid i'r dangosyddion fod yn gwbl gynrychiadol o'r targed er mwyn caniatáu i gynnydd gael ei asesu'n gywir.

3.347 Er enghraifft, y ffordd orau o fesur targed cysylltedd cynefin a osodwyd o dan faes blaenoriaeth 'rheoli ecosystemau yn effeithiol' yw drwy ddangosyddion lluosog wedi'u rhannu rhwng gwahanol fathau o gynefinoedd. Un dangosydd yn mesur cysylltedd cynefinoedd daearol ac

un arall yn canolbwyntio ar yr amgylchedd morol. Byddai hyn yn caniatáu i'r dangosyddion adlewyrchu gwahaniaethau sylfaenol rhwng cynefinoedd daearol a morol a hefyd ymgorffori gwahanol ddulliau monitro a gymhwysir yn gyffredin ym mhob amgylchedd. Enghraifft arall fyddai targed llygredd dŵr croyw a osodwyd ar gyfer y maes blaenoriaeth 'lleihau llygredd'. Y ffordd orau o fesur y targed hwn yw drwy ddangosyddion sy'n gydnaws â phob un o'r dalgylchoedd mawr yng Nghymru i ddelio'n well ag amrywiadau ar draws pob dalgylch a chynnwys mathau o gynefinoedd, gwahanol ddefnydd o dir, rheolaeth ac ardaloedd trefol.

3.348 Rhaid i bob targed fod ag un dangosydd sylfaenol unigryw. Yn ddiweddarach, efallai y bydd dangosyddion anstatudol pellach yn cael eu gosod i gyd-fynd â'r prif ddangosydd a osodir mewn rheoliadau ar gyfer pob targed i lywio'r mesur cynnydd yn well.

3.349 Gall dangosyddion gwmpasu Cymru gyfan neu ran o Gymru fel sy'n berthnasol i'r targed y maent yn gydnaws ag ef. Yn ogystal, lle bo hynny'n berthnasol, gall dangosyddion dynnu ar ddata a gesglir y tu allan i Gymru. Enghraifft o hyn fyddai'r defnydd o ddata'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar wariant sefydliadau amgylcheddol nid-er-elw ar adfer natur sy'n cael ei gasglu o bencadlys corfforaethol y tu allan i Gymru. Enghraifft arall yw data llifogydd a gesglir ar afonydd trawsffiniol, megis Afon Gwy, sy'n arwydd o berfformiad ymyriadau rheoli llifogydd naturiol sy'n digwydd yng Nghymru.

3.350 Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac ymateboldeb y dangosyddion i heriau a newidiadau i ddulliau monitro yn y dyfodol, ac i ystyried cynnydd, caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, ddiwygio'r dangosyddion a'r targedau drwy ddiwygio a chyhoeddi datganiad anstatudol o ddangosyddion.

*Camau i'w cymryd wrth lunio neu ddiwygio dangosyddion*

3.351 Wrth greu'r dangosyddion hyn, y bwriad yw trosoli setiau data a chyfundrefnau monitro presennol lle bynnag y bo modd. Mae hyn er mwyn

lleihau'r baich adrodd a chadw adnoddau ar gyfer cyflawni'r polisïau a fydd yn cefnogi cyflawni'r targedau. Mae gan y mwyafrif o dargedau'r GBF ddangosyddion sy’n gydnaws â hwy yn barod. Mae'r dangosyddion ar lefel y GBF ar gyfer llofnodwyr i'w defnyddio wrth adrodd i'r CBD ar gynnydd. Am y rheswm hwn, mae'r JNCC wedi datblygu cyfres o Ddangosyddion Bioamrywiaeth y DU (UKBI) at ddefnydd y DU wrth adrodd i’r CBD. Lle bynnag y bo modd, bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio defnyddio fersiynau wedi'u dadgyfuno o UKBI. Bydd defnyddio dangosyddion sy’n gydnaws â'r dangosyddion UKBI a'r GBF yn lleihau’r baich adrodd.

3.352 Fel y nodwyd yn flaenorol, wrth wneud rheoliadau rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn unol ag adran 6D(4), a fydd yr un mor berthnasol i'r broses o bennu dangosyddion ar gyfer pob targed o dan adran 6B(5).

3.353 Mae enghreifftiau ychwanegol o faterion eraill i'w hystyried yn cynnwys unrhyw adroddiadau neu ystadegau o bolisïau SLM neu raglenni cymorth a chymhorthdal amaethyddol Cymru.

3.354 Bydd ystyried y materion uchod yn sicrhau bod y dangosyddion bioamrywiaeth a'r adroddiadau yn cyd-fynd o ran strwythur â'r adroddiadau dangosyddion a ddefnyddir ar lefel y DU ac yn rhyngwladol. Yn ogystal, bydd hyn yn helpu'r dangosyddion a'r adroddiadau i ystyried nodau a pholisïau presennol lle bo hynny'n berthnasol.

3.355 Wrth nodi dangosydd, bydd Gweinidogion Cymru yn cynnwys llinell sylfaen ar gyfer y dangosydd hwnnw. Y llinell sylfaen hon fydd y pwynt o ble mae unrhyw gynnydd (neu ddirywiad pellach) yn cael ei fesur.

**Adroddiadau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

3.356 Mae adran 38 o'r Bil yn diwygio adran 6(7) o Ddeddf 2016. Ar hyn o bryd, mae adran 6(7) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus

gyhoeddi adroddiad, bob tair blynedd, yn nodi pa gamau y mae wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd adran 6.

3.357 Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r targedau a osodir mewn rheoliadau o dan adran 6B ac a ydynt yn debygol o gael eu cyflawni. Dyma'r mecanwaith y bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddefnyddio i adrodd ar eu cynnydd tuag at gyflawni'r targedau, drwy gyfeirio at y dangosyddion.

3.358 Pan fo awdurdod cyhoeddus wedi'i ddynodi mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6F, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus hwnnw hefyd gynnwys yn ei adroddiad adran 6(7) pa gamau gweithredu y mae wedi'u cymryd i gyfrannu at gyflawni'r targed y mae wedi'i ddynodi mewn perthynas ag ef.

3.359 Gall yr adroddiad adran 6(7) ymdrin â materion eraill hefyd, megis y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol mewn perthynas â chynnal a gwella bioamrywiaeth, a’r cyfraniad a wnaed gan effaith y cynnydd tuag at gyflawni'r targedau. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru fynegi sut y mae'r targedau yn sbarduno uchelgais a chyflawni polisi ochr yn ochr â dangos y cysylltiadau cynhenid rhwng polisïau amgylcheddol. Yn ogystal, bydd hyn hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi sut y mae'r targedau yn ymwneud ag amcanion ehangach Llywodraeth Cymru, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, y ddyletswydd rheoli tir yn gynaliadwy, neu nod sero net 2050 Cymru.

3.360 Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu ar gyfer asesu'r cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod adrodd tair blynedd a'r cynnydd cronnus ers i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym.

3.361 Gwneir darpariaeth bellach i’w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon yr adroddiadau hyn i SLIAC cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt eu cyhoeddi. Mae anfon yr adroddiad hwn i’w drin yn yr un modd â chais am gyngor gan SLIAC o dan adran 13 o’r Bil. Diben ac effaith y darpariaethau hyn yw sicrhau y darperir copïau o’r adroddiadau i

SLIAC a’i bod yn gallu eu hystyried a rhoi adborth arnynt, o ystyried y buddiant a’r arbenigedd sylweddol sydd ganddi mewn perthynas â’r fframwaith targedau bioamrywiaeth. Mae gan SLIAC ddisgresiwn i benderfynu a yw’n angenrheidiol neu’n ddymunol ymateb. Os yw SLIAC yn penderfynu nad yw am ymateb i’r adroddiad, rhaid iddi ddarparu ei rhesymeg i Weinidogion Cymru.

**Datganiadau cwblhau targed**

3.362 Mae adran 6I yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi, a gosod gerbron y Senedd, ar neu cyn y dyddiad y mae'n rhaid cyflawni’r targed, ddatganiad sy'n nodi (fel y bo’n briodol):

- Bod y targed wedi'i gyflawni,
- Nad yw’r targed wedi'i gyflawni, neu
- Nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu canfod eto a yw'r targed wedi'i gyflawni.

3.363 Gelwir y datganiad hwn yn ddatganiad cwblhau targed. Mae'n darparu mecanwaith i Weinidogion Cymru gadarnhau i'r Senedd a ydynt wedi cyflawni targed h.y. a ydynt wedi cydymffurfio â'u dyletswydd yn adran 6E.

3.364 Pan nad yw targed wedi'i gyflawni, mae gan Weinidogion Cymru chwe mis, o'r dyddiad y gosodwyd y datganiad, i osod gerbron y Senedd, a chyhoeddi, adroddiad yn manylu ar pam nad yw'r targed wedi'i gyflawni, pryd y maent yn credu y bydd y targed yn cael ei gyflawni, a pha gamau y byddant yn eu cymryd i gyflawni'r targed cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

3.365 Pan nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu penderfynu a yw targed wedi'i gyflawni, mae ganddynt chwe mis o'r dyddiad y gosodwyd y datganiad i osod gerbron y Senedd, a chyhoeddi, datganiad pellach sy'n cynnwys yr wybodaeth ofynnol (a yw'r targed wedi'i gyflawni neu neidio neu nad oes modd pennu eto a yw wedi'i gyflawni). Y bwriad gyda'r ddarpariaeth hon yw caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd rhag ofn nad yw

cylchoedd casglu data yn caniatáu i'r wybodaeth angenrheidiol fod ar gael yn rhwydd. Yn ogystal, mae'r cyfnod o chwe mis yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru gadarnhau a yw targed wedi'i gyflawni mewn gwirionedd os bydd ansicrwydd.

3.366 Diben y datganiad cwblhau targed yw sicrhau bod cyflawni targed yn cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu. Hefyd, pan nad yw targed wedi'i gyflawni, mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd i'r Senedd ac esbonio pam nad yw'r targed wedi'i gyflawni a'r camau y maent yn eu cymryd i'w gyflawni. Bwriad hyn yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn cael eu dwyn i gyfrif am gyflawni'r targedau a bod gan y Senedd gyfle priodol i graffu ar Lywodraeth Cymru.

**Adroddiad Gwerthuso**

3.367 Mae adran 39 o'r Bil yn mewnosod adran 6A newydd yn Neddf 2016. Mae'r adran 6A newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad gwerthuso sy'n amlinellu eu hasesiad o effaith ac effeithiolrwydd y cynigion a nodir yn eu cynlluniau adran 6 (fel sy'n ofynnol gan adran 6(6) a (6A)) a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar ganddynt a'r camau a gymerwyd yn unol â'r camau hynny.

3.368 Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad gwerthuso cyn diwedd 2031, ac yna bob tair blynedd o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Mae'r amserlen hon wedi'i dewis fel bod cylch cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso yn cyd-fynd â chyhoeddi'r adroddiad adran 6(7). Bwriad cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso ochr yn ochr ag adroddiad adran 6(7) yw darparu asesiad o bolisïau Gweinidogion Cymru sy'n cefnogi'r adolygiad o'r cynllun adran 6(6). Bwriad yr adroddiad adran 6(7) yw adrodd ar gamau gweithredu a gymerwyd a'r cynnydd a wnaed, a bwriad yr adroddiad gwerthuso yw asesu effeithiolrwydd y camau a'r cymorth hwnnw.

3.369 Y bwriad yw i'r adroddiad gwerthuso nodi'r dibenion y mae'r polisi neu'r rhaglen wedi'i rhoi ar waith ar eu cyfer ac a yw'r broses o weithredu

polisïau a rhaglenni yn cyflawni o ran effeithiolrwydd ond hefyd effeithlonrwydd (adnoddau), perthnasedd (cydnawsedd), a chynaliadwyedd fel y nodir yn y Magenta Book – Central Government guidance on evaluation[72]. Bydd yr adroddiad gwerthuso yn gwneud asesiad a yw'r dibenion y mae'r polisi neu'r rhaglen wedi'i gweithredu ar eu cyfer wedi'u cyflawni, ac i ba raddau y mae'r cymorth wedi cyfrannu at y ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

3.370 Os bydd yr asesiad yn barnu nad yw’r polisi wedi cyflawni diben, bwriedir i’r adroddiad gwerthuso gynnwys camau y dylid eu cymryd i unioni'r methiant. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys sut mae grantiau'n cael eu dyroddi. Efallai y bydd y gwerthusiad yn canfod nad yw'r cyfnod o amser a gwmpesir gan grantiau yn gydnaws ag ehangder y prosiectau sy'n cael eu cefnogi. Yn achos sefydlu coetir llydanddail, mae coed yn cael eu plannu fel eginblanhigion ac yn cymryd amser i dyfu. Mae'r eginblanhigion hefyd angen ymyriadau rheolaidd, megis torri, nes eu bod wedi'u sefydlu'n briodol. Gall prosiectau fel hyn elwa ar gylch ariannu hirach i ddarparu'r sicrwydd o gymorth ar gyfer cynnal a chadw. Yn achos creu gwlyptir, gall prosiectau o'r fath elwa ar fwy o gyfalaf ymlaen llaw oherwydd y costau adeiladu. Bydd yr asesiad yn asesu a yw'r mecanweithiau polisi'n addas i'r diben neu a oes angen eu haddasu, yn ogystal â darparu sylfaen o dystiolaeth i ystyried camau ychwanegol er mwyn cyflawni diben y cymorth.

3.371 Hefyd, caiff Gweinidogion Cymru gynnwys gwybodaeth arall yn yr adroddiad gwerthuso sy’n cael ei hystyried yn berthnasol i’r asesiad o effaith ac effeithiolrwydd y polisïau a'r rhaglenni yn ystod y cyfnod adrodd. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch a yw'r camau a gymerir o dan bolisi yn dal i fod yn addas, a ydynt wedi'u cymryd, wrthi’n cael eu cymryd, neu a yw’r ffordd y gweinyddir unrhyw bolisi yn effeithlon ac effeithiol.

72 HMT_Magenta_Book.pdf

3.372 Mae'r darpariaethau'n ceisio sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn effeithiol, bod atebolrwydd ac ymgysylltu priodol â'r Senedd, grwpiau buddiant ac eraill. Bydd yr adroddiad gwerthuso yn bwysig ar gyfer asesu effeithiolrwydd polisi ac i ddarparu sylfaen bwysig sy'n tyfu o dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi, er enghraifft, drwy wella gwybodaeth, arloesi a nodi tueddiadau.

3.373 Bydd yr adroddiad gwerthuso hefyd yn un o'r prif ffynonellau data ar gyfer asesu cydymffurfiaeth Gweinidogion Cymru â'u dyletswydd adran 6 i gynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru, a'u cefnogaeth i'r ddyletswydd honno.

3.374 Mae'r adroddiad gwerthuso hefyd wedi'i ychwanegu at y rhestr o ddogfennau y gall Gweinidogion Cymru eu diwygio gan reoliadau a wneir o dan adran 24 o Ddeddf 2016. Mae hyn er mwyn darparu hyblygrwydd os ystyrir wedyn bod cyfnod adrodd gwahanol ar gyfer yr adroddiad gwerthuso yn fwy priodol.

Yn yr un modd â chydag adroddiadau o dan adran 6 o Ddeddf 2016, gwneir darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon yr adroddiadau gwerthuso o dan yr adran hon i SLIAC cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Mae anfon yr adroddiad hwn hefyd i'w drin yn yr un modd â chais am gyngor gan SLIAC o dan adran 13 o'r Bil, ac mae gan SLIAC ddisgresiwn i benderfynu a yw am ymateb, ac os nad ydyw, rhaid iddi ddarparu ei rhesymeg i Weinidogion Cymru. Diben ac effaith y darpariaethau hyn yw cynnig cyfle i SLIAC ddarparu adborth ac argymhellion ar yr adroddiad gwerthuso, a allai fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth ystyried y fersiwn nesaf o'r cynllun adran 6.

**Adolygu targedau bioamrywiaeth**

3.375 Bydd tystiolaeth mewn perthynas â'n dealltwriaeth o fioamrywiaeth yn esblygu dros amser. Mae'n bwysig bod rheoliadau sy'n gosod targedau yn parhau i fod yn gyfredol ac yn addas i'r diben. Er mwyn sicrhau bod cynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth a osodwyd o dan y fframwaith

natur-bositif yn parhau i fod yn debygol, yn seiliedig ar dystiolaeth bresennol i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth, mae'n bwysig adolygu'r uchelgais targed o bryd i'w gilydd. Mae adran 6G yn rhoi darpariaeth ar gyfer adeg pan gaiff Gweinidogion Cymru adolygu'r targedau bioamrywiaeth a osodir o dan adran 6B, neu pan mae'n rhaid iddynt wneud hynny.

3.376 Mae dau fath o adolygiad: adolygiadau o dargedau unigol o dan is-adran (1) ac adolygiadau o bob targed cyfredol o dan is-adrannau (3), (4) a (5).

3.377 Caiff Gweinidogion Cymru adolygu targed unigol o bryd i'w gilydd, ond rhaid gwneud hynny os yw'n ymddangos iddynt efallai na fydd y targed yn cael ei gyflawni, neu efallai nad yw'r targed yn briodol mwyach. Pwrpas yr adolygiad yw ystyried a yw uchelgais y targed yn briodol o hyd ac a fydd yn dal i gyfrannu at atal a gwrthdroi'r colledion mewn bioamrywiaeth, yn ogystal ag ystyried a yw'r targed yn dal i fod yn gyraeddadwy.

3.378 Caiff Gweinidogion Cymru ystyried hefyd effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol o dro i dro a rhaid gwneud hynny o leiaf unwaith bob deng mlynedd (i fod yn gyson â'r GBF a'i olynyddion). Os na fydd adolygiad wedi'i gynnal erbyn diwedd 2041, yna rhaid i Weinidogion Cymru gynnal adolygiad a fydd yn dechrau'r terfyn amser o ddeng mlynedd ar gyfer yr adolygiad nesaf. Bydd angen cynnal adolygiad hefyd os nad yw targed wedi'i gyflawni.

3.379 Pwrpas yr adolygiad yw penderfynu a fyddai gosod rhagor o dargedau'n cyfrannu'n well at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth.

3.380 Wrth gynnal adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan bobl y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol a bod ganddynt arbenigedd perthnasol, a rhaid iddynt hefyd gyhoeddi crynodeb o'r cyngor a gawsant.

3.381 Ar ôl cynnal adolygiad, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd Cymru, a chyhoeddi, datganiad yn nodi eu casgliadau. Os yw'r adolygiad o dan is-adran (1) (adolygu targed unigol) yn dod i'r casgliad na fydd targed yn cael ei gyflawni neu nad yw'n briodol mwyach, rhaid i'r datganiad nodi'r rhesymau dros y casgliad hwnnw a'r camau, os o gwbl, mae Gweinidogion Cymru'n bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r targed o ganlyniad i'r adolygiad. Os yw'r adolygiad o dan is-adrannau (3), (4) neu (5) (adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau) yn dangos y dylid gosod rhagor o dargedau, yna rhaid i Weinidogion Cymru osod fersiwn ddrafft o reoliadau o'r fath gerbron y Senedd o fewn dwy flynedd ar ôl dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwnnw.

**Dirymu neu ostwng targedau**

3.382 Gall y broses adolygu arwain at gasgliad y dylid diwygio neu ddirymu targed, neu y gellir cyflawni targed o hyd os caiff canllawiau a pholisïau eu gwella. O ran diwygio neu ddirymu targed o bosibl, effaith adran 18 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yw y gellir defnyddio pŵer i wneud rheoliadau, fel yr un yn adran 6B, i ddiwygio neu ddirymu'r rheoliadau hynny hefyd.

3.383 Diben adran 6H felly yw cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru yn adran 6B i ddiwygio targed er mwyn ei wneud yn haws i'w gyflawni neu i ddirymu targed yn gyfan gwbl. Yn unol â hynny, ni all Gweinidogion Cymru leihau safon targed na dirymu targed oni bai eu bod yn fodlon:

- oherwydd newidiadau i'r dystiolaeth yr oeddent yn rhoi sylw iddi wrth osod y targed presennol, na fyddai ei gyflawni yn cyfrannu at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau mewn tystiolaeth wyddonol neu newidiadau i'r CBD,
- na fyddai cyflawni'r targed presennol o unrhyw fudd sylweddol o gymharu â pheidio â chyflawni'r targed neu gyflawni targed is,

- yn sgil newidiadau mewn amgylchiadau ers gosod y targed presennol, y byddai costau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd neu gostau eraill cyflawni’r targed yn anghymesur â’r manteision, neu
- nad oes modd cyflawni'r targed presennol mwyach:
  - oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers gosod y targed presennol, neu
  - oherwydd newidiadau i'r dystiolaeth yr oedd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw iddi wrth osod y targed presennol.

3.384 Os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon nad oes modd cyflawni'r targed presennol mwyach neu, oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers gosod y targed presennol, y byddai'r costau o'i gyflawni yn anghymesur â'r manteision, rhaid iddynt ystyried lleihau targed yn gyntaf cyn ei ddirymu.

3.385 Cyn dirymu neu leihau targed, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron y Senedd, a chyhoeddi, datganiad yn esbonio pam mae Gweinidogion Cymru yn fodlon bod y meini prawf uchod wedi'u bodloni.

3.386 Mae'r Bil yn diffinio lleihau'r targed fel gosod safon is yn lle'r safon benodol neu bennu dyddiad diweddarach yn lle'r dyddiad penodedig.

3.387 Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn berthnasol os yw Gweinidogion Cymru eisiau gwneud targed yn fwy uchelgeisiol h.y. yn anoddach i'w gyflawni neu os yw Gweinidogion Cymru am ddirymu targed sydd eisoes wedi’i gyflawni, er enghraifft, er mwyn dileu’r targed hwnnw, nad yw mwyach yn berthnasol, o’r llyfr statud.

## Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth

3.388 Mae adran 40 o'r Bil yn mewnosod adran 8A newydd yn Neddf 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth.

*Diben ac amcanion polisi*

3.389 Diben adran 8A yw ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud mwy i godi ymwybyddiaeth mewn cymdeithas o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau y mae'n eu hwynebu.

3.390 Mae'r GBF yn nodi cynllun uchelgeisiol i:

- weithredu er mwyn sicrhau trawsnewidiad ym mherthynas ein cymdeithasau â bioamrywiaeth erbyn 2030, yn unol ag Agenda ar gyfer Datblygu Cynaliadwy 2030 y Cenhedloedd Unedig a'i Nodau Datblygu Cynaliadwy[73], a
- sicrhau, erbyn 2050, fod gweledigaeth a rennir y GBF o fyw mewn cytgord â natur yn cael ei chyflawni.

3.391 Mae'r GBF yn cydnabod bod gwrthdroi colli amrywiaeth fiolegol, er budd pob bod peth byw, yn bryder cyffredin i ddynoliaeth. Mae hwn yn fframwaith i bawb; ar gyfer y llywodraeth gyfan a'r gymdeithas gyfan. Mae ei lwyddiant yn gofyn am ewyllys wleidyddol a chydnabyddiaeth ar lefel uchaf y llywodraeth ac yn dibynnu ar weithredu a chydweithrediad gan bob lefel o lywodraeth a phob aelod o gymdeithas.

3.392 Mae ecosystemau iach a chydnerth yn hanfodol i lawer o wasanaethau rydym yn dibynnu arnynt, megis ansawdd dŵr ac aer, perygl llifogydd, cynhyrchu bwyd, llesiant, a hamdden a thwristiaeth. Fodd bynnag, mae gweithgarwch ac ymddygiad dynol hefyd yn sail i lawer o ysgogiadau colli bioamrywiaeth, megis colli cynefinoedd, gor-ecsbloetio, newid hinsawdd, llygredd, rhywogaethau goresgynnol a chlefydau[74].

3.393 Ar ben hynny, bydd llawer o dargedau a strategaethau posibl yn cael eu cefnogi drwy gamau gweithredu parhaus a chymorth gan y cyhoedd

[73] Transforming our world: the 2030 Agenda for Sustainable Development | Department of Economic and Social Affairs
[74] Living Planet Report 2024 Living Planet Report 2024 | WWF

e.e. creu cynefinoedd, gwyddoniaeth dinasyddion, patrymau defnydd, cyfrannu at wneud penderfyniadau.

3.394 Mae tystiolaeth o ddiffyg ymgysylltiad a gwybodaeth am fyd natur. Er enghraifft:

- Canfu un astudiaeth fod plant Prydain yn ei chael hi'n anodd enwi bywyd gwyllt a phlanhigion cyffredin.[75]
- Canfu un arall fod pobl Prydain ymhlith y lleiaf cysylltiedig â natur mewn astudiaeth o 14 gwlad.[76]

3.395 Felly, mae angen cryf i Weinidogion Cymru ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, er mwyn cyflawni amcanion polisi ehangach y Rhan hon o'r Bil.

3.396 Fel rhan o'r ddyletswydd hon, gall Gweinidogion Cymru hyrwyddo pwysigrwydd bioamrywiaeth i'n hiechyd a lles, gyda'r nod o annog newid ymddygiad cadarnhaol ar lefelau unigol a sefydliadol. Gellid arfer y ddyletswydd hefyd i gefnogi caffael sgiliau a hyfforddiant. Gellir gwneud hyn drwy roi negeseuon natur-bositif ar waith mewn ymgyrchoedd ac mewn addysg, a fydd yn tynnu ar arbenigedd i gefnogi'r broses cynllunio. Bydd yr arbenigedd hwn yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu effeithiol ac annog newid ymddygiad cadarnhaol mewn grwpiau rhanddeiliaid, megis defnyddio arferion cynaliadwy a thechnoleg wyrddach.

3.397 Mae'r ddyletswydd hon wedi'i gadael yn fwriadol eang i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddewis y dull mwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Bydd gofyn i Weinidogion Cymru nodi'r prif gamau gweithredu ar sut i hyrwyddo ymwybyddiaeth yn eu cynllun adran 6.

## Effaith fwriedig Rhan 3 o'r Bil

3.398 Bydd atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru neu adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth yn gwella'r manteision sydd gan

[75] Chart: British children struggle to name common wildlife and plants | Statista
[76] Miles Richardson. 2022. Country-level factors in a failing relationship with nature: Nature connectedness as a key metric for a sustainable future. *Ambio*, tt. 2201-2213.

fioamrywiaeth i ecosystemau iach ac, yn ei dro, i iechyd a lles pobl. Bydd targedau'n sbarduno gwelliant parhaus mewn bioamrywiaeth yng Nghymru ac yn gwneud y mwyaf o'r manteision cysylltiedig â iechyd a lles y mae bioamrywiaeth yn eu cynnig. Bydd y targedau bioamrywiaeth newydd yn ategu, yn hytrach na disodli, polisi presennol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â bioamrywiaeth.

3.399 Bwriad gosod targedau, ochr yn ochr â'r ddyletswydd adran 6 a'r cynigion ehangach ar gyfer y Bil (megis ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru a sefydlu SLIAC), yw helpu i ysgogi camau gweithredu yng Nghymru tuag at fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

3.400 Bydd y targedau hefyd yn dangos uchelgais ac ymrwymiad Gweinidogion Cymru, yn ogystal â'r cyfeiriad ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol yn y bygythiadau sy'n wynebu bioamrywiaeth yng Nghymru.

# RHAN 4 – CYFFREDINOL

## ***Dehongli Cyffredinol***

3.401 Er mwyn darparu eglurder ychwanegol ynghylch cwmpas ac effaith yr amcan a'r dyletswyddau amgylcheddol, mae darpariaeth wedi'i gwneud yn Rhan 4 o'r Bil i ddiffinio "amgylchedd" a "diogelu'r amgylchedd” .

3.402 Mae "amgylchedd" yn golygu aer, dŵr a thir (gan gynnwys cramen y ddaear), planhigion, anifeiliaid gwyllt ac organebau byw eraill a'u cynefinoedd, a'r systemau, cylchoedd a phrosesau naturiol y maent yn rhyngweithio drwyddynt. Mae "aer" yn cynnwys yr aer o fewn adeiladau a'r aer o fewn strwythurau naturiol neu artiffisial eraill uwchben neu o dan y ddaear.

3.403 Mae "diogelu'r amgylchedd" yn golygu

- diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau gweithgarwch dynol;
- cynnal a chadw, adfer neu wella'r amgylchedd;
- amddiffyn pobl, yn enwedig eu hiechyd, rhag effeithiau gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd;
- monitro, asesu, ystyried, cynghori neu adrodd ar unrhyw beth yn y materion a restrir uchod.

3.404 Mae'r cyfeiriad at iechyd yn y trydydd pwynt bwled yn pwysleisio'r effaith sylweddol y gall ansawdd yr amgylchedd ei chael ar iechyd pobl, a all effeithio'n anghymesur ar blant a phobl hŷn, yn enwedig mewn perthynas â llygredd aer, llygredd dŵr a rheoli gwastraff, er enghraifft, a phwysigrwydd cymryd camau i ddiogelu iechyd. Nid yw mewn unrhyw ffordd yn eithrio agweddau pwysig eraill ar amddiffyn pobl rhag effeithiau gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd.

# Atodlen 1 - Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

## Rhan 1 - Statws

### *Statws*

3.405 Mae'r adran hon yn esbonio bod Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC) yn cael ei sefydlu fel corff corfforedig. Nodir yn glir nad yw SLlAC i'w hystyried yn was nac yn asiant i'r Goron ac nad yw'n mwynhau unrhyw statws, imiwnedd neu fraint sy'n gysylltiedig â'r Goron. Nid yw'r eiddo sy'n perthyn i SLlAC yn cael ei ystyried yn eiddo i'r Goron. Mae'r gwahaniaeth hwn yn sicrhau bod asedau SLlAC ar wahân i asedau'r Goron.

## Rhan 2 - Aelodaeth

### *Aelodau*

3.406 Bydd aelodau SLlAC yn cynnwys:

a. Person a benodir gan Weinidogion Cymru yn gadeirydd arni
b. Person a benodir gan Weinidogion Cymru yn ddirprwy gadeirydd arni
c. O leiaf 3 a dim mwy na 5 person arall a benodir gan Weinidogion Cymru
d. Ei phrif weithredwr

3.407 Mae'r cyfansoddiad yn caniatáu strwythur arwain amrywiol a chytbwys.

3.408 Cyfeirir at y cadeirydd, y dirprwy gadeirydd ac aelodau a benodir o dan baragraff (3)(c) fel aelodau anweithredol. Mae'r dynodiad hwn yn eu gwahaniaethu oddi wrth aelodau gweithredol megis y prif weithredwr.

3.409 Gwneir darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i newid nifer yr aelodau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau gweithrediad effeithiol SLlAC. Mae hyn er mwyn sicrhau bod modd gwneud

penderfyniadau ynghylch a yw nifer yr aelodau'n ddigonol yn y dyfodol, a byddai unrhyw newidiadau'n amodol ar gymeradwyaeth Senedd Cymru. Cyn gwneud y rheoliadau hyn, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor yn Senedd Cymru y mae diogelu’r amgylchedd wedi ei gynnwys am y tro o fewn ei gylch gwaith, SLIAC, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

### *Anghymhwyso*

3.410 Mae unigolion yn cael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o SLIAC os ydynt mewn swyddi penodol, megis aelodau o’r Senedd, Senedd y DU, Cynghorau Sir, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, Gweinidogion y Goron, Llywodraeth yr Alban, Gweinidogion Gogledd Iwerddon neu gyrff penodol, gan gynnwys staff SLIAC ei hun. Er mwyn rheoli gwrthdaro buddiannau yn effeithiol, ystyrir bod gan aelodau o sefydliadau penodol wrthdaro buddiannau awtomatig ac anochel na ellir mynd i'r afael ag ef drwy reolau a gweithdrefnau mewnol. Mae hyn yn sicrhau y gall aelodau o SLIAC gynnal eu ffocws ar amcanion SLIAC heb rwymedigaethau sy'n gwrthdaro.

### *Telerau aelodau anweithredol*

3.411 Mae paragraff 4 yn esbonio y bydd aelodau anweithredol yn ddarostyngedig i delerau ac amodau recriwtio, ac na chânt fod yn y swydd am fwy na 4 blynedd. Gwneir darpariaeth i alluogi'r posibilrwydd o wasanaethu am hyd at 2 dymor. Mae tâl, treuliau a lwfansau i'w pennu gan SLIAC gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, gan mai Gweinidogion Cymru sy'n darparu cyllideb weithredu SLIAC.

### *Diswyddo etc. aelodau anweithredol*

3.412 Mae'r paragraff hwn yn rhoi awdurdod i Weinidogion Cymru ddiswyddo aelodau anweithredol neu eu hatal dros dro os ystyrir eu bod yn anaddas neu nad ydynt yn gallu arfer eu swyddogaethau neu nad ydynt yn fodlon gwneud hynny. Mae'r broses yn gofyn am hysbysu'r aelod a chaniatáu sylwadau, ac eithrio mewn achosion brys, ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd

a'r dirprwy gadeirydd, oni bai mai’r cadeirydd neu’r dirprwy gadeirydd yw'r aelod dan sylw.

3.413 Gwneir darpariaeth hefyd i alluogi aelodau anweithredol i ymddiswyddo drwy roi o leiaf 3 mis o rybudd. Bydd aelodau'n peidio â bod yn rhan o SLIAC os byddant yn cael eu hanghymhwyso, gan sicrhau uniondeb y corff llywodraethiant.

## Rhan 3: Staff

### ***Prif Weithredwr***

3.414 Rhaid i SLIAC fod â phrif weithredwr a fydd yn cael ei benodi i ddechrau gan Weinidogion Cymru er mwyn galluogi gweithredu SLIAC yn effeithlon a chaniatáu i brosesau penodi gael eu cynnal ar yr un pryd ar gyfer y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Weithredwr. Bydd penodiadau dilynol yn cael eu gwneud gan aelodau anweithredol SLIAC ar delerau ac amodau sydd i'w pennu gan yr aelodau hynny. Mae'r rôl hon yn hanfodol i arweinyddiaeth weithredol SLIAC.

### ***Staff Eraill***

3.415 Mae gan SLIAC y pŵer i benodi aelodau staff eraill, gyda thelerau ac amodau wedi'u pennu gan SLIAC. Ni chaiff SLIAC bennu telerau ac amodau o ran tâl, treuliau, lwfansau neu bensiwn heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru gan y bydd y materion hyn yn effeithio ar gyllideb weithredol SLIAC.

## Rhan 4: Gofynion Penodi

### ***Gofynion Penodi***

3.416 Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod aelodau SLIAC, rhyngddynt, yn meddu ar brofiad mewn cyfraith a pholisi amgylcheddol, gwyddor amgylcheddol ac achosion ymchwilio a gorfodi. Mae hyn yn sicrhau bod gan SLIAC yr arbenigedd cywir ar lefel strategol i weithredu'n effeithiol.

3.417 Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor Senedd Cymru, gyda'r cylch gwaith ar gyfer diogelu'r amgylchedd am y tro, wrth benodi neu ailbenodi'r cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd, gan sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

3.418 Cyn penodi aelod anweithredol neu brif weithredwr, rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu panel i argymell ymgeiswyr ar gyfer penodiadau a rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r argymhelliad hwnnw. Rhaid i Weinidogion Cymru wahodd y pwyllgor perthnasol yn Senedd Cymru sydd â'r cyfrifoldeb ar y pryd am ddiogelu'r amgylchedd i enwebu aelod o'r Senedd i eistedd ar y panel. Os bydd y pwyllgor yn gwrthod enwebu rhywun neu os na fydd wedi gwneud hynny mewn 21 diwrnod, caiff y broses benodi fynd yn ei blaen heb gynrychiolaeth o'r Senedd. Rhaid i'r panel gynnwys hefyd un aelod o staff Llywodraeth Cymru, a dau aelod annibynnol. Diben y weithdrefn hon yw sicrhau bod annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru yn ystod y broses recriwtio o ystyried bod cwmpas rôl oruchwylio SLIAC yn cynnwys Gweinidogion Cymru.

3.419 Rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon bod gan y panel brofiad priodol mewn cyfraith a pholisi amgylcheddol, gwyddor amgylcheddol ac achosion ymchwilio a gorfodi, er mwyn sicrhau bod y broses benodi'n gadarn ac y gall Gweinidogion Cymru fod â hyder yn yr argymhellion. Nid yw hyn yn ofyniad ar gynrychiolydd y Senedd gan mai ei rôl ar y panel yw cryfhau atebolrwydd gwleidyddol a chynyddu annibyniaeth y panel ar Lywodraeth Cymru.

3.420 Mae'r gofyniad i gael panel yn cael ei hepgor ar gyfer ailbenodi ar unwaith am ail dymor er mwyn sicrhau parhad a lleihau dyblygu gofynion gweithdrefnol.

### *Datgymhwyso gofynion penodi: aelodau interim*

3.421 Mae'r paragraff hwn yn gwneud darpariaeth i ganiatáu penodiadau interim i SLIAC o dan amgylchiadau penodol. Bwriad y ddarpariaeth hon

yw sicrhau parhad a gweithrediad effeithiol SLIAC mewn achosion lle mae swyddi gwag annisgwyl neu aelodau wedi'u hatal dros dro, yn enwedig y cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd. Mae hyn yn galluogi SLIAC i gynnal cworwm a bwrw ymlaen â gweithgareddau hanfodol heb yr oedi neu'r aflonyddwch diangen a fyddai'n cael ei achosi gan weithdrefnau recriwtio ffurfiol.

3.422 Gall Gweinidogion Cymru benodi person i weithredu fel cadeirydd neu ddirprwy gadeirydd am hyd at 12 mis heb gadw at y gofynion penodi. Mae'r ddarpariaeth hon yn berthnasol os yw'r cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd presennol wedi marw, wedi ymddiswyddo, wedi cael ei anghymhwyso, wedi cael ei ddiswyddo neu wedi cael ei atal dros dro, gan arwain at ostyngiad mewn aelodaeth islaw'r cworwm gofynnol.

3.423 Mae'r un datgymhwysiad yn berthnasol i benodi aelodau anweithredol heblaw'r cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd am hyd at 12 mis o dan amgylchiadau tebyg.

3.424 Drwy ganiatáu'r penodiadau interim hyn, mae'r adran hon yn sicrhau nad yw SLIAC yn cael ei rwystro gan oedi gweithdrefnol ac y gall gynnal ei heffeithlonrwydd gweithredol yn ystod cyfnodau pontio neu absenoldebau annisgwyl.

## Rhan 5: Pwyllgorau a Dirprwyo

### *Pwyllgor Adolygu*

3.425 Rhaid i SLIAC sefydlu pwyllgor adolygu i gynnal adolygiadau o hysbysiadau cydymffurfio. Diben y pwyllgor hwn yw darparu rhywfaint o wahaniad gweithredol rhwng SLIAC a'r bobl hynny a fydd yn ystyried a oedd yr hysbysiad cydymffurfio wedi'i gyflwyno'n gywir, neu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r hysbysiad hwnnw. Mae hyn yn galluogi llwybr herio i awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i hysbysiadau cydymffurfio, gan sicrhau atebolrwydd, heb ddibynnu ar brosesau llys hir neu gostus ar

unwaith. Fodd bynnag, mae'r opsiynau hynny'n parhau i fod ar gael i'r awdurdodau cyhoeddus ochr yn ochr â'r broses adolygu a nodir yn y Bil.

3.426 Gall y pwyllgor adolygu gynnwys fel aelodau staff SLIAC, ac o leiaf un aelod cyfetholedig o restr a gynhelir gan Weinidogion Cymru. Bydd y rhestr yn cynnwys arbenigwyr perthnasol sydd â phrofiad a galluogrwydd mewn cyfraith a pholisi amgylcheddol, gwyddor amgylcheddol a/neu achosion ymchwilio a gorfodi.

3.427 Fel mater o weithdrefn, rhaid i'r pwyllgor adolygu benodi cadeirydd. Bydd aelodau cyfetholedig yn gallu pleidleisio ar faterion sy'n ymwneud ag adolygu'r hysbysiad, ac mae unrhyw aelodau sy'n ymwneud â chyflwyno'r hysbysiad cydymffurfio gwreiddiol wedi'u gwahardd rhag pleidleisio. Mae hyn er mwyn sicrhau didueddrwydd a gwella annibyniaeth yr adolygiad ar y penderfyniad gwreiddiol a wnaed gan SLIAC.

3.428 Gall aelodau cyfetholedig dderbyn tâl, treuliau a lwfansau fel mae SLIAC yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i sicrhau eu cyfranogiad.

### *Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Eraill*

3.429 Gall pwyllgorau ac is-bwyllgorau eraill gael eu sefydlu gan SLIAC fel y mae'n ei ystyried yn briodol, gan gynnwys aelodau cyfetholedig, gan sicrhau llywodraethiant cynhwysfawr.

3.430 Gall rheolau sydd i'w gosod gan SLIAC roi hawliau pleidleisio i aelodau cyfetholedig. Mae hyn er mwyn ceisio sicrhau eu mewnbwn ystyrlon wrth wneud penderfyniadau

### *Cyd-bwyllgorau*

3.431 Caiff SLIAC sefydlu cyd-bwyllgorau gyda phobl eraill, gan dalu tâl a lwfansau i bobl nad ydynt yn aelodau, er mwyn gwella eu gallu i weithio ar y cyd. Er enghraifft, efallai y bydd SLIAC yn dymuno sefydlu cyd-bwyllgorau gydag OEP ac ESS i ymchwilio i faterion trawsffiniol.

### *Dirprwyo*

3.432 Caiff SLIAC ddirprwyo ei swyddogaethau i bwyllgorau, is-bwyllgorau, aelodau neu staff, gan sicrhau gweithrediadau effeithlon a hyblygrwydd.

3.433 Caiff SLIAC osod cyfyngiadau ac amrywio neu ddirymu dirprwyaethau a wnaed gan ei bwyllgorau neu is-bwyllgorau fel y mae'n ei ystyried yn briodol, gan sicrhau rheolaeth annibynnol.

3.434 Gwneir dirprwyaethau a wneir o dan y paragraff hwn i'r graddau ac ar y telerau a nodir gan y person sy'n gwneud y dirprwyo, yn ddarostyngedig i'r amodau a nodir yn is-baragraffau (4) a (5). Mae hyn yn golygu, pan fydd y rhai sydd â'r pŵer i ddirprwyo swyddogaethau i rannau eraill o SLIAC (e.e. pwyllgorau, is-bwyllgorau, aelodau neu staff), fod y rhai sy'n dirprwyo'r swyddogaethau yn gallu gosod y paramedrau ar gyfer dirprwyo oni bai nad yw'r paragraffau blaenorol yn caniatáu iddynt wneud hynny. Er enghraifft, os yw'r pwyllgor eisoes wedi pennu na all is-bwyllgor ddirprwyo swyddogaeth.

3.435 Nid yw arfer y swyddogaethau dirprwyo a fanylir yn y paragraff hwn yn atal SLIAC, pwyllgorau neu is-bwyllgorau rhag arfer y swyddogaeth ac nid yw'n effeithio ar gyfrifoldeb SLIAC, gan sicrhau atebolrwydd.

3.436 Nid yw'r pwerau dirprwyo hyn yn berthnasol i'r adolygiad o hysbysiadau cydymffurfio na'r pwyllgor adolygu y gwneir darpariaeth benodol ar ei gyfer mewn mannau eraill yn y Bil.

## Rhan 6: Gweithdrefn etc.

### *Gweithdrefn*

3.437 Rhaid i SLIAC sefydlu rheolau i reoleiddio ei gweithdrefnau, gan gynnwys gofynion cworwm, er mwyn sicrhau proses a llywodraethiant effeithiol.

3.438 Rhaid i'r cworwm ar gyfer SLIAC beidio â bod yn is na phedwar i sicrhau cynrychiolaeth ac arbenigedd digonol ar draws y sefydliad ar lefel strategol.

3.439 Rhaid i SLIAC hefyd sefydlu rheolau gweithdrefnol ar gyfer ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau i sicrhau rheolaeth a chysondeb, er y gall y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau hynny gael pŵer gan SLIAC i bennu eu gweithdrefn eu hunain.

### *Dilysrwydd Trafodion*

3.440 Gwneir darpariaeth i egluro nad yw dilysrwydd trafodion a gweithredoedd gan SLIAC, neu ei phwyllgorau a'i his-bwyllgorau, yn cael ei effeithio gan swyddi gwag neu ddiffygion wrth benodi aelodau. Mae hyn yn sicrhau sefydlogrwydd o fewn y sefydliad ac yn golygu bod unrhyw benderfyniadau a wneir yn ystod senarios o'r fath mor ddilys a pherthnasol ag unrhyw adeg arall

## Rhan 7: Materion Ariannol

### *Cyllid*

3.441 Rhaid i Weinidogion Cymru dalu symiau i SLIAC sydd yn eu barn nhw yn ddigonol iddi allu cyflawni ei swyddogaethau. Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu pryd caiff y taliadau hyn eu gwneud, ac o dan ba amodau. Gyda'i gilydd, bydd y darpariaethau hyn yn sicrhau bod SLIAC yn derbyn ei chyllideb weithredu.

### *Swyddog Cyfrifyddu*

3.442 Bydd y prif weithredwr yn gweithredu fel swyddog cyfrifyddu SLIAC, er bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer enwebu aelod arall o staff os nad yw'r prif weithredwr yn gallu cyflawni'r dyletswyddau hyn i sicrhau bod atebolrwydd ariannol yn cael ei gynnal. Os na all y prif weithredwr gyflawni'r cyfrifoldebau hyn (er enghraifft, absenoldeb salwch hirdymor), rhaid i SLIAC ddynodi aelod arall o staff i wasanaethu fel y swyddog

cyfrifyddu dros dro. Os yw swydd y prif weithredwr yn wag, rhaid i SLIAC benodi aelod o staff i weithredu fel y swyddog cyfrifyddu nes bod y swydd wedi'i llenwi.

3.443 Bwriedir i gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu gael eu pennu gan Weinidogion Cymru a gallant gynnwys (ond nid ydynt yn gyfyngedig i) goruchwylio cyfrifon a sefyllfa ariannol SLIAC, sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra mewn rheolaeth ariannol, hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau. Yn ogystal, rhaid i'r swyddog cyfrifyddu adrodd i Weinidogion Cymru, Senedd Cymru a/neu ei Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

## *Cyfrifon*

3.444 Rhaid i SLIAC gadw cyfrifon priodol a llunio datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan gydymffurfio â chyfarwyddydau Gweinidogion Cymru ynghylch cynnwys y datganiad o gyfrifon, er mwyn sicrhau tryloywder.

3.445 Mae cyfarwyddiadau'n cynnwys manylebau ar y wybodaeth sydd i'w chynnwys, y modd o'i chyflwyno, y dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w lunio yn unol â hwy a manylion ychwanegol.

3.446 Rhaid cyflwyno'r datganiad o gyfrifon i Weinidogion Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru erbyn 31 Awst bob blwyddyn.

3.447 Mae'r term "blwyddyn ariannol" yn cyfeirio at y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod y mae adran 1 yn dod i rym ac yn dod i ben gyda'r ail 31 Mawrth yn dilyn y diwrnod hwnnw, a phob cyfnod 12 mis olynol wedi hynny. Mae hyn er mwyn darparu digon o amser i SLIAC sefydlu o fewn ei ddwy flynedd gyntaf, gan gynnwys recriwtio a phenodi Prif Weithredwr etc.

## *Archwilio*

3.448 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Gwneir darpariaeth i wneud

Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gyfrifol am archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiad o gyfrifon a gyflwynwyd gan SLIAC. Wrth wneud hynny, rhaid iddo archwilio ac adrodd a ydyw o'r farn bod y gwariant mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef wedi cael ei wneud yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdod sy'n llywodraethu'r gwariant.

3.449 Rhaid darparu datganiad ardystiedig ac adroddiad ar y datganiad o gyfrifon i SLIAC a rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru osod copi gerbron Senedd Cymru o'r datganiad ardystiedig a'r adroddiad o fewn pedwar mis i'r dyddiad cyflwyno’r datganiad o gyfrifon.

3.450 Mewn achosion lle nad yw gosod yr adroddiad o fewn y cyfnod o bedwar mis yn ymarferol, rhaid darparu datganiad sy'n esbonio'r rhesymau, ac yna'r datganiad a'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl.

### *Archwilio’r Defnydd o Adnoddau*

3.451 Caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran sut y mae adnoddau wedi eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau SLIAC. Nid yw'r archwiliad hwn yn caniatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru gwestiynu rhinweddau amcanion polisi SLIAC. Mater i SLIAC yn unig yw hwn.

3.452 Cyn cynnal archwiliad, rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ymgynghori â Senedd Cymru ac ystyried ei barn ynghylch a ddylid cynnal yr archwiliad.

3.453 Rhaid cyhoeddi canfyddiadau'r archwiliad cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, a rhaid gosod copi o'r adroddiad gerbron Senedd Cymru.

# Rhan 8: Gofynion Adrodd

## *Adroddiad Blynyddol*

3.454 Rhaid i SLlAC lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd. Rhaid iddi osod copi o'r adroddiad hwn gerbron Senedd Cymru i gynorthwyo'r atebolrwydd hwnnw.

3.455 Gwneir darpariaeth hefyd, o dan yr amgylchiad pan fo SLlAC yn penderfynu arfer ei disgresiwn i gynnwys yn ei hadroddiad ddatganiad ynghylch a yw’r symiau a ddyrannwyd iddo wedi bod yn ddigonol i alluogi SLlAC i gyflawni ei swyddogaethau, fod rhaid iddi gyflwyno’r adroddiad hwnnw i Weinidogion Cymru. Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad i osod yr adroddiad gerbron y Senedd. Bwriedir i hyn sicrhau y gall SLlAC godi materion ynghylch digonolrwydd cyllid mewn modd tryloyw (gyda Gweinidogion Cymru, y Senedd a’r cyhoedd yn ehangach), ond dim ond os yw’n dymuno gwneud hynny.

# Rhan 9: Darpariaethau Atodol

## *Cofrestr Buddiannau*

3.456 Rhaid i SLlAC sefydlu a chynnal cofrestr o fuddiannau ei haelodau, a chyhoeddi cofnodion a gofnodwyd yn y gofrestr hon, er mwyn sicrhau tryloywder yr aelodaeth honno.

## *Pwerau Atodol*

3.457 Caiff SLlAC wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol at ddibenion ei swyddogaethau, neu mewn cysylltiad â'i swyddogaethau, neu unrhyw beth sy'n ddeilliadol neu'n ffafriol i arfer y swyddogaethau hynny. Er enghraifft, gallai hynny gynnwys materion megis gwneud ceisiadau am adolygiad barnwrol (pan fo’r holl ofynion cyfreithiol eraill wedi eu bodloni), ond nid yw’n gyfyngedig i hynny. Fodd bynnag, mae'n cael ei gyfyngu rhag codi ffioedd, benthyca arian, buddsoddi, gwneud grantiau, rhoi benthyg

arian neu dderbyn rhoddion, er mwyn sicrhau annibyniaeth penderfyniadau.

## Atodlen 2 - Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru: Strategaeth

3.458 Mae Atodlen 2 yn amlinellu'r gofynion ar gyfer SLlAC wrth lunio ei strategaeth. Rhaid i'r strategaeth gynnwys manylion o sylwedd ynghylch sut y bydd SLlAC yn ymddwyn, ac mae'n elfen hanfodol o sicrhau y bydd yn atebol i’r cyhoedd ac o godi ymwybyddiaeth o'i swyddogaethau, ei diben a'i chwmpas.

### *Cynnwys*

3.459 Mae'n ofynnol i SLlAC nodi yn y strategaeth sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'i dyletswyddau i arfer ei swyddogaethau at y diben cyffredinol a nodir yn adran 10(a), yn ogystal â dyletswyddau statudol eraill, yn enwedig y ddyletswydd i gyflawni datblygu cynaliadwy o dan Ran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Rhaid i SLlAC nodi hefyd sut y mae'n bwriadu gweithredu'n ddiduedd, yn wrthrychol, yn gymesur ac yn dryloyw. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd monitro datblygiadau mewn deddfwriaeth amgylcheddol heblaw yng Nghymru, yn ogystal â sut y bydd yn cydweithio â phersonau eraill. Bydd angen i'r strategaeth nodi sut y mae SLlAC yn bwriadu osgoi swyddogaethau'n gorgyffwrdd â swyddogaethau awdurdodau goruchwylio eraill, gan gynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Gwybodaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU ac unrhyw bobol eraill sydd â swyddogaethau a all ym marn SLlAC orgyffwrdd â swyddogaethau SLlAC.

3.460 Bydd SLlAC yn goruchwylio targedau amgylcheddol ac mae ganddi'r disgresiwn i flaenoriaethu ei chamau gweithredu heb rwymedigaethau neu

ofynion mynychder penodol. Fodd bynnag, rhaid i SLIAC esbonio ei dull monitro er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall ei blaenoriaethau a'i dull asesu.

3.461 Bydd angen i'r strategaeth ddisgrifio hefyd sut y bydd SLIAC yn rheoli cynrychioliadau yn unol â'r ddogfen gaiff ei chyhoeddi o dan adran 16. Bydd hyn yn cynnwys ei pholisi ar gyhoeddi gwybodaeth am gynrychioliadau yn ogystal â sut y bydd yn blaenoriaethu cynrychioliadau.

3.462 Rhaid nodi proses/polisi ymchwilio SLIAC yn y strategaeth, gan gynnwys sut y disgwylir i wahanol fathau o wybodaeth effeithio ar ei phenderfyniad ynghylch pa ymchwiliadau i fwrw ymlaen â hwy, o dan ba amgylchiadau y gall wrthod ymchwiliadau, meini prawf blaenoriaethu, ei dull o ymgysylltu ag awdurdodau sy'n destun ymchwiliad a chyhoeddi manylion ymchwiliad.

3.463 Rhaid manylu ar y polisi gorfodi o fewn y strategaeth hefyd. Bydd hyn yn cynnwys nodi pryd y bydd yn briodol cyflwyno hysbysiadau cydymffurfio, pryd y gall adroddiadau gwella fod yn fwy priodol yn lle hynny, ac o dan ba amgylchiadau mae SLIAC yn annhebygol o gymryd camau gweithredu gorfodi ffurfiol. Mae hefyd yn mynd i'r afael â hysbysiadau cydymffurfio brys, atgyfeiriadau'r Uchel Lys a chyhoeddi gwybodaeth gorfodi.

3.464 Effaith gyfunol fwriedig y darpariaethau hyn yw sicrhau bod y fframwaith ar gyfer swyddogaethau SLIAC yn cael ei amlinellu'n glir, a bod ei dull llywodraethiant amgylcheddol yn cael ei nodweddu gan lefelau uchel o dryloywder, atebolrwydd a didueddrwydd, fel sy'n ofynnol gan y Bil. Bydd y strategaeth yn amlinellu sut y bydd SLIAC yn cyflawni ei dyletswyddau statudol heb orgyffwrdd â rolau cyrff goruchwylio eraill. Bydd gofynion i fanylu ar sut y bydd yn ymgynghori'n rheolaidd â rhanddeiliaid, megis pwyllgor Senedd Cymru ac endidau perthnasol eraill, yn meithrin cydweithio, a bwriad adolygiadau a diweddariadau cyfnodol yw sicrhau bod SLIAC yn parhau i ymateb i heriau amgylcheddol sy'n esblygu. Dyluniwyd y dull cynhwysfawr a thryloyw hwn i gynnal ymddiriedaeth y

cyhoedd yng ngweithdrefnau llywodraethiant SLIAC ac i atgyfnerthu ei hymrwymiad i oruchwyliaeth amgylcheddol effeithiol.

### *Gofynion Gweithdrefnol*

3.465 Wrth lunio'r strategaeth, mae'n ofynnol i SLIAC ymgynghori â phwyllgor Senedd Cymru sy'n goruchwylio'r amgylchedd, yn ogystal â chyrff priodol eraill. Rhaid adolygu'r strategaeth o leiaf bob pedair blynedd ac, yn dilyn yr adolygiad hwn, caiff SLIAC ddewis diwygio’r strategaeth. Os bydd SLIAC yn penderfynu diwygio’r strategaeth, gwneir darpariaeth i osod yr un gofynion ag y nodwyd yn flaenorol. Rhaid i SLIAC gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig a gosod copïau gerbron Senedd Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl ei chyhoeddi.

## Atodlen 3 - Cynlluniau Trosglwyddo Staff

### *Pŵer i wneud cynlluniau trosglwyddo staff*

3.466 Mae'r paragraff hwn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru lunio un neu fwy o gynlluniau trosglwyddo staff. Diben y cynlluniau hyn yw hwyluso rhoi SLIAC ar waith yn gyflym drwy alluogi trosglwyddo staff Llywodraeth Cymru i SLIAC, pe bai hynny'n angenrheidiol. Mae'r trosglwyddiad yn cynnwys hawliau a rhwymedigaethau'r staff a chamau gweithredu a gymerir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel camau gweithredu SLIAC. Ar ben hynny, mae'n sicrhau parhad a dilysrwydd camau gweithredu blaenorol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ail-aseinio cyfeiriadau o Lywodraeth Cymru i SLIAC mewn dogfennau. Mae'n galluogi cynllun i wneud darpariaeth sydd yr un fath, neu'n debyg, i'r ddarpariaeth a geir yn Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006, lle bo hynny’n berthnasol. Mae hefyd yn galluogi cynlluniau i wneud darpariaethau canlyniadol, atodol, ddeilliadol neu drosiannol yn ôl yr angen.

### *Addasu cynlluniau trosglwyddo staff*

3.467 Mae'r paragraff hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru addasu cynllun trosglwyddo staff presennol. Os yw'r trosglwyddiad staff eisoes wedi digwydd, rhaid i'r unigolion dan sylw gytuno ar unrhyw addasiad sy'n effeithio ar y staff a drosglwyddwyd. Mae'r addasiadau'n dod i rym o ddyddiad gwreiddiol y cynllun neu ddyddiad penodol diweddarach.

### *Dyletswydd i osod cynlluniau trosglwyddo staff gerbron Senedd Cymru*

3.468 Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod copi o unrhyw gynlluniau trosglwyddo staff gerbron Senedd Cymru.

### *Dehongli*

3.469 Mae'r paragraff hwn yn egluro bod unigolion a gyflogir yn y gwasanaeth sifil yn cael eu hystyried yn gyflogedig o dan gontract cyflogaeth, ac mai telerau eu cyflogaeth yn y gwasanaeth sifil yw telerau'r contract. Mae'r gwasanaeth sifil yn cyfeirio at wasanaeth sifil y Wladwriaeth.

## *Atodlen 4 – Darpariaeth Ganlyniadol*

<u>Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015</u>


3.470 Gwneir darpariaeth i ddiwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol er mwyn i SLlAC gael ei hystyried yn gorff cyhoeddus at ddiben y Ddeddf honno. Bydd gan SLlAC rôl o sylwedd o ran asesu newidiadau i gyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chynghori ar hynny yn ogystal ag ymchwilio i achosion posibl o dorri cyfraith amgylcheddol, a chymryd camau gweithredu pan fo hynny’n angenrheidiol. Bydd cydnabod bod SLlAC yn gorff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn sicrhau bod ei ffocws ar ddiogelu’r amgylchedd a gwella’r amgylchedd ar lefel uchel yn cyd-fynd â datblygu cynaliadwy ac yn cryfhau’r cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill. Disgwylir i hynny hefyd gefnogi strategaeth orfodi

flaengar a chynyddol SLIAC. Diben y ddarpariaeth hon felly yw sicrhau bod SLIAC yn bodloni gofynion y Ddeddf honno fel y corff goruchwylio strategol sy'n goruchwylio cyfraith amgylcheddol, yn unol â'i bwrpas cyffredinol.

## 4. Ymgynghoriad

### Amserlen ymgynghori:

**Ffigur 1:** Amserlen ymgynghori ar gyfer cynigion polisi




### 2019: Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

4.1 Yn 2019, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus dros gyfnod o ddeuddeg wythnos ar yr Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol ar ôl Ymadael â’r Undeb Ewropeaidd[77].

4.2 Gofynnwyd i’r ymatebwyr ystyried 19 o gwestiynau ynghylch sut i fynd i’r afael â’r bylchau mewn egwyddorion amgylcheddol a threfniadau

[77] Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd | LLYW.CYMRU

llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru sy'n codi yn sgil y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

4.3 Daeth 1,912 o ymatebion ysgrifenedig i law. Cyflwynwyd 1,851 o ymatebion gan ddwy ymgyrch a drefnwyd gan y World Wide Fund for Nature (WWF) a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB). O'r rhain, nodwyd bod 257 wedi'u dyblygu, gan roi cyfanswm o 1,594 o ymatebion ar sail ymgyrch a gofnodwyd. Daeth 61 o ymatebion unigol i law – 12 gan unigolion a 49 ar ran sefydliadau. Dadansoddwyd yr holl ymatebion a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Medi 2019.

## Canlyniadau ymgynghoriad 2019 mewn perthynas ag Egwyddorion Amgylcheddol

4.4 Roedd yr ymatebwyr i ymgynghoriad 2019 yn gryf o blaid cyflwyno cyfres o egwyddorion amgylcheddol i arwain datblygiad cyfraith amgylcheddol Cymru. Fodd bynnag, roedd cymysgedd barn ynghylch pa egwyddorion y dylid eu cynnwys a sut i gyflawni hyn.

4.5 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cynnwys pedair egwyddor amgylcheddol yr UE: yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, yr egwyddor cywiro yn y ffynhonnell, a'r egwyddor mai'r llygrydd sy'n talu. Awgrymwyd egwyddorion ychwanegol gan rai, gyda nifer yn cyfeirio at y gofyniad integreiddio o dan fframwaith yr UE.

4.6 Teimlai nifer ohonynt, yn hytrach na diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol yn unol â'r ystyriaethau ar y pryd, y byddai'n werth mewn nodi'r egwyddorion amgylcheddol mewn un darn o ddeddfwriaeth fel rhan o strwythur trosfwaol. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'n eang estyniad y ddyletswydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i holl gyrff cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, y consensws oedd bod y gwaith o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gam cynnar a bod angen

dealltwriaeth well o effaith ac unrhyw oblygiadau i estyn y ddyletswydd cyn gwneud hynny.

## Canlyniadau ymgynghoriad 2019 mewn perthynas â Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol

4.7 Ystyriwyd y trefniadau llywodraethu ar ôl ymadael â'r UE yn fanwl yn ystod ymgynghoriad 2019 ar **Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**, a rhoddwyd ffocws penodol ar ddatblygu corff goruchwylio annibynnol i oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, a chydymffurfiaeth â hi.

4.8 Ceisiodd ymgynghoriad 2019 farn ar ddiben, amcanion, a swyddogaethau corff o'r fath, gan gynnwys amcanion uchelgeisiol a fyddai'n cael eu cymhwyso i amrywiaeth eang o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Roedd cefnogaeth glir i ddull a lefel yr uchelgais gan ymatebwyr yr ymgynghoriad.

4.9 Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl yn dilyn Ymgynghoriad yn 2019 i ddarparu arbenigedd a chyngor technegol wrth ystyried a datblygu'r opsiynau posibl i'w cyflwyno i'r Gweinidog.

## Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethiant Amgylcheddol 2020

4.10 Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid rhoi sylw i bedair egwyddor amgylcheddol yr UE (rhagofalus, ataliol, cywiro yn y ffynhonnell, a'r llygrydd sy'n talu) yn neddfwriaeth Cymru ac y dylai'r egwyddorion gael eu cefnogi gan amcan trosfwaol sy'n nodi'r uchelgeisiau amgylcheddol

yng Nghymru, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng y polisi amgylcheddol a meysydd polisi eraill (integreiddio)[78].

4.11 Ystyriodd y Grŵp Gorchwyl nad oedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn fframwaith ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol, ond dylid ei hystyried yn lasbrint ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y gellid ei ddatblygu dros amser. Felly, daeth y Grŵp Gorchwyl i'r casgliad mai'r ffordd a ffefrir o ymwreiddio egwyddorion amgylcheddol yr UE fyddai eu darparu mewn ffordd sy'n caniatáu dull mwy systemig sy'n osgoi gorgymhlethu'r ddeddfwriaeth bresennol. Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl hefyd y dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol hyn wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth.

4.12 Derbyniodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, yr argymhellion hynny a hefyd, mewn egwyddor, derbyniodd argymhelliad i archwilio estyniad y ddyletswydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gyrff cyhoeddus eraill fel mater ar wahân.[79]

4.13 Mewn ymateb i'r adborth ar ymgynghoriadau blaenorol a'r argymhellion a restrir uchod, mireiniodd Llywodraeth Cymru y cynigion ac ymgynghorodd ymhellach.

## 2022: Canlyniad yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth

4.14 Darparodd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, sy'n cynnwys grŵp o arbenigwyr ac ymarferwyr allanol allweddol, wyth argymhelliad i Weinidogion Cymru ar gyfer camau gweithredu ar y cyd i gefnogi adferiad natur yng Nghymru. Dyluniwyd yr argymhellion hyn yn benodol i gefnogi cyflawniad Targed 3 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, a

[78] LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL YNG NGHYMRU AR ÔL YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD
[79] Ymateb i'r adroddiad gan Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol | LLYW.CYMRU

elwir yn gyffredin yn “30 erbyn 30”, ond mae iddynt effeithiau ehangach ar draws y fframwaith cyfan. Yn ogystal, mae’r argymhellion yn adeiladu ar y dyletswyddau a’r dulliau gweithredu a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf 2016.

4.15 Argymhellodd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ddatblygiad deddfwriaeth sylfaenol i bennu targedau ar gyfer adfer natur, sy’n canolbwyntio ar gyflawni canlyniadau amgylcheddol a chyflawni cyfraniad Cymru at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar ôl 2020.

4.16 Derbyniodd y Gweinidog dros Newid Hinsawdd yr argymhellion hynny ac ymrwymodd i barhau i weithio tuag at Gymru natur-bositif[80] mewn datganiad llafar ar 10 Ionawr 2023.

4.17 Ystyriwyd argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth wrth ddatblygu’r Papur Gwyn.

## 2024: Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach

4.18 Nododd y Papur Gwyn gynigion i gyflwyno Bil i’r Senedd i ymwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, gan gryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru drwy sefydlu corff llywodraethiant i oruchwylio cydymffurfiaeth â’r gyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, a chyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth uchelgeisiol i fynd i’r afael â’r argyfwng natur parhaus. Mae’r cynigion yn adlewyrchu ein hymrwymiad tuag at “Gymru wyrddach i fynd i’r afael â newid hinsawdd a’r argyfwng natur”.

4.19 Mae’r Papur Gwyn yn nodi’r cynigion i gwmpasu’r tri maes allweddol a gwahoddodd sylwadau gan bartïon â buddiant ar:

[80] Datganiad Ysgrifenedig: Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth (3 Hydref 2022) | LLYW.CYMRU

i. Ymwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
ii. Llywodraethiant Amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru; a
iii. Fframwaith targedau statudol i warchod ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

4.20 Daeth yr Ymgynghoriad i ben ar 30 Ebrill, a daeth cyfanswm o 1,171 o ymatebion i law. Roedd y rhain yn cynnwys 161 o ymatebion ar-lein, pum ymateb Hawdd eu Deall ac 1,005 o ymatebion yn sgil ymgyrchoedd. Gwnaeth ymchwilydd annibynnol, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, hefyd gynnal pum gweithdy'n canolbwyntio ar randdeiliaid â nodweddion gwarchodedig. Cynhaliwyd dau weithdy yn ddwyieithog wyneb yn wyneb, a chynhaliwyd tri ar-lein, gydag un yn cael ei gynnal yn Gymraeg.

4.21 Roedd cytundeb eang â Rhan A (Egwyddorion Amgylcheddol) a Rhan C (Targedau Bioamrywiaeth) y Papur Gwyn.
Roedd ymatebion i'r Corff Llywodraethiant arfaethedig yn fwy amrywiol, gyda sawl pryder allweddol yn dod i'r amlwg a oedd yn cynnwys:-

- **Annibyniaeth y Corff Llywodraethiant**:
  Pryder mawr oedd sicrhau bod y corff yn **gwbl annibynnol** ar Lywodraeth Cymru a Gweinidogion er mwyn sicrhau hygrededd ac effeithiolrwydd.
- **Cydweithio ac Osgoi Gorgyffwrdd**:
  Pwysleisiodd ymatebwyr yr angen i **gydlynu â chyrff presennol** i osgoi dyblygu ymdrechion. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo eu bod wedi'u **hepgor** ac yn galw am **gylch gwaith** a **strwythur adrodd** clir.
- **Defnyddio Cosbau Ariannol**:
  Er bod barn yn amrywio, roedd llawer yn cytuno y dylai'r Corff Llywodraethiant gael **mynediad at gosbau ariannol pan fetho pob dim arall** i orfodi cydymffurfiaeth.

- **Adnoddau Digonol**:
  Roedd pryderon eang am **gyllid hirdymor** ar gyfer y Corff Llywodraethiant, awdurodau lleol, a phartneriaid eraill er mwyn cwrdd â **thargedau 2030 a** 2050. Nodwyd hefyd y risg o **ddeddfwriaeth gostus** ar adeg o **galedi ariannol** hefyd
- **Cyfathrebu Clir a Thryloyw**:
  Galwodd ymatebwyr am **ganllawiau pendant** ynghylch rôl y Corff Llywodraethiant, **adrodd tryloyw** a **gweithdrefnau cwyno hygyrch** i sicrhau atebolrwydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

4.22 Cyhoeddwyd dadansoddiad annibynnol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Gellir canfod crynodeb o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru.[81]

4.23 Yn ystod Ymgynghoriad 2024, cynhaliodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfres o weithdai a sgyrsiau un i un â rhanddeiliaid. Cynhaliwyd deuddeg o sesiynau un i un gyda'r rhanddeiliaid allweddol i fynd drwy'r cynigion polisi a'u trafod. Cynhaliwyd dau weithdy polisi i drafod strwythur y corff a'r pwerau gorfodi arfaethedig a chynhaliwyd dau weithdy arall gydag awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus i drafod yr Egwyddorion a'r Targedau.

## Panel Cynghori Targedau Bioamrywiaeth

4.24 Sefydlwyd Panel Cynghori Targedau Bioamrywiaeth ym mis Hydref 2024 i ddarparu mwy o dryloywder a manylder yn ystod y broses o lunio'r targed ochr yn ochr â grŵp goruchwyliaeth mewnol[82]. Nod y Panel yw sicrhau cydbwysedd o arbenigedd perthnasol annibynnol ac mae'n darparu cyngor ac argymhellion ar y broses o osod targedau ac o ddatblygu targedau penodol.

## Y grŵp Llywodraethiant Amgylcheddol

[81] Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn | LLYW.CYMRU
[82] Panel Cynghori Targedau Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

4.25 Sefydlwyd gweithgor o randdeiliaid allanol i ganolbwyntio'n bennaf ar feysydd polisi yr Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethiant Amgylcheddol ym mis Hydref 2024.

## *Ymgynghoriad Pellach*

### Egwyddorion Amgylcheddol

4.26 Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi dogfen sy'n egluro sut y bydd yr egwyddorion amgylcheddol a'r dyletswyddau diogelu amgylcheddol integreiddiedig yn cael eu cymhwyso. Bydd hyn yn cynnwys (ond ni fydd wedi'i gyfyngu i) y manylion a ganlyn:

a. sut y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig cydymffurfio â'u dyletswydd o dan adran 3(1) o'r Bil,
b. sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn cysylltu â'i gilydd ac â'r dyletswyddau i integreiddio diogelu'r amgylchedd,
c. sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r dyletswyddau i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn cysylltu â'r amcan amgylcheddol.

4.27 Rhaid i'r datganiad gynnwys canllawiau i Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill ynghylch sut y maent i gydymffurfio â dyletswyddau perthnasol o dan Ran 1 o'r Bil.

### Rheoliadau targedau bioamrywiaeth

4.28 Bydd y Rheoliadau Targedau Bioamrywiaeth yn cael eu drafftio yn unol â'r egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a nodir yn Neddf 2016. Mae dwy o'r egwyddorion hyn yn ei gwneud yn ofynnol yn benodol bod swyddogion yn 'gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau' ac 'ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch'. Bydd yr egwyddorion hyn yn llywio ymgysylltu yn y dyfodol. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r sylwadau a ddaeth i law.

4.29 Bydd swyddogion yn ymgysylltu ar y cyd â rhanddeiliaid i ddatblygu targedau bioamrywiaeth penodol a'r lefelau i'w cyflawni. Bydd yr ymdrech ar y cyd hwn yn cynnwys cyngor technegol gan y Panel Cynghori Targedau Bioamrywiaeth a mewnbwn gan bartneriaid cyflawni, gan gynnwys sefydliadau nid-er-elw amgylcheddol, awdurdodau cyhoeddus, a chynrychiolwyr o'r sectorau amaeth, rheoli tir a morol.

4.30 Bydd yr ymdrechion hyn yn adeiladu ar ymgysylltu blaenorol a gynhaliwyd i ddatblygu'r meysydd blaenoriaeth targed a restrir yn y ddarpariaeth. Bydd y rheoliadau targedau bioamrywiaeth hefyd yn destun ymgynghoriad ffurfiol yn ystod y broses o'u datblygu.

4.31 Oherwydd yr ymgynghori helaeth sydd eisoes wedi'i gynnal mewn perthynas â'r cynigion yn y Ddeddf, ac amryw o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid, ni chynhaliwyd rhagor o ymgynghori ar Fil drafft cyn ei gyflwyno i'r Senedd.

# 5. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi penderfyniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, codau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

(i).y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii).sut y mae arfer y pŵer;

(iii).priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv).y weithdrefn a ddefnyddir; hynny yw, ai "cymeradwyo", "diddymu", neu "dim gweithdrefn", a’r rhesymau pam y weithdrefn honno sy’n briodol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth pan ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir ar union natur yr ymgynghoriad pan fydd y cynigion wedi'u ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant, a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 31 (4) - Ystyr "cyfraith amgylcheddol” | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru ddarparu bod darpariaeth ddatganoledig a bennir yn y rheoliadau o fewn, neu nad yw o fewn, y diffiniad o "cyfraith amgylcheddol" yn is-adran (1). Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod modd diogelu'r diffiniad o gyfraith amgylcheddol at y dyfodol a'i ddiweddaru gyda'r datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â pholisi rhyngwladol a domestig. | Cymeradwyaeth | Gall y pŵer gwneud rheoliadau hwn, pe bai'n cael ei arfer, effeithio'n sylweddol ar ddarpariaethau Deddfau'r Senedd drwy ychwanegu, diwygio neu ddileu darpariaethau sy'n berthnasol i'r diffiniad o 'cyfraith amgylcheddol', sy'n cael effaith sylweddol ar gwmpas pwerau goruchwylio'r Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol. Felly, ystyrir bod gweithdrefn gymeradwyo yn briodol gan ei bod yn caniatáu mwy o waith craffu gan y Senedd ar unrhyw newid arfaethedig i gwmpas SLIAC. |
| Adran 35(1) - Targedau Bioamrywiaeth: cyffredinol - | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru osod targedau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth. Dim ond os | Cymeradwyaeth | Mae sylwedd yr adran hon (h.y. y targedau) wedi'i gynnwys yn y rheoliadau. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 6B(1) newydd o Ddeddf 2016 | | | byddai cyrraedd targed yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac yn cyfrannu at y ddyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf 2016 y caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer hwn | | Bydd y weithdrefn gymeradwyo yn rhoi cyfle priodol am waith craffu ac atebolrwydd pan fydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer i wneud rheoliadau i osod targedau bioamrywiaeth. |
| | | | | | |
| Adran 35(1) – Dynodi awdurdodau cyhoeddus at ddiben adran 6(2A) – adran 6F(1) newydd o Ddeddf 2016 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â tharged a osodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6B o Ddeddf 2016, a fyddai'n gosod dyletswydd ar yr awdurdod cyhoeddus hwnnw i gymryd camau i gyfrannu at gyflawni'r targed. Yr awdurdodau cyhoeddus o fewn cwmpas y pŵer dynodi hwn yw awdurdodau datganoledig Cymru, a'r awdurdodau hynny a gedwir yn ôl sydd wedi'u heithrio o'r gofyniad i gael cydsyniad Gweinidog y Goron i osod swyddogaethau arnynt. | Cymeradwyaeth | Byddai'r pŵer gwneud rheoliadau, pe bai'n cael ei arfer, yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus dynodedig i gymryd camau i gyfrannu at gyflawni targed a osodwyd o dan adran 6A(1). Felly, ystyrir bod y weithdrefn gymeradwyo yn briodol gan y bydd yn caniatáu mwy o graffu gan y Senedd ar yr awdurdodau cyhoeddus dynodedig arfaethedig. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r pŵer hwn yn briodol gan fod awdurdod cyhoeddus dynodedig yn un y mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gallai wneud cyfraniad ystyrlon at gyflawni targed, ac oherwydd efallai y bydd angen diwygio'r awdurdodau sydd i'w dynodi dros amser. | | |
| Adran 46(4) – Cychwyn darpariaethau yn y Ddeddf drwy orchymyn | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn Cychwyn | Pŵer i gychwyn y darpariaethau sy’n weddill yn y Ddeddf heblaw’r rhai y darperir yn benodol ar eu cyfer yn y Bil. | Dim gweithdrefn | Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i weithredu darpariaethau’r Ddeddf yn llawn ar yr adeg fwyaf priodol ac yn unol â’r cynllun gweithredu ar gyfer SLIAC. |
| Adran 46(8) – pŵer i ddiwygio’r cyfnod amser yn is-adran 5 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i ddiwygio is-adran 46(5) er mwyn rhoi cyfnod amser gwahanol yn lle’r cyfnod o 24 o fisoedd a bennir yn 46(5), y mae rhaid i’r darpariaethau yn 46(6) ddod i rym erbyn ei ddiwedd, os nad ydynt eisoes wedi eu dwyn i rym drwy orchymyn. Mae’r pŵer yn briodol gan y gallai’r adeg cyn | Cymeradwyaeth | Os caiff y pŵer hwn ei arfer, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu estyn y cyfnod amser erbyn pryd y mae rhaid i’r darpariaethau yn 46(6) ddod i rym, os nad ydynt eisoes wedi eu cychwyn drwy orchymyn. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | i SLIAC ddod yn weithredol fod yn hwy na'r hyn a ragwelir. | | Gan y byddai hyn yn caniatáu ar gyfer cyfnod hwy cyn bod SLIAC yn gwbl weithredol, byddai'n rhaid cael cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau y ceir trosolwg o'r oedi hwnnw.<br>Mae adran 46(9) yn diogelu mai'r cyfnod hwyaf y gellir ei amnewid yn is-adran 46(5) yw 48 o fisoedd. |
| Atodlen 1 – Aelodaeth – Aelodau – paragraff 2(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i ddiwygio is-adran (1)(c) i roi rhif gwahanol yn lle'r naill neu'r llall o'r rhifau neu'r ddau rif am yr amser a bennir yn yr is-baragraff hwnnw. Gellir ystyried bod y pŵer hwn yn briodol i alluogi Gweinidogion, gyda chymeradwyaeth y Senedd, i gynyddu neu leihau aelodau'r corff fel y bo'n briodol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r pwyllgor yn Senedd Cymru y mae diogelu'r amgylchedd o fewn ei gylch | Cymeradwyaeth | Gall y pŵer hwn, pe bai'n cael ei arfer, gael effaith sylweddol ar y Ddeddf hon o'r Senedd drwy newid nifer yr aelodau o Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Mae'r weithdrefn gymeradwyo yn sicrhau na all Gweinidogion Cymru newid niferoedd aelodau heb gymeradwyaeth y Senedd, gan gefnogi annibyniaeth a thryloywder. |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwaith, SLIAC ac unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol cyn arfer y pŵer hwn. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn gallu cael ei diogelu at y dyfodol a'i haddasu i ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau i'w chwmpas neu ei chylch gwaith yn y dyfodol sy'n deillio o ddeddfwriaeth ehangach neu benderfyniadau'r llywodraeth. | | |
| Atodlen 1 – Aelodaeth – Anghymhwyso – paragraff 3 (1)(i) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Pŵer i anghymhwyso deiliad swydd, neu aelod neu aelod o staff corff a bennir gan Weinidogion Cymru. Gellir ystyried bod y pŵer hwn yn briodol i ddiogelu'r pŵer at y dyfodol a galluogi penderfyniadau i gael eu gwneud ynghylch priodoldeb atal unigolion penodol rhag dod yn aelod o Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn | Cymeradwyaeth | Gall y pŵer hwn, pe bai'n cael ei arfer, effeithio ar ddarpariaethau o fewn y Ddeddf hon o'r Senedd drwy ychwanegu neu ddileu rhwystrau i aelodaeth o Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Mae'r weithdrefn gymeradwyo yn cael ei hystyried yn briodol gan fod y ddarpariaeth yn effeithio ar hawliau |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | rhinwedd gwrthdaro buddiannau clir, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. | | unigolion i ddal swydd ac yn cefnogi annibyniaeth a thryloywder Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. |

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddiadau ac i gyhoeddi codau a chanllawiau [dilëir fel y bo'n briodol] yn narpariaethau Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)**

| **Adran** | **Rhoddir y pŵer i** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adrannau 6 a 7 - Datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd | Gweinidogion Cymru | Datganiad (gan gynnwys canllawiau) | Dyletswydd i baratoi, cyhoeddi a gosod gerbron y Senedd ddatganiad, gan gynnwys canllawiau i CNC ac awdurdodau cyhoeddus penodol ar sut i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â chymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. | Rhaid ymgynghori ar ddrafft o'r datganiad a'i osod gerbron y Senedd. Os yw'r Senedd yn gwneud argymhellion o fewn y "cyfnod o 40 niwrnod" rhagnodedig, rhaid i Weinidogion Cymru ymateb. Rhaid i'r datganiad terfynol gael ei gyhoeddi a'i osod gerbron y Senedd yn ddim hwyrach na 31 Mawrth 2027. | Bydd y canllawiau hyn yn cael eu paratoi ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. |
| Adran 13 - Cynghori Gweinidogion Cymru | Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru | Cyngor | Pŵer i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru roi cyngor i Weinidogion Cymru ar wneud cyfraith | Dim gweithdrefn | Bydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn gallu rhoi cyngor i Weinidogion Cymru i'w cefnogi wrth lunio a |

| Adran | Rhoddir y pŵer i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | amgylcheddol neu ddeddfiad newydd arall sy'n ymwneud â'r amgylchedd neu unrhyw newidiadau arfaethedig i'r un peth, yn ogystal â chyngor ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. | | diwygio cyfraith amgylcheddol a deddfiadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd gan ddefnyddio'r wybodaeth y maent wedi'i chael wrth gyflawni eu swyddogaethau. Bydd y cyngor yn cael ei gyhoeddi er tryloywder. |
| Adran 14 - cyngor, canllawiau a chymorth ar gyfraith amgylcheddol | Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru | Canllawiau neu Gyngor | Pŵer i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru gyhoeddi canllawiau neu gyngor ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol | Dim gweithdrefn | Bydd cyhoeddi canllawiau yn un o swyddogaethau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru i gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus i'w cefnogi i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Rhaid i'r Canllawiau gael eu cyhoeddi gan Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Rhaid cyhoeddi'r cyngor er tryloywder. |

# *Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol*

## Pennod 6 - Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

### *Cyflwyniad*

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol isod wedi'i gwblhau ar gyfer Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) (y Bil)

6.2 Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

### Crynodeb

- **Trosolwg Rheoleiddio:** Nod y Bil yw cyflwyno egwyddorion amgylcheddol, sefydlu corff llywodraethiant a gosod targedau bioamrywiaeth, gyda chyfanswm costau rhagamcanedig o £33.98m dros gyfnod arfarnu o 10 mlynedd. Mae'r costau hyn yn cael eu hategu gan gostau cyflawni enghreifftiol dros gyfnod o 78 mlynedd o £664m a gwerth presennol net (NPV) o £1,717m mewn manteision enghreifftiol dros gyfnod o 78 mlynedd ar gyfer cyfanswm manteision posibl o £1,024m ar gyfer y targedau bioamrywiaeth.
- **Manteision Deddfwriaeth:** Nod y ddeddfwriaeth yw gwella canlyniadau amgylcheddol, gan ganolbwyntio ar wella atafaelu carbon, ansawdd aer, gweithgareddau hamdden ac iechyd y cyhoedd. Mae heriau sylweddol wrth feintoli a moneteiddio'r manteision hyn ar gyfer yr egwyddorion a'r corff llywodraethiant amgylcheddol, felly mae manteision wedi'u costio yn seiliedig ar fanteision targedau bioamrywiaeth yn unig. Mae'r manteision amcangyfrifedig ar gyfer targedau bioamrywiaeth yn dod i gyfanswm o £1,717m dros gyfnod o 78 mlynedd. Mae'r gwerthoedd hyn yn adlewyrchu prisiau 2024 ac wedi'u disgowntio ar gyfradd o 3.5%

- **Opsiynau ar gyfer Egwyddorion Amgylcheddol:** Ystyriwyd pum opsiwn, yn amrywio o gynnal y sefyllfa bresennol i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus, gyda goblygiadau amrywiol o ran cost ac effeithiolrwydd amgylcheddol.
- **Opsiynau ar gyfer Llywodraethiant Amgylcheddol:** Mae'r asesiad yn gwerthuso pedwar opsiwn ar gyfer llywodraethiant, gan gynnwys sefydlu corff newydd neu integreiddio swyddogaethau i awdurdodau presennol, gan bwyso annibyniaeth yn erbyn goblygiadau cost.
- **Opsiynau ar gyfer Fframwaith Targedau Bioamrywiaeth:** Mae'r ddogfen yn trafod tri opsiwn ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth, a'r opsiwn a ffefrir yw cyflwyno fframwaith statudol i sicrhau atebolrwydd a bod ymdrechion bioamrywiaeth yn cael eu monitro'n effeithiol.

6.3 Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r tabl wedi'i ddylunio i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

<table>
<tr><th colspan="3">Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)</th></tr>
<tr><td colspan="3">Opsiwn a ffefrir: Cyflwyno Bil sy'n ymgorffori'r canlynol:<ul><li>Egwyddorion Amgylcheddol gyda dyletswydd ar Weinidogion Cymru a CNC wrth lunio polisi, ac ar awdurdodau cyhoeddus sy'n ymgymryd ag Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)</li><li>corff llywodraethiant amgylcheddol annibynnol a</li><li>fframwaith statudol ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cyfnod: Cyflwyno</td><td>Cyfnod yr arfarnu:<br>2025/26 - 2034/35</td><td>Blwyddyn sail brisiau:<br>2024/25</td></tr>
</table>

| Cyfanswm Cost Cyfanswm: £33.98m[83] Gwerth presennol: £28.98m | Cyfanswm Manteision Cyfanswm: Amherthnasol Gwerth presennol: Amherthnasol | Gwerth Presennol Net (NPV): £28.98m[84] |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Costau a Manteision Dangosol:** Oherwydd natur y darpariaethau, mae'n anodd meintioli'n union fanteision eu gweithredu. Fodd bynnag, mae ymdrech wedi'i gwneud i amlinellu'r manteision posibl a'r costau cyflawni dangosol cysylltiedig, gan dynnur ar dystiolaeth o asesiad effaith Deddf yr Amgylchedd 2021. Gan fod canlyniadau amgylcheddol yn tueddu i ddod i'r amlwg dros gyfnodau estynedig, mae cyfnod arfarnu o 78 mlynedd wedi'i fabwysiadu, yn gyson â'r sylfaen dystiolaeth manteision. | | |
| **Cyfnod arfarnu:** 2025/26 – 2103/04 | **Blwyddyn sail brisiau:** 2024/25 | |
| **Costau dangosol: Gwerth presennol:** £664m | **Manteision dangosol: Gwerth presennol:** £1,717m | **Gwerth Presennol Net (NPV):** £1,053m |

## Cost weinyddol

[83] Nid yw'r gwerth hwn yn cynnwys y costau enghreifftiol y rhagwelir y bydd eu hangen i gyflawni'r manteision enghreifftiol. Mae'r costau enghreifftiol hyn, sydd wedi'u cynnwys o dan 'Costau eraill' isod, wedi'u cyfrifo yn nhermau gwerth presennol yn unig, felly maent wedi'u cynnwys yn y cyfrifiadau Gwerth Presennol y Gost a'r Gwerth Presennol Net. Fel gyda'r manteision enghreifftiol, bydd y costau gwirioneddol yr eir iddynt yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth y cymhwysir yr egwyddorion iddi, yr achosion sy'n cael eu dwyn gerbron SLIAC a hyd, lefel a'r math o dargedau bioamrywiaeth a osodir.

[84] Mae'r costau enghreifftiol (sydd wedi'u cynnwys o dan 'Costau eraill' isod) a'r buddion enghreifftiol a ddefnyddiwyd i amcangyfrif yr NPV hwn wedi'u cyfrifo dros gyfnod arfarnu o 78 mlynedd. Mae'r rhain wedi'u cyfuno â'r costau gweinyddol a chydymffurfio sydd wedi'u cyfrifo dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae allosod y costau gweinyddol a chydymffurfio dros 78 mlynedd yn lleihau'r NPV oddeutu £70m, ond mae'n parhau i fod yn gadarnhaol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Costau:** Disgwylir i'r mwyafrif o'r costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r Bil gael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r costau hyn yn cynnwys costau staff i weithredu'r egwyddorion amgylcheddol ac i ddatblygu a gweithredu targedau bioamrywiaeth. Yn ogystal, mae cost barhaus ar gyfer y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd o oddeutu £21m yn gysylltiedig â'r corff llywodraethu amgylcheddol newydd a chost arall o oddeutu £10.3m yn gysylltiedig â chynnal a monitro targedau bioamrywiaeth. | | | |
| **Trosiannol:** £2.23m | **Rheolaidd:** £30.68m | **Cyfanswm:** £32.92m | **PV:** £28.08m |
| **Arbedion cost:** Nid oes unrhyw arbedion cost wedi'u nodi. | | | |
| **Trosiannol: £**0 | **Rheolaidd: £**0 | **Cyfanswm £**0 | **PV: £**0 |
| **Cost weinyddol net: £32.92m** | | | |

## Costau cydymffurfio

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae costau eraill sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â dyletswyddau newydd i weithredu'r egwyddorion wrth ymgymryd ag AAS (ac, yn achos CNC, gwneud polisi). Yn ogystal, bydd cyrff cyhoeddus yn ysgwyddo costau cydymffurfio sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn ymchwiliadau SLIAC. Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys pa gyrff cyhoeddus fydd yn destun ymchwiliad. | | | |
| **Trosiannol:** £0 | **Rheolaidd:** £1.07m | **Cyfanswm:** £1.07m | **PV:** £0.91m |

## Costau eraill

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r RIA yn cynnwys amcangyfrif enghreifftiol o'r manteision posibl a fydd yn cael eu cyflawni gan y Bil, gyda'r amcangyfrif yn seiliedig ar yr Asesiad Effaith a oedd yn cyd-fynd â Deddf Amgylchedd y DU 2021. Disgwylir i'r manteision gael eu gwireddu drwy gadw at egwyddorion a chyfreithiau amgylcheddol a thrwy gyrraedd y targedau bioamrywiaeth. Ar hyn o bryd, nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r targedau bioamrywiaeth yn hysbys. Fodd bynnag, er mwyn cyflwyno asesiad cytbwys, amcangyfrifwyd cost enghreifftiol (unwaith eto yn seiliedig ar yr asesiad effaith a oedd yn cyd-fynd â Deddf Amgylchedd y DU 2021). Amcangyfrifir mai'r gost enghreifftiol hon yw £664m (yn nhermau gwerth presennol) dros gyfnod o 78 mlynedd. | | | |
| **Trosiannol:** | **Rheolaidd:** | **Cyfanswm:** | **PV:** £664m |

## Costau heb eu meintoli ac anfanteision

| |
|---|
| Mae'r costau heb eu meintoli a'r anfanteision yn cynnwys y potensial na fydd dyletswyddau newydd ar weinidogion yn gwella canlyniadau amgylcheddol yn sylweddol, gan leihau effaith y costau ychwanegol.<br>Mewn perthynas â'r Egwyddorion Amgylcheddol, mae pryder y gallai baich cydymffurfio cynyddol gyfyngu ar adnoddau mewn meysydd allweddol. Mae yna risg hefyd o fiwrocratiaeth ychwanegol, gyda'r posibilrwydd o gynyddu amseroedd trwyddedu a rhoi baich pellach ar y system gynllunio.<br>Mewn perthynas â sefydlu SLIAC, mae sefydlu un awdurdod cyhoeddus yn golygu costau na ellir eu meintoli sy'n gysylltiedig â'r amser sydd ei angen iddo ddod yn weithredol ac yn effeithiol, a sicrhau ei hannibyniaeth glir.<br>Mewn perthynas â'r fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth, mae costau na ellir eu meintoli hefyd yn deillio o'r camau gweithredu a'r adnoddau sydd eu hangen i gyrraedd y targedau penodol (a nodir mewn Is-ddeddfwriaeth). Bydd gwaith pellach i amcangyfrif costau a manteision yn cael ei wneud fel rhan o'r broses gosod targedau |

## Manteision

| | |
|---|---|
| Amcan y ddeddfwriaeth yw sicrhau gwell canlyniadau amgylcheddol i Gymru. Fodd bynnag, o ystyried natur y polisïau, mae'n anodd priodoli manteision i unrhyw un polisi o fewn y ddeddfwriaeth. O ganlyniad, gwnaed amcangyfrif dangosol i feintoli manteision gwell gweithrediad amgylcheddol sy'n deillio o Dargedau Bioamrywiaeth yn seiliedig ar ffigurau dadansoddiad cost a budd Deddf yr Amgylchedd 2021. Mae'r mwyafrif o'r manteision a nodwyd yn ymwneud â gwell atafaelu carbon, ansawdd aer, gweithgareddau hamdden ac iechyd y cyhoedd dros gyfnod o 78 mlynedd.<br><br>Oherwydd fformat fframwaith yr egwyddorion a'r targedau bioamrywiaeth, ni fu modd cyfrifo manteision wedi'u moneteiddio ar gyfer y cyfnod arfarnu. Mae hyn am fod y polisïau a'r ddeddfwriaeth y gellid cymhwyso'r egwyddorion iddynt, a phwnc, metrig, cwmpas a hyd y targedau, yn anhysbys ar hyn o bryd. Mae cyfyngiadau tebyg yn gymwys i SLIAC, gyda phynciau achosion, a'u canlyniadau, yn anhysbys. | |
| **Cyfanswm:** | **PV: £1,717m** |

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau a ffactorau ansicr allweddol

| |
|---|
| Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) hwn, comisiynodd swyddogion ymchwilydd ac economegydd trydydd parti i lunio adroddiad.[85] Mae'r adroddiad yn adeiladu ar yr RIA drafft a gefnogodd y *Papur Gwyn Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy* ac RIA Deddf yr Amgylchedd 2021 ar gyfer meintoli manteision a defnyddiodd gyfres o gyfweliadau â rhanddeiliaid ac adolygiadau llenyddiaeth i gasglu tystiolaeth bellach i ddeall costau, manteision ac anfanteision yr opsiynau a nodir isod.<br>Y prif ansicrwydd sy'n gysylltiedig â meintoli costau a manteision yw na fydd y targedau bioamrywiaeth terfynol yn cael eu meintoli yn ystod taith y ddeddfwriaeth sylfaenol hon. Mae darpariaethau yn y Bil yn cyflwyno fframwaith gosod targedau, gyda'r targedau'n cael eu cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth. O ganlyniad, mae targedau dangosol wedi'u defnyddio fel dirprwy.<br>Mae rhagdybiaethau hefyd wedi'u gwneud ar lefelau staffio gofynnol Llywodraeth Cymru a fyddai ar waith i gefnogi'r cynigion. Mae'r rhagdybiaethau hyn wedi'u cario drosodd i feintoli costau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r polisïau o fewn y Bil. Mewn perthynas â sefydlu SLIAC, defnyddiodd swyddogion hefyd amcangyfrifon cyfochrog yn seiliedig ar lwyth achosion Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i asesu cost weithredol opsiynau'r corff llywodraethiant. Yn olaf, cymhwyswyd cyfradd ddisgownt o 3.5% i gostau yn y dyfodol yn unol â methodoleg Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. |

[85] The Young Foundation - Review and Cost Benefit Analysis of Welsh Government Environmental Governance, Principles and Nature Recovery Bill

# Pennod 7 – Opsiynau

7.1. Bydd yr adran hon yn archwilio costau a manteision cysylltiedig pob cynnig deddfwriaethol yn y Bil. Mae pob cynnig wedi ystyried sawl opsiwn i benderfynu ar y dull gorau posibl o wella polisi, diogelu a bioamrywiaeth amgylcheddol yng Nghymru.

7.2. Defnyddiwyd cyfnod arfarnu o ddeng mlynedd yn y dadansoddiad, sy'n cwmpasu'r blynyddoedd 2025-26 i 2034-35. Cyflwynir yr holl gostau ym mhrisiau blwyddyn sylfaen 'real', gydag effeithiau chwyddiant cyffredinol wedi’u dileu. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.

7.3. Mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf oni nodir yn wahanol. Efallai na fydd rhai cyfansymiau yn gwbl gywir oherwydd y talgrynnu hwn.

**Egwyddorion Amgylcheddol**

7.4. Mae'r adran hon o'r RIA yn cefnogi'r cynnig i gyflwyno set o egwyddorion amgylcheddol yng Nghymru.

7.5. Ystyriwyd pedwar opsiwn i ddechrau i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o weithredu set o egwyddorion amgylcheddol i lywio datblygiad deddfwriaethol a pholisi er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, gyda phumed opsiwn yn cael ei ystyried wedyn (hybrid rhwng opsiynau 3 a 4):

- **Opsiwn 1** – Busnes fel arfer (llinell sylfaen)
- **Opsiwn 2 –** Egwyddorion yn unig (heb ddyletswydd ar Weinidogion Cymru nac awdurdodau cyhoeddus)
- **Opsiwn 3 –** Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion
- **Opsiwn 4 –** Dyletswydd ar Awdurdodau Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Gweinidogion, o dan o leiaf dri senario (datblygu

deddfwriaeth, fel awdurdod cyfrifol sy'n cynnal asesiad amgylcheddol, neu fel awdurdod cymwys mewn perthynas ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol)

- **Opsiwn 5 –** Dyletswydd ar Weinidogion Cymru a CNC wrth lunio polisi, wedi'i hategu gan ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus wrth gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol

**Opsiwn 1: Busnes fel arfer**

**Disgrifiad**

7.6. O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, mae polisi amgylcheddol yng Nghymru yn cael ei lywio'n sylweddol (ond nid yn gyfan gwbl) gan Ddeddf 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r deddfau hyn yn darparu sylfaen ar gyfer datblygu cynaliadwy a diogelu'r amgylchedd.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

7.7. Mae Deddf 2016 yn hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae darpariaethau allweddol yn cynnwys:

- Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn ffordd sy'n cynnal ac yn gwella gwydnwch ecosystemau.
- Dyletswydd Bioamrywiaeth: Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth, gan hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

7.8. Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae darpariaethau allweddol yn cynnwys:

- Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: Rhaid i awdurdodau cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n sicrhau datblygu cynaliadwy, gan ystyried effeithiau hirdymor ac atal problemau.
- Nodau Llesiant: Sefydlu saith nod llesiant, gan gynnwys Cymru gydnerth a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

- Dyletswydd Llesiant: Rhaid i awdurdodau cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant a ddyluniwyd i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant.

**Anfanteision**

7.9. Mae cynnal y sefyllfa bresennol yn cyflwyno nifer o anfanteision sylweddol. Yn gyntaf, byddai'n rhwystro cryfhau mesurau diogelu'r amgylchedd ymhellach, gan ei gwneud yn fwy heriol cyflawni nodau Cymru ar gyfer cymdeithas wyrddach, carbon niwtral. Byddai'r argyfwng natur parhaus yn gwaethygu, gan arwain at effeithiau hirdymor ar iechyd, llesiant, canlyniadau cymdeithasol a dirywiad ardaloedd lleol.

7.10. Mae'r costau hyn, er eu bod yn anodd eu meintoli, yn sylweddol. Gallai Cymru hefyd fod mewn perygl o golli tegwch ac ymreolaeth os yw'n parhau i fod yr unig genedl ddatganoledig heb ei deddfwriaeth ei hun ynghylch egwyddorion amgylcheddol. Gallai hyn amlygu Cymru i fframweithiau llai uchelgeisiol a osodir gan lywodraeth y DU, gan effeithio ar strategaethau a gweithrediadau lleol.

7.11. Yn economaidd, gallai gwahaniaethau cynyddol i ddeddfwriaeth amgylcheddol yr UE effeithio ar fasnach, cydweithredu a chyllid ymchwil. Gallai'r ffaith bod awdurdodau cyhoeddus yn cymhwyso fframweithiau rhyngwladol yn anghyson greu ffrithiant ac anghysondebau.

7.12. Yn ogystal, byddai dirywiad yr amgylchedd naturiol yn effeithio'n negyddol ar lesiant pobl, gan arwain at gostau cynyddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a'r wladwriaeth les. Yn gymdeithasol, byddai colli mannau gwyrdd ac amharu ar ecosystemau yn niweidio canlyniadau cymdeithasol, economaidd, treftadaeth a chymunedol.

**Costau – Crynodeb**

7.13. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn gan na fyddai'r Egwyddorion Amgylcheddol yn cael eu datblygu na'u cyflwyno i lyfr statud Cymru.

**Manteision**

7.14. Un fantais posibl o wneud dim fyddai osgoi cost weinyddol, gan fod opsiynau eraill yn cynnwys costau gweithredu uwch i'r trethdalwr.

7.15. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol na chyrff cyhoeddus neu breifat eraill yn deillio o'r opsiwn hwn.

**Crynodeb**

7.16. Opsiwn un yw parhau â busnes fel arfer drwy ddefnyddio dyletswyddau deddfwriaethol presennol i lywio datblygiad deddfwriaeth a pholisi yn y dyfodol. Ni fyddai unrhyw gostau gweithredu newydd yn codi. Fodd bynnag, byddai'r dull presennol yn methu â darparu fframwaith mwy cadarn i gefnogi polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng natur a thargedau amgylcheddol.

**Opsiwn 2: Egwyddorion yn unig**

**Disgrifiad**

7.17. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cyflwyno i lyfr statud Cymru. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw ofyniad ychwanegol, ar ffurf dyletswydd, i Weinidogion Cymru nac awdurdodau cyhoeddus roi 'sylw dyladwy' i'r egwyddorion.

7.18. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddai'r egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cymhwyso ar sail ad hoc pryd bynnag y bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod hynny'n addas ac yn gallu gwneud hynny. Byddai'r egwyddorion amgylcheddol yn gwasanaethu fel canllawiau wrth lunio cyfraith a rheoliadau amgylcheddol.

**Anfanteision**

7.19. Mae cyflwyno'r egwyddorion amgylcheddol i lyfr statud Cymru heb ddyletswydd ar Weinidogion Cymru nac awdurdodau cyhoeddus i roi 'sylw dyladwy' iddynt yn cyflwyno nifer o anfanteision. Gallai hyn arwain at sefyllfaoedd lle mae egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cyflwyno ond heb eu cynnal, gan arwain at heriau cyfreithiol sy'n aneffeithiol gan nad yw'n ofynnol i bolisïau, a Gweinidogion Cymru, gydymffurfio â'r egwyddorion amgylcheddol.

7.20. Mae potensial hefyd ar gyfer aneffeithiolrwydd a gwastraffu costau mewn amser llysoedd oherwydd nad ydynt yn orfodadwy. Gallai'r dull hwn achosi aflonyddwch, diffyg cefnogaeth a dryswch wrth gymhwyso, gan

arwain at lai o effaith a chydymffurfiaeth yn y pen draw. Fel y dangosir gan adroddiad diweddar Archwilio Cymru, mae dryswch ynghylch gweithredu a chanllawiau yn duedd o fewn polisi amgylcheddol Cymru[86]. Yn ogystal, mae perygl y bydd yr egwyddorion amgylcheddol yn cael eu defnyddio fel offeryn 'cywilyddio', lle mae awdurdodau cyhoeddus a gweinidogion yn cael eu beirniadu am beidio â'u cynnal, a allai gyflwyno risgiau gwleidyddol a hollti barn pleidleiswyr. Gallai hyn rwystro cynnydd tuag at gyflawni canlyniadau a manteision amgylcheddol, gan y gellid ystyried yr egwyddorion amgylcheddol fel rhaniad gwleidyddol yn hytrach nag ymrwymiad gwirioneddol i ddiogelu'r amgylchedd.

7.21. Ar ben hynny, gallai'r diffyg dyletswydd i gynnal yr egwyddorion amgylcheddol arwain at gyfraith aneglur na ellir ei gorfodi, gan ei gwneud yn anodd cyflawni gwelliant amgylcheddol ystyrlon.

**Costau**

7.22. Bydd cost datblygu a gweithredu'r ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol i ymwreiddio'r egwyddorion amgylcheddol yn llyfr statud Cymru yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru. Bydd y gost hon yn cael ei realeiddio mewn amser gweision sifil ar gyfer datblygu'r ddeddfwriaeth. Amcangyfrifir y bydd hyn yn gofyn am amser tri gweithiwr cyflogedig llawn amser Gradd 7 (G7) rhwng 2025 a 2026 i ddatblygu'r ddeddfwriaeth. Mae hyn yn cyfateb i £97,317 y pen, y flwyddyn am y cyfnod. Cyfrifwyd y costau drwy amcangyfrif y costau i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y graddfeydd cyflog diweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru[87]. Mae'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn i'w weld yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

**Tabl [1]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau costau – Egwyddorion Amgylcheddol**

| | **Opsiwn 2** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Egwyddorion Amgylcheddol yn unig |

[86] Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | Archwilio Cymru
[87] Datganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru 2024

| | |
|---|---|
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £584,000 |

**Manteision**

7.23. Er gwaethaf yr anfanteision, mae manteision ansoddol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r egwyddorion amgylcheddol i lyfr statud Cymru. Un fantais amlwg yw'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth a gwelededd diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Gall hyn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o bwysigrwydd materion amgylcheddol a meithrin diwylliant o stiwardiaeth amgylcheddol.

7.24. Gallai cyflwyno'r egwyddorion hefyd helpu i liniaru'r risg o gamwybodaeth a sicrhau cefnogaeth y cyhoedd. Yn ogystal, byddai cyflwyno yn caniatáu i swyddogion deilwra'r egwyddorion i gyd-destun penodol Cymru, gan ystyried ei maint, ei heconomi, ei diwylliant a'i gweithdrefnau unigryw. Gallai hyn arwain at fwy o ddichonoldeb, effeithlonrwydd ac arloesi o ran diogelu'r amgylchedd.

7.25. Gallai'r egwyddorion hefyd alluogi drafftio amddiffyniadau'r amgylchedd yn fwy manwl, gan arwain at ganlyniadau amgylcheddol cryfach drwy gydymffurfiaeth wirfoddol a mwy o ewyllys gwleidyddol.

7.26. Er nad oes modd meintoli'r manteision hyn, maent yn adlewyrchu'r potensial ar gyfer dull mwy ymgysylltiedig a rhagweithiol o ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru.

**Crynodeb**

7.27. Gallai cyflwyno egwyddorion amgylcheddol heb ddyletswydd i Weinidogion Cymru eu cynnal arwain at aneffeithiolrwydd, risgiau gwleidyddol a deddfau aneglur. Fodd bynnag, gallai godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, galluogi'r egwyddorion i gael eu teilwra gan ddarparu amddiffyniadau i gyd-destun Cymru, a meithrin cydymffurfiaeth wirfoddol. Mae'r dull hwn yn sicrhau cydbwysedd rhwng gwelededd ac arloesi a heriau gorfodi posibl.

**Opsiwn 3: Dyletswydd ar Weinidogion Cymru**

**Disgrifiad**

7.28. Mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar opsiwn 2 drwy fynd y tu hwnt i gyflwyno egwyddorion amgylcheddol i lyfrau statud Cymru i gynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol, a'u canllawiau ategol, wrth ddatblygu eu polisïau a'u deddfwriaeth. Diben y ddyletswydd hon yw sicrhau, ar sail statudol, y bydd polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol.

**Anfanteision**

7.29. Mae cyflwyno dyletswydd i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion amgylcheddol wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth yn cyflwyno nifer o anfanteision. Un anfantais sylweddol yw'r posibilrwydd na fydd y ddyletswydd hon yn cyflawni cynnydd digon sylweddol mewn effaith a chanlyniadau yn erbyn nodau'r Bil i gyfiawnhau costau ychwanegol ei hymwreiddio wrth lunio polisi ac mewn dyletswyddau gweinidogol.

7.30. Mae'r adroddiad a gomisiynwyd yn tynnu sylw at y ffaith y gallai'r ddyletswydd i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol arwain at aneffeithlonrwydd wrth lunio polisïau a chostau cynyddol i adnoddau'r gwasanaeth sifil a swyddfeydd gweinidogol. Mae pryder gwleidyddol hefyd y gallai'r agenda twf bresennol a nodir yn Plan for Change[88] Llywodraeth y DU roi pwysau ychwanegol ar benderfyniadau ar lefel llywodraeth ddatganoledig, gan greu tensiwn rhwng cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a meysydd polisi eraill sy'n ffocws i'r agenda twf megis adeiladu tai neu ddatblygu trefi newydd.

7.31. Yn ogystal, un anfantais bosibl yw na fyddai cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ar lefel uchaf llunio polisïau o reidrwydd yn sicrhau mwy o gymorth i'r sector preifat wrth gymhwyso egwyddorion ar lefel weithredol megis pysgodfeydd neu amaethyddiaeth i addasu i'r deddfau a'r rheoliadau amgylcheddol sy'n deillio o hynny. Gallai hyn arwain at risgiau economaidd i rai sectorau neu gymunedau, oherwydd eu hanallu i gydymffurfio â deddfwriaeth neu bolisïau newydd.

[88] Plan for Change - GOV.UK

**Costau**

7.32. Bydd y costau ar gyfer gweithredu'r egwyddorion amgylcheddol yn llyfr statud Cymru ac yna cydymffurfio â'r ddyletswydd i'w cymhwyso wrth lunio rheoliadau a pholisïau yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru.

7.33. Fel gydag opsiwn dau, mae'r costau'n gysylltiedig yn bennaf â datblygu a gweithredu'r ddeddfwriaeth ofynnol ac nid ydynt yn newid o'r opsiwn hwnnw. Cydnabyddir hefyd, unwaith y bydd y Bil yn cael ei weithredu, y bydd amser ychwanegol staff yn cael ei neilltuo tuag at ymgyfarwyddo â'r egwyddorion newydd a sut y maent yn cael eu cymhwyso yn ymarferol. Ni chafodd y gost hon ei meintoli gan nad yw'n hysbys faint o weision sifil fydd angen ymgymryd ag ymgyfarwyddo na pha mor hir y bydd y broses yn ei gymryd i bob unigolyn. Fodd bynnag, os yw'r egwyddorion amgylcheddol wedi'u cynnwys yn y broses asesiad effaith integredig (IIA), ychydig iawn o effaith ddylai'r ymgyfarwyddo ei chael, gyda'r egwyddorion yn cael eu cynnwys yn y canllawiau a'r hyfforddiant cyffredinol sy'n cefnogi datblygiad IIA. Dylai cynnwys o fewn y broses IIA gyfyngu amlygiad gweision sifil i'r egwyddorion i'r rhai sy'n gwasanaethu mewn rolau polisi neu reoleiddiol, gyda llai o effaith ar arbenigwyr, megis yr adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS).

7.34. Bydd angen adnoddau i hyfforddi ac ymgyfarwyddo gweision sifil â'r dyletswyddau newydd, a sut y dylid eu cymhwyso. Mae paratoi'r deunydd hwn yn gost untro yr eir iddi ar ôl i'r darpariaethau ddod i rym. Amcangyfrifir y bydd yn cymryd tua 73 awr i ddatblygu'r hyfforddiant hwn[89]. Bydd y gwaith datblygu hyfforddiant hwn yn cael ei gynnal gan y tri G7 a ddatblygodd y darpariaethau, oherwydd eu gwybodaeth fanwl am y pwnc. Amcangyfrifir mai'r gost hon yw £3,900 yn seiliedig ar gostau staff Llywodraeth Cymru ac amser datblygu cyfartalog ar gyfer deunydd hyfforddi oddeutu 8,500 o eiriau. Wrth gadw at Safon y Gymraeg, bydd rhaid i'r deunydd hyfforddi hwn gael ei gefnogi gan wasanaethau cyfieithu hefyd. Cyfrifwyd amcangyfrif o £5,800 gan ddefnyddio rhagdybiaeth o bum dogfen sy'n cynnwys 8,500 o eiriau o destun anneddfwriaethol yn

[89] How Long Does It Take to Develop Training? New Question, New Answers

unol â'r canllawiau cost a ddarparwyd gan yr Uned Gyfieithu. Disgwylir i’r costau hyn gael eu hysgwyddo yn 2026-27.

7.35. Bydd costau cydymffurfio hefyd yn gysylltiedig â'r egwyddorion a'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i'w cymhwyso. Mae'n heriol asesu'r costau hyn yn gywir gan y bydd y ffigurau terfynol yn dibynnu ar gymhlethdodau'r polisïau, y cynlluniau a'r rhaglenni penodol y mae'r egwyddorion yn cael eu cymhwyso iddynt, ynghyd â maint a gradd y swyddogion polisi sy'n ymwneud â datblygu polisi. Amcangyfrifir y bydd cost cydymffurfio tua £101,600 y flwyddyn, gan ddechrau yn 2026-27. Cyfanswm y gost ar draws y cyfnod arfarnu yw £914,700.

7.36. Cyfrifwyd y gost hon gan ddefnyddio amcangyfrif cyffelyb o gost cydymffurfio â chynllun effeithlonrwydd ynni yn seiliedig ar adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net a'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol[90], sef casglu data amgylcheddol, dadansoddi gwybodaeth amgylcheddol a gweithio gyda rheoleiddiwr amgylcheddol. Canfu'r adroddiad fod costau cydymffurfio yn £12,700 y flwyddyn fesul awdurdod cyhoeddus ym mhrisiau 2024. Dylid nodi, fodd bynnag, fod y dirprwy yn ymwneud â chynllun penodol, a gall gweithgareddau penodol fod yn wahanol iawn i gymhwyso'r egwyddorion i ddeddfwriaeth benodol. Er mwyn troi hyn yn amcangyfrif ar gyfer yr egwyddorion, aeth yr ymchwilwyr a gomisiynwyd gan swyddogion polisi ati i luosi'r gost hon gydag wyth i gwmpasu'r gwahanol Brif Grwpiau Gwariant o fewn Llywodraeth Cymru ac alinio â phortffolios Gweinidogol. Dewiswyd y dirprwy hwn gan ei fod yn costio gweithgarwch a allai alinio â chymhwyso'r egwyddorion. Er bod Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn ehangu nifer yr aelodau o'r Senedd[91], nid yw'n bosibl rhagweld eto sut y bydd hyn yn effeithio ar bortffolios Gweinidogol neu a fydd yn arwain at fwy o Brif Grwpiau Gwariant, felly defnyddiwyd nifer y Prif Grwpiau Gwariant yn 2025 i ddarparu lefel o sicrwydd sylfaenol. Mae'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn i'w weld yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

[90] Assessment of costs to UK participants of compliance with Phase 2 of the CRC Energy Efficiency Scheme - GOV.UK
[91] Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 | Cyfraith Cymru

**Tabl [2]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – Egwyddorion Amgylcheddol**

| | **Opsiwn 3** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £1.51m |

**Manteision**

7.37. Mae sawl mantais yn gysylltiedig â chyflwyno dyletswydd i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion amgylcheddol. Un o'r prif fanteision yw mwy o annibyniaeth ac ymreolaeth i Gymru arwain ei chynnydd ei hun ar ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth. Mae'r ddyletswydd hon yn cryfhau gallu Cymru i ysgogi cyfraith amgylcheddol a chyflawni effeithiau diriaethol o'r Bil.

7.38. Drwy ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yn y gyfraith, gall Cymru ddrafftio amddiffyniadau amgylcheddol mwy manwl gywir a phenodol i gyd-destun. Mae hyn yn sicrhau bod polisïau nid yn unig yn effeithiol ond hefyd yn ymarferol ac yn effeithlon, gan ystyried graddfa, economi, diwylliant a dulliau gweithdrefnol unigryw Cymru. Gall y dull hwn arwain at fwy o gydymffurfiaeth ac arloesi ym maes diogelu'r amgylchedd.

7.39. Yn ogystal, bydd hyn yn gwella arweinyddiaeth Cymru ym maes polisi ac arloesi amgylcheddol, gan arwain o bosibl at gydweithrediadau trawsffiniol sy'n cryfhau ein hamddiffyniadau amgylcheddol ymhellach.

7.40. Budd sylweddol arall yw'r potensial i gyflymu cynnydd tuag at dargedau sero net (a thargedau amgylcheddol eraill), gyda chanlyniadau amgylcheddol cadarnhaol cysylltiedig.

7.41. Gall y ddyletswydd hon helpu i gynnal camau gweithredu cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd ac osgoi dad-flaenoriaethu. Gall cynnwys y ddyletswydd i ystyried yr egwyddorion amgylcheddol rymuso Cymru i arwain ei chynnydd ei hun ar ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth.

7.42. Drwy ymwreiddio'r egwyddorion hyn wrth lunio polisïau, gall Cymru deilwra ei strategaethau amgylcheddol i'w chyd-destun unigryw, gan sicrhau bod polisïau'n fwy perthnasol ac effeithiol. Mae'r ymreolaeth hon yn caniatáu i Gymru fynd ymhellach, yn gyflymach o ran diogelu'r amgylchedd, gan osod esiampl unigryw yn y DU.

**Crynodeb**

7.43. Gallai cyflwyno dyletswydd i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion amgylcheddol arwain at aneffeithlonrwydd a chostau cynyddol, gyda risgiau gwleidyddol ac effeithiau economaidd posibl ar sectorau fel amaethyddiaeth, pysgodfeydd a grwpiau eraill yn y sector preifat. Fodd bynnag, mae'n cryfhau annibyniaeth Cymru wrth lunio polisïau amgylcheddol, yn cyflymu cynnydd tuag at dargedau sero net ac yn meithrin cydnabyddiaeth wleidyddol a chymorth trawsbleidiol i ddiogelu'r amgylchedd. Mae'r dull hwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am orfodi llym a manteision mwy o ymreolaeth a chamau gweithredu amgylcheddol rhagweithiol, ond nid yw'n cwmpasu'r holl gyrff sy'n drafftio polisi a rheoliadau yng Nghymru.

**Opsiwn 4: Dyletswydd ar Awdurdodau Cymru**

**Disgrifiad**

7.44. Mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar opsiwn tri. O dan yr opsiwn hwn, byddai'r egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cyflwyno i lyfr statud Cymru a byddai dyletswydd i gymhwyso'r Egwyddorion Amgylcheddol yn cael ei chymhwyso i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol. Fel o dan opsiwn tri, diben y ddyletswydd hon yw sicrhau bod polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan roi sylw priodol i'r egwyddorion amgylcheddol. Gyda dyletswydd i roi sylw yn ymestyn y tu hwnt i Weinidogion Cymru, byddai'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus perthnasol hefyd roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol wrth ddrafftio eu rheoliadau eu hunain.

**Anfanteision**

7.45. Mae cyflwyno dyletswydd i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol gymhwyso egwyddorion amgylcheddol wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth yn cyflwyno nifer o anfanteision. Un pryder sylweddol yw'r cynnydd mewn costau sy'n gysylltiedig ag ymestyn y ddyletswydd hon i awdurdodau cyhoeddus, yr amcangyfrifir ei fod chwe gwaith yn fwy na'r opsiynau blaenorol[92]. Mae hyn yn cynnwys cost adrodd, cydymffurfio a gwella effeithiolrwydd y Bil, a allai gyfyngu ar effaith gweithgareddau diogelu'r amgylchedd ar lawr gwlad.

7.46. Mae yna anfantais ychwanegol y byddai cyfrifoldebau ychwanegol, os na cheir adnoddau addas ar eu cyfer, yn cael eu hystyried yn faich gan awdurdodau cyhoeddus, gan effeithio ar eu gallu i weithredu'r egwyddorion yn effeithiol. Y senario gwaethaf yw y gallai'r baich ychwanegol hwn atal awdurdodau cyhoeddus rhag cyhoeddi rheoliadau neu bolisïau yn rhagweithiol.

7.47. Mae llywodraethau lleol yn gweithredu gyda chyllidebau ac adnoddau cyfyngedig. Bydd gweithredu egwyddorion amgylcheddol newydd yn gofyn am gyllid, staff a hyfforddiant ychwanegol, a allai roi straen ar adnoddau sydd eisoes wedi'u hymestyn. Yn ogystal, efallai nad oes gan lawer o awdurdodau lleol yr arbenigedd angenrheidiol i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol yn effeithiol. Gall hyn arwain at anawsterau wrth ddrafftio rheoliadau a pholisïau sy'n cyd-fynd â'r egwyddorion hyn.

7.48. Yn olaf, fel gydag opsiwn tri, mae risg y gellid cymhwyso'r egwyddorion ar lefel uchaf llunio polisïau ond, heb gymorth digonol i sectorau addasu, mae potensial i hyn arwain at ansicrwydd economaidd i rai cymunedau.

7.49. Gall cyflwyno'r ddyletswydd hefyd arwain at aneffeithlonrwydd ar lefel llywodraeth leol, lle gallai pwysau ar adnoddau a dryswch ynghylch gweithredu rwystro cydymffurfiaeth.

**Costau**

[92] The Young Foundation - Review and Cost Benefit Analysis of Welsh Government Environmental Governance, Principles and Nature Recovery Bill

7.50. Bydd y costau ar gyfer gweithredu'r egwyddorion amgylcheddol yn llyfr statud Cymru yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus fydd cydymffurfio â'r ddyletswydd i'w cymhwyso wrth lunio rheoliadau a pholisïau.

7.51. Nid oes unrhyw newid o'r costau a nodir yn opsiwn tri sy'n cwmpasu datblygu deddfwriaeth ac adnoddau addysgol. Nid oes unrhyw newid chwaith i'r costau cydymffurfio i Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru.

7.52. O dan yr opsiwn hwn, bydd costau ychwanegol i'r sefydliadau hynny wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau. Amcangyfrifwyd costau cydymffurfio yn seiliedig ar yr un rhagdybiaeth a ddefnyddiwyd yn opsiwn tri i ddarparu cost o £12,700 y flwyddyn fesul awdurdod cyhoeddus. Yna cymhwyswyd y gost hon i'r 67 o sefydliadau a enwir yn Atodlen 9A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[93] i amcangyfrif y gost o gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw i'r egwyddorion. Mae hyn yn rhoi cost ychwanegol o £952,800 y flwyddyn, a disgwylir i'r gost gael ei hysgwyddo gyntaf yn 2026-27. Ar gyfer opsiwn pedwar, amcangyfrifir mai cost cydymffurfio â'r ddyletswydd i ystyried yr egwyddorion, ar gyfer Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus, fydd £8.58m. Mae'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn i'w weld yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

**Tabl [3]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – Egwyddorion Amgylcheddol**

| | **Opsiwn 4** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Dyletswydd ar Awdurdodau Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Gweinidogion, o dan o leiaf dri senario (datblygu deddfwriaeth, fel awdurdod cyfrifol sy'n cynnal asesiad amgylcheddol, neu fel awdurdod cymwys mewn perthynas ag Asesiadau o'r Effaith Amgylcheddol). |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £9.17m |

**Manteision**

[93] Deddf Llywodraeth Cymru 2006

7.53. Mae yna hefyd nifer o fanteision sy'n gysylltiedig â chyflwyno dyletswydd i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol fod â dyletswydd i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol. Un prif fantais yw'r neges gref a'r strwythur gorfodadwy y mae'r ddyletswydd hon yn eu darparu i awdurdodau cyhoeddus a phartneriaid cyflenwi lleol. Mae rhanddeiliaid wedi croesawu rhannu cyfrifoldeb dros ddiogelu'r amgylchedd ac adfer bioamrywiaeth, gan gydnabod rôl hanfodol awdurdodau cyhoeddus wrth gyflawni cyfraith amgylcheddol[94].

7.54. Mae'r ddyletswydd hon yn grymuso Cymru i arwain ei chynnydd ei hun ar ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth, gan ganiatáu ar gyfer strategaethau wedi'u teilwra sy'n fwy perthnasol ac effeithiol. Mantais sylweddol arall yw'r potensial i gyflymu cynnydd tuag at dargedau sero net, gyda chanlyniadau amgylcheddol cadarnhaol cysylltiedig. Gall y ddyletswydd hon helpu i gynnal camau gweithredu ar y cyd ar yr amgylchedd ac osgoi dad-flaenoriaethu oherwydd amheuaeth. Yn ogystal, gallai'r ddyletswydd feithrin mwy o gydnabyddiaeth wleidyddol a chymorth trawsbleidiol i ddiogelu'r amgylchedd ac adfer natur.

7.55. Fel gydag opsiwn tri, mae cymariaethau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn awgrymu y gallai Bil yr Amgylchedd godi'r mater o ddatblygu cynaliadwy ymhlith ymwybyddiaeth wleidyddol a chyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, gyda'r opsiwn hwn, byddai'r effeithiau'n cael eu chwyddo drwy sicrhau bod yr egwyddorion amgylcheddol yn gymwys i ystod ehangach o awdurdodau cyhoeddus. Mae yna hefyd gyfle sylweddol ar gyfer arloesi wedi'i ariannu gan awdurdodau cyhoeddus a SLIAC, a allai gyflwyno enillion economaidd diriaethol o ran ymchwil a datblygu a buddsoddiad cyhoeddus-preifat.

**Crynodeb**

7.56. Gallai ymestyn y ddyletswydd i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus arwain at gynnydd sylweddol mewn costau, cyfyngiadau adnoddau ac aneffeithlonrwydd mewn gweithrediadau llywodraeth leol. Gallai awdurdodau cyhoeddus

[94] The Young Foundation - Review and Cost Benefit Analysis of Welsh Government Environmental Governance, Principles and Nature Recovery Bill

gael trafferth gyda'r cyfrifoldebau ychwanegol, gan gyfyngu ar effeithiolrwydd ymdrechion diogelu'r amgylchedd. Fodd bynnag, gallai'r dull hwn gryfhau ymreolaeth Cymru wrth lunio polisïau amgylcheddol, cyflymu cynnydd tuag at dargedau sero net a meithrin cydnabyddiaeth wleidyddol a chymorth i ddiogelu'r amgylchedd. Gall hefyd ddarparu cyfleoedd ar gyfer arloesi, cydweithredu a strategaethau amgylcheddol wedi'u teilwra sy'n fwy effeithiol a pherthnasol i gyd-destun Cymru.

### Opsiwn 5: Dyletswydd ar Weinidogion Cymru a CNC wrth wneud polisi, ac awdurdodau cyhoeddus wrth gynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol

### Disgrifiad

7.57. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno'r egwyddorion amgylcheddol yn llyfr statud Cymru ac yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru a CNC i gymhwyso'r egwyddorion wrth wneud polisi, a dyletswydd ar wahân ar awdurdodau cyhoeddus ehangach i gymhwyso'r egwyddorion wrth gynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol (AAS).

7.58. Fel o dan opsiwn tri, diben y ddyletswydd hon yw sicrhau bod polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol. Gyda dyletswydd i roi sylw yn ymestyn y tu hwnt i Weinidogion Cymru, byddai'n rhaid i CNC hefyd roi sylw i’r egwyddorion amgylcheddol wrth ddrafftio eu rheoliadau eu hunain.

7.59. Byddai'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru a CNC yn cael ei chefnogi ymhellach gan ddyletswydd ychwanegol ar bob awdurdod cyhoeddus i roi sylw i’r egwyddorion amgylcheddol wrth gynnal AAS.

### Anfanteision

7.60. Mae cyflwyno dyletswydd i Weinidogion Cymru a CNC gymhwyso egwyddorion amgylcheddol wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth yn cyflwyno nifer o anfanteision.

7.61. Tynnodd adroddiad annibynnol sylw at y ffaith y gallai'r ddyletswydd i roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol arwain at aneffeithlonrwydd wrth

lunio polisïau a chostau cynyddol i adnoddau'r gwasanaeth sifil, swyddfeydd gweinidogol a staff CNC[95].

7.62. Anfantais bosibl arall yw a fyddai'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd hon yn darparu cynnydd digonol yn yr effaith a'r canlyniadau yn erbyn nodau'r polisi. Gallai'r agenda twf bresennol a nodir yn Plan for Change[96] Llywodraeth y DU effeithio ar benderfyniadau ar lefel llywodraeth ddatganoledig, yn enwedig mewn cyfnewidiadau rhwng egwyddorion amgylcheddol a meysydd polisi eraill megis adeiladu tai neu ddatblygiad yn arafu'r broses gynllunio. Unwaith eto, gall hyn gael effaith ar effeithiolrwydd yr effaith a'r canlyniadau yn erbyn nodau'r Bil hwn.

7.63. Yn ogystal, un anfantais bosibl yw na fyddai cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ar lefel uchaf llunio polisïau o reidrwydd yn sicrhau mwy o gymorth i sectorau megis amaethyddiaeth a threftadaeth i addasu i'r deddfau a'r rheoliadau amgylcheddol sy'n deillio o hynny. Gallai hyn arwain at ansicrwydd economaidd i rai cymunedau ffermio, oherwydd eu hanallu i gydymffurfio â deddfwriaeth neu bolisïau newydd.

**Costau**

7.64. Bydd y costau ar gyfer gweithredu'r egwyddorion amgylcheddol yn llyfr statud Cymru yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ac, i raddau llai, CNC fydd talu costau cydymffurfio â'r ddyletswydd i'w cymhwyso wrth lunio rheoliadau a pholisïau.

7.65. Nid yw'r costau ar gyfer datblygu a gweithredu'r ddeddfwriaeth wedi newid o opsiwn tri. Nid yw'r costau sy'n gysylltiedig â'r deunydd addysgol a hyfforddi wedi newid chwaith o opsiwn tri. Pan fydd y deunydd hyfforddi hwn wedi'i ddatblygu, bydd y deunydd hwn yn cael ei rannu gyda CNC ac Awdurdodau Cyhoeddus, gan leihau eu hamlygiad i gostau tebyg o ganlyniad i'r dyletswyddau newydd.

7.66. Bydd costau cydymffurfio hefyd yn gysylltiedig â'r egwyddorion a bydd rhaid i'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru ac Awdurdodau Cyhoeddus hefyd gymhwyso'r egwyddorion drwy weithredu AASau. Fodd bynnag,

---

[95] The Young Foundation - Review and Cost Benefit Analysis of Welsh Government Environmental Governance, Principles and Nature Recovery Bill

[96] [Plan for Change - GOV.UK]

oherwydd fformat AASau, nid oes disgwyl i hyn arwain at lawer o gostau cydymffurfio ychwanegol, os o gwbl, i'r awdurdodau cyhoeddus. Mae'r amcangyfrifon ar gyfer costau cydymffurfio a ddisgrifir yn opsiwn tri yr un mor berthnasol yma i Weinidogion Cymru. Rhagwelir ychydig iawn o gostau ychwanegol mewn perthynas â CNC ar y sail bod egwyddorion tebyg eisoes yn cael eu cymhwyso. Mae hyn oherwydd bod CNC yn gorfod gweithredu yn unol ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth gyflawni eu dyletswyddau[97]. Yn ogystal, datblygwyd CNC a'i swyddogaethau pan oedd cyfraith yr UE yn gymwys yng Nghymru, felly dylanwadodd fersiwn yr UE o'r egwyddorion hyn yn fawr ar ei ddatblygiad a'i weithrediad. Yn hyn o beth, bydd y dyletswyddau'n cynyddu cysondeb wrth gymhwyso ac yn arwain at ychydig iawn o feichiau cost ychwanegol ar CNC ac awdurdodau cyhoeddus ehangach. Ar y sail hon, amcangyfrifwyd mai'r gost ychwanegol i CNC yw £12,700 y flwyddyn, gan ddechrau yn 2026-27. Mae'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn i'w weld yn yr adran costau.

**Tabl [4]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – Egwyddorion Amgylcheddol**

| | **Opsiwn 5 (yr opsiwn a ffefrir)** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru a CNC wrth wneud polisi, gyda chefnogaeth dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus wrth gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £1.62m |

**Manteision**

7.67. Mae sawl budd yn gysylltiedig â chyflwyno dyletswydd i Weinidogion Cymru a CNC gymhwyso egwyddorion amgylcheddol. Un o'r prif fanteision yw mwy o annibyniaeth ac ymreolaeth i Gymru arwain ei chynnydd ei hun ar ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth.

[97] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

7.68. Mae'r ddyletswydd hon yn cryfhau gallu Cymru i ysgogi cyfraith amgylcheddol a chyflawni effeithiau diriaethol o'r Bil.

7.69. Drwy ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yn y gyfraith, gall Cymru ddrafftio amddiffyniadau amgylcheddol mwy manwl gywir a phenodol i gyd-destun. Mae cymhwyso dyletswydd i Weinidogion Cymru a CNC yn sicrhau bod y fantais hon yn cael ei chyflawni. Fel dau brif ddrafftiwr cyfraith a rheoliadau amgylcheddol, bydd y ddyletswydd hon yn sicrhau bod manteision cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol yn cael eu gwireddu gan awdurdodau cyhoeddus eraill drwy gymhwyso'r deddfau a'r rheoliadau hynny.

7.70. Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau bod yr egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cymhwyso mewn ffordd ymarferol, effeithlon a chosteffeithiol sy'n cael yr effaith ehangaf ledled Cymru. Gall y dull wedi'i deilwra y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ei ddarparu arwain at fwy o gydymffurfiaeth ac arloesi ym maes diogelu'r amgylchedd. Yn ogystal, bydd hyn yn gwella arweinyddiaeth Cymru ym maes polisi ac arloesi amgylcheddol, gan arwain o bosibl at gydweithrediadau trawsffiniol sy'n cryfhau ein hamddiffyniadau amgylcheddol ymhellach.

7.71. Drwy ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol wrth ymgymryd â'u swyddogaeth mewn perthynas ag AASau, mae'r opsiwn hwn yn cymhwyso'r egwyddorion lle bo'n fwyaf priodol, ar gam lle byddant yn cael yr effaith fwyaf. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio cyflawni'r mwyafrif o'r manteision a nodir yn opsiwn 4 o gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol yn eang. Drwy orchymyn i'r awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol yn unig yn yr achos hwn, mae'r opsiwn hwn yn ceisio lleihau'r beichiau cydymffurfio a nodir yn opsiwn pedwar

7.72. Mantais sylweddol arall yw'r potensial i gyflymu cynnydd tuag at dargedau sero net (a thargedau amgylcheddol eraill), gyda chanlyniadau amgylcheddol cadarnhaol cysylltiedig. Gall y ddyletswydd hon helpu i gynnal camau gweithredu ar y cyd ar yr amgylchedd ac osgoi dad-flaenoriaethu. Gall cynnwys y ddyletswydd i roi sylw i’r egwyddor amgylcheddol rymuso Cymru i arwain ei chynnydd ei hun ar ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth.

7.73. Drwy ymwreiddio'r egwyddorion hyn wrth lunio polisïau, gall Cymru deilwra ei strategaethau amgylcheddol i'w chyd-destun unigryw, gan sicrhau bod polisïau'n fwy perthnasol ac effeithiol. Mae'r ymreolaeth hon yn caniatáu i Gymru fynd ymhellach, yn gyflymach o ran diogelu'r amgylchedd, gan osod esiampl unigryw yn y DU.

7.74. Yn ogystal, gallai'r ddyletswydd feithrin mwy o gydnabyddiaeth wleidyddol a chymorth trawsbleidiol i ddiogelu'r amgylchedd ac adfer natur. Mae cymariaethau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn awgrymu y gallai'r Bil godi'r mater o ddatblygu cynaliadwy ymhlith ymwybyddiaeth wleidyddol a chyhoeddus yng Nghymru.

**Crynodeb**

7.75. Gallai ymestyn y ddyletswydd i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol i Weinidogion Cymru a CNC gyda dyletswydd ychwanegol i awdurdodau cyhoeddus gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol wrth ymgymryd â swyddogaeth o fewn cwmpas AAS wireddu'r rhan fwyaf o fanteision opsiwn pedwar. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio lliniaru'r anfanteision a nodwyd yn opsiwn pedwar drwy gyfyngu'r baich o gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol i ble y byddant yn cael yr effaith fwyaf.

7.76. Fel y nodir yn opsiwn pedwar, efallai y bydd rhai awdurdodau cyhoeddus yn cael trafferth gyda'r cyfrifoldebau ychwanegol, gan gyfyngu ar effeithiolrwydd ymdrechion diogelu'r amgylchedd o bosibl. Felly, mae'n debygol y bydd mwy o werth mewn dull mwy penodol lle mae dyletswyddau'n cael eu hymestyn i awdurdodau cyhoeddus penodol sydd â chyfrifoldeb polisi sylweddol dros yr Amgylchedd, megis CNC, ac i awdurdodau ehangach o dan amgylchiadau penodol lle mae'r effaith amgylcheddol yn sylweddol (megis wrth ymgymryd â chynlluniau a rhaglenni sy'n dod o fewn cwmpas AAS).

## Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

7.77. Nod yr adran hon o'r RIA yw cefnogi'r cynnig i gyflwyno trefniadau Llywodraethu newydd i ddarparu goruchwyliaeth strategol dros gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, ac effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

7.78. Mae pedwar opsiwn wedi'u hystyried yn unol â'r cynnig hwn:

**Opsiwn 1** – Busnes fel arfer (llinell sylfaen)

**Opsiwn 2** – Rhoi swyddogaethau i gyrff presennol

**Opsiwn 3 –** Sefydlu corff Llywodraethiant Amgylcheddol pwrpasol.

**Opsiwn 4** – Gofyn i Lywodraeth y DU ymestyn swyddogaethau Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd i Gymru.

**Opsiwn 1: Busnes fel arfer (llinell sylfaen)**

**Disgrifiad**

7.79. Mae busnes fel arfer yn y cyd-destun presennol yn golygu parhau â'r fframwaith presennol lle mae Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) yn goruchwylio ac yn ymchwilio i weithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru heb bwerau penodol i ymchwilio ac, os oes angen, cymryd camau gorfodi. Mae'r opsiwn hwn yn dibynnu ar y strwythur presennol heb sefydlu corff llywodraethiant newydd. Byddai IEPAW yn parhau i weithredu gyda'i gyllideb a'i adnoddau presennol, gan gynnal ymchwiliadau yn seiliedig ar gwynion ac adroddiadau o ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau amgylcheddol.

**Anfanteision**

7.80. Mae nifer o anfanteision wedi'u nodi gyda chynnal y sefyllfa bresennol.

7.81. Mae IEPAW yn gallu cynnal ymchwiliadau ond nid oes ganddo bwerau cyfreithiol i gasglu gwybodaeth nad yw'n cael ei rhoi yn fodlon na phwerau i orfodi a sicrhau atebolrwydd.

7.82. Ar y sail hon, mae ei gylch gwaith yn canolbwyntio ar sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn weithredol ac yn effeithiol, sy'n bwysig, ond yn anghyflawn mewn perthynas â bwriad y polisi.

7.83. Mae parhau â'r cynnig presennol yn codi'r costau rhedeg ar gyfer IEPAW ac unrhyw gostau anuniongyrchol ar gyfer cyrff cyhoeddus sy'n destun ymchwiliadau.

7.84. Gall absenoldeb corff llywodraethiant pwrpasol arwain at aneffeithlonrwydd a darnio wrth orfodi cyfreithiau amgylcheddol. Mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon ynglŷn â threfniadau'r asesydd interim, y gellid eu hystyried fel tynnu sylw at broblemau a chreu gwaith heb allu "dilyn drwodd" a sicrhau cydymffurfiaeth.

7.85. Mae cyfyngiadau cyllidol yn cymhlethu'r sefyllfa ymhellach, gan y gellid craffu ar Lywodraeth Cymru am fuddsoddi mewn awdurdod cyhoeddus arall pan fo cyllid cyhoeddus yn dynn.

**Costau**

7.86. Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â sefydlu a gweithredu'r corff llywodraethiant ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru yn cynnwys costau rhedeg parhaus Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) i raddau amrywiol. Cyllideb bresennol IEPAW yw £675,000 y flwyddyn, ac nid oes unrhyw gynnydd wedi'i gymhwyso i'r ffigur hwn, sy'n adlewyrchu'r rhagdybiaeth y bydd costau'n aros yn gyson mewn termau real dros y cyfnod.

7.87. Yn ogystal, mae costau a ddaw i gyrff cyhoeddus eraill os cânt eu hadrodd i IEPAW i fod yn destun ymchwiliad wedi'u hamcangyfrif[98]. Bydd y gost hon yn dibynnu ar natur a chymhlethdod y gŵyn/ymchwiliad, felly mae'n anodd ei hamcangyfrif. At ddibenion cyflwyno'r amcangyfrif gorau o'r gost yn yr RIA hwn, rydym wedi rhagdybio y bydd y gost yn cyd-fynd yn fras â'r gost a gyflwynir yn yr RIA ar gyfer Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (wedi'i huwchraddio i brisiau 2024-25). Yn seiliedig ar nifer y cwynion a adroddwyd yn adroddiad diweddaraf IEPAW (2023-24), rydym yn tybio y bydd IEPAW yn cael naw cwyn y flwyddyn, gydag wyth ohonynt yn arwain at ymchwiliad[99]. Ar y sail hon, amcangyfrifir mai'r gost i'r cyrff cyhoeddus yw £25,400 y flwyddyn.

[98] BIL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU). Yn seiliedig ar gostau amser staff i ymateb i'r Ombwdsmon. Y gost uned uwch yw £357 y gŵyn

[99] Adroddiad Blynyddol IEPAW, 2023-24 (sy'n dangos bod 9 cwyn wedi dod i law, ond ystyriwyd nad oedd 1 o fewn cylch gwaith IEPAW)

Mae hyn yn golygu cost o £700,400 y flwyddyn, a disgwylir i'r gost ddechrau o 2025-26 ymlaen. Mae'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn i'w weld yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

| | Opsiwn 1 |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Busnes fel arfer (llinell sylfaen) Parhad IEPAW |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £7.00m |

**Manteision**

7.88. Er gwaethaf y costau parhaus a'r aneffeithlonrwydd posibl, mae IEPAW wedi parhau i ddarparu goruchwyliaeth o weithrediad cyfraith ac asesiadau amgylcheddol, sydd wedi cael ei groesawu gan nifer o randdeiliaid.

7.89. Fodd bynnag, mae effaith gwaith IEPAW yn naturiol wedi'i gyfyngu heb swyddogaethau deddfwriaethol, sydd wedi sbarduno sgyrsiau am yr angen am fframwaith rheoleiddio mwy cadarn i atal cynnydd posibl mewn achosion llys a heriau unigol.

7.90. Mae'r diffyg pwerau gorfodi yn golygu bod ymdrechion gorau IEPAW yn aneffeithiol wrth ddilyn drwodd a sicrhau cydymffurfiaeth â chyfreithiau amgylcheddol.

**Crynodeb**

7.91. Nid yw opsiwn un yn cael ei ystyried yn hyfyw gan nad yw IEPAW yn gallu darparu goruchwyliaeth strategol effeithiol dros gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol heb bwerau gorfodi penodol i wneud hynny.

7.92. Mae gan ei rôl bresennol o ran asesu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yng Nghymru werth, ond mae parhau â'r mesurau interim hyn yn y tymor hir yn peri aneffeithlonrwydd a risgiau sylweddol oherwydd diffyg pwerau gorfodi, gan y gallai awdurdodau cyhoeddus fod yn

gweithredu'n groes i gyfraith amgylcheddol heb unrhyw oruchwyliaeth effeithiol.

7.93. Mae'r opsiwn hwn yn cael ei ystyried yn aneffeithiol o ran sbarduno cydymffurfiaeth amgylcheddol a diogelu'r amgylchedd yn y tymor hir.

### Opsiwn 2: Integreiddio swyddogaethau llywodraethiant i awdurdod cyhoeddus presennol yng Nghymru

### Disgrifiad

7.94. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys integreiddio swyddogaethau llywodraethiant i awdurdod cyhoeddus presennol yng Nghymru, gan ddarparu adnoddau ychwanegol iddo ddarparu goruchwyliaeth strategol dros gydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, ac asesu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

7.95. Nod yr opsiwn hwn yw defnyddio seilwaith ac adnoddau presennol i wella cydlyniant ymhlith cyrff cyhoeddus.

7.96. Byddai hyn yn golygu aseinio cyfrifoldebau ac adnoddau ychwanegol i sefydliad presennol, megis CNC, i oruchwylio cydymffurfiaeth a gorfodi amgylcheddol.

### Anfanteision

7.97. Byddai integreiddio swyddogaethau llywodraethiant i awdurdod cyhoeddus presennol yng Nghymru yn cyflwyno sawl her. Mae'r rhain yn cynnwys gwrthdaro buddiannau posibl, gan y gallai hyn arwain at sefyllfa lle fyddai cyrff cyhoeddus yn goruchwylio eu gweithgareddau eu hunain ar rai materion. Yn ogystal, mae posibilrwydd o orgyffwrdd a dyblygu swyddogaethau, a allai arwain at fwy o aneffeithlonrwydd a chostau uwch.

7.98. Efallai y bydd y ffocws ar ddiogelu'r amgylchedd hefyd yn cael ei leihau o gymharu â deddfwriaeth arall. Gallai'r gorgyffwrdd a'r gostyngiad hwn effeithio ar ddidueddrwydd ac annibyniaeth swyddogaethau gorfodi'r corff, gyda phwerau wedi’u dosbarthu o bosibl yn tanseilio'r syniad o annibyniaeth ac yn ei gwneud yn debygol y gallai awdurdodau cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd a bioamrywiaeth reoleiddio eu hunain, gan wanhau gorfodi a gwahodd craffu.

7.99. Ar ben hynny, gallai fod gorgyffwrdd sylweddol rhwng y swyddogaethau ychwanegol newydd, gan arwain at ddyblygu gweithrediadau gwahanol gyrff cyhoeddus.

**Costau**

7.100. Mae opsiwn dau yn cynnig integreiddio'r swyddogaethau llywodraethiant i gorff goruchwylio presennol yng Nghymru. Mae'r senario hwn yn rhagweld costau rhedeg ychwanegol i'r sefydliad a ddewisir, gan gyfuno costau staffio a chyngor a chymorth allanol, fel sy'n deillio o adroddiadau Environmental Standards Scotland (ESS)[100]. Disgwylir i gostau ychwanegol fod yn £2.02m[101] y flwyddyn, gan ddechrau yn 2025-26 (mae'r gost ychwanegol yn gostwng i £1.34m y flwyddyn unwaith y bydd IEPAW yn rhoi'r gorau i weithredu). Amcangyfrifir y bydd y costau i gyrff cyhoeddus eraill o dan drefniadau llywodraethiant newydd yn debyg i'r rhai ar gyfer opsiwn un, gyda blwyddyn o oedi cyn i'r ymchwiliadau ddechrau tra bod y strwythur newydd yn cael ei sefydlu. Byddai disgwyl i'r costau sy'n gysylltiedig ag opsiwn un barhau nes bod opsiwn dau wedi'i sefydlu'n llawn, gyda disgwyl i IEPAW weithredu ar gapasiti llawn tan tua 2027. Mae'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn i'w weld yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

| | **Opsiwn 2** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Integreiddio swyddogaethau llywodraethiant i awdurdod cyhoeddus presennol yng Nghymru |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £14.82m |

**Manteision**

7.101. Mae integreiddio swyddogaethau llywodraethiant i awdurdod cyhoeddus presennol yng Nghymru yn cynnig arbedion cost posibl drwy

[100] Yn seiliedig ar gyllideb ESS ar gyfer 2023/24, gan gyfuno cyngor a chymorth allanol a staffio
[101] Costau heb eu disgowntio. Yn 2025 a 2026, bydd costau rhedeg presennol IEPAW (£675,000) yn digwydd hefyd.

ddefnyddio'r seilwaith a'r adnoddau presennol. Gallai'r dull hwn wella cydlyniant rhwng cyrff cyhoeddus a lleihau darnio, gan wneud prosesau'n fwy effeithlon. Yn wahanol i sefydlu corff newydd, mae'r opsiwn hwn yn lleihau costau sefydlu cychwynnol, gan fanteisio ar yr arbenigedd a'r wybodaeth sydd eisoes yn bresennol mewn cyrff megis CNC.

7.102. Gall yr integreiddio symleiddio ymdrechion, lleihau dyblygu a meithrin dull mwy cyfunol o ymdrin â llywodraethiant amgylcheddol.

7.103. Eto, er gwaethaf y manteision hyn, mae'r risg o wrthdaro buddiannau a gorgyffwrdd yn parhau, gan effeithio ar ba mor benodol ac effeithiol yw mesurau diogelu'r amgylchedd o bosibl.

**Crynodeb**

7.104. Mae opsiwn dau yn cyflwyno heriau o ran cynnal annibyniaeth ac osgoi gwrthdaro buddiannau a dyblygu.

7.105. Er ei fod yn cynnig arbedion cost posibl ar y dechrau a chydlynu gwell, mae'r risgiau o wanhau penodoldeb diogelu'r amgylchedd a chyfyngiadau cyllidol yn bryderon sylweddol. Gall integreiddio swyddogaethau llywodraethiant i gyrff presennol arwain at aneffeithlonrwydd a gwrthdaro buddiannau posibl, gan leihau effeithiolrwydd cyffredinol gorfodi amgylcheddol.

**Opsiwn 3: Sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol annibynnol**

**Disgrifiad**

7.106. Mae sefydlu corff Llywodraethiant Amgylcheddol annibynnol yn golygu creu endid newydd sy'n ymroddedig i oruchwylio cydymffurfiaeth awdurdodau â chyfraith amgylcheddol, ac effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

7.107. Byddai gan y corff hwn bwerau gorfodi a byddai'n gweithredu'n annibynnol ar gyrff cyhoeddus presennol. Byddai'r corff llywodraethiant newydd yn cael ei fodelu ar enghreifftiau llwyddiannus o gyrff presennol a byddai'n cael ei ddatblygu gyda'r bwriad penodol o sicrhau digon o annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru.

**Anfanteision**

7.108. Er y byddai sefydlu corff Llywodraethiant Amgylcheddol annibynnol newydd yng Nghymru yn addo mwy o annibyniaeth a didueddrwydd, byddai'n cyflwyno ei set ei hun o anfanteision. Y mater mwyaf arwyddocaol fyddai costau sefydlu untro, ynghyd â threuliau cylchol sydd eu hangen i gynnal yr endid newydd.

7.109. Ar ben hynny, mae pryderon am yr amser sydd ei angen i'r corff newydd hwn ddod yn gwbl weithredol ac effeithiol. Mae sefydlu endid o'r fath yn gofyn am gynllunio gofalus, recriwtio staff arbenigol a phennu ffiniau cyfrifoldebau yn glir, a allai gymryd cryn amser.

7.110. Gallai sefydlu corff newydd hefyd gyflwyno biwrocratiaeth a beichiau amser ychwanegol, gan ymestyn prosesau presennol neu ychwanegu ffrithiant atynt. Gallai cyrff cyhoeddus wynebu problemau capasiti wrth i adnoddau ddod o dan straen.

7.111. Ar ben hynny, mae recriwtio staff arbenigol yn her arall. Gallai sicrhau bod gan y corff newydd arbenigwyr sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i oruchwylio llywodraethiant amgylcheddol yn effeithiol ddraenio'r adnoddau cyfyngedig sydd ar hyn o bryd â phrofiad ac arbenigedd ym maes polisi, gwyddoniaeth a chyfraith amgylcheddol. Gall ailddyrannu adnoddau arbenigol o'r fath waethygu cyfyngiadau capasiti mewn cyrff cyhoeddus presennol.

**Costau**

7.112. Fel gydag opsiynau blaenorol, mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â sefydlu a gweithredu'r corff llywodraethiant ar gyfer diogelu'r amgylchedd yng Nghymru yn cynnwys costau parhau i redeg IEPAW i raddau amrywiol. Ar gyfer opsiwn tri, byddai costau IEPAW yn parhau tan tua 2027 gyda dim ond hanner y costau gweithredu yn codi ar y flwyddyn olaf.

7.113. Mae sefydlu corff Llywodraethiant Amgylcheddol annibynnol, fel y manylir yn opsiwn tri, yn golygu costau sefydlu untro o £480,000[102] yn 2025-26, ac yna costau cylchol sy'n dechrau ar £2.79m bob blwyddyn o

[102] cr-ld16322-w.pdf

2026-27, yn seiliedig ar amcangyfrifon cyllideb Llywodraeth Cymru[103]. Mae'r opsiwn hwn yn pwysleisio creu corff llywodraethiant pwrpasol, gyda digon o annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru.

7.114. Mae'r costau cylchol yn seiliedig ar ail-greu strwythur staffio a model gweithredu'r ESS ar gyfer sefyllfa Cymru, gan eu haddasu yn ôl cyfraddau tâl a chyd-destun Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar ragdybiaeth resymol y byddai angen strwythurau, graddau a rolau tebyg i ddarparu'r swyddogaethau llywodraethu'n effeithiol.

7.115. Mae costau'r ESS yn brocsi rhesymol ar gyfer SLIAC. Mae'r ddau'n gyrff llywodraethu amgylcheddol statudol sydd wedi'u creu i lenwi'r "bwlch llywodraethiant" ar ôl Brexit. Maent yn rhannu cyfrifoldebau tebyg – monitro cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol, ymchwilio i gwynion a goruchwylio awdurdodau cyhoeddus, a hynny mewn cyd-destun datganoledig. Er bod yr Alban yn fwy na Chymru o ran ei harwynebedd a'i phoblogaeth, mae swyddogaethau'r cyrff eu hunain, ac felly beth bydd yn rhaid i SLIAC ei wneud yn ymarferol, yn debyg. Ar sail hynny, mae'r ESS yn feincnod rhesymegol ar gyfer amcangyfrif costau.

7.116. Ni ellir dweud yr un peth am yr OEP. Caiff cwmpas cyfraith amgylcheddol yng nghyd-destun seneddol y DU (h.y. heb ei ddatganoli) a'r gwahaniaeth mawr o ran pwysau'r gwahaniaethau yn naearyddiaeth a phoblogaeth Lloegr/Gogledd Iwerddon effaith arwyddocaol ar swm y gwaith y bydd angen i'r OEP ei wneud i gyflawni ei swyddogaethau.

7.117. At hynny, nid oes gan Gymru gyrff ar hyn o bryd sydd â phwerau neu gylch gwaith tebyg, felly nid oes gennym linell sylfaen yng Nghymru ar gyfer costau. Mae IEPAW yn cyflawni rhai o swyddogaethau corff llywodraethiant amgylcheddol ond nid yw'n agos i gwmpas y gwaith y disgwylir i'r corff ei wneud ar ôl ei sefydlu. Mae defnyddio costau'r ESS yn ein caniatáu i wneud amcangyfrifon bras ar sail ffigurau o'r byd go iawn yn hytrach nag ar ragdybiaethau hap.

[103] Amcangyfrifon yn seiliedig ar gostau rhedeg Environmental Standards Scotland sy'n darparu dirprwy addas o ran maint Environmental Standards Scotland letter on draft budget

7.118. Mae'n ddiddorol bod peth pendilio wedi bod yn anghenion cyllid yr ESS. Cafodd swm arwyddocaol o danwariant ei roi yn ôl i Lywodraeth yr Alban oherwydd arolwg barnwrol na fu'n rhaid ei gynnal. Roedd hon yn gost bosib fawr oedd yn amhosib ei rhagweld, ond sy'n dangos pwysigrwydd gallu bod yn hyblyg.

7.119. Serch hynny, o'i gwneud hi fel hyn, byddwn yn lleihau'r angen i ddefnyddio adolygiadau barnwrol fel erfyn i unioni anghydymffurfio a dylai hynny luniaru peth ar y perygl o wynebu sefyllfa fel honno. Ond hefyd, bydd yn anodd rhagweld y costau sy'n gysylltiedig â mynd ag achos i'r uchel lys, a fyddai'n debyg i'r senario hon.

7.120. Adeg paratoi'r RIA hwn, mae'r costau gweithredu y mae ESS wedi'u hysgwyddo hyd yma'n parhau i fod o fewn ein hamcangyfrifon o'r gyllideb o ryw £2.79m y flwyddyn.

7.121. Mae rhagor o arbedion yn bosibl trwy rannu costau'r gwasanaethau. Nid ydym wedi'u cynnwys yn yr amcangyfrifon hyn gan nad ydym yn gwybod eu gwerth ar hyn o bryd. Mae'r ESS yn dilyn yr un drefn yn hyn o beth.

*<u>Dadansoddi'r staff ymhellach</u>*

7.122. Bydd y rhan fwyaf o'r costau y bydd SLIAC yn eu hwynebu'n ymwneud â staffio. Er bod y dadansoddiad a ganlyn yn rhoi syniad o'r costau staffio, dylid cofio mai SLIAC ei hun fydd yn penderfynu ar y strwythur a sut i staffio'r corff, hynny o fewn y cyllid y bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddarparu.

Y Strwythur a Gynigir ar gyfer y Sefydliad – Costau staff yn seiliedig ar gostau staff Llywodraeth Cymru 25-26

| Swydd | Yn cyfateb i radd | Amcangyfrif o'r gost flynyddol |
|---|---|---|
| Pennaeth | Dirprwy Gyfarwyddwr | £116,300.00 |
| Pennaeth Ymchwilio a chydymffurfio | G6 | £110,100.00 |
| Uwch Swyddog Ymchwiliadau | SEO | £68,100.00 |
| Uwch Swyddog Ymchwiliadau | SEO | £68,100.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Uwch Swyddog Ymchwiliadau | SEO | £68,100.00 |
| Swyddog Ymchwiliadau | HEO | £52,900.00 |
| Pennaeth y Strategaeth a Dadabsoddi | G6 | £110,100.00 |
| Pennaeth Dadansoddi Polisi a Sganio’r Gorwel | G7 | £87,500.00 |
| Uwch Ddadansoddydd Polisi | SEO | £68,100.00 |
| Uwch Ddadansoddydd Polisi | SEO | £68,100.00 |
| Prif Gynghorydd Gwyddonol | G7 | £87,500.00 |
| Uwch Ddadansoddydd Polisi | SEO | £68,100.00 |
| Pennaeth Data a Dadansoddi Meintiol | G7 | £87,500.00 |
| Uwch Ddadansoddydd | SEO | £68,100.00 |
| Dadansoddydd | HEO | £52,900.00 |
| Pennaeth Gwasanaethau a Chyfathrebu Corfforaethol | G6 | £110,100.00 |
| Cynghorydd Cyllid a Chyfrifon | G6 | £110,100.00 |
| Cyfreithiwr | G6 | £110,100.00 |
| Prif Swyddog Cyfathrebu | SEO | £68,100.00 |
| Rheolwr Busnes a Chyllid | SEO | £68,100.00 |
| Cymorth Busnes | EO | £43,700.00 |
| Cymorth Busnes | EO | £43,700.00 |
| Rheolwr Llywodraethiant ac Adnoddau Dynol | SEO | £68,100.00 |
| | | |
| Cyfanswm y costau | | £1,803,500.00 |

7.123. Gall creu corff cyhoeddus newydd arwain at gostau ychwanegol i Swyddfa Archwilio Cymru oherwydd eu hangen i archwilio ac ymgysylltu â'r sefydliad newydd. Yr amcangyfrif o’r costau yw £38,000 ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru fel cost gylchol flynyddol.

7.124. Amcangyfrifir y costau ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill sy'n destun ymchwiliad o dan y trefniadau newydd hyn yn yr un modd ag ar gyfer Opsiwn dau[104].

7.125. Disgwylir i IEPAW barhau i weithredu tan hanner ffordd drwy 2027-28. Nod hyn yw rhoi digon o amser i'r corff newydd ddod yn gwbl weithredol. Disgwylir i'r costau gweithredu presennol o £675,000 y flwyddyn barhau

[104] Representations received - Environmental Standards Scotland Daeth 35 o sylwadau i law ESS yn 2025, a chafodd 17 eu cau, yn bennaf drwy ddatrysiad anffurfiol. Mae'r rhai sydd ar agor yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd. Ni chafwyd unrhyw atgyfeiriadau yn 2025

am y cyfnod hwn. Mae'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn i'w weld yn yr adran costau.

**Tabl [5]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – corff llywodraethiant**

| | Opsiwn 3 |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Sefydlu corff Llywodraethiant Amgylcheddol annibynnol |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £20.88m |

**Manteision**

7.126. Er bod sefydlu corff Llywodraethiant Amgylcheddol annibynnol newydd yng Nghymru yn arwain at fwy o gostau cychwynnol a buddsoddiadau amser, mae'r manteision hirdymor yn sylweddol. Yn gyntaf, byddai'r corff newydd hwn yn cyflwyno mwy o annibyniaeth a didueddrwydd i swyddogaethau gorfodi, gan sicrhau bod cyfreithiau amgylcheddol yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn ddiduedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y bydd y corff yn goruchwylio Gweinidogion Cymru, yn ogystal ag awdurdodau cyhoeddus eraill, sy'n golygu bod eu hannibyniaeth ar y llywodraeth yn hanfodol.

7.127. Ar ben hynny, byddai ffocws pwrpasol y corff hwn ar lywodraethiant amgylcheddol yn arwain at well effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Drwy gael endid arbenigol, byddai goruchwylio a gorfodi cyfraith amgylcheddol yn fwy arbenigol, ac felly'n fwy cadarn, gan arwain at ganlyniadau amgylcheddol cryfach.

7.128. Byddai corff llywodraethiant newydd hefyd yn elwa ar eglurder yn ei fodel gweithredol, y gellir ei ddylunio i ddyrannu adnoddau a symleiddio prosesau i’r eithaf, gan leihau'r tebygolrwydd o fiwrocratiaeth ac aneffeithlonrwydd. Gyda'r cynllunio a’r strategaethau recriwtio cywir, gall y corff ddenu a chadw arbenigwyr medrus iawn, gan sicrhau ei fod yn gweithredu gyda'r proffesiynoldeb a'r arbenigedd mwyaf posibl.

7.129. Ar ben hynny, gallai sefydlu'r corff hwn wella gwelededd a chyflwyno manteision diriaethol i ddinasyddion Cymru. Byddai'n atgyfnerthu ymdrechion tuag at ddiogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd, gan wneud

yr ymrwymiad i ddyfodol gwyrddach yn fwy amlwg ac effeithiol. Byddai'r ffocws ymroddedig hwn ar lywodraethiant amgylcheddol yn y pen draw yn meithrin dull mwy cyfunol ac effeithiol o warchod adnoddau naturiol Cymru.

**Crynodeb**

7.130. Mae sefydlu corff Llywodraethiant Amgylcheddol annibynnol yng Nghymru yn cynnig manteision hirdymor sylweddol, er gwaethaf y costau a buddsoddiadau amser cychwynnol. Byddai'r corff hwn yn sicrhau mwy o annibyniaeth a didueddrwydd wrth orfodi cyfreithiau amgylcheddol, gan arwain at well effeithlonrwydd a chanlyniadau amgylcheddol cryfach. Byddai'n symleiddio prosesau, yn denu arbenigwyr medrus ac yn gwella gwelededd, gan ategu polisi a deddfwriaeth ehangach.

7.131. Yn ogystal, byddai'r endid newydd hwn yn atgyfnerthu ymdrechion tuag at ddiogelu'r amgylchedd a chynaliadwyedd, gan wneud yr ymrwymiad i ddyfodol gwyrddach yn fwy amlwg ac effeithiol. Drwy weithredu'n annibynnol ar y sefydliadau presennol, byddai'n meithrin cysylltiad agosach rhwng y corff llywodraethiant a dinasyddion Cymru, gan eu grymuso i roi gwybod am ddiffyg cydymffurfiaeth a phryderon.

7.132. Byddai'r ffocws ymroddedig ar lywodraethiant amgylcheddol yn y pen draw yn arwain at ddull mwy cyfunol ac effeithiol o warchod adnoddau naturiol Cymru, gan sicrhau manteision parhaol i'r amgylchedd ac i'r gymuned.

**Opsiwn 4: Ymestyn swyddogaethau OEP y DU i Gymru**

7.133. Mae'r opsiwn hwn yn golygu ymestyn cylch gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) a'r mecanwaith adolygu amgylcheddol i Gymru. Mae'n defnyddio'r fframwaith OEP presennol i oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfreithiau amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r OEP, a sefydlwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, yn gorff llywodraethiant uchel ei barch sydd â galluoedd gweithredu a gorfodi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

**Anfanteision**

7.134. Mae'r brif anfantais sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn ymwneud â'r potensial i golli ffocws ac ymreolaeth Cymru mewn perthynas â'r goruchwylio a'r argymhellion sy'n deillio o'r Corff Llywodraethiant.

7.135. Mae gan Gymru fframwaith deddfwriaethol unigryw, yn enwedig mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol (megis Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016), a chyfraith sydd ag elfen amgylcheddol sylweddol (megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Byddai risgiau'n gysylltiedig â dibynnu ar sefydliad DU gyfan i bwyso a mesur meysydd sy'n unigryw i gyd-destun Cymru.

7.136. Pe bai ffocws OEP yn cael ei ymestyn tuag at gylch gwaith sy'n cwmpasu Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, byddai risgiau ychwanegol o ran diffyg cyflymder wrth fynd i'r afael â materion yng Nghymru, gan y gallai OEP benderfynu ar unrhyw adeg ganolbwyntio ar faterion sy'n fwy acíwt yn Lloegr nag yng Nghymru.

7.137. Er mwyn lliniaru rhai o'r anfanteision hyn, mae angen adnoddau ariannol sylweddol i sicrhau bod y sefydliad yn ddigon parod i gyfrannu at flaenoriaethau polisi a deddfwriaethol yng Nghymru. Gall yr arbedion canfyddedig o aseinio'r swyddogaethau hyn i gorff presennol fod yn llai sylweddol na'r disgwyl i ddechrau os oes angen buddsoddiadau ariannol sylweddol i ehangu'r sefydliad.

7.138. Ar ben hynny, gallai dewis darparu swyddogaethau goruchwylio sydd o fewn cylch gorchwyl y Senedd i gorff y DU, yn anfwriadol, wanhau manteision datganoli, gan danseilio'r rhesymeg dros reolaeth polisi a deddfwriaethol dros ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru, a rhai o gyflawniadau pwysig y Senedd yn hyn o beth.

7.139. Yn bwysig, pe bai'r anfanteision hyn yn cael eu goresgyn, byddai angen i OEP a Llywodraeth y DU gytuno i drefniant o'r fath, ac nid oes modd gwarantu hynny o gwbl.

**Costau**

7.140. Mae opsiwn pedwar yn cynnwys ymestyn cylch gwaith Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) i Gymru. Mae'r costau rhedeg ychwanegol yn cael eu cyfrifo gan ddefnyddio'r cyflog canolrifol ar gyfer un o weithwyr

cyfwerth ag amser llawn OEP, a osodir ar £120,000 yn seiliedig ar yr asesiad effaith rheoleiddiol a gyhoeddwyd gyda Deddf yr Amgylchedd 2021[105]. Defnyddiwyd y gost hon wedyn i gyfrifo'r costau ar gyfer amcangyfrif o 15 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ychwanegol i ymestyn y swyddogaeth llywodraethiant amgylcheddol i gynnwys Cymru. Amcangyfrifwyd y 15 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn gan swyddogion polisi mewn cydweithrediad â staff OEP ar yr adnoddau a ragwelir sydd eu hangen i gynnwys Cymru. Ar y sail hon, y gost ychwanegol ar gyfer yr opsiwn hwn yw £1.8m y flwyddyn (£1.125m y flwyddyn unwaith y bydd IEPAW yn rhoi'r gorau i weithredu), a disgwylir i'r gost hon gael ei thalu o 2025-26. Disgwylir i'r costau gweithredu presennol o £675,000 y flwyddyn ar gyfer IEPAW barhau am y cyfnod hwn, gan ddod i ben yn 2026-27. Amcangyfrifir bod y costau ar gyfer cyrff cyhoeddus eraill o dan y trefniant llywodraethiant hwn yn debyg i’r rhai yn opsiynau dau a thri. Mae'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn i'w weld yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd. Fodd bynnag, ar ôl costau pontio cychwynnol sy’n codi wrth symud i fformat newydd ar gyfer ymdrin ag achosion cyfraith amgylcheddol, ni fydd unrhyw gostau ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus y tu hwnt i'r llinell sylfaen. Y rheswm am hyn yw, er bod y ffordd mae achosion yn cael eu trin yn newid, nid yw swyddogion polisi yn rhagweld y bydd hyn yn newid nifer yr achosion a godir bob blwyddyn.

| | **Opsiwn 4** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Ymestyn swyddogaethau OEP y DU i Gymru |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £12.65m |

**Manteision**

[105] Environment Act 2021 publications - Parliamentary Bills - UK Parliament

7.141. Mae ymestyn cylch gwaith OEP i Gymru yn cynnig y fantais o dynnu ar eu safonau a'u harferion sefydledig, sy'n uchel eu parch ac yn effeithiol.

7.142. Mae'r opsiwn hwn yn cynnig arbedion cost gan ei fod yn defnyddio'r fframwaith OEP presennol, gan leihau'r angen am greu seilwaith newydd neu ddyrannu adnoddau ychwanegol (er bod disgwyl y bydd angen adnoddau ychwanegol sylweddol o ystyried y cwmpas ychwanegol).

**Crynodeb**

7.143. Mae manteision opsiwn pedwar yn gyfyngedig iawn oherwydd pryderon am ymreolaeth ac effeithiolrwydd er gwaethaf y manteision o ran arbed costau.

7.144. Gallai defnyddio fframwaith OEP sicrhau safonau uchel ac arferion gorau, ond mae'r posibilrwydd o golli ymreolaeth Cymru dros oruchwyliaeth ac amrywiadau mewn ymrwymiad yn faterion hollbwysig.

7.145. Mae rhanddeiliaid wedi datgan yr angen am gorff llywodraethiant wedi'i deilwra i anghenion a heriau penodol Cymru, gan sicrhau bod cyfreithiau amgylcheddol yn cael eu gorfodi’n effeithiol ac annibynnol.

**Targedau Bioamrywiaeth**

7.146. Nod yr adran hon o'r RIA yw cefnogi'r cynnig i gyflwyno fframwaith gosod targedau yng Nghymru.

7.147. Mae tri opsiwn wedi'u hystyried i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o ddatblygu deddfwriaeth gosod targedau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol:

- **Opsiwn 1** – Busnes fel arfer (llinell sylfaen);
- **Opsiwn 2** – Gweithredu fframwaith gosod targedau mewn modd anstatudol gan ddefnyddio mecanweithiau polisi presennol; ac
- **Opsiwn 3** – Cyflwyno fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth newydd, sy'n addas i'r diben, mewn deddfwriaeth.

**Opsiwn 1: Busnes fel arfer**

**Disgrifiad**

7.148. Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y rhwymedigaethau fframwaith deddfwriaethol a pholisi presennol sy'n cefnogi bioamrywiaeth. Mae'r prif

rwymedigaethau presennol yn cynnwys Deddf 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (NRAP).

7.149. Mae Deddf 2016[106] yn nodi amcanion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a'i egwyddorion sylfaenol yn seiliedig ar y dull ecosystem a gyflwynwyd gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol. Amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu. Cefnogir yr amcan hwn gan y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Weinidogion Cymru sy'n amlinellu blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau yn gynaliadwy. Mae'r polisi yn cael ei ategu gan yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a Datganiadau Ardal sy'n cael eu llunio gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n asesu cyflwr adnoddau naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, yng Nghymru. Yn ogystal, mae rhestr o rywogaethau a chynefinoedd sydd o bwys mawr i fioamrywiaeth, a elwir yn 'rhestr adran 7,' yn cael ei chynnal a'i diweddaru'n rheolaidd. Mae amcan bioamrywiaeth statudol hefyd o dan adran 6 o'r Ddeddf. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, weithio tuag at yr amcan o gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwydnwch ecosystemau.

7.150. Dyluniwyd Deddf 2016 i weithio ar y cyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[107], sy'n ymgorffori uchelgais Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn neddfwriaeth Cymru. Mae Deddf 2015 yn cynnwys saith 'nod llesiant' ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, ac un ohonynt yw 'Cymru gydnerth'. Yn cyfrannu at y nod hwn

[106] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[107] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

mae nifer o gerrig milltir, gyda dau ohonynt yn ymwneud ag ecosystemau iach (Carreg filltir 43[108]) ac amrywiaeth fiolegol (Carreg filltir 44[109]).

7.151. Yr NRAP[110] yw fformat Llywodraeth Cymru ar gyfer y Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol y mae'n rhaid i holl lofnodwyr Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal eu datblygu. Mae'r NRAP yn anstatudol ond mae'n cynnwys amcanion ar gyfer yr amgylcheddau daearol a morol, ynghyd â chamau gweithredu allweddol sydd eu hangen i'w cyflawni. Mae'r NRAP hefyd yn cynrychioli cyfraniad Cymru at Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol y DU.

7.152. Ar wahân i'r ymrwymiadau presennol hyn, ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau pellach o dan yr opsiwn hwn. Darperir opsiwn un fel llinell sylfaen ar gyfer cymharu â manteision posibl cryfhau'r dull presennol drwy dargedau anstatudol (opsiwn dau) a chyflwyno fframwaith i Weinidogion Cymru i osod targedau bioamrywiaeth newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth (opsiwn tri).

**Anfanteision**

7.153. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) y Senedd adroddiad o'r enw *Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030*[111] a gyflwynodd dystiolaeth a gasglwyd gan y pwyllgor a'i argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r argyfwng natur. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o anfanteision sy'n gysylltiedig â pharhau o dan y rhwymedigaethau hyn heb newid. Gwnaed argymhellion mewn ymateb i'r ymchwiliad i gryfhau gweithredu Deddf 2016 i helpu i ysgogi gweithredu dros natur. Mae'r adroddiad yn awgrymu mai gwendidau'r Ddeddf yw ei drafftio a'i gweithredu, gan arwain at oedi ac ymrwymiadau heb eu bodloni. Mae'r amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael ei feirniadu am beidio â chanolbwyntio digon ar fioamrywiaeth. Mae'r adroddiad yn nodi bod y Polisi Adnoddau Naturiol

[108] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU
[109] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion [HTML] | LLYW.CYMRU
[110] Cynllun gweithredu adfer natur | LLYW.CYMRU
[111] Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

Cenedlaethol wedi dyddio ac mai ychydig iawn o effaith y mae wedi'i chael, ac nad yw Datganiadau Ardal yn cael eu defnyddio'n dda. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, mae'r adroddiad yn awgrymu bod y ddyletswydd adran 6 ar awdurdodau cyhoeddus i wella bioamrywiaeth yn cael ei fwrw i'r cysgod gan flaenoriaethau eraill a bod angen ei gwella ar unwaith. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad a'i 30 o argymhellion ar 3 Mawrth 2025.

7.154. Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad a oedd yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn ymateb yn briodol i'w dyletswydd o dan adran 6 o Ddeddf 2016[112]. Yn gyffredinol, canfu'r adroddiad nad yw'r argyfwng natur wedi bod yn flaenoriaeth ddigon uchel. Canfu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chydymffurfio â'i gofyniad cynllunio ei hun, nad yw'n monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol ac nad yw'n gallu asesu effaith gyffredinol y ddyletswydd ar ddirywiad bioamrywiaeth.

7.155. Canfu adroddiad Archwilio Cymru hefyd fod gwendidau wrth weithredu Deddf 2016 a'i chanllawiau yn golygu bod cwmpas a bwriad y ddyletswydd yn agored i'w dehongli. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu cynllun o dan ofynion cynllunio'r ddyletswydd eto chwaith. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau bioamrywiaeth eto, gyda'r adroddiad yn cysylltu hyn â'r anallu i asesu effaith y ddyletswydd ar fioamrywiaeth. Yn olaf, byddai'r opsiwn hwn yn parhau â'r duedd a amlygwyd yn yr ymatebion i'r Papur Gwyn Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy[113]. Tynnodd nifer o'r ymatebwyr sylw at y ffaith nad oes digon o sylw yn cael ei roi i'r argyfwng natur ar hyn o bryd a'i fod yn aml yng nghysgod yr argyfwng hinsawdd. Mae'r duedd ar i lawr hon o golli bioamrywiaeth yn debygol o barhau o dan y set bresennol o ymrwymiadau.

**Costau**

---

[112] Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau | Archwilio Cymru
[113] Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn | LLYW.CYMRU

7.156. Bydd y costau ar gyfer cadw at rwymedigaethau Llywodraeth Cymru o dan ddyletswydd adran 6 o Ddeddf 2016, ac adrodd am y camau a gymerwyd, yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Mae cydymffurfio â'r ddyletswydd a'i gweithredu o fewn polisïau a swyddogaethau'r llywodraeth wedi'u hymwreiddio ar draws Llywodraeth Cymru, gan ei gwneud yn anodd meintoli costau cydymffurfio. Fodd bynnag, mae staff sy'n ymroddedig i lunio cynllun Llywodraeth Cymru a monitro camau gweithredu ar gyfer adrodd [Tabl 6]. Mae'r staff hwn hefyd yn darparu cyngor bioamrywiaeth technegol i feysydd polisi eraill i gefnogi gweithredu.

**Tabl [6]: Dadansoddiad amser staff ar gyfer cymorth Adran 6**

| **Swydd** | **Oriau y flwyddyn** | **Canran yr amser** | **Cost gyfartalog staff (£)** | **Cost (£)** |
|---|---|---|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | 47 | 2.6% | 134,146 | 3,500 |
| Gradd 6 | 235 | 12.9% | 117,941 | 15,200 |
| Gradd 7 | 141 | 7.7% | 97,317 | 7,500 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 282 | 15.5% | 74,819 | 11,600 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 1 | 1410 | 77.5% | 59,808 | 46,300 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 2 | 352.5 | 19.4% | 59,808 | 11,600 |
| **Cyfanswm cost staff** | | | | **95,700** |

7.157. Felly, amcangyfrifir mai costau parhau â busnes fel arfer yw £0.96m dros y cyfnod arfarnu o ddeng mlynedd. Mae'r dadansoddiad costau llawn ar gyfer yr opsiwn hwn ar gael yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

**Tabl [6]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – targedau bioamrywiaeth**

| | **Opsiwn 1 (Busnes fel Arfer)** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Costau presennol sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £0.96m |

**Manteision**

7.158. Un budd posibl gwneud dim fyddai arbedion cost cychwynnol, gan fod opsiynau eraill yn cynnwys costau gweithredu cynyddol i'r trethdalwr.

7.159. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol na chyrff cyhoeddus neu breifat eraill yn deillio o'r opsiwn hwn.

**Crynodeb**

7.160. Opsiwn un yw parhau â busnes fel arfer drwy ddefnyddio dyletswyddau deddfwriaethol presennol ac ymrwymiadau cyhoeddus i reoli bioamrywiaeth. Ni fyddai unrhyw gostau gweithredu newydd yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, bydd yr anfanteision sy'n gysylltiedig â'r duedd bresennol o adfer bioamrywiaeth o dan y dull yn parhau i gronni. Er bod gan Lywodraeth Cymru nifer o ymrwymiadau, mae lefel o amwysedd sy'n rhwystro cyflawniad.

**Opsiwn 2: Fframwaith targedau bioamrywiaeth anstatudol**

**Disgrifiad**

7.161. O dan yr opsiwn hwn, byddem yn cryfhau ein dull presennol o reoli bioamrywiaeth drwy gyflwyno cyfres o dargedau anstatudol a gefnogir gan strwythur monitro ac adrodd. Byddai'r opsiwn hwn yn ymgorffori'r targedau a osodir mewn dogfennau polisi a chyflawni presennol ac yn gweithio i ategu dyletswyddau a swyddogaethau Deddf 2016 ac yn ehangu ar y cerrig milltir amgylcheddol a osodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

7.162. Byddwn yn ceisio deillio targedau o'r GBF a'u rhoi yng nghyd-destun Cymru, gan ganolbwyntio ar feysydd lle mae angen gweithredu ar frys. Byddai targedau'n cael eu cyflwyno o dan fecanwaith presennol y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n ofynnol gan adran 9 o Ddeddf 2016. Byddai'r targedau yn fecanwaith i Weinidogion Cymru allu disgrifio a meintoli'r gwelliant mewn bioamrywiaeth y maent yn ceisio ei gyflawni. Byddai'r NRAP yn cael ei ddefnyddio i ddarparu rhagor o fanylion am sut mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyflawni'r targedau yn y tymor hwy o fewn yr adran strategaeth a sut mae targedau Cymru yn cyfrannu at gyflawni uchelgais y GBF. Byddai cynllun gweithredu'r ddogfen yn manylu ar y camau mae Gweinidogion Cymru yn eu cymryd i weithredu eu strategaeth ar gyfer cyflawni'r targedau.

**Anfanteision**

7.163. Mae sawl anfantais yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Byddai gweithredu'r targedau anstatudol yn gofyn am staffio ac adnoddau ychwanegol, a allai roi straen ar gyllidebau a phersonél presennol. Mae'r union gostau ar gyfer datblygu targedau anstatudol a chefnogi eu monitro yn dibynnu ar y targed penodol a ddewisir. Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r adnoddau presennol sydd wedi’u dyrannu tuag at gydymffurfio ag adran 6 o Ddeddf 2016, darparodd ymchwilwyr a gomisiynwyd gan swyddogion polisi amcangyfrif o'r costau ychwanegol (Tabl 8).

7.164. Mae rhai costau, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chostau cydymffurfio ar gyfer awdurdodau cyhoeddus, yn amhosibl eu meintoli a'u moneteiddio, gan greu heriau wrth asesu goblygiadau ariannol y fframwaith yn gywir. Er bod y fframwaith yn targedu awdurdodau cyhoeddus yn bennaf, gallai fod effeithiau anuniongyrchol ar fusnesau, yn enwedig y rhai mewn sectorau megis amaethyddiaeth a rheoli tir. Gallai rheoliadau neu ofynion ychwanegol sy'n deillio o'r targedau bioamrywiaeth godi costau ar fusnesau, gan effeithio ar eu proffidioldeb o

bosibl[114]. Ar ben hynny, gan fod y targedau'n anstatudol, byddai eu llwyddiant yn dibynnu ar gydymffurfiaeth wirfoddol gan awdurdodau cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Heb orfodi cyfreithiol, mae posibilrwydd na fydd y targedau'n cael eu cyflawni'n llawn, gan gyfyngu ar effeithiolrwydd y fframwaith. Mae pryder ychwanegol y gallai'r targedau fod yn destun newid yn seiliedig ar flaenoriaethau gwahanol llywodraethau dilynol neu fel arall yn canolbwyntio ar gyflawniad tymor byr megis y targed i ganolbwyntio ar gynyddu faint o dir a môr sy'n cael eu hadfer dros 400,000 hectar.

**Costau**

7.165. Bydd y costau ar gyfer gweithredu fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth, a monitro a gwerthuso parhaus, yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn debygol o fod angen amser tîm polisi craidd. Yn ogystal â'r adnodd polisi hwn, bydd datblygu polisi hefyd yn gofyn am amser timau polisi rhyng-ddibynnol a swyddogion eraill i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r fframwaith gosod targedau bioamrywiaeth anstatudol [Tabl 8]. Mae'r ymrwymiad amser hwn wedi'i addasu i werthoedd ariannol gan ddefnyddio graddfeydd cyflog Llywodraeth Cymru[115] ac mae cost lafur nad yw'n gyflogedig yn cael ei chymhwyso, ac eithrio costau treth a gorbenion. Bydd costau'n codi wrth ddatblygu a gweithredu'r fframwaith o flynyddoedd ariannol 2025-26 hyd at 2034-35. Bydd y costau staff a nodir o dan opsiwn un hefyd yn gymwys yn yr opsiwn hwn.

**Tabl [8]: Dadansoddiad amser staff ar gyfer targedau anstatudol**

| Swydd | Oriau y flwyddyn | Canran yr amser | Cost gyfartalog staff (£) | Cost (£) |
|---|---|---|---|---|
| Dirprwy Gyfarwyddwr | 104 | 5.7% | 134,146 | 7,700 |

[114] DEFRA (2022), Overarching Impact Assessment for proposed Environment Act (2021) targets (Consultation Stage), https://consult.defra.gov.uk/natural-environment-policy/consultation-on-environmental-targets/supporting_documents/Environment%20Act%20targets%20%20Overarching%20Impact%20Assessment.pdf
[115] Datganiadau polisi cyflog Llywodraeth Cymru | LLYW. CYMRU

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gradd 6 | 104 | 5.7% | 117,941 | 6,700 |
| Gradd 7 | 624 | 34.3% | 97,317 | 33,400 |
| Uwch-swyddog Gweithredol 1 | 624 | 34.3% | 74,819 | 25,700 |
| Uwch-swyddog Gweithredol 2 | 962 | 52.9% | 74,819 | 39,500 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 1 | 962 | 52.9% | 59,808 | 31,600 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 2 | 962 | 52.9% | 59,808 | 31,600 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 3 | 624 | 34.3% | 59,808 | 20,500 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 4 | 156 | 8.6% | 59,808 | 5,100 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 5 | 962 | 52.9% | 59,808 | 31,600 |
| **Cyfanswm cost staff** | | | | 233,400 |

7.166. Ni fyddai gan yr opsiwn hwn unrhyw gostau uniongyrchol i gymdeithas. Mae’n bosibl y bydd costau yn y dyfodol yn sgil polisïau a gyflwynir i gefnogi eu targedau. Fodd bynnag, bydd yr union bolisïau hyn, a’u costau cysylltiedig, yn cael eu pennu gan bynciau’r targedau anstatudol. Yn ogystal, ymgynghorir â CNC a rhanddeiliaid eraill, ond disgwylir i'r costau i'r asiantaethau allanol hyn sy'n gysylltiedig â'r broses ymgynghori fod yn isel.

7.167. Bydd angen gwneud gwaith i nodi pa gamau gweithredu fydd eu hangen i gyrraedd unrhyw dargedau posibl i sicrhau eu bod yn ymarferol ac yn effeithiol o fewn unrhyw amserlenni penodol. Bydd hyn yn llywio'r lefel bosibl o welliant y gellir ei gyflawni, ac erbyn pryd. Mae'r gwaith hwn

yn cynnwys pennu'r metrig bioamrywiaeth priodol a galluoedd adrodd sy'n angenrheidiol i fesur, asesu ac adrodd ar gydymffurfiaeth â thargedau penodol. Bydd ymarfer modelu senarios yn angenrheidiol hefyd i bennu'r llwybrau polisi sydd eu hangen i gefnogi cyflawni'r canlyniadau a nodwyd ar gyfer targedau. Yn seiliedig ar sgyrsiau cychwynnol gyda'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC), amcangyfrifwyd y bydd swm o £370,000 yn darparu cymorth ymgynghori technegol, a disgwylir y bydd costau'n dechrau ym mlynyddoedd ariannol 2025-26. Rhagwelir mai'r cyfanswm costau staffio a gwaith datblygu ar gyfer polisi a thargedau yw £3.41m.

7.168. Mae camau y tu hwnt i fesurau i gadw at ymrwymiadau deddfwriaethol a pholisi presennol yn debygol o fod yn ofynnol i gyrraedd unrhyw dargedau newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes modd amcangyfrif cost gweithredu fframwaith newydd gan nad yw cwmpas y camau gweithredu gofynnol wedi'i ddiffinio. Felly, nid yw'r costau penodol hyn yn hysbys ar hyn o bryd. Bydd costau i fusnesau ac aelwydydd os bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddeddfu polisïau cynllunio neu lygredd llymach i gyrraedd targedau. Bydd y costau posibl hyn yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar sawl ffactor megis y lefel a osodird fel y targed, y dyddiad cau ar gyfer cyrraedd y targed, y mesurau a ddewisir i gyrraedd y targed a'r effeithiau ar fioamrywiaeth o gamau eraill y llywodraeth, megis ar newid hinsawdd neu amaethyddiaeth.

7.169. Bydd y penderfyniad ynghylch pryd a sut i gyflawni, yn gosteffeithiol, dargedau sydd i'w gosod gan Weinidogion Cymru yn seiliedig ar gyngor arbenigol annibynnol. Bydd hyn yn ei dro yn pennu'r costau i fusnesau ac aelwydydd ac ar ba adeg yr eir iddynt. Gall unrhyw gostau i fusnesau ac aelwydydd gael eu lleihau gan wasanaethau ecosystemau gwell, a allai gael eu gwella ymhellach gan dargedau bioamrywiaeth y llywodraeth.

7.170. Mae'r fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi trefniadau ar waith ar gyfer casglu data i asesu'r cynnydd a wneir tuag at dargedau ar ôl iddynt gael eu gosod o dan y fframwaith, ac i sicrhau bod y data'n cael ei gyhoeddi. Yn gysylltiedig â'r ddyletswydd i bennu

dangosyddion ac adrodd ar gynnydd tuag at y targedau, mae rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru i gyfrannu at ofynion adrodd y DU o dan y GBF. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol a y DU, manylu ar ymrwymiadau a chamau gweithredu, a'r Adroddiadau Cenedlaethol sy'n nodi cynnydd llofnodwyr tuag at gyflawni targedau'r GBF. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd hefyd o dan adran 6 o Ddeddf 2016 i adrodd ar eu camau gweithredu sy'n cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth. Gallai'r opsiwn hwn, pe bai'n cael ei weithredu, ehangu'r manylion sy'n cael eu hadrodd yn adroddiad adran 6 Gweinidogion Cymru a chefnogi'n well gyfraniadau Llywodraeth Cymru at adrodd ar lefel y DU.

7.171. Mae gofynion monitro yn y dyfodol yn amodol ar ddatblygu'r targedau bioamrywiaeth penodol, fforddiadwyedd yng nghyd-destun ymrwymiadau ehangach y llywodraeth ac ystyriaeth Gweinidogion. Ar hyn o bryd, mae targedau'n cael eu datblygu drwy fodelu llwybrau polisi yn y dyfodol ochr yn ochr â cheisiadau am gyngor arbenigol annibynnol y Panel Cynghori Targedau Bioamrywiaeth (BTAP) a chyrff cynghori arbenigol eraill y llywodraeth.

7.172. Fodd bynnag, yn seiliedig ar drafodaethau gydag arbenigwyr monitro amgylcheddol yn JNCC a BTAP, mae amcangyfrifon cost dangosol i gynnal cyfres fonitro gynhwysfawr o ddangosyddion, gan gynnwys costau rhedeg, oddeutu £329,000 bob blwyddyn gan ddechrau yn 2026-27. Mae'r dadansoddiad costau llawn ar gyfer yr opsiwn hwn ar gael yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

**Tabl [7]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – targedau bioamrywiaeth**

| | **Opsiwn 2** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Datblygu polisi / targedau<br><br>Costau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 a mecanweithiau gwerthuso targedau yn y dyfodol |

| | |
|---|---|
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £5.51m |

**Manteision**

7.173. Mae gweithredu targedau bioamrywiaeth anstatudol yn cynnig sawl mantais bosibl o gymharu â busnes fel arfer. Gallai'r dull hwn wella rheoli bioamrywiaeth drwy ddiffinio cyfres o ganlyniadau diffiniedig, mesuradwy i ymdrechion cadwraeth weithio tuag atynt. Byddai'r targedau hyn, sy'n deillio o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ac wedi'u haddasu i gyd-destun Cymru, yn canolbwyntio ar feysydd lle mae angen gweithredu ar frys, gan wella effeithiolrwydd cadwraeth bioamrywiaeth drwy alinio adnoddau ac ymdrechion. Byddai integreiddio'r targedau hyn i ddogfennau polisi a chyflawni presennol yn ychwanegu at Ddeddf 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gefnogi'r dyletswyddau a'r swyddogaethau a amlinellir yn y Deddfau hyn.

7.174. Byddai sefydlu strwythur monitro ac adrodd yn darparu mecanwaith ar gyfer olrhain cynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth, gan sicrhau atebolrwydd a thryloywder. Gan y byddai'r targedau yn deillio o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, byddai'r strwythur monitro hwn hefyd yn cefnogi gofynion adrodd Cymru i'r DU fel rhan o'i rhwymedigaethau fel llofnodwr, gan leihau diswyddiadau a llwyth gwaith. Byddai adrodd yn rheolaidd yn helpu i nodi meysydd sydd angen eu gwella a hwyluso rheoli polisïau mewn ffordd addasol.

7.175. Gallai rheoli bioamrywiaeth yn well arwain at fanteision megis atafaelu carbon, gwell ansawdd aer, gwell cyfleoedd hamdden a gwell iechyd corfforol i'r boblogaeth. Er bod y manteision hyn yn anodd i'w meintoli'n fanwl gywir, disgwylir iddynt gyfrannu'n gadarnhaol at yr amgylchedd a chymdeithas[116].

**Crynodeb**

[116] The Young Foundation - Review and Cost Benefit Analysis of Welsh Government Environmental Governance, Principles and Nature Recovery Bill

7.176. Yn gyffredinol, er bod y fframwaith targedau bioamrywiaeth anstatudol yn cynnig sawl mantais bosibl, gan gynnwys rheoli bioamrywiaeth ac integreiddio polisi yn well, mae hefyd yn cyflwyno heriau sy'n gysylltiedig â gofynion adnoddau, costau nad oes modd eu meintoli a dibyniaeth ar gydymffurfiaeth wirfoddol. Bydd mantoli'r ffactorau hyn yn hanfodol wrth benderfynu ar effaith gyffredinol a dichonoldeb yr opsiwn hwn.

**Opsiwn 3: Fframwaith targedau bioamrywiaeth statudol**

**Disgrifiad**

7.177. Mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno fframwaith ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth. Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i sefydlu targedau statudol os ydynt yn credu y bydd y targedau hyn yn helpu i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Bydd y ffocws ar gynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gwella gwydnwch ecosystemau a rhoi hwb i amrywiaeth enetig. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targed tymor byr a thymor hir ar gyfer dau o’r meysydd blaenoriaeth ac o leiaf un targed ar gyfer dau faes blaenoriaeth arall a enwir yn y Bil o fewn dwy flynedd i'r Cydsyniad Brenhinol.

7.178. Bydd y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau presennol o dan Ddeddf 2016 yn parhau i fod ar waith ac yn cael eu mireinio ymhellach gan yr opsiwn hwn. Mae hyn yn cynnwys gwella swyddogaethau cynllunio ac adrodd Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf 2016. Bydd gofyn i Weinidogion Cymru gynnwys y camau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni targedau bioamrywiaeth yn eu cynlluniau. Bydd angen iddynt hefyd fonitro ac adrodd cynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn, gan ddefnyddio dangosyddion a osodir yn y rheoliadau targed, yn eu hadroddiadau adran 6. Yn ogystal, mae'r opsiwn hwn yn cyflwyno adroddiad gwerthuso newydd i asesu effaith ac effeithiolrwydd y polisïau a'r camau gweithredu hynny a amlinellir yng nghynllun adran 6 Gweinidogion Cymru.

7.179. Bydd fframwaith gosod targedau yn galluogi targedau ychwanegol i gael eu gosod yn y dyfodol i gyflawni canlyniadau effeithiol a hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd 2021 bwerau a dyletswyddau i Lywodraeth y DU osod targedau amgylcheddol yn Lloegr ac i gynllunio, monitro ac adrodd ar gynnydd tuag atynt i ddiogelu a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys bioamrywiaeth. Yn yr un modd, gall y pwerau a'r dyletswyddau i osod targedau bioamrywiaeth newydd sy'n rhwymo mewn cyfraith yng Nghymru helpu i greu'r sicrwydd tymor byr a thymor hir sydd ei angen i alluogi buddsoddiad parhaus mewn polisïau a chamau gweithredu, gwella'r amgylchedd a gwireddu manteision uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, rhywogaethau, cynefinoedd ac amaethyddiaeth.

7.180. Bydd gan Weinidogion Cymru y gallu i bennu graddfeydd, lefelau a dyddiadau targedau bioamrywiaeth yn y dyfodol, gan eu galluogi i osod targedau yn seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth a'r uchelgais polisi yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ystyried synergeddau â pholisi amaethyddol, yn enwedig y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a gyflwynir yn Neddf Amaethyddol (Cymru) 2024, a llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hirdymor.

7.181. Unwaith y bydd targedau wedi'u gosod, mae'r fframwaith yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru, mewn rheoliadau, ddynodi awdurdodau cyhoeddus, gan ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus hynny gymryd camau gweithredu i gyfrannu at gyflawni'r targed bioamrywiaeth y maent wedi'u dynodi ar ei gyfer. Os cânt eu dynodi, bydd yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus adrodd eu cyfraniadau tuag at y targed perthnasol o fewn eu cynlluniau adran 6.

7.182. Bydd gosod targedau statudol, ynghyd â'r ddyletswydd i adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn a dynodi awdurdodau cyhoeddus, yn gwella gallu Gweinidogion Cymru i asesu effaith targedau bioamrywiaeth a dyletswydd adran 6 Deddf 2016 ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

7.183. Yn ogystal â chynnal lefelau presennol o fioamrywiaeth a'i chyfraniadau at bobl, bydd targedau'n sbarduno gwelliant parhaus yn statws ein rhywogaethau ac iechyd ein hecosystemau, gan wneud y mwyaf o'r gwasanaethau ecosystemau cysylltiedig.

7.184. Mae'n hanfodol deall a yw'r camau a gymerwyd i gyflawni'r targedau wedi bod yn effeithiol ac, os na, nodi achosion problemau ac felly atebion posibl. Gall asesu cyflawni camau gweithredu sy'n cefnogi'r targedau fod yn heriol ond mae'n hanfodol i sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cyflawni'r gwerth gorau am arian. Mae'r adroddiad gwerthuso ar gamau gweithredu adran 6 Gweinidogion Cymru yn darparu'r mecanwaith hwn. Fodd bynnag, ni fydd yn cynnig llwybr polisi i gyrraedd y targedau. Rhaid i dargedau newydd a'u polisïau cyflawni ategol fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i sicrhau eu bod yn heriol ac yn debygol o gyflawni'r canlyniadau cywir. Mae'r broses o bennu targedau bioamrywiaeth effeithiol, cymesur ac ymarferol yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser a bydd angen dadansoddiad a chyngor pellach wrth i'r broses ddatblygu.

7.185. Darperir dadansoddiad rhagarweiniol o effeithiau gosod targedau yn yr adran nesaf. Bydd dadansoddiad manwl o effeithiau disgwyliedig yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal wrth ei datblygu pan fydd y manylion penodol y targedau wedi'u cwblhau.

**Anfanteision**

7.186. Mae pryderon ynghylch dichonoldeb y targedau a’r gwaith o’u cyflawni. Mae adroddiad yr ymchwilydd wedi tynnu sylw at yr angen am fap ffordd clir sy'n amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adfer a diogelu natur. Heb fap ffordd o'r fath, mae posibilrwydd y gellir ystyried bod targedau'n anghyraeddadwy, a allai niweidio ffydd y cyhoedd yn y targedau a lleihau ymrwymiad iddynt. Yn ogystal, mae'r broses o osod targedau realistig sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, gyda’r angen am ddadansoddiad a chyngor pellach.

7.187. Gall y broses o weithredu targedau statudol wynebu heriau oherwydd cyfyngiadau adnoddau. Mynegodd yr adroddiad bryderon y gallai Llywodraeth Cymru weld cyflwyno targedau fel ffordd o leihau buddsoddiad mewn bioamrywiaeth, gan ddibynnu ar bartneriaid a rhanddeiliaid i gyflawni'r targedau[117]. Efallai na fydd y dull hwn yn effeithiol o ystyried cyflwr presennol yr economi, gan ei gwneud yn hanfodol i'r llywodraeth ddangos arweinyddiaeth a darparu ymrwymiadau ariannol clir i sicrhau bod targedau'n cael eu cyflawni.

7.188. Mae posibilrwydd y gellir ystyried bod rhai targedau yn anghyraeddadwy cyn gynted ag y byddant yn cael eu gosod, a allai niweidio ffydd y cyhoedd yn y targedau a lleihau ymrwymiad iddynt. Er enghraifft, gall ardaloedd morol gwarchodedig wynebu heriau oherwydd data cyfyngedig ar amodau, gan ei gwneud yn anodd gosod targedau realistig. Mae sicrhau bod targedau'n gyraeddadwy ac yn ystyrlon yn hanfodol i gynnal cymorth y cyhoedd a rhanddeiliaid.

**Costau**

7.189. Yn ogystal â chostau opsiynau un a dau, bydd opsiwn tri yn cynnwys costau ychwanegol datblygu'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau dilynol sydd eu hangen i osod targedau statudol. Yn ogystal â'r costau staffio a amlinellir o dan opsiwn dau, bydd hyn yn gofyn am 50% o amser un Uwch-swyddog Gweithredol a dau Swyddog Gweithredol Uwch. Yn ogystal â'r swyddogion polisi, bydd datblygu deddfwriaeth hefyd yn gofyn am amser staff gwasanaethau cyfreithiol, costau cyfieithu a chymorth drafftio gan Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol. Mae'r ymrwymiad amser hwn wedi'i addasu i werthoedd ariannol gan ddefnyddio costau cyfartalog staff Llywodraeth Cymru. Eir i gostau wrth ddatblygu a gweithredu'r fframwaith dros flynyddoedd ariannol 2026-27 hyd at 2027-28.

[117] The Young Foundation - Review and Cost Benefit Analysis of Welsh Government Environmental Governance, Principles and Nature Recovery Bill

7.190. Rhagwelir y bydd cost modelu a chost datblygu polisi yr un fath ag yr amlinellir yn opsiwn dau. Fodd bynnag, bydd angen ymgynghori ar y rheoliadau gan y byddai defnyddio'r pwerau arfaethedig yn destun ymgynghori a gweithdrefnau priodol y Senedd. Adlewyrchir y costau ymgynghori hyn yn yr amser staff ychwanegol, o gymharu ag opsiwn dau, y bydd ei angen i ddatblygu a gweithredu'r rheoliadau [Tabl 9]. Cyfanswm y costau a amcangyfrifir ar gyfer datblygu'r targedau a'u polisïau yw £4.20m dros y cyfnod arfarnu.

7.191. Fel gydag opsiwn dau, bydd y fframwaith yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi trefniadau ar waith ar gyfer casglu data i asesu'r cynnydd a wneir tuag at dargedau ar ôl iddynt gael eu gosod o dan y fframwaith, ac i sicrhau bod y data'n cael ei gyhoeddi. Fodd bynnag, oherwydd statws cyfreithiol y targedau, bydd rhaid i'r rhaglen hon o fonitro ac adrodd fod yn fwy cadarn i sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn bodloni eu rhwymedigaethau cyfreithiol. Bydd y strwythur mwy cadarn hwn yn golygu costau uwch ymlaen llaw wrth i biblinellau data a dangosfyrddau ar gyfer y cyhoedd gael eu sefydlu. Bydd hyn yn gofyn am adnoddau staff ychwanegol, o gymharu ag opsiwn dau, i gyflawni'r monitro a'r adrodd cryfach [Tabl 9]. Mae'r rhain wedi'u modelu o'r mecanweithiau cymaradwy a sefydlwyd i fonitro ac adrodd ar ymrwymiadau Sero Net Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, amcangyfrifir bod cost o £6,000 y flwyddyn ar gyfer cyngor arbenigol gan y Panel Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth. Cyfanswm y gost enwol a amcangyfrifir ar gyfer gweithredu a monitro fydd £1,285,500 y flwyddyn, gyda'r gost hon yn digwydd o 2028-29 ymlaen. Gellir dod o hyd i'r dadansoddiad cost llawn ar gyfer yr opsiwn hwn yn yr adran costau.

**Tabl [9]: Costau staffio ychwanegol ar gyfer darpariaethau monitro ac adrodd**

| Swydd | Canran yr amser | Cost gyfartalog staff (£) | Cost (£) |
|---|---|---|---|
| **Monitro** | | | |
| Gradd 6 | 50% | 117,941 | 59,000 |
| Gradd 7 | 100% | 97,317 | 97,300 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Uwch-swyddog Gweithredol 1 | 100% | 74,819 | 74,800 |
| Uwch-swyddog Gweithredol 2 | 100% | 74,819 | 74,800 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 1 | 100% | 59,808 | 59,800 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 2 | 100% | 59,808 | 59,800 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 3 | 100% | 59,808 | 59,800 |
| Swyddog Gweithredol Uwch 4 | 100% | 59,808 | 59,800 |
| **Economegwyr** | | | |
| Gradd 7 | 100% | 97,317 | 97,300 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 100% | 74,819 | 74,800 |
| Swyddog Gweithredol Uwch | 100% | 59,808 | 59,800 |
| **Cyfanswm cost staff** | | | **777,100** |
| Cyngor arbenigol gan y Panel Cynghori Targedau Bioamrywiaeth | | | 6,000 |
| **Cyfanswm cost** | | | **783,100** |

**Tabl [8]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – targedau bioamrywiaeth**

| | **Opsiwn 3 (yr opsiwn a ffefrir)** |
|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Datblygu targedau a deddfwriaeth<br><br>Costau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 a mecanweithiau gwerthuso a monitro targedau yn y dyfodol |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £11.48m |

**Manteision**

7.192. Bydd gosod targedau bioamrywiaeth statudol yn canolbwyntio ar gynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gwella gwydnwch

ecosystemau a rhoi hwb i amrywiaeth enetig. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd â fframweithiau bioamrywiaeth byd-eang ac yn sicrhau bod Cymru'n cyfrannu at nodau bioamrywiaeth byd-eang wrth fynd i'r afael ag anghenion lleol. Drwy wella iechyd ecosystemau, bydd y targedau'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau ecosystemau megis peillio, puro dŵr a rheoleiddio hinsawdd, sy'n hanfodol ar gyfer llesiant pobl.

7.193. Bydd cyflwyno targedau statudol yn creu mesur gweladwy ac atebol ar gyfer gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod targed tymor byr a thymor hir ar gyfer dau o'r meysydd blaenoriaeth ac o leiaf un targed ar gyfer dau faes blaenoriaeth arall a enwir yn y Bil o fewn dwy flynedd i'r Cydsyniad Brenhinol. Bydd yr atebolrwydd hwn yn cael ei wella ymhellach gan y gofyniad i Weinidogion Cymru gynnwys camau gweithredu i gyflawni targedau bioamrywiaeth yn eu cynlluniau ac i fonitro ac adrodd ar gynnydd gan ddefnyddio dangosyddion a osodir yn rheoliadau'r targedau. Bydd y tryloywder hwn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd, gan sicrhau bod y llywodraeth yn atebol am ei hymrwymiadau.

7.194. Bydd y fframwaith yn galluogi buddsoddiad parhaus mewn polisïau a chamau gweithredu sydd â'r nod o wella'r amgylchedd. Drwy ddarparu sicrwydd tymor byr a thymor hir, bydd y targedau statudol yn annog buddsoddiad mewn ymdrechion cadwraeth bioamrywiaeth, gan fod o fudd i iechyd y cyhoedd, rhywogaethau, cynefinoedd ac amaethyddiaeth. Bydd gallu Gweinidogion Cymru i bennu graddau, lefelau a dyddiadau targedau bioamrywiaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth ac uchelgais polisi yn sicrhau bod targedau'n realistig ac yn gyraeddadwy.

7.195. Yn ogystal, byddai sefydlu strwythur monitro ac adrodd yn darparu mecanwaith ar gyfer olrhain cynnydd tuag at dargedau bioamrywiaeth, gan sicrhau atebolrwydd a thryloywder. Gan y byddai'r targedau yn deillio o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, byddai'r strwythur monitro hwn hefyd yn cefnogi gofynion adrodd Cymru i'r DU fel rhan o'i rhwymedigaethau fel llofnodwr, gan leihau diswyddiadau a llwyth gwaith.

Byddai adrodd yn rheolaidd yn helpu i nodi meysydd sydd angen eu gwella a hwyluso rheoli polisïau mewn ffordd addasol.

7.196. Bydd y fframwaith yn ystyried synergeddau â pholisi amaethyddol, yn enwedig y fframwaith Rheoli Tir yn Gynaliadwy a gyflwynir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2024. Bydd yr integreiddio hwn yn hyrwyddo llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol hirdymor, gan sicrhau bod targedau bioamrywiaeth yn ategu arferion amaethyddol ac yn cyfrannu at reoli tir yn gynaliadwy.

**Crynodeb**

7.197. Mae cyflwyno fframwaith ar gyfer gosod targedau bioamrywiaeth statudol yng Nghymru yn cyflwyno manteision sylweddol, gan gynnwys gwelliannau o ran bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, atebolrwydd a thryloywder, buddsoddiad hirdymor a sicrwydd polisi, a synergeddau â pholisi amaethyddol. Fodd bynnag, mae hefyd yn creu heriau sy'n gysylltiedig â dichonoldeb, cyfyngiadau adnoddau, a barn y cyhoedd a rhanddeiliaid. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy fapiau ffordd clir, ymrwymiadau ariannol a gosod targedau realistig yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y fframwaith.

# Pennod 8 - Costau a Manteision

## Costau

Egwyddorion Amgylcheddol

8.1. Mae'r ffigurau cost a gyflwynir ar gyfer pob opsiwn deddfwriaethol yn adlewyrchu dadansoddiad trylwyr o'r gofynion ariannol i sefydlu a gweithredu'r opsiynau arfaethedig. Mae'r opsiwn a ffefrir (opsiwn pump), sy'n ymgorffori'r egwyddorion amgylcheddol yn llyfr statud Cymru ynghyd â dyletswydd i Weinidogion Cymru a CNC i roi sylw, yn pwysleisio pwysigrwydd atebolrwydd, sicrhau cydymffurfiaeth a chymryd camau cyson dros yr hirdymor, gan wella camau gweithredu bioamrywiaeth yng Nghymru. Drwy gynnwys dyletswydd i'r awdurdodau cyhoeddus eraill roi sylw i'r egwyddorion wrth arfer eu swyddogaethau i gynnal AASau, mae'r opsiynau a ffefrir yn mantoli costau cydymffurfio ag effaith.

**Tabl [11]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost - egwyddorion**

| | **Opsiwn 1 (Busnes fel Arfer)** | **Opsiwn 2** | **Opsiwn 3** | **Opsiwn 4** | **Opsiwn 5 (yr opsiwn a ffefrir)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Amherthnasol | Amser gweision sifil i ddatblygu deddfwriaeth | Amser gweision sifil i ddatblygu deddfwriaeth<br><br>Adnoddau addysgol ar gyfer | Amser gweision sifil i ddatblygu deddfwriaeth<br><br>Adnoddau addysgol ar gyfer | Amser gweision sifil i ddatblygu deddfwriaeth |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | hyfforddiant a chyfieithu<br><br>Costau cydymffurfio gweinidogol | hyfforddiant a chyfieithu<br><br>Costau cydymffurfio gweinidogol<br><br>Costau cydymffurfio awdurdodau cyhoeddus | Adnoddau addysgol ar gyfer hyfforddiant a chyfieithu<br><br>Costau cydymffurfio gweinidogol |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | Amherthnasol | £0.58m | £1.51m | £9.17m | £1.62m |

Isod mae'r proffil cost ar gyfer yr opsiwn a argymhellir dros gyfnod o ddeng mlynedd. Gellir dod o hyd i broffiliau cost ar gyfer yr opsiynau eraill yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

| **Egwyddorion: Dyletswydd ar Weinidogion Cymru a CNC** | | | **Blwyddyn** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost (£)** | **Math** | **Cyfanswm** | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 |
| *Datblygu'r ddeddfwriaeth* | | | | | | | | | | | | |
| Amser gweision sifil | Cylchol | 583,900 | 291,900 | 291,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Datblygu adnoddau addysgol | Untro | 3,900 | - | 3,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfieithu adnoddau | Untro | 5,800 | - | 5,800 | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth* | | | | | | | | | | | |
| Amser Cylchol Gweinidogion | 914,700 | - | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 |
| Amser Cylchol awdurdodau cyhoeddus (CNC) | 114,300 | - | 12,700 | 12,700 | 12,700 | 12,700 | 12,700 | 12,700 | 12,700 | 12,700 | 12,700 |
| **Newid o'r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | |
| Datblygu'r ddeddfwriaeth | 593,600 | 291,900 | 301,600 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth | 1,029,000 | - | 114,300 | 114,300 | 114,300 | 114,300 | 114,300 | 114,300 | 114,300 | 114,300 | 114,300 |
| **Cyfanswm y gost ychwanegol (heb ei disgowntio)** | **1,622,600** | **291,900** | **415,900** | **114,300** | **114,300** | **114,300** | **114,300** | **114,300** | **114,300** | **114,300** | **114,300** |
| **Cyfanswm y costau ychwanegol (wedi'u disgowntio)** | **1,453,200** | **291,900** | **401,900** | **106,700** | **103,100** | **99,600** | **96,300** | **93,000** | **89,900** | **86,800** | **83,900** |

# Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

8.2. Mae'r ffigurau cost a gyflwynir ar gyfer pob opsiwn deddfwriaethol yn adlewyrchu dadansoddiad trylwyr o'r gofynion ariannol i sefydlu a gweithredu'r corff llywodraethiant arfaethedig. Mae'r opsiwn a ffefrir (opsiwn tri), sef sefydlu corff annibynnol, yn tynnu sylw at bwysigrwydd annibyniaeth glir a photensial gorfodi i gynnal y ddeddfwriaeth a sicrhau cydymffurfiaeth, gan wella canlyniadau diogelu'r amgylchedd i Gymru.

**Tabl [12]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – corff llywodraethiant**

| | Opsiwn 1 (Busnes fel Arfer) | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 (Yr opsiwn a ffefrir) | Opsiwn 4 |
|---|---|---|---|---|
| **Disgrifiad** | IEPAW yn parhau | Integreiddio i'r Corff presennol | Sefydlu corff annibynnol | Ymestyn OEP i Gymru |
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Costau rhedeg IEPAW<br><br>Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill | Pontio IEPAW<br><br>Costau rhedeg ychwanegol y corff presennol<br><br>Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill | Pontio IEPAW<br><br>Costau sefydlu ar gyfer sefydliad newydd<br><br>Costau rhedeg ar gyfer sefydliad newydd<br><br>Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill | Pontio IEPAW<br><br>Costau rhedeg ychwanegol OEP<br><br>Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £7.0m | £14.82m | £20.88m | £12.65m |

8.3. Isod mae'r proffil cost ar gyfer yr opsiwn a argymhellir dros gyfnod o ddeng mlynedd. Gellir dod o hyd i broffiliau cost ar gyfer yr opsiynau eraill yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

| **Corff llywodraethiant: Costau opsiwn tri** | | **Blwyddyn** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost (£)** | **Cyfanswm** | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 |
| *Costau uniongyrchol y corff llywodraethiant* | | | | | | | | | | | |
| Costau IEPAW | 1,687,500 | 675,000 | 675,000 | 337,500 | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau sefydlu ar gyfer sefydliad newydd | 480,000 | 480,000 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau rhedeg | 25,086,200 | - | 2,787,400 | 2,787,400 | 2,787,400 | 2,787,400 | 2,787,400 | 2,787,400 | 2,787,400 | 2,787,400 | 2,787,400 |
| *Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill* | | | | | | | | | | | |
| Achosion IEPAW a ddaeth i law ac yr aed ar eu trywydd | 62,500 | 25,000 | 25,000 | 12,500 | - | - | - | - | - | - | - |
| Achosion IEPAW a ddaeth i law ac na aed ar eu trywydd | 1,100 | 400 | 400 | 200 | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Achosion corff newydd a ddaeth i law ac a fu'n destun ymchwiliad | 225,000 | - | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 |
| Achosion corff newydd a ddaeth i law ac na aed ar eu trywydd | 4,000 | - | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **Newid o'r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | |
| Costau uniongyrchol y corff llywodraethiant | 20,503,700 | 480,000 | 2,787,400 | 2,449,900 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 |
| Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill | 38,200 | - | 25,400 | 12,700 | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau Archwilio Cymru | 342,000 | | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 |
| **Cyfanswm y gost ychwanegol (heb ei disgowntio)** | **20,883,900** | **480,000** | **2,850,800** | **2,500,600** | **2,150,400** | **2,150,400** | **2,150,400** | **2,150,400** | **2,150,400** | **2,150,400** | **2,150,400** |
| **Cyfanswm costau (real, wedi'i disgowntio)** | **17,842,900** | **480,000** | **2,754,400** | **2,334,300** | **1,939,500** | **1,873,900** | **1,810,500** | **1,749,300** | **1,690,200** | **1,633,000** | **1,577,800** |

## Targedau Bioamrywiaeth

8.4. Mae'r ffigurau cost a gyflwynir ar gyfer pob opsiwn deddfwriaethol yn adlewyrchu dadansoddiad trylwyr o'r gofynion ariannol i sefydlu a gweithredu'r opsiynau arfaethedig. Mae'r opsiwn a ffefrir (opsiwn tri), sef gweithredu fframwaith gosod targedau statudol, yn tynnu sylw at bwysigrwydd atebolrwydd, sicrhau cydymffurfiaeth a chymryd camau cyson dros yr hirdymor, gan wella camau gweithredu bioamrywiaeth yng Nghymru.

**Tabl [13]: Crynodeb o'r opsiynau deddfwriaethol, costau a chyfrifiadau cost – targedau bioamrywiaeth**

| | **Opsiwn 1 (Busnes fel Arfer)** | **Opsiwn 2** | **Opsiwn 3 (yr opsiwn a ffefrir)** |
|---|---|---|---|
| **Costau y gellir eu meintoli / moneteiddio** | Costau presennol sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang | Datblygu polisi / targedau<br><br>Costau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 a mecanweithiau gwerthuso targedau yn y dyfodol | Datblygu targedau a deddfwriaeth<br><br>Costau sy'n gysylltiedig â dyletswyddau Adran 6 a mecanweithiau gwerthuso a monitro targedau yn y dyfodol |
| **Cost – real a heb ei disgowntio** | £0.96m | £5.51m | £11.48m |

Isod mae'r proffil cost ar gyfer yr opsiwn a argymhellir dros gyfnod o ddeng mlynedd. Gellir dod o hyd i broffiliau cost ar gyfer yr opsiynau eraill yn y Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd.

| **Bioamrywiaeth: Cyflwyno fframwaith statudol cadarn** | | | **Blwyddyn** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 |
| *Datblygu polisi / targedau* | | | | | | | | | | | | |
| Datblygu a chynnal dangosyddion | Cylchol | 3,038,600 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 |
| Datblygu deddfwriaethol | Cylchol | 791,100 | - | 395,500 | 395,500 | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau untro | Untro | 370,000 | 370,000 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| *Gweithredu a monitro* | | | | | | | | | | | | |
| Dyletswyddau a mecanweithiau gwerthuso adran 6 (Opsiwn 3) | Cylchol | 2,753,600 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 491,300 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 |
| Monitro, adrodd a gwerthuso cryfach | | 5,481,700 | - | - | - | 783,100 | 783,100 | 783,100 | 783,100 | 783,100 | 783,100 | 783,100 |
| **Newid o'r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu polisi / targedau | 4,199,700 | 673,900 | 699,400 | 699,400 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 |
| Gweithredu a monitro | 7,277,800 | - | - | - | 1,178,600 | 1,016,500 | 1,016,500 | 1,016,500 | 1,016,500 | 1,016,500 | 1,016,500 |
| **Cyfanswm y gost ychwanegol (heb ei disgowntio)** | **11,477,500** | **673,900** | **699,400** | **699,400** | **1,482,500** | **1,320,400** | **1,320,400** | **1,320,400** | **1,320,400** | **1,320,400** | **1,320,400** |
| **Cyfanswm y gost ychwanegol (wedi'i disgowntio)** | **9,685,500** | **673,900** | **675,700** | **652,900** | **1,337,100** | **1,150,700** | **1,111,700** | **1,074,100** | **1,037,800** | **1,002,700** | **968,800** |

## Manteision

8.5. Amcan terfynol y Bil yw sicrhau gwell canlyniadau amgylcheddol i Gymru. Roedd Pennod 7 y Memorandwm Esboniadol hwn yn disgrifio'n ansoddol sut y gallai'r canlyniadau buddiol hyn ddeillio o bob rhan o'r Bil. Fodd bynnag, oherwydd strwythur y darpariaethau, mae heriau sylweddol wrth feintoli a moneteiddio'r manteision hyn.

8.6. Mae'r gwerthoedd a gyflwynir yn yr adran hon wedi'u haddasu i gael gwared ar effeithiau chwyddiant cyffredinol, gan adlewyrchu gwir werth nwyddau neu wasanaethau ar adeg benodol. Mae hyn yn sicrhau bod y gwerthoedd yn cael eu cyflwyno mewn prisiau blwyddyn sylfaen, fel bod modd eu cymharu dros amser. Mae'r gwerthoedd hyn yn ystyried gwerth amser arian drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt. Mae hyn yn golygu bod gwerthoedd yn y dyfodol yn cael eu haddasu i adlewyrchu eu gwerth presennol, gan ganiatáu cymhariaeth fwy cywir o gostau a manteision sy'n digwydd ar wahanol adegau. Mae Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF yn argymell defnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5% i gyfrif am y dewis amser cymdeithasol, sy'n adlewyrchu'r gwerth y mae cymdeithas yn ei roi ar ddefnydd presennol dros ddefnydd yn y dyfodol

### Egwyddorion amgylcheddol

8.7. Bwriedir i'r egwyddorion amgylcheddol gael eu cymhwyso wrth lunio polisïau o fewn Llywodraeth Cymru a CNC, a phan fydd awdurdodau cyhoeddus yn cynnal AAS. Amcan terfynol y cynigion yw cyflawni gwell canlyniadau amgylcheddol. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol wrth feintoli a moneteiddio'r manteision hyn. Er mwyn ceisio meintoli'r manteision y gellir eu moneteiddio o weithredu'r egwyddorion amgylcheddol, byddai angen i ni wybod yn gyntaf y polisïau a'r ddeddfwriaeth yn y dyfodol y byddent yn cael eu cymhwyso iddynt. Yn ogystal, mae cymhwyso'r egwyddorion yn cynnwys barn oddrychol, gan ei

gwneud yn anodd amcangyfrif eu budd heb wybod, unwaith eto, y senario penodol y byddent yn cael eu cymhwyso ynddo.

8.8. Yn arbennig, gwnaeth yr asesiad o'r effaith ar gyfer Deddf yr Amgylchedd 2021[118] Senedd y DU wynebu heriau tebyg hefyd. Nid oedd yn moneteiddio canlyniadau'r cynigion ynghylch ymwreiddio'r egwyddorion, gan ddefnyddio'r rhesymeg bod gwell canlyniadau amgylcheddol yn cyflwyno manteision mawr yn gyffredinol, ac rydym yn cytuno â hyn.

**Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC)**

8.9. Nod sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC) yw darparu goruchwyliaeth strategol o gyfraith amgylcheddol yng Nghymru, gyda'r nod o sicrhau gwell canlyniadau amgylcheddol. Mae manteision SLlAC y gellir eu moneteiddio yn anodd eu meintoli'n uniongyrchol, oherwydd natur dybiannol polisïau yn y dyfodol a’r safbwyntiau goddrychol dan sylw. Mae'r meysydd cyfraith amgylcheddol y bydd SLlAC yn ymchwilio i gydymffurfiaeth â nhw yn eang ac mae'r manteision yn dibynnu'n rhannol ar bynciau'r achosion a ddygir gerbron y corff. Gall effeithiolrwydd a chymhwysiad cyfraith amgylcheddol amrywio'n fawr. Er enghraifft, roedd y tri ymchwiliad diwethaf Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP), ym mis Chwefror 2025, yn ymdrin â thynnu cynefinoedd morfa heli, statws amgylcheddol dyfroedd morol a llygredd dŵr o amaethyddiaeth[119].

8.10. O ystyried yr amrywiad tebygol, mae'r manteision sy'n deillio o SLlAC yn dibynnu ar gasgliadau y deuir iddynt, camau a gymerir (os o gwbl) a'r canlyniadau sy'n deillio o'r ymyriadau. Fel y cyfryw, byddai unrhyw gyfrifiadau o ganlyniadau amgylcheddol penodol yn hynod dybiannol ac yn cynnwys llawer o gafeatau, gan eu gwneud yn llai defnyddiol ar gyfer moneteiddio manwl.

[118] Environment Bill Impact Assessment.pdf
[119] Gwefan OEP, cyrchwyd Chwefror 2025, https://www.theoep.org.uk/investigation/investigation-defras-duty-achieve-good-environmental-status-marine-environment

8.11. O ganlyniad, er bod manteision uniongyrchol SLlAC y gellir eu moneteiddio yn anodd eu nodi a'u meintoli'n gywir, mae'r prif fanteision yn deillio o ganlyniadau amgylcheddol gwell ac ymyriadau strategol. Mae'r manteision hyn, er eu bod yn ehangach na ffigurau uniongyrchol y gellir eu moneteiddio, yn cyfrannu'n sylweddol at y nod polisi i gyrraedd lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd a gwella ansawdd yr amgylchedd.

**Targedau bioamrywiaeth**

8.12. Mae pedwar maes blaenoriaeth wedi'u rhestru ar wyneb y Bil: lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol, rheoli ecosystemau'n effeithiol, lleihau llygredd, ac ansawdd y dystiolaeth i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso. Fodd bynnag, nid yw'r targedau penodol, eu hyd a'r lefelau mandadol i'w cyflawni yn hysbys eto. Ymhellach, nid yw’r meysydd blaenoriaeth hyn ond yn gymwys i'r targedau cyntaf y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu gosod. Ar ôl gosod o leiaf targed tymor byr a thymor hir ar gyfer lleihau’r risg o ddiflaniad rhywogaeth frodorol a rheoli ecosystemau’n effeithiol a gosod o leiaf un targed ar gyfer lleihau llygredd ac ansawdd y dystiolaeth sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso, caiff Gweinidogion Cymru ddewis gosod targed ar gyfer unrhyw faes cyn belled â'u bod yn fodlon y bydd yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth. Felly, heb wybod cylch gwaith llawn y targedau bioamrywiaeth i'w dwyn ymlaen o dan y pwerau mae'r Bil hwn yn eu creu, a'r meysydd targed a'r mesurau, mae'n anodd darparu cyfrif cywir o'r manteision y bydd y targedau yn eu creu.

8.13. O ystyried y cyfyngiadau a grëwyd gan fformat y darpariaethau, mae'r canlyniadau a gyflwynir yn y bennod hon yn ddangosol i ddarparu'r amcangyfrif gorau o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o'r manteision i'w cyflawni o ddeddfu'r Bil hwn. Yn ogystal, daethpwyd i'r casgliad bod ceisio meintoli a moneteiddio'r manteision ar gyfer pob agwedd ar y

ddeddfwriaeth ar wahân yn cynnig cyfleustod cyfyngedig. Mae hyn yn bennaf oherwydd nad oes digon o wybodaeth am y canlyniadau amgylcheddol penodol a grëwyd oherwydd y ddeddfwriaeth. Felly, byddai unrhyw gyfrifiad yn hynod dybiannol, yn cynnwys llawer o gafeatau ac o ddefnydd cyfyngedig. Felly, y manteision sydd wedi'u disgrifio'n ansoddol yw'r hyn y dylai'r rhai sy'n adolygu costau a manteision y ddeddfwriaeth ganolbwyntio arno wrth benderfynu ar rinweddau'r ddeddfwriaeth. Cyhoeddir Asesiadau Effaith Rheoleiddiol a dadansoddiadau o’r costau a’r manteision gyda’r is-ddeddfwriaeth lle caiff targedau eu pennu.

8.14. Cyfeiriwyd at yr heriau hyn o ran meintoli'r manteision yn benodol yn yr asesiad effaith ar gyfer Ddeddf Amgylchedd 2021 Lloegr. Roedd y ddeddfwriaeth hon yn gwneud darpariaethau ar gyfer gweithredu targedau bioamrywiaeth ac ar gyfer corff llywodraethiant amgylcheddol hefyd. Ni wnaeth asesiad effaith Lloegr foneteiddio canlyniadau'r ddeddfwriaeth, gan fynd ati yn lle hynny i ddefnyddio'r rhesymeg y byddai'r ddeddfwriaeth yn gwella canlyniadau amgylcheddol ac - yn gyffredinol - mae gwell canlyniadau amgylcheddol yn arwain at fanteision mawr[120].

8.15. Ceisiodd yr RIA drafft ar gyfer y Papur Gwyn[121] ddangos y manteision posibl sy'n deillio o'r gwelliant amgylcheddol a gyflawnir gan y cynigion polisi. Mae'r RIA drafft hwn yn adeiladu ar y meintoli a geir yn asesiad o effaith Deddf yr Amgylchedd 2021 a geisiodd feintoli'r manteision ynghylch gweithredu'r targedau amgylcheddol yr oedd yn eu cyflwyno. Mae'r ffigurau canlynol yn mireinio'r dull hwnnw yn seiliedig ar y gwaith a gomisiynwyd gan swyddogion polisi i gefnogi datblygiad y dadansoddiad cost a budd hwn. Er nad yw'n amcangyfrif diffiniol o'r manteision oherwydd nad yw'r union nifer o dargedau bioamrywiaeth, y metrigau, y

[120] DEFRA (2019), Environment Bill IA, https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-01/0009/Environment%20Bill%20Impact%20Assessment.pdf
[121] Egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth: Papur Gwyn | LLYW.CYMRU

safonau a'r hyd yn hysbys eto, mae'n ddarlun defnyddiol o'r manteision posibl i bobl a'r amgylchedd sy'n deillio o'r cynigion deddfwriaethol.

**Tabl 14: Manteision a'u disgrifiad**

| Math o fudd | Disgrifiad |
|---|---|
| **Atafaelu carbon** | Cyfrifir y manteision drwy luosi'r gwerth cyfwerth â charbon deuocsid gyda'r swm amcangyfrifedig o nwyon cyfwerth â charbon deuocsid sy'n cael eu hatafaelu drwy gynefinoedd gwlyptir a glaswelltir. |
| **Rheoleiddio ansawdd aer** | Cyfrifir y manteision drwy fesur y manteision i iechyd pobl yn sgil cael gwared ar ddeunydd gronynnol o'r aer, gan ganolbwyntio ar y costau gofal iechyd llai sy'n deillio o amlygiad i'r deunydd hwn. |
| **Hamdden** | Cyfrifir y manteision drwy luosi nifer yr ymweliadau â mannau gwyrdd hygyrch gyda'r gwerth lles a'r manteision iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â'r ymweliadau. |
| **Iechyd corfforol** | Cyfrifir y manteision drwy amcangyfrif sut mae pobl yn cael manteision iechyd corfforol yn sgil bod yn egnïol drwy ymweld â chynefinoedd wedi'u creu neu wedi'u hadfer ac ymgymryd â gweithgareddau hamdden. |

8.16. Defnyddiodd yr ymchwilwyr a gomisiynwyd gymarebau poblogaeth a chymarebau tir i drosi'r manteision a nodwyd yn Lloegr i gyd-destun Cymru. Nodir bod amrywiadau, megis daearyddiaeth a defnydd tir, sy'n gwneud hwn yn drosiad amherffaith. Fodd bynnag, mae'n arfer cyffredin cyfrifo manteision canlyniadau amgylcheddol mewn perthynas â phoblogaeth ac arwynebedd tir.

8.17. Yn y cyd-destun hwn, defnyddiwyd dau brif bwysoliad

- **Pwysoliad poblogaeth.** Mae poblogaeth Cymru yn 5.5% o boblogaeth Lloegr.[122]
- **Cymhareb arwynebedd.** Mae arwynebedd tir Cymru yn 15.9% o arwynebedd tir Lloegr.[123]

8.18. Yn seiliedig ar y cymarebau hyn, cyfrifwyd y manteision enghreifftiol ar y sail ganlynol:

- **Senario isel**. Cymhwyso cymhareb poblogaeth Cymru i Loegr yn unig.
- **Senario ganolig.** Cymhwyso'r cymarebau poblogaeth a thir mwyaf perthnasol i bob un o'r categorïau mantais a allai ddeillio o dargedau bioamrywiaeth.
- **Senario uchel**. Cymhwyso cymhareb tir Cymru i Loegr yn unig.

8.19. O ran y pwysoliad a gymhwyswyd, defnyddiwyd cymhareb poblogaeth ar gyfer agweddau ansawdd aer, hamdden ac iechyd corfforol. Mae hyn oherwydd bod y manteision hynny'n cronni'n uniongyrchol i bobl. Defnyddiwyd y gymhareb arwynebedd tir ar gyfer atafaelu carbon gan fod y fantais hon yn dibynnu ar faint yr arwynebedd tir dan sylw. Mae Tabl 15 yn dangos cyfanswm y manteision a gyfrifwyd gan ddefnyddio'r dull hwn. Mae'r manteision yn cronni dros 78 mlynedd – yr amserlen a ddefnyddiodd asesiad effaith gwreiddiol Deddf yr Amgylchedd 2021 i gyfrifo manteision – ac maent yn dod i gyfanswm o tua £1.7bn. Mae’r manteision yn amrywio oddeutu £1.0bn-£3.0bn ar sail prisiau 2024.

**Tabl [15]: Cyfrifiadau o fanteision yn seiliedig ar senarios isel, canolig ac uchel**

| | Targedau Cynefinoedd Ehangach (£m) | Camau gweithredu Safleoedd Gwarchodedig (£m) | Cyfansw m (£m) |
|---|---|---|---|
| **Isel (pwysoliad poblogaeth)** | 536 | 497 | 1,033 |
| **Canolig (pwysoliad poblogaeth a thir cymysg)** | 910 | 807 | 1,717 |

[122] Yn seiliedig ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2021 gan y SYG, gyda phoblogaeth fras o 3.1m yng Nghymru a phoblogaeth fras o 56.0m yn Lloegr
[123] Defra (2002), Land by agricultural and other uses, 2002. Amcangyfrifir bod gan Gymru 2,064 hectar o dir ac amcangyfrifir bod gan Loegr 12,972 hectar

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Uchel (pwysoliad arwynebedd tir)** | 1,549 | 1,436 | 2,985 |

8.20. Mae ystyried costau dangosol i gyflwyno polisïau i gyrraedd y targedau yn cynhyrchu ffigur budd net. Fel gyda'r manteision enghreifftiol, mae'r costau hyn yn deillio o asesiad effaith Deddf yr Amgylchedd 2021 ac maent wedi'u cyfrifo drwy gyfrifo costau ar sail pro rata ar sail cymarebau tir. Amcangyfrifir mai'r costau yw £664m i Gymru a'u bod yn creu gwerth presennol net ar gyfer manteision o tua £1bn yn ôl yr amcangyfrif canolig. Mae'r ffigurau gwerth presennol net hyn wedi'u nodi yn Nhabl 16. Fe welwch isod esboniad manwl arall o'r amcangyfrif o'r costau o £664m.

8.21. Mae ffigurau costau Deddf yr Amgylchedd 2021 sy'n sail i'r amcangyfrifon dangosol a gyflwynir uchod yn deillio o gyfuniad o feysydd polisi sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau targed a gwireddu'r manteision cysylltiedig. Ar gyfer adfer rhywogaethau a chynefinoedd, amcangyfrifwyd costau gan ddefnyddio dull o'r gwaelod i fyny yn seiliedig ar y gwaith adfer sydd ei angen.

8.22. Mae'r amcangyfrifon hyn yn tynnu ar waith blaenorol a wnaed gan ICF Consulting and Eftect ar ran Defra4. Ar gyfer gwelliannau mewn ansawdd dŵr yn cyfrannu at fanteision hamdden ac iechyd corfforol, amcangyfrifwyd costau drwy fodelu llwybrau polisi ac allosod costau trin dŵr cyfredol. Defnyddiwyd methodoleg debyg – yn cyfuno modelu llwybrau polisi gydag allosod costau – ar gyfer canlyniadau creu coetiroedd a gwella ansawdd aer.

**Tabl [16]: Cyfrifiadau o fanteision net yn seiliedig ar senarios isel, canolig ac uchel**

| | NPV (£m) |
|---|---|
| **Isel (pwysoliad poblogaeth)** | 369 |
| **Canolig (pwysoliad poblogaeth a thir cymysg)** | 1,053 |
| **Uchel (pwysoliad arwynebedd tir)** | 2,321 |

**Esboniad Pellach o'r Modd y Cyfrifwyd Costau a Manteision Dangosol y Targedau Bioamrywiaeth**

8.23. Mae'r amcangyfrif o gostau a manteision y targedau bioamrywiaeth yn **ddangosol** ac mae wedi'i gynnwys yn yr RIA i roi cyd-destun i'r manteision tymor hir posibl a chostau cysylltiedig eu cyflawni. Mae'r costau'n seiliedig ar amcangyfrif o'r polisïau sydd eu hangen i sicrhau'r gwelliannau amgylcheddol a ragwelir yn yr RIA ac sy'n deillio o'r asesiad a luniwyd gan Defra o effaith Deddf yr Amgylchedd 2021.

8.24. Daw amcangyfrif gwreiddiol Defra o'r costau o fodelau polisi a thrwy ecstraboleiddio costau rhaglenni amgylcheddol sy'n bod eisoes, gan gynnwys adfer cynefinoedd, gwella ansawdd dŵr, creu coetir a mesurau i wella ansawdd aer. Defnyddiwyd ymchwil comisiwn i gaboli'r amcangyfrifon hyn a'u haddasu i'r cyd-destun Gymreig trwy ddefnyddio cymarebau poblogaeth ac arwynebedd.

**Dadansoddiad**

8.25. Yn Nhabl 17, mae'r manteision a gyflwynwyd yn yr asesiad o effaith Deddf yr Amgylchedd 2021 yn ôl prisiau 2019. Rydym wedi rhannu'r manteision rhwng 'Targedau Cynefin Ehangach' a 'Gweithredu ar Safleoedd Gwarchodedig'. Cyfanswm y costau yn ôl yr IA yw £3,231m.

**Tabl 17 Manteision Deddf yr Amgylchedd 2021 yn ôl prisiau *2019***

| | Targedau Cynefin Ehangach (£m) | Gweithredu ar Safleoedd Gwarchodedig (£m) |
|---|---|---|
| **Dal a Storio Carbon** | 2,899 | 2,404 |
| **Ansawdd Aer** | | 740 |
| **Hamddena** | 3,778 | 3,131 |
| **Iechyd Corfforol** | 1,171 | 1,000 |

Ffynhonnell y data sylfaen: https://consult.defra.gov.uk/natural-environment-policy/consultation-on-environmental-targets/supporting_documents/Biodiversity%20terrestrial%20targets%20%20Impact%20Assessment.pdf

8.26. Mae Tabl 18 yn dangos costau a manteision IA Deddf yr Amgylchedd 2021 yn ôl prisiau 2024-25 i ddangos effaith chwyddiant rhwng y ddau gyfnod ac i fod yn gyson â blwyddyn sail y prisiau yn yr asesiad. Cost y gweithredoedd yn Neddf yr Amgylchedd 2021 yn ôl prisiau 2024-25 yw £4,175m (gweler Tabl 21),

***Table 18* Manteision Deddf yr Amgylchedd 2021 yn ôl prisiau *2024***

| | Targedau Cynefin Ehangach (£m) | Gweithredu ar Safleoedd Gwarchodedig (£m) |
|---|---|---|
| **Dal a Storio Carbon** | 3,599 | 2,984 |
| **Ansawdd yr Aer** | 0 | 919 |
| **Hamddena** | 4,690 | 3,887 |
| **Iechyd Corfforol** | 1,454 | 1,241 |
| **Cyfanswm** | **9,743** | **9,032** |

Defnyddiwyd cyfrifydd chwyddiant Banc Lloegr i droi'r prisiau yn brisiau Rhagfyr 2024: https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy/inflation/inflation-calculator?number.Sections%5B0%5D.Fields%5B0%5D.Value=740&current_year=107.819&comparison_year=135.552

**Graddfa Cymru**

8.27. Mae amcangyfrifon Defra wedi'u haddasu yn ôl maint Cymru gan ddefnyddio pwysoliadau sy'n seiliedig ar ei chyfran o'r boblogaeth ac arwynebedd y tir amaethyddol[124]. Seiliwyd pwysoliad y boblogaeth ar amcangyfrifon canol blwyddyn 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sef bod gan Gymru boblogaeth o ryw 3.1m a bod gan Loegr boblogaeth fras o 56.0m, gan roi cymhareb o 0.055. Cymhareb arwynebedd y tir yw 0.159, yn seiliedig ar yr amcangyfrif bod gan Gymru 2,064,000 o hectarau o dir a bod gan Loegr ryw 12,972,000 o hectarau.

8.28. Mae'r cymarebau hyn wedi'u defnyddio gyda'r manteision yn Nhabl 18 i ddangos ystod o fanteision posibl yng Nghymru. Dangosir yr ystodau hyn yn Nhabl 20. Mae'r gwerthoedd isel yn seiliedig ar gymhareb y boblogaeth (0.55) ac mae'r gwerthoedd uwch yn seiliedig ar gymhareb arwynebedd y tir (0.159). Mae'r gwerthoedd canolig yn Nhabl 19 yn seiliedig ar y cymarebau poblogaeth ac arwynebedd tir gyda'i gilydd.

[124] https://www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2024-01/ria-environmental-principles-governance-and-biodiversity-targets-white-paper.pdf

8.29. Defnyddiwyd y pwysoliadau canlynol:

**Tabl 19 Y gymhareb a ddefnyddiwyd i gyfrif yr amcangyfrif canolig o fanteision i Gymru**

| Mantais | Y gymhareb a ddefnyddiwyd |
|---|---|
| **Dal a storio carbon** | 0.159 |
| **Ansawdd yr Aer** | 0.055 |
| **Hamddena** | 0.055 |
| **Iechyd corfforol** | 0.055 |

***Tabl 20 Y cyfrifiadau (2022-2100)***

| | Targedau Cynefin Ehangach (£m) | Gweithredu ar Safleoedd Gwarchodedig (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|
| **Isel** | 536 | 497 | 1,033 |
| **Canolig** | 910 | 807 | 1,717 |
| **Uchel** | 1,549 | 1,436 | 2,985 |

8.30. Defnyddiwyd dull tebyg i gyfrifo amcangyfrif dangosol o'r costau i Gymru. Fodd bynnag, dim ond y gymhareb uchaf – arwynebedd tir (0.159) – sydd wedi'i defnyddio i amcangyfri'r costau. Amcangyfrif dangosol y costau i Gymru felly, o wneud hynny, yw £664m dros y cyfnod.

**Tabl 21 Costau**

| | (£m) |
|---|---|
| **Costau IA Defra (2022-2100)** | 3,231 |
| **Yn ôl prisiau 2024-25** | 4,175 |
| **Amcangyfrif Cymru** | 664 |

8.31. Cafodd yr asesiad o effaith Deddf yr Amgylchedd 2021 ei ddefnyddio fel man cychwyn ar gyfer y cyfrifiadau hyn oherwydd, o'r dystiolaeth a oedd ar gael adeg drafftio'r RIA, dyma'r data oedd yn cynrychioli'n Bil orau.

8.32. Mae'r Cyd-Bwyllgor Cadwraeth Natur wedi'i gomisiynu nawr i gynnal gwaith modelu targedau sy'n benodol i Gymru. Bydd angen 12 mis i gwblhau'r gwaith. Bydd y prosiect yn edrych ar ddefnyddioldeb y targedau

gwahanol i sicrhau eu bod yn realistig ac yn effeithiol ac mae'r prosiect wedi'i lunio i roi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnom i allu gwneud penderfyniadau ynghylch targedau sy'n addas i Gymru. Bydd y dadansoddiad yn bwydo ac yn cefnogi'r dystiolaeth ar gyfer yr asesiad effaith rheoleiddiol fydd yn dilyn a'r dadansoddiad o'r costau a'r manteision fydd yn cefnogi rheoliadau'r targedau.

## Tablau Ategol – Dadansoddiad Cost a Budd

8.33. Egwyddorion – Opsiwn 1: Busnes fel arfer

| Egwyddorion | | | Blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 |
| Datblygu'r ddeddfwriaeth | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfansymiau** | | | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm costau (real, heb eu disgowntio) | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm costau (real, heb eu disgowntio)** | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |

8.34. Egwyddorion – Opsiwn 2: Egwyddorion yn unig

| **Egwyddorion** | | | Blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 |
| Datblygu'r ddeddfwriaeth | | | | | | | | | | | | |
| Amser gweision sifil | Cylchol | 583,900 | 291,900 | 291,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Newid o'r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | | |
| Datblygu'r ddeddfwriaeth | | 583,900 | 291,900 | 291,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth | | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm cost ychwanegol (heb ei disgowntio) | | 583,900 | 291,900 | 291,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm cost ychwanegol (heb ei disgowntio)** | | 574,000 | 291,900 | 282,100 | - | - | - | - | - | - | - | - |

8.35. Egwyddorion – Opsiwn 3: Dyletswydd ar Weinidogion Cymru

| **Egwyddorion** | | | Blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 |
| *Datblygu'r ddeddfwriaeth* | | | | | | | | | | | | |
| Amser gweision sifil | Cylchol | 583,900 | 291,900 | 291,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Datblygu adnoddau addysgol | Untro | 3,900 | - | 3,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfieithu adnoddau | Untro | 5,800 | - | 5,800 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| *Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth* | | | | | | | | | | | | |
| Amser Gweinidogion | Cylchol | 914,700 | - | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 |
| **Newid o'r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | | |
| Datblygu'r ddeddfwriaeth | | 593,600 | 291,900 | 301,600 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth | | 914,700 | - | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 |
| Cyfanswm cost ychwanegol (heb ei disgowntio) | | 1,508,200 | 291,900 | 403,200 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm cost ychwanegol (wedi ei disgowntio)** | 1,356,500 | 291,900 | 389,600 | 94,900 | 91,700 | 88,600 | 85,600 | 82,700 | 79,900 | 77,200 | 74,600 |

8.36. Egwyddorion – Opsiwn 4: Dyletswydd ar Awdurdodau Cyhoeddus Cymru

| **Egwyddorion** | | | **Blwyddyn** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 |
| *Datblygu'r ddeddfwriaeth* | | | | | | | | | | | | |
| Amser gweision sifil | Cylchol | 583,900 | 291,900 | 291,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Datblygu adnoddau addysgol | Untro | 3,900 | - | 3,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfieithu adnoddau | Untro | 5,800 | - | 5,800 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| *Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth* | | | | | | | | | | | | |
| Amser Gweinidogion | Cylchol | 914,700 | - | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 | 101,600 |
| Amser awdurdodau cyhoeddus | Cylchol | 7,660,500 | - | 851,200 | 851,200 | 851,200 | 851,200 | 851,200 | 851,200 | 851,200 | 851,200 | 851,200 |
| **Newid o'r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | | |
| Datblygu'r ddeddfwriaeth | | 593,600 | 291,900 | 301,600 | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth | 8,575,100 | - | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 |
| Cyfanswm cost ychwanegol (heb ei disgowntio) | 9,168,700 | 291,900 | 1,254,400 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 | 952,800 |
| **Cyfanswm cost ychwanegol (wedi ei disgowntio)** | 7,831,900 | 291,900 | 1,212,000 | 889,400 | 859,400 | 830,300 | 802,200 | 775,100 | 748,900 | 723,600 | 699,100 |

8.37. SLIAC – Opsiwn 1: Busnes fel arfer

| **Corff llywodraethiant: costau** | | | Blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | **2025** | **2026** | **2027** | **2028** | **2029** | **2030** | **2031** | **2032** | **2033** | **2034** |
| *Costau uniongyrchol corff llywodraethiant* | | | | | | | | | | | | |
| Costau rhedeg | Cylchol | 6,750,000 | 675,000 | 675,000 | 675,000 | 675,000 | 675,000 | 675,000 | 675,000 | 675,000 | 675,000 | 675,000 |
| *Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill* | | | | | | | | | | | | |
| Nifer yr achosion a ddaeth i law ac yr aed ar eu trywydd (BAU) | Cylchol | 250,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 |
| Nifer yr achosion a ddaeth i law ac na aed ar eu trywydd (BAU) | Cylchol | 4,400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **Cyfanswm costau (heb eu disgowntio)** | | **7,004,400** | **700,400** | **700,400** | **700,400** | **700,400** | **700,400** | **700,400** | **700,400** | **700,400** | **700,400** | **700,400** |
| **Cyfanswm costau (wedi eu disgowntio)** | | **6,029,200** | **700,400** | **676,800** | **653,900** | **631,800** | **610,400** | **589,800** | **569,800** | **550,500** | **531,900** | **513,900** |

8.38. SLIAC – Opsiwn 2: Llywodraethiant Integredig

| SLIAC | | | Blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 |
| *Costau uniongyrchol corff llywodraethiant* | | | | | | | | | | | | |
| Costau IEPAW | Cylchol | 1,350,000 | 675,000 | 675,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau rhedeg | Cylchol | 20,170,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 2,017,000 |
| *Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill* | | | | | | | | | | | | |
| Achosion IEPAW a ddaeth i law ac yr aed ar eu trywydd | Cylchol | 50,000 | 25,000 | 25,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Achosion IEPAW a ddaeth i law ac na aed ar eu trywydd | Cylchol | 900 | 400 | 400 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Nifer yr achosion a ddaeth i law ac yr aed ar eu trywydd | Cylchol | 250,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 |
| Nifer yr achosion a ddaeth i law ac na aed ar eu trywydd | Cylchol | 4,400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |

| **Newid o’r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau uniongyrchol corff llywodraethiant | 14,770,000 | 2,017,000 | 2,017,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 |
| Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill | 50,900 | 25,400 | 25,400 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm cost ychwanegol (heb ei disgowntio) | 14,820,900 | 2,042,400 | 2,042,400 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 | 1,342,000 |
| **Cyfanswm cost ychwanegol (wedi ei disgowntio)** | 12,928,700 | 2,042,400 | 1,973,400 | 1,252,800 | 1,210,400 | 1,169,500 | 1,129,900 | 1,091,700 | 1,054,800 | 1,019,100 | 984,700 |

8.39. SLIAC – Opsiwn 4: Swyddogaethau OEP estynedig

| **Corff llywodraethiant: costau** | | | Blwyddyn | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 |
| *Costau uniongyrchol corff llywodraethiant* | | | | | | | | | | | | |
| Costau IEPAW | Cylchol | 1,350,000 | 675,000 | 675,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau rhedeg | Cylchol | 18,000,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,800,000 |
| *Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill* | | | | | | | | | | | | |
| Achosion IEPAW a ddaeth i law ac yr aed ar eu trywydd | Cylchol | 50,000 | 25,000 | 25,000 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Achosion IEPAW a ddaeth i law ac na aed ar eu trywydd | Cylchol | 900 | 400 | 400 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Nifer yr achosion a ddaeth i law ac yr aed ar eu trywydd | Cylchol | 250,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 | 25,000 |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr achosion a ddaeth i law ac na aed ar eu trywydd | Cylchol | 4,400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **Newid o’r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | | |
| Costau uniongyrchol corff llywodraethiant | | 12,600,000 | 1,800,000 | 1,800,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 |
| Costau anuniongyrchol cyrff cyhoeddus eraill | | 50,900 | 25,400 | 25,400 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm cost ychwanegol (heb ei disgowntio) | | 12,650,900 | 1,825,400 | 1,825,400 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 | 1,125,000 |
| **Cyfanswm cost ychwanegol (wedi ei disgowntio)** | | 11,060,800 | 1,825,400 | 1,763,700 | 1,050,200 | 1,014,700 | 980,400 | 947,200 | 915,200 | 884,200 | 854,300 | 825,400 |

8.40. Targedau bioamrywiaeth – Opsiwn 1: Busnes fel arfer

| **Targedau bioamrywiaeth** | | | **Blwyddyn** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 |
| *Gweithredu a monitro* | | | | | | | | | | | | |
| Dyletswyddau A6 | Cylchol | 957,400 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 |
| **Cyfanswm costau (heb eu disgowntio)** | | 957,400 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 | 95,700 |
| **Cyfanswm costau (wedi eu disgowntio)** | | 824,100 | 95,700 | 92,500 | 89,400 | 86,400 | 83,400 | 80,600 | 77,900 | 75,300 | 72,700 | 70,200 |

8.41. Targedau bioamrywiaeth – Opsiwn 2: Fframwaith anstatudol

| **Targedau bioamrywiaeth** | | | **Blwyddyn** | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | **Math** | **Cyfanswm** | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 |
| *Datblygu polisi / targedau* | | | | | | | | | | | | |
| Datblygu a chynnal dangosyddion | Cylchol | 3,038,600 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 |
| Costau untro | Untro | 370,000 | 370,000 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| *Gweithredu a monitro* | | | | | | | | | | | | |
| Dyletswyddau a mecanweithiau gwerthuso A6 | Cylchol | 3,058,400 | 95,700 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 | 329,200 |
| **Newid o’r llinell sylfaen** | | | | | | | | | | | | |
| Datblygu polisi / targedau | | 3,408,600 | 673,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 |
| Gweithredu a monitro | | 2,101,000 | - | 233,400 | 233,400 | 233,400 | 233,400 | 233,400 | 233,400 | 233,400 | 233,400 | 233,400 |
| Cyfanswm cost ychwanegol (heb ei disgowntio) | | 5,509,600 | 673,900 | 537,300 | 537,300 | 537,300 | 537,300 | 537,300 | 537,300 | 537,300 | 537,300 | 537,300 |
| **Cyfanswm cost ychwanegol (wedi ei disgowntio)** | | 4,761,500 | 673,900 | 519,100 | 501,600 | 484,600 | 468,200 | 452,400 | 437,100 | 422,300 | 408,000 | 394,200 |

# Pennod 9 – Asesiad Effaith Integredig

9.1 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Integredig, sy'n cwmpasu holl ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Mae'r Asesiad llawn wedi'i gyhoeddi ac mae crynodeb o'r effeithiau posibl wedi'u cynnwys isod ar gyfer y pynciau a ganlyn (nodir lleoliad y pynciau hyn yn yr Asesiad llawn o fewn y bachau):

a) Llesiant Cymdeithasol
b) Llesiant Diwylliannol
c) Llesiant Economaidd
d) Effaith ar y System Gyfiawnder
e) Llesiant Amgylcheddol
f) Hawliau Plant (Atodiad A)
g) Cydraddoldeb (Atodiad B)
h) Prawfesur Gwledig (Atodiad C)
i) Diogelu Data (Atodiad D)
j) Y Gymraeg (Atodiad E)
k) Bioamrywiaeth (Atodiad F)
l) Dyletswydd economaidd-gymdeithasol (Atodiad G)

**a) Llesiant Cymdeithasol**

9.2 Gyda'i gilydd, dylai'r cynigion o fewn y Bil gael effaith gadarnhaol ar bobl a chymunedau drwy ddiogelu ein hadnoddau naturiol a chynhyrchu canlyniadau iechyd cadarnhaol i bobl Cymru. Bydd cymryd camau ataliol i leihau effeithiau difrod amgylcheddol, yn ogystal ag adfer bioamrywiaeth, yn dod â budd i iechyd cyhoeddus, yr amgylchedd naturiol a chymdeithas ehangach.

9.3 Yn benodol, bydd y Bil hwn yn gwella llesiant cymdeithasol drwy fynd i'r afael â'r cylchoedd negyddol o gwmpas difrod amgylcheddol a cholli bioamrywiaeth drwy:

a. ymwreiddio egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi, gan sicrhau bod diogelwch amgylcheddol wrth wraidd penderfyniadau Gweinidogion Cymru.
b. sefydlu'r Corff a fydd yn ystyried sut y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithredu, yn ogystal â chymryd y camau angenrheidiol yn erbyn y rheini nad ydynt yn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfraith amgylcheddol, y mae nifer ohonynt wedi'u dylunio i wella a gwarchod yr amgylchedd naturiol.
c. cyflwyno targedau bioamrywiaeth sydd wedi'u hanelu'n uniongyrchol at ddiogelu ac adfer natur.

**b) Llesiant Diwylliannol**

9.4 Mae amgylchedd naturiol Cymru wedi dylanwadu'n sylweddol ar yr iaith. Mae'r tirweddau garw, sy'n cynnwys mynyddoedd, dyffrynnoedd, ac arfordiroedd, wedi ynysu cymunedau'n hanesyddol, gan ganiatáu i'r Gymraeg ddatblygu tafodieithoedd unigryw a chynnal ei hynodrwydd[125]. Yn ogystal, mae prydferthwch naturiol Cymru wedi ysbrydoli traddodiad cyfoethog o farddoniaeth a llenyddiaeth Cymraeg, sy'n ymwreiddio'r iaith o fewn hunaniaeth ddiwylliannol y rhanbarth ymhellach. Mae'r ymdrechion i warchod y Gymraeg wedi'u cysylltu'n agos â pholisïau amgylcheddol, oherwydd ystyrir bod rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn hanfodol er mwyn cynnal a chadw hunaniaeth a llesiant diwylliannol cymunedau ledled Cymru gan gynnwys cymunedau sy'n siarad Cymraeg.

9.5 Prif ffocws y Bil yw diogelu'r amgylchedd naturiol hwn ac adfer bioamrywiaeth:

i. Drwy sicrhau bod Egwyddorion Amgylcheddol yn cael eu hystyried yn ystod y broses o ddatblygu polisi, bydd yr amgylchedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau

[125] The history of the Welsh language | Visit Wales

a pholisiau, gan ddarparu diogelwch i boblogaethau'r dyfodol.

ii. Prif ddiben Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yw cynyddu effeithiolrwydd y gyfraith amgylcheddol ar awdurdodau lleol yng Nghymru drwy sicrhau bod ei buddion arfaethedig yn cael eu gwireddu'n llawn. Bydd gwireddu'r buddion hyn yn darparu mwy o ddiogelwch i amgylchedd Cymru.

iii. Drwy lunio targedau uchelgeisiol ar gyfer bioamrywiaeth, bydd y darpariaethau'n cynyddu camau adfer amgylcheddol ledled Cymru.

9.6 Bydd diogelu amgylchedd Cymru yn helpu i sicrhau bod elfennau allweddol o hunaniaeth Cymru'n cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac y bydd yr hunaniaeth ddiwylliannol sy'n gysylltiedig â thirwedd naturiol Cymru yn cael cyfle i ffynnu.

**c) Llesiant Economaidd**

9.7 Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru tuag at ddatblygu cynaliadwy yn ceisio cydbwyso'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol â'r cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd.

9.8 Bydd cryfhau trefniadau llywodraethiant ac adfer bioamrywiaeth yn cefnogi nifer o bolisïau sydd â'r nod o greu economi werdd sy'n amgylcheddol gynaliadwy a llewyrchus. Mae hyn yn cynnwys hybu fforestydd ac amaeth cynaliadwy, datblygu mentrau economi gylchol sydd â'r nod o leihau gwastraff a'r defnydd o adnoddau, yn ogystal â swyddi a busnesau newydd yn yr economi werdd. Gall diogelu ac adfer ecosystemau ddarparu bywoliaethau cynaliadwy i gymunedau sy'n dibynnu ar adnoddau naturiol, o ran eu hincwm a diogeledd bwyd.

9.9 Gall ecosystemau iach helpu i warchod cymunedau rhag effeithiau argyfyngau naturiol, fel llifogydd, stormydd a sychder.

### d) Effaith ar y System Gyfiawnder

9.10 Bydd swyddogaethau Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cynnwys monitro cydymffurfiaeth awdurdodau Cymru â chyfraith amgylcheddol, gan gynnwys monitro Gweinidogion Cymru, ymchwilio i sylwadau cyhoeddus am achosion o awdurdodau cyhoeddus yn torri cyfraith amgylcheddol, a chymryd camau gorfodi lle bo angen. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ceisio rhoi'r pwerau i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru wneud atgyfeiriadau i'r Uchel Lys lle bo awdurdod cyhoeddus Cymreig, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, wedi methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.

9.11 Bydd copi o'r ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar gael pan gyflwynir y Bil.

### e) Llesiant Amgylcheddol

9.12 Dyluniwyd y Bil i gael effaith gadarnhaol ar lesiant amgylcheddol mewn sawl ffordd.

9.13 Nod y Bil yw cryfhau a gwella cyfraith amgylcheddol a gosod ystyriaethau amgylcheddol wrth wraidd y penderfyniadau a wneir yn y dyfodol. Bydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn sicrhau cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol ac yn ceisio ffyrdd i gryfhau neu wella cyfraith amgylcheddol.

9.14 Bydd y Bil yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru osod targedau bioamrywiaeth. Bydd hyn yn cynnwys pŵer cyffredinol i osod targedau mewn perthynas ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, sy'n cynnwys mynd i'r afael â phwysau ac ysgogwyr colli bioamrywiaeth yng Nghymru ac, wrth wneud hynny, bydd yn cyfrannu tuag at atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys dyletswydd i Weinidogion Cymru gyflawni'r targedau.

9.15 Yn ei gyfanrwydd, mae'r Bil yn arddangos ymrwymiad Gweinidogion Cymru tuag at fioamrywiaeth amgylcheddol a byd-eang, gan gadarnhau statws Cymru yn y gymuned ryngwladol fel gwlad sydd wedi ymrwymo i gynaliadwyedd a gweithredu amgylcheddol. Mae'r mesurau hyn yn ceisio sicrhau dyfodol cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol.

**f) Hawliau Plant**

9.16 Mae'r cynigion yn y Bil yn rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Bydd methu â gwneud hynny yn effeithio'n sylweddol ar blant a chenedlaethau'r dyfodol.

9.17 Mae plant yn agored i niwed mewn ffordd unigryw o ran effeithiau niwed amgylcheddol a newid hinsawdd. Wrth i'w cyrff a'u hymennydd ddatblygu, gallant fod yn fwy agored i effeithiau niweidiol llygredd a digwyddiadau tywydd eithafol. Yn ogystal, mae plant yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored nag oedolion, sy'n cynyddu eu cysylltiad â pheryglon amgylcheddol. [126] Mae'r risgiau penodol yn cynnwys:

9.18 Mae plant yn fwy tebygol o ddatblygu salwch anadlol, fel asthma a niwmonia, o lygredd aer.[127]

9.19 Gall newid hinsawdd amharu ar y gallu i gynhyrchu a dosbarthu bwyd, sy'n arwain at ddiffyg diogeledd bwyd a diffyg maeth. Mae'n bosibl na fydd

[126] EPA – 'Climate Change and the Health of Children'
[127] 'Air quality and respiratory health in children' - PMC (nih.gov)

plant yn cael y maetholion sydd eu hangen arnynt i dyfu a datblygu'n iawn, a allai beri canlyniadau gydol oes i'w hiechyd a'u llesiant.[128]

9.20 Gall digwyddiadau tywydd eithafol ddifrodi ysgolion a tharfu ar addysg. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i blant fethu'r ysgol er mwyn helpu eu teuluoedd neu i ganfod lloches ddiogel. Gall hyn arwain at fethu cyfleoedd dysgu ac amharu ar eu cynnydd addysgol.

9.21 Mae plant yn fwy tebygol o gael eu heffeithio gan y pwysau seicolegol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd. Mae'n bosibl y byddant yn profi ofn, gorbryder, ac anobaith am y dyfodol.[129] Gallai'r problemau emosiynol hyn amharu ar eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol.

9.22 Drwy sicrhau bod yr Egwyddorion Amgylcheddol yn cael eu hystyried yn ystod datblygiad polisi, bydd yr amgylchedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Bydd integreiddio'r pedair egwyddor amgylcheddol a diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi yn cael effaith arbennig o gadarnhaol ar blant drwy gefnogi a chryfhau polisi amgylcheddol lle bo effaith anghymesur ar iechyd plant – yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd aer a dŵr.

9.23 Rôl Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru fydd sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â goruchwylio gweithrediad ehangach ac effeithiolrwydd y gyfraith.

9.24 Yn yr un modd, mae gan blant a phobl ifanc ddiddordeb hefyd mewn deall yr ymrwymiad i adfer bioamrywiaeth yng ngoleuni'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae gosod targedau bioamrywiaeth yn darparu marcwyr o fwriad nid yn unig i ddangos cryfder y gefnogaeth i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, ond ymrwymiad cyhoeddus – a gofyniad cyfreithiol – i weithredu.

---

[128] 'Maternal and Child Nutrition' (thelancet.com)

[129] 'Climate anxiety in children and young people and their beliefs about government responses to climate change: a global survey' - The Lancet Planetary Health

### g) Cydraddoldeb

9.25 Mae'r Bil yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddinasyddion ledled Cymru, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Bydd hefyd yn cefnogi datblygiad pellach Llywodraeth Cymru yn anuniongyrchol i sicrhau 'pontio teg' oddi wrth economi'r gorffennol a'i thanwydd ffosil i ddyfodol carbon isel newydd, lle rydym yn symud i Gymru lanach, gryfach, decach heb adael neb ar ôl.

9.26 Ni fydd y risgiau iechyd a achosir gan newid hinsawdd yn digwydd yn gyfartal ledled y DU, o ran lleoliad a chenhedlaeth. Gallai rhai bygythiadau, fel clefydau newydd a gludir gan fectorau, sychder, a thanau gwyllt, daro rhanbarthau deheuol yn gyntaf. Bydd eraill, fel cynnydd yn lefel y môr a llifogydd, yn bennaf yn taro trefi arfordirol, ardaloedd isel a gorlifdiroedd. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn gwaethygu ymhellach y bregusrwydd cenedlaethol i faterion iechyd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y degawdau i ddod. Bydd y risgiau hyn yn gwaethygu gwahaniaethau ac anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes. Pobl sydd â rheolaeth gyfyngedig dros eu hamgylchedd, eu gallu i addasu neu allu i ymateb i fygythiadau newydd fydd yn wynebu'r perygl mwyaf, gan gynnwys plant, pobl hŷn, pobl ag anableddau, y rhai sy'n profi digartrefedd, ac unigolion sy'n byw mewn lleoliadau penodol fel carchardai, ysgolion, llety'r lluoedd arfog a chyfleusterau gofal cymdeithasol.[130]

9.27 Nid yw beichiau ac effaith yr argyfyngau hinsawdd a natur wedi'u dosbarthu'n gyfartal. Mae cynigion y Bil yn llunio rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur. O'r herwydd, bydd buddion y cynigion yn arbennig o ddwys mewn

[130] 'Health Effects of Climate Change in the UK: state of the evidence 2023' (publishing.service.gov.uk)

perthynas ag iechyd unigolion, y buddion i bobl sy’n byw yng Nghymru, yn ogystal â chydlyniant cymunedol a chymdeithasol.

### h) Prawfesur Gwledig

9.28 Gyda’i gilydd, bydd y cynigion yn ysgogi camau i fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a natur drwy yrru gwelliannau amgylcheddol o uchelgais polisi a’i ddyluniad i ddarparu goruchwyliaeth ar draws yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol.

9.29 Drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru roi sylw arbennig i’r egwyddorion wrth lunio polisi, bydd hyn yn sicrhau y bydd agweddau allweddol ar ddiogelu’r amgylchedd yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o lunio polisïau. Bydd yn sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu datblygu mewn ffordd sy’n ceisio osgoi niwed amgylcheddol, fel nad ydynt yn cyfrannu’n andwyol at yr argyfyngau hinsawdd a natur. Nid oes gwahaniaethau disgwyliedig o ran effeithiau a manteision i’r rhai mewn cymunedau gwledig o’u cymharu â chymunedau eraill ar draws Cymru.

9.30 Prif bwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yw cynyddu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru trwy sicrhau bod ei buddion arfaethedig yn cael eu gwireddu’n llawn. Yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei gweithredu’n briodol, bydd hefyd yn nodi problemau gyda gweithrediad cyfraith amgylcheddol ac yn cynghori Gweinidogion Cymru ar sut i’w cywiro, atal torri’r gyfraith trwy gael presenoldeb goruchwylio gweladwy fel bod awdurdodau cyhoeddus yn gwybod y byddant yn cael eu dal i gyfrif. Nid oes gwahaniaethau disgwyliedig o ran effeithiau a manteision i’r rhai mewn cymunedau gwledig o’u cymharu â chymunedau eraill ar draws Cymru.

9.31 Mae bioamrywiaeth yn sail i weithrediad ecosystemau ac mae cael lefelau iach o fioamrywiaeth yn sicrhau bod ein hecosystemau’n darparu’r

gwasanaethau[131] (e.e., rheoleiddio'r cylch dŵr neu iechyd y pridd) y mae ein sector amaeth yn dibynnu arnynt. Y nod yn y pen draw o fewn adran Targedau Bioamrywiaeth y Bil yw cynyddu bioamrywiaeth ledled Cymru. Mae'n debygol y bydd pobl wledig yn cael budd cadarnhaol o amgylchedd iachach ac ecosystem sy'n gweithredu'n well. Bydd y cynnydd hwn mewn bioamrywiaeth yn hwyluso tirwedd gyfoethocach, gan wella'r cysylltiadau â buddion llesiant, e.e., lefelau is o straen ac iechyd meddwl gwell[132]. Bydd hefyd yn arwain at wasanaethau ecosystem gwell y mae nifer o'r diwydiannau amaeth yn dibynnu arnynt[133]. Ar ben hynny, gallai hyn ddarparu'r cyfle i fusnesau amaeth sy'n awyddus i archwilio opsiynau arallgyfeirio[134]. Gall rheoli ac adfer cynefinoedd allweddol yn effeithiol gyflawni buddion niferus fel dal a storio carbon, sy'n hanfodol o ran sicrhau cyflenwad dŵr y genedl, gan gynyddu gwytnwch cymunedau a seilwaith yn wyneb digwyddiadau tywydd difrifol, yn ogystal â'r cyfle i wella cyfraniad i'r economi drwy eco-dwristiaeth, gweithgareddau hamdden awyr agored a chyrchfannau diwylliannol.

### i) Diogelu Data

9.32 Cynhaliwyd asesiad Diogelu Data sy'n adlewyrchu darpariaethau'r Bil. Nid yw'r cynigion yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data a nodwyd yn Erthygl 35(1), 35(3) a 35(4) o GDPR y DU. Fodd bynnag, bydd yr asesiad yn cael ei ailystyried wrth sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru. Cyfrifoldeb y corff hwn yw sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau'n cydymffurfio â gofynion GDPR y DU.

### j) Y Gymraeg

9.33 Ni fydd y cynigion a geir yn y Bil sy'n ymwneud â chyflwyno egwyddorion amgylcheddol i gyfraith Cymru yn cefnogi nac yn tynnu oddi

[131] 'Biodiversity and ecosystem services: a multilayered relationship'
[132] 'Nature and mental health: An ecosystem service perspective' | Science Advances
[133] Cyfoeth Naturiol Cymru / SoNaRR2020: Asesu bioamrywiaeth
[134] Cyd-ddylunio Cynllun Ffermio Cynaliadwy Adroddiad Terfynol

wrth Thema 2 Cymraeg 2050. Mae'r dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried yr egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi yn eistedd ochr yn ochr â'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau ehangach, gan gynnwys y rheini tuag at y Gymraeg.

9.34 Mewn perthynas â sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, bydd y ddeddfwriaeth yn cael effaith gadarnhaol drwy ddarparu gohebiaeth ddwyieithiog a bydd yn cynnwys o leiaf un aelod sy'n gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg ar y bwrdd. Yn fwy eang, mae gweithrediad diogelwch amgylcheddol wedi'i blethu'n ddwfn â threftadaeth ddiwylliannol Cymru, gan chwarae rôl hanfodol yn hanes, traddodiadau, a hunaniaeth y genedl. Mae cynigion y Bil yn ceisio cryfhau'r mesurau sy'n diogelu'r amgylchedd ac adfer bioamrywiaeth. Yn hyn o beth, bydd yn diogelu hunaniaeth naturiol Cymru a, thrwy hynny, bydd yn sicrhau bod ein hunaniaeth ddiwylliannol yn cael ei diogelu hefyd, a fydd yn dod â budd anuniongyrchol i'r Gymraeg.

9.35 Drwy greu targedau uchelgeisiol ar gyfer bioamrywiaeth, bydd y darpariaethau'n cynyddu'r camau adfer amgylcheddol ledled Cymru. Bydd gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan amgylchedd iachach yn cael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau lleol. Gall y buddion hyn gynnwys llesiant gwell, dyfroedd glanach, iechyd pridd gwell a mwy o beillwyr, a fydd yn dod â budd anuniongyrchol i'r Gymraeg drwy ansawdd bywyd gwell o fewn ein cymunedau lleol.

9.36 Rydym yn cydnabod y bydd angen ceisio ymgysylltiad pellach pan fydd polisïau o fewn y ddeddfwriaeth yn cael eu gweithredu, er enghraifft wrth sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, a gosod targedau mewn is-ddeddfwriaeth ar gyfer Bioamrywiaeth.

**k) Bioamrywiaeth**

9.37 Gan fod y Bil yn cyflwyno deddfwriaeth i ymwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, cryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno fframwaith targedau

bioamrywiaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng natur parhaus, mae bioamrywiaeth wedi'i ymgorffori trwy'r cynigion. Bydd yr egwyddorion amgylcheddol a Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn berthnasol i'r gyfraith amgylcheddol ehangach ac i bolisi amgylcheddol, ac nid i fioamrywiaeth yn unig, ond rhan allweddol o'r cynigion hyn fydd yr effaith gadarnhaol y byddant yn ei chael ar fioamrywiaeth.

9.38 Drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru roi sylw arbennig i'r egwyddorion wrth lunio polisi, bydd hyn yn sicrhau y bydd agweddau allweddol ar ddiogelu'r amgylchedd (gan gynnwys bioamrywiaeth) yn cael eu hystyried fel rhan greiddiol o lunio polisïau. Bydd yn sicrhau bod yr holl bolisïau yn cael eu datblygu mewn ffordd sy'n ceisio osgoi niwed amgylcheddol, fel nad ydynt yn cyfrannu'n andwyol at yr argyfyngau hinsawdd a natur.

9.39 Prif bwrpas Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yw cynyddu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru trwy sicrhau bod ei buddion arfaethedig yn cael eu gwireddu'n llawn. Yn ogystal â sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei gweithredu'n gywir, bydd hefyd yn nodi problemau gyda gweithrediad cyfraith amgylcheddol ac yn cynghori Gweinidogion Cymru ar sut i'w cywiro, ac atal torri'r gyfraith trwy gael presenoldeb goruchwylio gweladwy fel bod awdurdodau cyhoeddus yn gwybod y byddant yn cael eu dal i gyfrif.

9.40 Bydd gosod targedau sy'n gyfreithiol rwymol yn cael effaith sylweddol ar ymwreiddio bioamrywiaeth. Bydd y Bil yn gweithio ar y cyd â'r gwaith o ddiweddaru ein Polisi Adnoddau Naturiol a chyhoeddiad cynllun Adran 6 Gweinidogion Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym ddulliau darparu polisi i fodloni ein targedau domestig newydd ac annog integreiddiad ein polisïau i sicrhau'r buddion gorau i fioamrywiaeth.

### l) **Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**

9.41 Mae'r cynigion yn y Bil yn ceisio cefnogi dyheadau Llywodraeth Cymru ynghylch diogelu'r amgylchedd a gwrthdroi colli bioamrywiaeth. Wrth wneud hynny, byddant yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar ddinasyddion ledled Cymru, gan gynnwys y rhai a allai ddioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y cynigion hefyd yn cefnogi datblygiad pellach Llywodraeth Cymru yn anuniongyrchol i sicrhau 'pontio teg' oddi wrth economi'r gorffennol a'i thanwydd ffosil i ddyfodol carbon isel newydd, lle rydym yn symud i Gymru lanach, gryfach, decach heb adael neb ar ôl.

9.42 Mae cymunedau incwm isel yn aml yn wynebu baich anghymesur yn sgil peryglon amgylcheddol[135]. Gall hyn gynnwys dod i gysylltiad â llygredd aer a dŵr o gyfleusterau diwydiannol, byw ger safleoedd gwastraff peryglus, a diffyg mynediad at ddŵr yfed diogel a mannau gwyrdd. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at gyfraddau uwch o broblemau iechyd fel asthma, canser, a chlefyd y galon yn y cymunedau hyn.

9.43 Bydd sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn cyflawni rôl bwysig o ran lleihau'r peryglon amgylcheddol presennol ochr yn ochr ag atal baich peryglon newydd. Bydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru yn darparu goruchwyliaeth gryfach o achosion o dorri Cyfraith Amgylcheddol gan ddarparu mwy o gymhelliant i gyrff cyhoeddus lynu at a chanolbwyntio ar ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Drwy wneud hynny, dylai baich peryglon amgylcheddol leihau. Swyddogaeth allweddol Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru hefyd fydd deall lle y mae'r Gyfraith Amgylcheddol bresennol yn methu a dwyn Gweinidogion Cymru i gyfrif er mwyn sicrhau gwelliannau mewn cyfraith Ewropeaidd. Drwy wneud hynny, dylai peryglon newydd a'u baich cysylltiedig leihau.

9.44 Bydd y cynigion ar gyfer targedau bioamrywiaeth i raddau helaeth yn cael eu darparu drwy ddatblygu is-deddfwriaeth. Bydd y dystiolaeth i

[135] 'Disparities in the Impact of Air Pollution' | American Lung Association

ategu’r cynigion yn ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol a dosbarthiadol.

**Asesiad hidlo'r gystadleuaeth**

9.45 Cynhaliwyd Asesiad Hidlo'r Gystadleuaeth er mwyn pwyso a mesur yr effaith bosibl sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn y Bil. Ni ddisgwylir i'r polisi hwn gael effaith niweidiol ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau o Gymru gan nad yw'r cynigion yn y Bil yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar fusnesau nac unrhyw farchnadoedd. Isod, nodir canlyniadau prawf hidlo (a oedd yn cynnwys naw o gwestiynau syml) sy’n ategu’r casgliad hwn.

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| Cwestiwn | Atebwch yn gadarnhaol neu’n negyddol |
| C1: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran o'r farchnad? | Nac oes |
| C2: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran o'r farchnad? | Nac oes |
| C3: Yn y farchnad/marchnadoedd yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran o'r farchnad? | Nac oes |
| C4: A fyddai costau'r rheoliad yn cael llawer mwy o effaith ar rai cwmnïau nag eraill? | Na fyddai |
| C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid niferoedd neu faint cwmnïau? | Nac ydy |
| C6: A fyddai’r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar | Na fyddai |

| | |
|---|---|
| gyflenwyr, sef costau nad yw cyflenwyr presennol yn gorfod eu talu? | |
| C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sef costau nad yw cyflenwyr presennol yn gorfod eu talu? | Na fyddai |
| C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodweddiadol o'r sector? | Nac ydy |
| C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

## Pennod 10 – Asesiad Fforddiadwyedd

10.5 Er bod RIA yn asesu gwerth cymdeithasol ac felly'n cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, asesiad ariannol yn unig yw asesiad fforddiadwyedd. O'r herwydd, dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian parod sy'n cael eu cynnwys. Byddai unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd mewn RIA yn cael eu tynnu o asesiad fforddiadwyedd.

10.6 Nododd yr asesiad effaith rheoleiddiol nifer o gostau cyfle sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan aelodau presennol o staff ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil a chydymffurfio â'r gofyniad yn y Bil. Gan nad yw'r costau cyfle hyn yn cynrychioli gwariant ariannol ychwanegol i'r sefydliadau dan sylw, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad fforddiadwyedd hwn.

10.7 I'r perwyl hwn, mae ffocws yr asesiad fforddiadwyedd hwn ar y costau ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r canlynol –

10.7.1 sefydlu a rhedeg Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC) a

10.7.2 sefydlu fframwaith targedau bioamrywiaeth statudol

10.8 Gan nad yw'r manteision a ystyrir yn y dadansoddiad hwn yn rhyddhau arian parod, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad fforddiadwyedd.

10.9 Mae'r costau arian parod yn yr asesiad hwn wedi'u haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwyliedig yn ystod y cyfnod arfarnu. Mae'r addasiad hwn wedi'i seilio ar yr amcanestyniadau datchwyddiant GDP a gynhwysir yn Rhagolwg Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR), a gyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Mawrth 2026[136]. Dim ond i 2030-31 yr oedd amcanestyniadau'r OBR yn ymestyn ond roedd rhagolwg y datchwyddiant GDP wedi setlo ar raddfa darged o 2.0% tuag at ddiwedd y cyfnod rhagweld, felly mae'r ffigur hwn wedi'i ddefnyddio ar gyfer gweddill y cyfnod arfarnu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

## Llywodraeth Cymru

10.10 Disgwylir i Lywodraeth Cymru ysgwyddo costau ariannol ychwanegol sy'n gysylltiedig â chostau rhedeg parhaus i SLIAC ac ar gyfer sefydlu a monitro'r targedau bioamrywiaeth. Mae'r costau hyn wedi'u nodi yn Nhabl X isod.

**Tabl 17. Costau ariannol ychwanegol sy'n disgyn i Lywodraeth Cymru (£)**

| | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraethiant - Costau rhedeg SLIAC | - | 2,787,400 | 2,449,900 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 | 2,112,400 |
| Llywodraethiant – Costau Archwilio | 0 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 | 38,000 |
| Bioamrywiaeth - cyngor allanol | 370,000 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Bioamrywiaeth - datblygu a chynnal a chadw targedau | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 | 303,900 |

136 Rhagolygon economaidd a chyllidol – Mawrth 2025 - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bioamrywiaeth - monitro targedau | - | - | - | 1,178,600 | 1,016,500 | 1,016,500 | 1,016,500 | 1,016,500 | 1,016,500 | 1,016,500 |
| **Cyfanswm** | **673,900** | **3,129,200** | **2,791,700** | **3,632,800** | **3,470,800** | **3,470,800** | **3,470,800** | **3,470,800** | **3,470,800** | **3,470,800** |
| **Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant** | **695,700** | **3,295,500** | **2,997,100** | **3,973,100** | **3,866,400** | **3,944,500** | **4,024,200** | **4,105,500** | **4,188,400** | **4,273,000** |

10.11 Ar hyn o bryd, nid oes cyllideb wedi'i dyrannu i dalu costau rhedeg SLIAC neu dargedau bioamrywiaeth. Er mwyn sicrhau bod cyllideb ar gael a bod y costau ariannol ychwanegol yn y Bil yn fforddiadwy, bydd angen blaenoriaethu'r cyllid mewn trafodaethau cyllideb yn y dyfodol neu ddod o hyd iddo o fewn adnoddau presennol.

## Awdurdodau Cyhoeddus Eraill Cymru

10.12 Mae'r costau uniongyrchol a nodwyd yn yr RIA fel rhai sy'n disgyn i awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru (h.y. y rhai sy'n gysylltiedig ag ymateb i ymchwiliadau SLIAC a chymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol) yn cael eu hystyried yn gostau cyfle ac felly maent wedi'u heithrio o'r asesiad fforddiadwyedd hwn.

10.13 Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu set o dargedau statudol i helpu i atal a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gymryd camau i gyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth. Mae potensial y bydd awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) yn wynebu costau ariannol ychwanegol o ganlyniad i'r camau y bydd angen iddynt eu cymryd i gyflawni'r targedau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r targedau penodol a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyrraedd y targedau yn

anhysbys. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i asesu costau a manteision wrth ddatblygu'r targedau a'r is-ddeddfwriaeth gysylltiedig.

# Pennod 11 – Adolygiad ôl-weithredu

## Egwyddorion Amgylcheddol

11.1 Unwaith y byddant wedi'u gweithredu, byddwn yn monitro effaith y darpariaethau a'r egwyddorion amgylcheddol cysylltiedig a'r datganiad a'r canllawiau diogelu amgylcheddol integreiddiol drwy ymgysylltu'n barhaus â chynrychiolwyr y diwydiant drwy'r grŵp rhanddeiliaid. Bydd gwaith i asesu effeithiolrwydd yr Egwyddorion Amgylcheddol yn llunio rhan o waith y grŵp, a bydd y datganiad yn cael ei ddiweddaru gan Weinidogion Cymru i adlewyrchu'r newidiadau i'r dirwedd dechnolegol a pholisi, o bryd i'w gilydd. Bydd cyfleoedd hefyd i gynrychiolwyr y sector ddarparu tystiolaeth ar sut y mae'r egwyddorion yn gweithio'n ymarferol.

11.2 Bydd gan Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC) rôl i'w chwarae wrth asesu a yw'r egwyddorion yn gyfraith amgylcheddol effeithiol, gan ddarparu cyngor ac argymhellion i'r Llywodraeth o bryd i'w gilydd, fel y gwêl yn dda. Ymhellach, bydd y Swyddfa'n goruchwylio cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, sy'n cynnwys yr egwyddorion amgylcheddol.

## Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

11.3 Bydd Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru (SLlAC) yn dod o dan ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, a gweithrediaeth y gyfraith amgylcheddol a'r defnydd ohoni. Bydd yn gyfrifol am nodi sut y bydd yn cyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys gorfodi ac ymchwilio, drwy 'strategaeth' ar gyfer y cyhoedd. Bydd hyn yn destun ymgynghoriad ffurfiol, a bydd yn cael ei gyhoeddi, yn ogystal â'i osod gerbron y Senedd i gynorthwyo tryloywder ac atebolrwydd.

11.4 Bydd SLlAC hefyd yn destun goruchwyliaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n gyfrifol am archwilio, ardystio, ac adrodd ar y datganiad o'u

cyfrifon. Rhaid i ddatganiadau ardystiedig gael eu darparu i SLlAC a'r Senedd o fewn pedwar mis o'u cyflwyno ac, y tu hwnt i'r archwiliad ariannol, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd archwilio economi, effeithlonrwydd, ac effeithiolrwydd defnydd y corff o adnoddau.

11.5 Bydd yn ofynnol hefyd i SLlAC lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Rhaid iddo gael ei osod gerbron Senedd Cymru er mwyn gwella tryloywder ac atebolrwydd gwleidyddol. Hefyd, os yw adroddiad yn nodi bod SLlAC yn ystyried nad yw Gweinidogion Cymru wedi darparu symiau digonol iddi i gyflawni ei swyddogaethau yn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, rhaid i SLlAC gyflwyno'r adroddiad i Weinidogion Cymru iddynt ei ystyried.

## Targedau Bioamrywiaeth

11.5 Bydd Gweinidogion Cymru'n monitro gweithrediad darpariaethau'r targedau bioamrywiaeth drwy'r darpariaethau monitro, adrodd a gwerthuso a gyflwynir yn y Bil. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnwys adroddiad gwerthuso, datganiad cwblhau targed a diwygiadau i Ddeddf 2016 i gynnwys sut y bydd y targedau'n cael eu cyflawni pan fydd Gweinidogion Cymru'n adrodd bob tair blynedd o dan adran 6(7) o'r Ddeddf.

11.6 Mae'n ofynnol bod Gweinidogion Cymru'n paratoi adroddiad gwerthusiad cyntaf cyn diwedd 2031 a'r adroddiadau dilynol cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2031. Bydd yr adroddiad hwn yn nodi'r asesiad o effaith ac effeithiolrwydd y cynigion a nodir yn y cynllun a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar yn unol ag adran 6(6) a (6A) o Ddeddf 2016.

11.7 Bydd angen i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad cwblhau targed yn nodi a yw targed wedi'i gyflawni erbyn y dyddiad a nodir yn y rheoliadau. Yn yr achos lle bydd y datganiad yn datgan na chyflawnwyd targed, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad o fewn 6 mis yn dweud pam na

chyflawnwyd y targed a pha gamau y byddant yn eu cymryd i gyflawni'r targed cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

11.8 Os na fydd Gweinidogion Cymru'n gallu penderfynu a yw targed wedi'i gyflawni, ceir opsiwn hefyd i gynhyrchu datganiad pellach o fewn chwe mis i'r dyddiad y gosodwyd y datganiad cyntaf sy'n nodi a gyflawnwyd y targed, na chafodd y targed ei gyflawni neu nad ydynt eto yn gallu penderfynu.

11.9 Mae'r darpariaethau hefyd yn diwygio adran 6(7) o Ddeddf 2016 i'w gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru'n adrodd ar eu cynnydd tuag at gyflawni'r targedau. Cynhyrchir yr adroddiad hwn ar gylch tair blynedd a disgwylir yr adroddiad diwygiedig cyntaf yn 2028. Fodd bynnag, os nad yw'r rheoliadau targedau mewn grym eto erbyn y dyddiad hwn, mae'n bosibl y bydd Gweinidogion Cymru'n defnyddio eu hadroddiad adran 6 2028 yn lle hynny i nodi'r camau y maent wedi'u cymryd tuag at osod targedau, megis disgrifio canlyniadau'r ymgynghoriad ar reoliadau targedau neu gyhoeddi dangosyddion llinell sylfaen ar gyfer targedau arfaethedig.

11.10 Mae'r darpariaethau'n ceisio sicrhau gweithrediad effeithiol ac atebolrwydd ac ymgysylltiad priodol â'r Senedd, grwpiau buddiant ac eraill. Mae'r darpariaethau'n bwysig i asesu effeithiolrwydd polisïau ac i ddarparu sail dystiolaeth bwysig a datblygol ar gyfer datblygu polisi parhaus.

11.11 Unwaith y byddant wedi'u gweithredu, byddwn yn monitro effaith y darpariaethau a'r targedau bioamrywiaeth cysylltiedig drwy ymgysylltu'n barhaus â chynrychiolwyr y diwydiant ac arbenigwyr annibynnol.

## Atodiad 1: Nodiadau Esboniadol i Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

# DEDDF YR AMGYLCHEDD (EGWYDDORION, LLYWODRAETHIANT A THARGEDAU BIOAMRYWIAETH) (CYMRU) 2026

---

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 ("y Ddeddf") a basiwyd gan Senedd Cymru ar 24 Chwefror 2026 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar DD MMM 20XX. Fe'u lluniwyd gan Gyfarwyddiaeth Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.[137]

### TROSOLWG CYFFREDINOL O'R DDEDDF

2. Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill i gymhwyso egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Mae'r dyletswyddau hyn yn hanfodol i gyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd, yn enwedig o ystyried effeithiau'r argyfyngau hinsawdd a natur.

3. Mae Rhan 2 o'r Ddeddf yn sefydlu corff llywodraethiant statudol ac annibynnol, sef Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ("SLlAC"), i ddarparu goruchwyliaeth strategol o ofynion ar awdurdodau cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, i wneud cyfraith amgylcheddol effeithiol ac i weithredu /cymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol. Bydd SLlAC yn dwyn Llywodraeth Cymru, ac awdurdodau cyhoeddus eraill, i gyfrif mewn perthynas â'r amgylchedd yng Nghymru mewn ffordd sy'n debyg i'r hyn sy'n digwydd yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

---

[137] Gellir canfod unrhyw newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r Ddeddf ers iddi gael y Cydsyniad Brenhinol drwy ddefnyddio'r cyfleuster "Newidiadau i Ddeddfwriaeth" yn www.legislation.gov.uk/cy/changes.

4. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn creu fframwaith i Weinidogion Cymru osod ac adolygu targedau i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, ac i adrodd ar y targedau hynny. Mae'r Rhan hon yn creu dyletswyddau newydd ar Weinidogion Cymru gan gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod targedau a osodwyd ganddynt mewn rheoliadau yn cael eu cyrraedd, gosod rheoliadau drafft gerbron Senedd Cymru o fewn 2 flynedd i Gydsyniad Brenhinol y Ddeddf sy'n gosod targedau mewn cysylltiad â phedwar maes blaenoriaeth, a chymryd camau i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau iddi. Mae'r Rhan hon hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru yn awdurdodau sy'n ddarostyngedig i ddyletswydd newydd i gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd y targed y maent wedi eu dynodi ar ei gyfer.

5. Mae'r Ddeddf yn cynnwys 47 o adrannau a 4 Atodlen ac fe'i rhennir yn 4 Rhan fel a ganlyn:

**Rhan 1 – Amcan amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol**
**Rhan 2 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru**
**Rhan 3 – Targedau Bioamrywiaeth, etc.**
**Rhan 4 – Cyffredinol**

**Atodlen 1 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru**
**Atodlen 2 - Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru: strategaeth**
**Atodlen 3 – Cynlluniau trosglwyddo staff**
**Atodlen 4 – Diwygiadau canlyniadol**

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### RHAN 1 – Amcan amgylcheddol ac egwyddorion amgylcheddol

6. Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn nodi'r amcan amgylcheddol a'r egwyddorion amgylcheddol. Wrth wneud hynny, mae'n sefydlu fframwaith newydd ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol drwy osod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill i gymhwyso'r egwyddorion ac integreiddio diogelu'r amgylchedd. Bwriedir i'r dyletswyddau hyn fod y sylfaen sy'n rhoi lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd wrth wraidd y gwaith o lunio polisi, ac asesu amgylcheddol strategol, yng Nghymru. Maent yn hanfodol i gyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd ac i gyfrannu at ymateb effeithiol ac ymateb brys i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

### Adran 1 – Amcan amgylcheddol

7. Mae adran 1 yn diffinio "amcan amgylcheddol" at ddibenion y Rhan hon. Mae'r amcan yn llywio'r gwaith o gymhwyso a gweithredu'r dyletswyddau i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd a osodir ar Weinidogion Cymru, wrth lunio polisi, (adran 3(1)) ac ar awdurdodau cyhoeddus penodol, wrth gynnal asesiadau amgylcheddol (adran 5(1)). Ym mhob achos, rhaid arfer y dyletswyddau hynny at ddiben cyfrannu at yr amcan. Bydd y datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac

integreiddio diogelu'r amgylchedd (adrannau 6 a 7), ymhlith pethau eraill, yn egluro sut y mae'r dyletswyddau hynny'n ymwneud â'r amcan.

8. Nid yw'r amcan yn gymwys i'r dyletswyddau a osodir ar CNC. Mae hyn wedi ei egluro ymhellach isod (adran 4).

9. Mae is-adran (1) yn diffinio'r amcan amgylcheddol fel cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd. Diffinnir "amgylchedd" a "diogelu'r amgylchedd" yn adran 44. Yn ogystal, mae'r amcan amgylcheddol yn pwysleisio nifer o ganlyniadau penodol yn is-adran (1)(a) i (d) sydd i ddeillio o gyfrannu, drwy gymhwyso'r dyletswyddau perthnasol, at gyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd.

10. Mae is-adran (1)(a) yn gwneud darpariaeth i wneud yr amcan amgylcheddol yn gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf LlCD"). Mae Deddf LlCD yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i ymgyrraedd at ddatblygu cynaliadwy mewn ffordd sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyflawni'r nodau llesiant (gweler adran 2 o'r Ddeddf honno). Mae cysylltiad agos rhwng y dyletswyddau hyn a osodir gan Ddeddf LlCD a chanlyniadau polisi dymunol yr amcan amgylcheddol. I ategu hyn, gwneir darpariaeth i gydnabod y cyfraniad at nodau llesiant Deddf LlCD (pan fo hynny'n berthnasol) ac i ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, gan greu cysondeb â Deddf LlCD a chan gefnogi'r gwaith o'i gweithredu'n ehangach.

11. Mae is-adran (1)(b) yn pwysleisio gwydnwch ecosystemau a'r buddion a ddarperir ganddynt. Mae hyn yn cydnabod y "dull ecosystemau" sy'n annog gwneud penderfyniadau mewn ffordd holistig yn hytrach na mynd i'r afael â materion ar wahân, ac mae'n agwedd bwysig ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016"), Deddf LlCD a Rhan 1 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 (y "Ddeddf Amaethyddiaeth"), gan sicrhau bod deddfwriaeth yn arfer dull sy'n gyson ac yn gefnogol o'i gilydd. Mae ecosystemau cynhyrchiol a sefydlog yn hanfodol i gefnogi bioamrywiaeth ac i ddarparu buddion neu wasanaethau hanfodol megis peillio, puro dŵr, a rheoleiddio'r hinsawdd.

12. Mae is-adran (1)(c) yn pwysleisio lliniaru newid hinsawdd ac ymaddasu iddo. Enghraifft o liniaru newid hinsawdd yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithrediadau a ffynonellau wedi eu hymgorffori, yn ogystal â gwella capasiti tir (gan gynnwys tir amaethyddol er enghraifft) ar gyfer atafaelu carbon. Gall ymaddasu i newid hinsawdd olygu cymryd mesurau i leihau ei effeithiau. Ymhlith yr enghreifftiau o hynny mae addasu arferion i gynnal cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill, gweithredu strategaethau rheoli llifogydd naturiol, a defnyddio coed i ddarparu cysgod.

13. Y canlyniad yn is-adran (1)(d) yw cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, sy'n hanfodol ar gyfer lefel uchel o ddiogelu'r amgylchedd ac amgylchedd gwell. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, atal

colli cynefinoedd, diogelu rhywogaethau mewn perygl ac adfer ecosystemau sydd wedi dirywio.

14. Y bwriad yw y bydd y canlyniadau a nodir yn ategu ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd. Nid ydynt yn gynhwysfawr, a gwyddys y gall cyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i ansawdd yr amgylchedd hefyd arwain at ganlyniadau eraill a buddion eraill.

15. Mae is-adran (2) yn nodi ffactorau sy'n berthnasol i wydnwch ecosystemau at ddibenion is-adran (1)(b), i bwysleisio eu pwysigrwydd o ran cynnal a gwella gwydnwch ecosystemau ac i ategu'r dulliau polisi presennol a darpariaeth ddeddfwriaethol bresennol. Sefydlwyd y ffactorau hynny gan Ddeddf 2016 (adran 4(i)) ac fe'u cynhwyswyd hefyd fel rhan o'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy o dan y Ddeddf Amaethyddiaeth (adran 1(7)).

## Adran 2 – Egwyddorion amgylcheddol

16. Mae adran 2 yn diffinio rhai "egwyddorion amgylcheddol" penodol at ddibenion y Rhan hon. Y rhain yw:

    (a) yr egwyddor ragofalus i'r graddau y mae'n ymwneud â'r amgylchedd;

    (b) yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;

    (c) yr egwyddor y dylid cywiro difrod amgylcheddol fel mater o flaenoriaeth yn y tarddle;

    (d) yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

17. Mae'r egwyddorion hyn wedi eu llywio gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys cytundebau rhyngwladol a'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r ddealltwriaeth o'r egwyddorion hyn yn fwyfwy sefydledig ac mae'n parhau i ddatblygu mewn gwahanol gyd-destunau, gyda rhyngweithiadau cymhleth rhwng ymrwymiadau rhyngwladol, cyfraith ryngwladol, deddfwriaeth ddomestig a chyfraith achos, er enghraifft. Bydd y datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd (adrannau 6 a 7) yn darparu rhagor o fanylion ar ddehongli a chymhwyso'r egwyddorion.

## Adran 3 - Dyletswyddau Gweinidogion Cymru wrth lunio polisi

18. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, at ddiben cyfrannu at yr amcan amgylcheddol, roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath. Y bwriad yw sicrhau bod yr egwyddorion a diogelu'r amgylchedd wrth wraidd gwaith llunio polisi Gweinidogion Cymru.

19. Nid yw'r ddyletswydd yn gymwys pan fyddai'r polisi o dan sylw yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd (gweler is-adran (4)). Y bwriad yw osgoi'r ddyletswydd rhag bod yn gymwys yn yr amgylchiadau hynny pan nad yw llunio polisi yn cael effaith amgylcheddol neu pan fo'r effaith amgylcheddol mor fach fel ei bod yn ansylweddol neu'n anarwyddocaol, a fyddai'n ddiangen a gallai danseilio gweithrediad effeithiol mewn achosion eraill pan fo'r effaith amgylcheddol yn fwy sylweddol. Ystyrir y bydd y

ddyletswydd yn gymwys fel arfer am fod llunio polisi yn debygol o gael mwy nag effaith dibwys ar yr amgylchedd.

20. Mae dyletswydd i roi "sylw arbennig" i fater penodol yn ei gwneud yn ofynnol i'r penderfynwr y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddo roi "pwysigrwydd a phwysau sylweddol" i'r mater hwnnw. Mae hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw arbennig o bwysigrwydd a phwysau sylweddol i'r egwyddorion wrth lunio polisi.

21. Fel gyda dyletswydd i "rhoi sylw", mae'n dal yn wir bod angen pwyso a mesur, ond yn achos dyletswydd i roi "sylw arbennig", dylid rhoi pwysigrwydd penodol, wrth bwyso a mesur, i'r ffactorau hynny y mae'r penderfynwr i roi sylw arbennig iddynt. Yn yr achos hwn, mae hyn yn golygu bod rhaid rhoi lle blaenllaw i'r egwyddorion amgylcheddol wrth bwyso a mesur.

22. Mae hyn yn cryfhau rôl egwyddorion amgylcheddol yng ngwaith llunio polisi, gan adlewyrchu eu pwysigrwydd. Mae hefyd yn helpu i sicrhau'r hyblygrwydd a fydd yn angenrheidiol mewn gwahanol feysydd polisi. Mae'r ddyletswydd i roi "sylw arbennig" yn sicrhau bod egwyddorion amgylcheddol yn cael lle blaenllaw pan ddaw at wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i gydbwyso'r egwyddorion amgylcheddol ag ystyriaethau perthnasol eraill (e.e. iechyd y cyhoedd, costau) yn dibynnu ar y cyd-destun.

23. Er enghraifft, gall yr amgylchiadau olygu y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ystyriaethau pwysig eraill neu ffactorau gwrthbwysol, megis er enghraifft ystyriaethau iechyd y cyhoedd, costau gormodol neu effeithiau eraill, na'r egwyddorion. Mewn rhai achosion, gall fod yn briodol, o dan yr holl amgylchiadau, roi mwy o bwyslais i un neu ragor o'r egwyddorion. Mewn achosion sydd â dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd, ni fydd y ddyletswydd yn gymwys. Bwriad gweithredu yn y ffordd hon yw pwysleisio pwysigrwydd yr egwyddorion, wrth ddarparu ar gyfer gwahanol feysydd a ffactorau sydd i'w hystyried gan Weinidogion Cymru wrth lunio polisi o ran Cymru.

24. Gwneir darpariaeth i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisïau. Fel gyda'r egwyddorion eu hunain, bydd y ddyletswydd hon yn gymwys i bob maes llunio polisi Gweinidogion Cymru, o ran Cymru, oni bai bod y polisi o dan sylw yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd. Nod hyn yw sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn cael ei ystyried ym mhob maes polisi, gan fod effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd yn digwydd mewn meysydd eraill, nid dim ond o fewn y fframwaith polisi amgylcheddol.

25. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd, neu ddatganiad diwygiedig, a gyhoeddir o dan adran 7 wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (1). Bydd y datganiad yn egluro,

ymhlith pethau eraill, sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cydymffurfio â'r dyletswyddau a osodir arnynt.

26. Mae is-adran (3) yn diffinio "polisi", "llunio polisi" a "Cymru" at ddibenion yr adran hon. Diffinnir "Cymru" yn eang i gynnwys, i'r graddau y mae polisi yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, yr ardal o barth Cymru sydd y tu hwnt i derfyn atfor y môr tiriogaethol. Mae hyn yn estyn at y dibenion hyn y diffiniad o "Cymru" yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Diffinnir "parth Cymru" gan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

## Adran 4 - Dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru wrth lunio polisi

27. Mae adran 4 yn diwygio Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903 (Cy. 230)) drwy fewnosod erthygl newydd 4A yn is-adran (2).

28. Mae erthygl 4A(1) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisi o ran Cymru, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisi o'r fath. Eglurir effaith dyletswydd i roi "sylw arbennig" uchod yng nghyd-destun y ddyletswydd a osodir ar Weinidogion Cymru (adran 3). Mae'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd yn sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn rhan o waith llunio polisi ym mhob un o feysydd polisi CNC. Mae'r darpariaethau hyn yn rhoi pwyslais penodol ar yr egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd drwy sicrhau bod y materion hyn yn cael eu hystyried a'u cymhwyso fel rhan sylfaenol o waith llunio polisi CNC, o ystyried cyfrifoldebau rheoleiddiol eang CNC a'r cyfrifoldebau eang eraill sydd ganddo mewn perthynas â'r amgylchedd a'i rôl sylweddol yn y gwaith o lunio polisi amgylcheddol yng Nghymru.

29. Nid yw'r amcan amgylcheddol yn gymwys i'r dyletswyddau hyn. Mae gan CNC ei ddiben cyffredinol ei hun eisoes, sef (a) ymgyrraedd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, a (b) cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol (erthygl 4(1), Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012).

30. Gan fod gan CNC ei ddiben cyffredinol ei hun eisoes, sydd â'r nod o gyflawni rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, nid oes angen cymhwyso'r amcan amgylcheddol i CNC. Mae diben cyffredinol CNC, a'r amcan amgylcheddol a fydd yn gymwys i Weinidogion Cymru a rhai awdurdodau cyhoeddus, yn ategu ei gilydd ac yn cefnogi ei gilydd, a gyda'i gilydd byddant yn canolbwyntio ar ganlyniadau gwell. Bydd diben cyffredinol CNC yn parhau i fod yn gymwys i CNC a bydd yn ofynnol i CNC gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol, ac integreiddio diogelu'r amgylchedd, yng nghyd-destun y diben hwnnw.

31. Mae erthygl 4A(2) yn ei gwneud yn ofynnol i CNC roi sylw i ganllawiau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd (neu ddatganiad diwygiedig) a gyhoeddir o dan adran 7 wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd yn erthygl 4A(1).

32. Mae erthygl 4A(3) yn diffinio "egwyddorion amgylcheddol", "diogelu'r amgylchedd", "polisi", "llunio polisi" a "Cymru" at ddibenion erthygl 4A. Diffinnir "Cymru" yn eang i gynnwys, i'r graddau y mae polisi yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, yr ardal o barth Cymru sydd y tu hwnt i derfyn atfor y môr tiriogaethol. Mae hyn yn estyn at y dibenion hyn y diffiniad o "Cymru" yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Diffinnir "parth Cymru" gan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

**Adran 5 - Asesiadau amgylcheddol: dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus**

33. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodol, at ddiben cyfrannu at yr amcan amgylcheddol, roi sylw i'r egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth gyflawni swyddogaethau penodol.

34. Mae is-adran (2) yn darparu bod y ddyletswydd yn is-adran (1) yn gymwys i unrhyw swyddogaethau mewn cysylltiad ag asesu cynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud yn unig â Chymru neu ag unrhyw ran o Gymru o dan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (O.S. 2004/1656) (Cy. 170)). Mae Rheoliadau 2004 yn ei gwneud yn ofynnol asesu cynlluniau neu raglenni penodol, gan gynnwys er enghraifft lunio adroddiad amgylcheddol ac ymgynghoriad. Mae is-adran (2) yn darparu bod y ddyletswydd yn is-adran (1) hefyd yn gymwys i unrhyw ddarpariaeth gyfatebol sy'n disodli'r Rheoliadau hynny. Mae hyn yn golygu bod y ddyletswydd hon yn gymwys i Reoliadau 2004 fel y maent wedi eu diwygio, eu dirymu a'u disodli neu eu hailddeddfu o bryd i'w gilydd, fel bod y ddyletswydd yn gymwys ni waeth sut y gwneir darpariaeth ar gyfer asesiadau amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni sy'n ymwneud yn unig â Chymru gyfan neu ag unrhyw ran ohoni.

35. Mae dyletswydd i "rhoi sylw" yn golygu rhoi'r sylw sy'n briodol o dan yr holl amgylchiadau. Rhaid arfer y ddyletswydd mewn modd sylweddol a manwl gywir a chan gadw meddwl agored.

36. Y bwriad yw mabwysiadu dull wedi ei dargedu a chymesur sy'n ategu'r dyletswyddau llunio polisi ehangach a osodir ar Weinidogion Cymru ac CNC ac sy'n sicrhau bod unrhyw ystyriaeth a roddir i'r egwyddorion ac i ddiogelu'r amgylchedd yn canolbwyntio ar senarios ag effaith amgylcheddol a allai fod yn sylweddol, er mwyn cyfrannu at lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd wrth lunio a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni perthnasol.

37. Mae is-adran (3) yn pennu bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r canllawiau sydd wedi eu cynnwys yn y datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd neu ddatganiad diwygiedig, a gyhoeddir o dan adran 7 wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (1).

38. Mae is-adran (4) yn diffinio "awdurdod cyhoeddus" at ddibenion adrannau 5 a 6.

## Adran 6 - Datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd

39. Mae adran 6 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio "datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd". Rhaid i'r datganiad hwn gynnwys canllawiau i CNC ac awdurdodau cyhoeddus ynghylch y dyletswyddau a osodir arnynt. Bwriad cyhoeddi'r datganiad, a'r broses a ragnodir ar gyfer ei lunio (adran 7), yw hwyluso dealltwriaeth o sut y dylid dehongli a chymhwyso'r egwyddorion a'r ddyletswydd i integreiddio diogelu'r amgylchedd, yn ogystal â gwella hygyrchedd a hwyluso gwaith craffu ac ymgysylltu.

40. Mae is-adran (1) yn nodi bod rhaid i'r datganiad egluro materion penodol sy'n ymwneud â dehongli a chymhwyso'r ddyletswydd a osodir ar Weinidogion Cymru gan adran 3(1). Mae hyn yn cynnwys sut y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylid dehongli'r egwyddorion amgylcheddol, sut y maent yn cynnig cydymffurfio â'r ddyletswydd honno, sut y maent yn cynnig penderfynu, at ddiben adran 3(4), a fyddai polisi yn cael dim effaith neu effaith ddibwys ar yr amgylchedd, sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ymwneud â'i gilydd ac â'r ddyletswydd yn adran 3(1)(b) a sut y mae'r egwyddorion amgylcheddol a'r ddyletswydd yn adran 3(1)(b) yn ymwneud â'r amcan amgylcheddol. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r datganiad egluro sut y mae'r egwyddorion yn gymwys o dan wahanol amgylchiadau a'r hyn y mae'r egwyddorion yn ei olygu ar gyfer yr amgylchiadau hynny.

41. Rhaid i'r datganiad hefyd egluro sut y mae'r dyletswyddau yn adran 3(1), adran 5(1) ac erthygl 4A(1) o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 yn ymwneud â'i gilydd.

42. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gynnwys canllawiau i CNC ynghylch materion penodol sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir ar CNC gan erthygl 4A(1) (a fewnosodir gan adran 4(2)) a'i chymhwyso.

43. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad gynnwys canllawiau i awdurdodau cyhoeddus ynghylch materion penodol sy'n ymwneud â chydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir arnynt gan adran 5(1) a'i chymhwyso.

44. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff y datganiad hefyd gynnwys unrhyw faterion eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

## Adran 7 - Datganiad o egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd: gofynion gweithdrefnol

45. Mae is-adran (1) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru, pan fyddant yn llunio drafft o'r datganiad, i ymgynghori ag (a) Cyfoeth Naturiol Cymru, (b) Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, (c) Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, a (d) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

46. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru gopi o'r datganiad drafft, ynghyd â dogfen sy'n rhoi manylion

yr ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan is-adran (1) ac sy'n crynhoi'r sylwadau a gafwyd ac ymateb Gweinidogion Cymru iddynt.

47. Mae is-adran (3) yn darparu os yw Senedd Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod (gweler is-adran (8)), yn gwneud argymhellion mewn perthynas â'r drafft, rhaid i Weinidogion Cymru osod eu hymateb i'r argymhellion gerbron Senedd Cymru.

48. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio datganiad terfynol a'i osod gerbron Senedd Cymru.

49. Mae is-adran (5) yn darparu na chaniateir gosod y datganiad terfynol cyn y diwrnod y mae Gweinidogion Cymru yn gosod eu hymateb, os yw is-adran (3) yn gymwys, neu ddiwedd y cyfnod o 40 niwrnod.

50. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r datganiad terfynol pan y'i gosodir gerbron y Senedd. Rhaid gosod y datganiad terfynol gerbron y Senedd yn ddim hwyrach na 31 Mawrth 2027 (is-adran (7)), sy'n cyd-fynd â chychwyn adrannau 3 i 5.

51. Mae is-adran (8) yn diffinio'r "cyfnod o 40 niwrnod".

52. Mae is-adran (9) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r datganiad ar ôl pob etholiad cyffredinol ac mae hefyd yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r datganiad ar unrhyw adeg arall. Mae is-adran (10) yn diffinio "etholiad cyffredinol" at ddibenion is-adran (9).

53. Mae is-adran (11) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru lunio datganiad diwygiedig ar ôl adolygu'r datganiad a bod is-adrannau (1) i (6) ac (8) i (10) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddatganiad diwygiedig.

54. Mae is-adran (12) yn darparu y caniateir bodloni'r gofynion ymgynghori a nodir yn is-adran (1) drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn i'r adran hon ddod i rym, gan alluogi'r datganiad i gael ei symud ymlaen mor effeithlon ac effeithiol â phosibl cyn cychwyn.

## RHAN 2 – Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

55. Mae'r Rhan hon o'r Ddeddf yn sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ("SLlAC") ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ei swyddogaethau mewn perthynas â goruchwylio cydymffurfedd awdurdodau cyhoeddus (fel y'u diffinnir yn adran 32) â chyfraith amgylcheddol, a gweithredu a chymhwyso cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys gwneud cyfraith amgylcheddol neu ei heffeithiolrwydd.

*Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru*

### Adran 8 – Sefydlu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

56. Mae adran 8 yn sefydlu SLlAC ac yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch SLlAC.

## Adran 9 – Annibyniaeth SLlAC

57. Mae adran 9 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r angen i ddiogelu annibyniaeth SLlAC wrth arfer eu swyddogaethau mewn cysylltiad â hi.

## Adran 10 – Diben cyffredinol etc.

58. Mae adran 10 yn darparu bod rhaid i SLlAC arfer ei swyddogaethau at y diben cyffredinol o gyfrannu at gyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd, a sicrhau bod cyfraith amgylcheddol yn effeithiol ac y cydymffurfir â hi, y'i gweithredir ac y'i cymhwysir.

59. Bwriedir i'r diben cyffredinol hwn ddarparu cyfeiriad strategol i SLlAC, yn benodol mewn perthynas â chyrraedd lefel uchel o ran diogelu'r amgylchedd a gwelliant i'r amgylchedd, sy'n gymesur â'r amcan amgylcheddol yn Rhan 1. Bydd SLlAC yn cyflawni'r diben hwn o ran goruchwylio cydymffurfedd awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol, yn ogystal â sicrhau bod cyfraith amgylcheddol wedi ei gwneud, ei gweithredu a/neu ei chymhwyso'n effeithiol gan awdurdodau cyhoeddus.

60. Mae paragraff (b) yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC arfer ei swyddogaethau yn ddiduedd, yn wrthrychol, yn gymesur ac yn dryloyw.

## Adran 11 – Dyletswydd i lunio a chyhoeddi strategaeth

61. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC gyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau.

62. Mae is-adrannau (1) a (2) yn rhoi dyletswydd ar SLlAC i lunio a chyhoeddi strategaeth sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau. Mae is-adran (3) yn rhoi dyletswydd ar SLlAC i arfer ei swyddogaethau yn unol â'r strategaeth honno.

**63.** Mae is-adran (4) yn cyflwyno Atodlen 2 i'r Ddeddf, sy'n darparu manylion pellach ynghylch yr hyn y mae rhaid i'r strategaeth ei gynnwys a'i gofynion gweithdrefnol.

*Swyddogaethau monitro, adrodd a chynghori*

## Adran 12 – Monitro ac adrodd

64. Mae adran 12 yn darparu ar gyfer swyddogaeth monitro ac adrodd SLlAC. Bwriedir i'r darpariaethau hyn ffurfio rhan allweddol o asesiad SLlAC o ba un a yw cyfraith amgylcheddol yn effeithiol ai peidio. Bydd y darpariaethau hyn hefyd yn galluogi SLlAC i gasglu gwybodaeth ychwanegol ynghylch a yw awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, heb ddibynnu'n gyfan gwbl ar sylwadau uniongyrchol a geir gan y cyhoedd.

65. Mae is-adran (1) yn nodi'r materion y mae rhaid i SLlAC eu monitro mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol.

66. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff SLlAC adrodd ar y materion a nodir yn is-adran (1) neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwneud cyfraith amgylcheddol neu effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Mae'r adran hon yn caniatáu i SLlAC adrodd ar unrhyw fater y mae'n ofynnol iddi ei fonitro o dan is-adran (1), neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwneud cyfraith amgylcheddol neu ei heffeithiolrwydd, ac nid oes unrhyw beth i atal rhag cyfuno'r materion mewn un adroddiad.

67. Mae is-adran (3) yn nodi bod rhaid i unrhyw adroddiadau a wneir o dan is-adran (2) gael eu cyhoeddi a'u gosod gerbron Senedd Cymru. Mae hyn er mwyn darparu tryloywder ac eglurder i randdeiliaid, a'r cyhoedd, yn ogystal ag atebolrwydd mewn cysylltiad â'r ffordd y mae SLlAC yn cyflawni ei swyddogaethau.

## Adran 13 – Cynghori Gweinidogion Cymru

68. Mae adran 13 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff SLlAC roi cyngor i Weinidogion Cymru a'r hyn y caiff y cyngor hwn ymwneud ag ef. Caiff SLlAC ddarparu'r cyngor ar ei chymhelliad ei hun neu ar gais gan Weinidogion Cymru, ac os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud cais o'r fath, mater i SLlAC fydd penderfynu a wnaiff ddarparu'r cyngor y gwneir cais amdano.

69. Mae is-adran (1)(a) i (c) yn darparu'r materion y caiff SLlAC roi cyngor i Weinidogion Cymru yn eu cylch.

70. Mae is-adran (2) yn nodi y caiff SLlAC roi cyngor i Weinidogion Cymru ar ei chymhelliad ei hun neu ar gais gan Weinidogion Cymru. Yr effaith yw nad oes angen i SLlAC aros i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor ganddi cyn rhoi unrhyw gyngor.

71. Mae is-adran (3)(a) a (b) yn darparu pan fo Gweinidogion Cymru wedi gofyn am gyngor SLlAC a bo SLlAC yn penderfynu peidio â rhoi'r cyngor y gofynnwyd amdano, rhaid i SLlAC ddarparu datganiad o'i rhesymeg o ran pam nad yw wedi darparu'r cyngor y gofynnwyd amdano.

72. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i SLlAC gyhoeddi unrhyw gyngor a ddarperir o dan yr adran hon gan ei roi ar gael i unrhyw un a allai fod â diddordeb yn y cyngor a ddarperir gan SLlAC.

73. Mae is-adran (5) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw i unrhyw gyngor a roddir gan SLlAC o dan adran 5.

74. Mae is-adran (6) yn diffinio "Cymru" at ddibenion is-adran (1) er mwyn nodi rhychwant cwmpas SLlAC wrth ddarparu cyngor i Weinidogion Cymru. Yr effaith yw y gall cyngor SLlAC ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod yn yr ardal o barth Cymru sydd y tu hwnt i derfyn atfor y môr tiriogaethol (sydd y tu hwnt i ystyr "Cymru" a roddir gan Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019).

## Adran 14 – Cyngor, canllawiau a chymorth ar gyfraith amgylcheddol

75. Mae adran 14 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff SLlAC ddyroddi canllawiau, a phan gaiff roi cyngor neu gymorth arall ar unrhyw fater sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. Mae'r adran yn caniatáu i SLlAC ddarparu ei harbenigedd ar faterion y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

76. Mae is-adran (1) yn gwneud darpariaeth i SLlAC ddyroddi canllawiau (pa un ai'n gyffredinol neu'n benodol), neu gyngor neu gymorth arall i unrhyw berson, ar unrhyw fater cyfraith amgylcheddol. Bydd gan SLlAC ddisgresiwn i ystyried a ddarperir cyngor neu sut y darperir cyngor.

77. Mae is-adran (2) yn darparu, pan fo cyngor SLlAC o dan yr adran hon yn cynnwys argymhellion sy'n ymwneud â gweithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol gan awdurdod cyhoeddus, y caiff SLlAC ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ymateb o fewn cyfnod penodedig. Bwriad y gofyniad am ymateb gan yr awdurdod cyhoeddus yw ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried cyngor SLlAC. Mae hyn yn caniatáu i SLlAC sicrhau bod ei chyngor wedi cael ei ystyried, ac, os nad yw SLlAC wedi ei bodloni bod hyn yn wir, caiff ddewis parhau i fonitro'r sefyllfa yn unol â'i strategaeth. Gallai'r ddarpariaeth hon hefyd ganiatáu i SLlAC wneud argymhellion i awdurdodau cyhoeddus pan nad oes diffyg cydymffurfio clir, ond bod SLlAC yn dal i fod yn bryderus ynghylch agweddau ar y modd y mae'r awdurdodau yn gweithredu neu'n cymhwyso cyfraith amgylcheddol a'r posibilrwydd o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol.

78. Mae is-adran (3) yn rhoi dyletswydd ar SLlAC i gyhoeddi unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

*Hysbysiadau gwybodaeth*

## Adran 15 – Hysbysiadau gwybodaeth

79. Mae adran 15 yn darparu y caiff SLlAC gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i awdurdod cyhoeddus a'r amgylchiadau y caiff gyflwyno hysbysiad gwybodaeth ynddynt. Mae cyflwyno hysbysiad gwybodaeth yn sicrhau y gall SLlAC gasglu gwybodaeth sy'n rhesymol ofynnol ganddi oddi wrth awdurdodau cyhoeddus at ddiben arfer ei swyddogaethau a rhaid i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio.

80. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff SLlAC gyflwyno hysbysiad gwybodaeth i

awdurdod cyhoeddus.

81. Mae is-adran (2) yn nodi beth yw hysbysiad gwybodaeth ac yn darparu na chaiff SLlAC ond gofyn am wybodaeth sy'n berthnasol i arfer ei swyddogaethau.

82. Mae is-adran (3) yn nodi beth y mae rhaid ei bennu mewn hysbysiad gwybodaeth. Mae'n nodi bod rhaid i hysbysiad gwybodaeth bennu'r wybodaeth y mae rhaid ei rhoi, at ba ddiben y mae'r wybodaeth hon yn ofynnol, sut y mae'r wybodaeth hon i'w rhoi ac o fewn pa gyfnod y mae rhaid ei rhoi.

83. Mae is-adran (4) yn darparu mai'r cyfnod lleiaf y bydd yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus gydymffurfio â'r hysbysiad gwybodaeth o'i fewn yw 2 fis sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad gwybodaeth.

84. Mae is-adran (5) yn galluogi SLlAC i dynnu hysbysiad gwybodaeth a gyflwynwyd i awdurdod cyhoeddus yn ôl neu ei amrywio, ond rhaid i SLlAC roi hysbysiad i'r awdurdod cyhoeddus ei bod yn gwneud hynny.

85. Mae is-adran (6) yn caniatáu i awdurdod cyhoeddus gyflwyno sylwadau i SLlAC ynghylch hysbysiad gwybodaeth cyn diwedd y cyfnod y mae'n ofynnol rhoi'r wybodaeth i SLlAC o'i fewn.

86. Mae is-adran (7) yn nodi, pan gyflwynir sylw o'r fath, nad yw'r amser y mae SLlAC yn ei gymryd i'w ystyried yn cyfrif fel rhan o'r cyfnod y mae'n ofynnol rhoi'r wybodaeth o'i fewn. Er enghraifft, os yw'r hysbysiad gwybodaeth yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth i SLlAC o fewn 2 fis i gyflwyno'r hysbysiad, caiff yr awdurdod cyhoeddus gyflwyno sylw 14 o ddiwrnodau ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno iddo. Os yw SLlAC yn gorffen ystyried y sylw 7 niwrnod o'r dyddiad y daeth y sylw i law ac yn cadarnhau'r hysbysiad, byddai angen i'r wybodaeth gael ei darparu o fewn 2 fis a 7 niwrnod i gyflwyno'r hysbysiad (h.y. y 2 fis gwreiddiol, a'r 7 niwrnod a gymerwyd gan SLlAC i ystyried y sylw ac ymateb iddo).

*Sylwadau*

## Adran 16 - Sylwadau

87. Mae is-adran 16(1) yn darparu y caiff person gyflwyno sylwadau i SLlAC ynghylch unrhyw faterion sy'n ymwneud ag:
    a. cydymffurfedd awdurdodau cyhoeddus â chyfraith amgylcheddol,
    b. sut y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu a'i chymhwyso, ac
    c. effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol.

88. Mae'r cyfeiriad at "person" yn eithrio awdurdodau a gedwir yn ôl, pan fyddai'n golygu newid i'w swyddogaethau a fyddai y tu hwnt i bwerau'r Senedd i'w wneud.

89. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC lunio a chyhoeddi dogfen

sy'n nodi'r weithdrefn y caniateir cyflwyno sylwadau i SLlAC drwyddi.

90. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ddogfen hon hefyd nodi sut y bydd SLlAC yn hysbysu personau am ei hymateb i unrhyw sylwadau o'r fath, yn ogystal ag unrhyw gamau gweithredu y mae SLlAC yn eu cymryd.

*Ymchwiliadau*

**Adran 17 - Ymchwiliadau**

91. Mae adran 17 yn nodi'r materion y mae gan SLlAC y pŵer i ymchwilio iddynt. Nid ydynt yn gyfyngedig i bŵer i ymchwilio i a yw awdurdod cyhoeddus yn methu neu wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

92. Mae is-adran (1) yn gwneud darpariaeth i SLlAC ymchwilio i fethiannau posibl gan awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn ogystal â gweithrediad, cymhwysiad ac effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol.

93. Mae is-adran (1)(a) yn rhoi'r pŵer i SLlAC i ymchwilio i a yw awdurdod cyhoeddus yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol neu a yw wedi methu â gwneud hynny ar unrhyw adeg. Gall SLlAC ddechrau cynnal ymchwiliad naill ai ar ei chymhelliad ei hun neu mewn ymateb i sylwadau a wneir gan unrhyw berson. Mae'r is-adran hon yn caniatáu i SLlAC ystyried methiannau i gydymffurfio a ddechreuodd ar unrhyw adeg, gan gynnwys cyn sefydlu SLlAC.

94. Mae is-adran (1)(b) yn rhoi'r pŵer i SLlAC i ymchwilio i sut y mae cyfraith amgylcheddol yn cael ei gweithredu a'i chymhwyso, ac mae is-adran (1)(c) yn galluogi ymchwilio i effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol. Bwriad y ddau yw cefnogi swyddogaethau eraill SLlAC. Rhagwelir y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ar gyfer ymchwilio i feysydd pryder sy'n gysylltiedig â materion systemig mewn cyfraith amgylcheddol, ond na fyddant yn gyfyngedig i ymchwiliadau o'r fath. Mewn achosion o'r fath, caiff SLlAC benderfynu na ellir datrys y materion yn llawn drwy gamau cydymffurfedd yn unig.

95. Mae is-adran (2) yn caniatáu i SLlAC gynnal ymchwiliad ar gymhelliad SLlAC ei hun neu mewn ymateb i unrhyw sylwadau a gyflwynir iddi gan unrhyw berson, gan roi cyfle i SLlAC i reoli ei llwyth gwaith a'i blaenoriaethu ei hun.

*Hysbysiadau cydymffurfio*

**Adran 18 - Hysbysiadau cydymffurfio**

96. Mae adran 18 yn galluogi SLlAC i gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i awdurdod cyhoeddus ac yn gwneud darpariaeth ynghylch amseroedd a chynnwys yr hysbysiad. Mae hysbysiadau cydymffurfio yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gymryd un neu ragor o gamau gweithredu er mwyn ymdrin â'u methiannau, er enghraifft, i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

97. Mae is-adran (1) yn caniatáu i SLlAC gyflwyno hysbysiad cydymffurfio i

awdurdod cyhoeddus yn yr amgylchiadau a bennir ym mharagraffau (a) a (b).

98. Mae is-adran (1)(a) yn caniatáu cyflwyno hysbysiad cydymffurfio mewn amgylchiadau pan fo SLlAC yn ystyried bod awdurdod cyhoeddus ar hyn o bryd yn methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol cyn belled â bod y methiant a nodir yn yr hysbysiad cydymffurfio yn parhau.

99. Mae is-adran (1)(b) yn gymwys mewn amgylchiadau pan fo hysbysiad gwybodaeth wedi ei gyflwyno ond nad yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio ag ef (h.y. nid yw'r wybodaeth wedi ei darparu). Mae hyn yn galluogi SLlAC i gyflwyno hysbysiad cydymffurfio sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei darparu i SLlAC.

100. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC bennu pethau penodol wrth gyflwyno hysbysiad cydymffurfio o dan is-adran (1)(a) (methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol). Mae is-adran (2)(c) yn darparu bod rhaid i hysbysiad cydymffurfio bennu un neu ragor o gamau gweithredu y mae'n ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus eu cymryd. Mae hyn yn golygu y gallai hysbysiad, er enghraifft, wneud cam gweithredu tymor byr yn ofynnol, megis darparu cynllun ysgrifenedig i fynd i'r afael â'r methiant mewn cyfraith amgylcheddol. Ni fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r methiant a nodwyd ynddo'i hun, ond gellir ystyried ei fod yn angenrheidiol fel rhan o set o gamau gweithredu (tymor byr a hirdymor) sy'n gweithio tuag at ddatrys y methiant. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion pan na ellir datrys y methiant yn gyflym, megis pe bai angen newidiadau strwythurol i arferion mewnol a chanllawiau.

101. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i'r cyfnod a bennir ar gyfer pob cam gweithredu yn yr hysbysiad cydymffurfio fod o leiaf 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad. Mae'r is-adran hon hefyd yn cyfeirio at adran 19(2) lle y darperir cyfnod penodedig amgen ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio brys. Nid yw'r isafswm cyfnod, o 30 o ddiwrnodau o leiaf, y mae rhaid cymryd pob cam gweithredu o'i fewn yn gymwys i hysbysiadau cydymffurfio brys.

102. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i hysbysiad cydymffurfio o dan is-adran (1)(b) bennu pethau penodol.

103. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw hysbysiad cydymffurfio a gyflwynir, pa un ai o dan is-adran (1)(a) neu (1)(b), hefyd gynnwys gwybodaeth am yr hawl i ofyn am adolygiad o hysbysiad cydymffurfio ac i nodi canlyniadau methu â chymryd y cam gweithredu a bennir yn yr hysbysiad.

104. Mae is-adran (6) yn galluogi SLlAC, drwy roi hysbysiad, i dynnu hysbysiad cydymffurfio a gyflwynwyd i awdurdod cyhoeddus yn ôl neu ei amrywio.

105. Mae is-adran (7) yn darparu na chaiff hysbysiad cydymffurfio a gyflwynir o dan is-adran (1)(a) ei gwneud yn ofynnol cymryd unrhyw gam gweithredu mewn cysylltiad â phenderfyniad gweinyddol a wnaed gan awdurdod

cyhoeddus mewn perthynas â pherson penodol neu achos penodol (er enghraifft, penderfyniad ar gais am ganiatâd cynllunio, cyllid neu drwydded, neu benderfyniad ar orfodi rheoleiddiol mewn achos penodol). Mae hyn yn golygu na allai SLlAC, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol newid penderfyniadau a wneir gan gyrff rheoleiddio, megis penderfyniadau cynllunio neu drwyddedu. Fodd bynnag, caiff SLlAC ystyried y penderfyniadau hynny os ydynt yn tynnu sylw at faterion ehangach a fyddai'n dod o fewn rôl oruchwylio strategol SLlAC. Gall penderfyniadau o'r fath ddangos methiant awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol neu ei chymhwyso'n effeithiol. Er enghraifft, pe bai awdurdod cynllunio yn penderfynu cais cynllunio yn unol â chanllawiau cynllunio sy'n methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, gallai SLlAC ddewis dyroddi hysbysiad cydymffurfio mewn perthynas â'r awdurdod cyhoeddus a ddyroddodd y canllawiau cynllunio (ond nid mewn perthynas â'r awdurdod cynllunio ei hun).

**Adran 19 - Hysbysiadau cydymffurfio brys**

106. Mae adran 19 yn galluogi SLlAC i weithredu'n gyflymach i ddatrys pryderon cydymffurfio drwy wneud darpariaeth ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio brys pan fo SLlAC o'r farn bod risg bod niwed difrifol ar fin digwydd i'r amgylchedd neu i iechyd pobl.

107. Mae is-adran (1) yn nodi bod y darpariaethau yn is-adran (2) yn gymwys pan fo SLlAC yn ystyried bod angen i bob cam gweithredu a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio a gyflwynir o dan adran 18 gael ei gymryd ar frys gan awdurdod cyhoeddus er mwyn atal neu liniaru risg bod niwed difrifol ar fin digwydd i'r amgylchedd neu i iechyd pobl.

108. Mae is-adran (2) yn gwahaniaethu rhwng 'hysbysiadau cydymffurfio' a 'hysbysiadau cydymffurfio brys' drwy ddarparu y caiff hysbysiadau cydymffurfio brys bennu camau gweithredu sydd i'w cymryd o fewn cyfnod o lai na 30 o ddiwrnodau, ond o leiaf 7 niwrnod, gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynir yr hysbysiad. Ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio nad ydynt yn hysbysiadau cydymffurfio brys, rhaid i'r cyfnod a bennir ar gyfer pob cam gweithredu fod o leiaf 30 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y cyflwynwyd yr hysbysiad.

109. Mae is-adran (3) yn darparu bod rhaid i SLlAC nodi, mewn hysbysiad cydymffurfio a gyflwynir o dan is-adran (2), mai hysbysiad cydymffurfio brys yw'r hysbysiad. Mae hyn yn ei gwneud yn glir i'r awdurdod cyhoeddus fod y gweithdrefnau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â hysbysiadau cydymffurfio brys yn gymwys.

**Adran 20 – Adolygiad SLlAC o hysbysiadau cydymffurfio**

110. Mae adran 20 yn gwneud darpariaeth i SLlAC adolygu hysbysiad cydymffurfio ar ôl iddo gael ei gyflwyno. Mae'r adolygiad hwn yn galluogi awdurdod cyhoeddus i herio cynnwys hysbysiad cydymffurfio a gyflwynwyd iddo.

111. Mae is-adran (1) yn rhoi dyletswydd ar SLlAC i adolygu hysbysiad

cydymffurfio os yw'r awdurdod cyhoeddus y cyflwynwyd yr hysbysiad iddo yn gwneud cais iddi i wneud hynny.

112. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i unrhyw gais gan awdurdod cyhoeddus am adolygu hysbysiad cydymffurfio gael ei wneud drwy roi hysbysiad i SLlAC.

113. Mae is-adrannau (3) a (4) yn nodi'r amseroedd penodedig ar gyfer gwneud ceisiadau am adolygiadau o hysbysiadau cydymffurfio (30 o ddiwrnodau) a hysbysiadau cydymffurfio brys (7 niwrnod).

114. Mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid i adolygiad gael ei gynnal gan bwyllgor adolygu SLlAC cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i hysbysiad gael ei roi i SLlAC o dan is-adran (2). Mae darpariaeth bellach ynglŷn â chyfansoddiad y pwyllgor adolygu wedi ei nodi ym mharagraff 10 o Atodlen 1. Mae hyn yn darparu bod rhaid cael o leiaf 1 aelod o'r pwyllgor nad yw'n aelod o SLlAC, nac yn aelod o'i staff, ac na chaiff y penderfynwr/penderfynwyr cychwynnol a oedd yn ymwneud â dyroddi'r hysbysiad cydymffurfio gymryd rhan yn ei adolygiad.

115. Mae is-adran (6) yn darparu, pan wneir cais am adolygiad o hysbysiad cydymffurfio yn sgil methiant i gydymffurfio â gofyniad cynnwys hysbysiad cydymffurfio o dan adran 18(2), (4) neu (5) neu unrhyw ddiffyg neu wall arall mewn hysbysiad cydymffurfio neu mewn cysylltiad â hysbysiad cydymffurfio, fod rhaid i'r pwyllgor adolygu anwybyddu'r methiant, diffyg neu wall hwnnw os yw'r pwyllgor yn ystyried nad yw'n un sylweddol. Gallai hyn gynnwys gwall teipograffyddol ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

116. Mae is-adran (7) yn darparu y caiff y pwyllgor adolygu, yn dilyn adolygiad o dan yr adran hon, gadarnhau'r hysbysiad cydymffurfio, tynnu'r hysbysiad cydymffurfio yn ôl neu amrywio'r hysbysiad cydymffurfio.

117. Mae is-adran (8) yn nodi dyletswydd y pwyllgor adolygu i hysbysu'r awdurdod cyhoeddus o dan sylw am ganlyniad yr adolygiad.

118. Mae is-adran (9) yn darparu bod canfyddiadau'r pwyllgor adolygu yn derfynol ac na ellir gwneud unrhyw geisiadau pellach am adolygiad i SLlAC mewn perthynas â'r un hysbysiad cydymffurfio.

119. Mae is-adran (10) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus sy'n gofyn am yr adolygiad ddarparu i'r pwyllgor adolygu unrhyw wybodaeth bellach sy'n rhesymol ofynnol gan y pwyllgor. Ni fwriedir i hysbysiad gwybodaeth o dan adran 15 fod yn ofynnol at ddiben casglu gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag adolygiad.

120. Mae is-adrannau (11) a (12) yn nodi, pan fydd cais am adolygiad wedi ei wneud, y caiff yr amser a bennir yn yr hysbysiad cydymffurfio fel y cyfnod y mae rhaid cymryd cam gweithredu o'i fewn ei oedi nes i'r pwyllgor benderfynu cadarnhau'r hysbysiad, tynnu'r hysbysiad yn ôl neu amrywio'r hysbysiad. Er enghraifft, caiff hysbysiad cydymffurfio a gyflwynir i awdurdod

cyhoeddus ei gwneud yn ofynnol cymryd cam gweithredu o fewn 35 o ddiwrnodau i gyflwyno'r hysbysiad. Yna caiff yr awdurdod cyhoeddus ofyn am adolygiad o'r hysbysiad cydymffurfio ar ddiwrnod 25 ar ôl cyflwyno'r hysbysiad. Os yw'r pwyllgor adolygu yn cwblhau ei adolygiad o'r hysbysiad cydymffurfio 15 diwrnod o'r dyddiad y gofynnwyd am yr adolygiad ac yn cadarnhau'r hysbysiad, bydd angen i'r cam gweithredu hwnnw gael ei gymryd erbyn diwrnod 50 ar ôl i'r hysbysiad gael ei gyflwyno (35 o ddiwrnodau a'r 15 diwrnod i adolygu).

121. Mae is-adran (13) yn nodi bod 'stopio'r cloc' yn dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod cyhoeddus yn gwneud cais am yr adolygiad ac yn dod i ben â'r diwrnod y mae'r pwyllgor adolygu yn rhoi ei benderfyniad.

**Adran 21 – Adolygiad yr Uchel Lys ar ôl methiant i gymryd cam gweithredu penodedig**

122. Mae adran 21 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau pan gaiff SLlAC wneud cais i'r Uchel Lys am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol cymryd y camau gweithredu a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio, neu'r camau gweithredu hynny fel y'u hamrywir gan yr Uchel Lys. Rhaid bod hysbysiad cydymffurfio wedi ei gyflwyno i awdurdod cyhoeddus a'i fod wedi methu â chymryd y camau gweithredu a bennwyd yn yr hysbysiad cydymffurfio hwnnw cyn i SLlAC wneud cais i'r Uchel Lys.

123. Mae is-adran (1) yn nodi bod yr adran hon yn gymwys pan fo SLlAC yn ystyried bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â chymryd cam gweithredu a bennir mewn hysbysiad cydymffurfio, yn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad hwnnw.

124. Mae is-adran (2)(a) a (b) yn galluogi SLlAC i wneud cais i Uchel Lys Cymru a Lloegr am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus naill ai (a) cymryd y cam gweithredu a bennir yn yr hysbysiad cydymffurfio, neu (b) cymryd y cam gweithredu hwnnw fel y'i hamrywir gan y Llys fel y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

125. Mae is-adran (3) yn nodi na chaniateir gwneud cais mewn perthynas â cham gweithredu a bennir mewn hysbysiad nad yw'n hysbysiad cydymffurfio brys cyn y diweddaraf o naill ai (a) diwedd y cyfnod y mae'n ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus gymryd y cam gweithredu o'i fewn, a (b) unrhyw derfyn amser sy'n gymwys i gychwyn adolygiad barnwrol er mwyn cwestiynu'r ymddygiad honedig y cyflwynwyd yr hysbysiad cydymffurfio mewn cysylltiad ag ef.

126. Mae is-adran (4) yn darparu, pan fo hysbysiad cydymffurfio brys wedi ei gyflwyno, na chaniateir gwneud y cais i'r Uchel Lys cyn diwedd y cyfnod y mae'n ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus gymryd y cam gweithredu a bennir yn yr hysbysiad cydymffurfio brys o'i fewn. Mae hyn yn galluogi'r cais i'r Uchel Lys i ddigwydd yn gyflymach nag o dan hysbysiad cydymffurfio nad yw'n hysbysiad cydymffurfio brys.

127. Mae is-adran (5) yn darparu bod rhaid i orchymyn a roddir ar gais o dan is-adran (2) bennu'r cyfnod y mae'n ofynnol cymryd y cam gweithredu o'i fewn.

128. Mae is-adran (6) yn darparu os yw'r Llys, wrth benderfynu cais o dan is-adran (2), yn ystyried bod hysbysiad cydymffurfio neu ran o hysbysiad cydymffurfio yn afresymol neu na ddylai, am unrhyw reswm arall, fod wedi ei gyflwyno, fod rhaid i'r Llys ei gwneud yn ofynnol i SLlAC dynnu'r hysbysiad neu (yn ôl y digwydd) ran o'r hysbysiad yn ôl.

*Adroddiadau gwella a chynlluniau gwella*

**Adran 22 - Adroddiadau gwella**

129. Mae adran 22 yn rhoi'r pŵer i SLlAC i gyhoeddi adroddiad gwella. Mae hyn yn darparu ar gyfer cyfrwng ar wahân, adroddiad gwella, i edrych ar yr amgylchiadau ehangach sy'n llywio diffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol a darparu argymhellion ar sut y gellir gwella'r amgylchiadau hyn. Er bod y seiliau dros gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio yn debyg i'r rhai dros gyhoeddi adroddiad gwella, maent o natur wahanol. Bydd hysbysiad cydymffurfio yn gorfodi cydymffurfedd drwy gamau gweithredu penodol y mae rhaid iddynt gael eu cymryd gan un awdurdod cyhoeddus. Fodd bynnag, mae gan adroddiad gwella gwmpas i fynd i'r afael â diffyg strwythurol yn y system.

130. Mae is-adran (1) yn darparu y caiff SLlAC gyhoeddi adroddiad gwella os yw'n ystyried bod awdurdod cyhoeddus yn methu neu wedi methu ar unrhyw adeg â naill ai (a) cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol neu (b) gweithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol. Fel gyda'r darpariaethau ar gyfer hysbysiadau cydymffurfio, gall y methiant i gydymffurfio fod wedi dechrau unrhyw bryd.

131. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff SLlAC hefyd gyhoeddi adroddiad gwella os yw'n ystyried bod Gweinidogion Cymru, neu awdurdod cyhoeddus arall, wedi methu â gwneud cyfraith amgylcheddol effeithiol.

132. Mae is-adran (3) yn caniatáu i un adroddiad gwella gael ei gyhoeddi mewn perthynas â methiant gan ddau neu ragor o awdurdodau cyhoeddus. Dim ond os yw SLlAC yn fodlon bod yr holl awdurdodau o dan sylw wedi arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n arwain at yr un methiant honedig, neu fethiant honedig tebyg, a all awgrymu methiant mwy systemig y gall hyn ddigwydd.

133. Mae is-adran (4) yn nodi'r camau gweithredu y mae'n ofynnol i SLlAC eu cymryd yn sgil cyhoeddi adroddiad gwella. Rhaid i SLlAC anfon copi i'r awdurdod cyhoeddus y cyhoeddir yr adroddiad mewn perthynas â'i fethiant honedig ac os nad Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cyhoeddus hwnnw, rhaid hefyd anfon copi at Weinidogion Cymru. Rhaid hefyd osod yr adroddiad gwella a gyhoeddwyd gerbron Senedd Cymru.

**Adran 23 – Adroddiadau gwella: cynnwys**

134. Mae adran 23 yn ymwneud â chynnwys adroddiad gwella.

135. Mae is-adran (1) yn nodi'r hyn y mae rhaid ei gynnwys mewn unrhyw

adroddiad gwella a gyhoeddir gan SLlAC. Mae hyn yn cynnwys argymell camau gweithredu i Weinidogion Cymru eu cymryd.

136. Mae is-adran (2) yn gwneud darpariaeth na chaiff y camau gweithredu a argymhellir i Weinidogion Cymru mewn adroddiad gwella ei gwneud yn ofynnol iddynt ddirymu neu amrywio penderfyniadau gweinyddol unigol a wnaed gan awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â pherson neu achos penodol. Er enghraifft, penderfyniad ar gais am ganiatâd cynllunio, cyllid neu drwydded, neu benderfyniad ar orfodi rheoleiddiol mewn achos penodol. Bydd SLlAC yn gallu awgrymu gwelliannau i'r fframwaith deddfwriaethol cyffredinol heb newid canlyniadau'r achos penodol sy'n gyfrifoldeb awdurdodau eraill (megis rheoleiddwyr), ac y caniateir eu herio drwy lwybrau eraill.

**Adran 24 - Cynlluniau gwella**

137. Mae adran 24 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cynllun gwella yn sgil cyhoeddi adroddiad gwella. Mae'r cynllun gwella yn darparu mecanwaith i SLlAC gael ymateb i'r argymhellion unigol yn ei hadroddiadau gwella, gan gynnwys pennu amserlenni i gyflawni pob argymhelliad.

138. Mae is-adran (1) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymateb i unrhyw adroddiad gwella a gyhoeddir gan SLlAC drwy gyhoeddi cynllun gwella.

139. Mae is-adran (2) yn nodi'r cynnwys a'r wybodaeth y mae rhaid ei rhoi mewn cynllun gwella.

140. Mae is-adran (2)(a) yn dweud bod rhaid i gynllun gwella nodi'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn cynnig ei wneud mewn ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad gwella a'r amserlenni arfaethedig ar gyfer gweithredu pob argymhelliad.

141. Mae is-adran (2)(b) yn darparu, os nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu gweithredu'r argymhellion (yn llawn neu'n rhannol), fod rhaid iddynt hefyd nodi eu rhesymau dros hyn yn y cynllun gwella.

142. Mae is-adran (3) yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi cynllun gwella yn unol ag amserlen benodedig. Yr amserlen hon yw (a) o fewn 6 mis i gael yr adroddiad gwella neu (b) mewn amgylchiadau pan fydd yn angenrheidiol ymgynghori ag unrhyw berson(au) ynghylch y cynllun, estynnir yr amserlen fel ei bod cyn pen 9 mis sy'n dechrau â'r diwrnod yr anfonwyd yr adroddiad gwella atynt. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer cyfnod ymgynghori.

143. Mae is-adran (4) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o unrhyw gynlluniau gwella a gyhoeddir gerbron Senedd Cymru.

*Dyletswyddau cydweithredu*

**Adran 25 – Dyletswyddau cydweithredu**

144. Mae adran 25 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gydweithredu

â SLlAC. Bwriad hyn yw hwyluso mecanweithiau anffurfiol i ddatrys pryderon heb fod angen cymryd camau gorfodi mwy sylweddol.

145. Mae is-adran (1) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i roi unrhyw gymorth rhesymol y mae SLlAC yn gwneud cais amdano (gan gynnwys darparu gwybodaeth) iddi, mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau SLlAC. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi SLlAC i ddefnyddio mecanweithiau anffurfiol i gael gwybodaeth heb fod angen dilyn y broses hysbysiad gwybodaeth fwy sylweddol a amlinellir yn adran 15. Bydd y ddyletswydd i gydweithredu yn sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus hefyd yn cymryd cyfleoedd i alluogi cydweithio effeithiol â SLlAC ac yn ceisio atal gorfod cymryd camau gorfodi ffurfiol.

146. Mae is-adran (2) yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i wneud ymdrech resymol i (a) datrys yn gyflym unrhyw fater y mae SLlAC yn ei godi ynghylch methiant yr awdurdod i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, i weithredu neu gymhwyso cyfraith amgylcheddol yn effeithiol, neu i gymhwyso neu wneud cyfraith amgylcheddol effeithiol, a (b) dod i gytundeb â SLlAC ynghylch unrhyw gam gweithredu adferol y dylai'r awdurdod ei gymryd at ddibenion diogelu'r amgylchedd heb fod angen cymryd camau gorfodi ffurfiol.

*Datgelu gwybodaeth a chyfrinachedd*

**Adran 26 – Datgelu gwybodaeth i SLlAC**

147. Mae is-adran (1) yn darparu nad yw rhannu gwybodaeth â SLlAC gan awdurdod cyhoeddus, o dan yr amgylchiadau a bennir yn is-adran (3), yn torri unrhyw rwymedigaeth cyfrinachedd sy'n ddyledus gan yr awdurdod cyhoeddus, nac unrhyw gyfyngiad arall ar ddatgelu gwybodaeth a all fodoli.

148. Fodd bynnag, mae is-adran (2) wedyn yn cyfeirio at adran 183A o Ddeddf Diogelu Data 2018, sy'n darparu yn absenoldeb darpariaeth ddatganedig i'r gwrthwyneb, fod pob darpariaeth ynghylch prosesu data personol (gan gynnwys y rheini yn y Ddeddf hon) yn ddarostyngedig i ofynion cyffredinol y brif ddeddfwriaeth diogelu data sy'n ymwneud â phrosesu data personol.

149. Mae is-adran (3) yn nodi'r amgylchiadau penodedig y mae is-adran (1) yn gymwys iddynt. Yr amgylchiadau hyn yw:

   a. pan ofynnir am wybodaeth mewn perthynas â hysbysiadau gwybodaeth (adran 15(1))
   b. pan fo gwybodaeth yn rhesymol ofynnol at ddibenion adolygu hysbysiad cydymffurfio (adran 20(10))
   c. pan fo gwybodaeth yn ofynnol mewn cysylltiad â dyletswydd gyffredinol awdurdod cyhoeddus i gydweithredu â SLlAC (adran 25(1))

150. Mae is-adran (4) yn gwneud darpariaeth ynghylch amgylchiadau pan nad yw'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus ddarparu gwybodaeth i SLlAC.

151. Mae is-adran (4)(a) yn darparu nad yw'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus ddarparu gwybodaeth y gallai wrthod ei darparu mewn achos sifil neu am ei bod wedi ei diogelu gan fraint gyfreithiol.

152. Mae is-adran (4)(b) yn darparu nad yw'n ofynnol i awdurdod cyhoeddus ddarparu gwybodaeth pan fyddai ganddo hawlogaeth i wrthod darparu'r wybodaeth honno mewn achos sifil ar sail imiwnedd budd y cyhoedd.

**Adran 27 – Gofynion cyfrinachedd: SLlAC**

153. Mae adran 27 yn nodi'r gofynion cyfrinachedd sydd ar SLlAC a'r amgylchiadau y caiff neu na chaiff SLlAC ddatgelu gwybodaeth y mae'n ei chael ynddynt.

154. Mae is-adran (1)(a) yn darparu na chaiff SLlAC ddatgelu gwybodaeth y mae wedi ei chael yn rhinwedd hysbysiad gwybodaeth (o dan adran 15(1)), gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn ystod adolygiad o hysbysiad cydymffurfio (o dan adran 20(10)) neu ddyletswydd awdurdod cyhoeddus i gydweithredu â SLlAC (o dan adran 25(1)).

155. Yn rhinwedd is-adran (1)(b) ni chaiff SLlAC ddatgelu unrhyw ohebiaeth rhwng SLlAC ac awdurdod cyhoeddus pan fo'r wybodaeth honno'n ymwneud â hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad cydymffurfio penodol, neu â llunio adroddiad gwella penodol.

156. Mae is-adran (1)(c) yn darparu na chaniateir datgelu gohebiaeth rhwng SLlAC ac awdurdod cyhoeddus sy'n hysbysiad gwybodaeth neu'n hysbysiad cydymffurfio, neu sy'n cynnwys hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad cydymffurfio, neu ddrafft heb ei gyhoeddi o adroddiad gwella.

157. Mae is-adran (3) yn darparu ar gyfer eithriadau i'r gwaharddiad yn is-adran (1). Er enghraifft, nid yw'r cyfyngiad yn is-adran (1) yn gymwys i ddatgeliad unwaith y bydd SLlAC wedi dod i'r casgliad nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach.

**Adran 28 – Gofynion cyfrinachedd: awdurdodau cyhoeddus**

158. Mae adran 28 yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff neu pan na chaiff awdurdod cyhoeddus ddatgelu'r wybodaeth y mae'n ei chael.

159. Mae is-adran (1) yn rhoi dyletswydd ar awdurdod cyhoeddus i beidio â datgelu gohebiaeth rhwng SLlAC ac ef ei hun, neu unrhyw awdurdod cyhoeddus arall, sy'n ymwneud â hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad cydymffurfio penodol, neu â llunio adroddiad gwella penodol, neu sy'n hysbysiad o'r fath, neu sy'n cynnwys hysbysiad o'r fath, neu ddrafft heb ei gyhoeddi o adroddiad o'r fath.

160. Mae is-adran (2)(a) i (h) yn nodi eithriadau i'r gwaharddiad yn is-adran (1). Yn eu plith mae achos o gael cydsyniad, pan fo'r datgeliad yn ofynnol at ddibenion ymchwiliad o dan adran 17, a phan fo datgeliad yn ofynnol er mwyn gallu ymateb i hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad cydymffurfio. Mae hefyd yn darparu nad yw'r gwaharddiad ar ddatgelu yn gymwys at ddibenion sy'n

gysylltiedig ag adolygiad gan yr Uchel Lys o dan adran 21, adolygiad statudol neu achos sifil, neu pan fo datgeliad yn ofynnol ar gyfer ymchwiliad neu achos troseddol, yn unol â gorchymyn llys neu yn unol â deddfiad sy'n gwneud datgeliad yn ofynnol neu'n ei ganiatáu.

161. Mae is-adran (3) yn darparu na chaiff SLlAC ddarparu cydsyniad i ddatgelu hysbysiad neu ddrafft heb ei gyhoeddi o adroddiad yn unol ag is-adran (2)(b) oni bai bod yr hysbysiad neu'r adroddiad drafft yn ymwneud yn unig â mater nad yw SLlAC yn bwriadu cymryd unrhyw gam gweithredu pellach yn ei gylch. Bwriad hyn yw atal rhyddhau gwybodaeth yn gynamserol a allai effeithio ar ymchwiliad parhaus neu lunio adroddiad gwella, neu danseilio hynny.

162. Mae is-adran (4) yn nodi na chaiff SLlAC atal cydsyniad i gais awdurdod cyhoeddus i ddatgelu gwybodaeth a ddisgrifir yn is-adran (2)(a) a (b) os yw SLlAC wedi dod i'r casgliad nad yw'n bwriadu cymryd unrhyw gam gweithredu pellach mewn perthynas â hysbysiad gwybodaeth neu hysbysiad cydymffurfio penodol, neu adroddiad gwella.

**Adran 29 – Cymhwyso Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004**

163. Mae adran 29 yn gymwys pan fo gwybodaeth y cyfeirir ati yn adran 27(1) ac a ddelir gan SLlAC, neu y cyfeirir ati yn adran 28(1) ac a ddelir gan awdurdod cyhoeddus, yn "gwybodaeth amgylcheddol" at ddibenion Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

164. Yr effaith yw y bydd yr wybodaeth mewn cysylltiad ag achosion cyfrinachol at ddibenion y Rheoliadau hynny, gan felly roi'r hawl bosibl i awdurdod cyhoeddus wrthod datgelu o dan y Rheoliadau hynny. Os yw achosion gorfodi SLlAC yn parhau, gall yr wybodaeth y cyfeirir ati yn adrannau 27 ac 28 fod yn gymwys i'w heithrio rhag Rheoliadau 2004 gan roi'r hawl bosibl i awdurdod cyhoeddus wrthod datgelu os byddai'n peryglu cyfrinachedd yr achos o dan sylw gan yr awdurdod cyhoeddus hwnnw pan fo cyfrinachedd o'r fath wedi ei ddiogelu gan y gyfraith.

*Cynlluniau trosglwyddo staff*

**Atodlen 30 – Cynlluniau trosglwyddo staff**

165. Mae adran 30 yn cyflwyno Atodlen 3 i'r Bil, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynlluniau ar gyfer trosglwyddo staff o Lywodraeth Cymru i SLlAC.

*Dehongli*

**Adran 31 – Ystyr "cyfraith amgylcheddol"**

166. Mae adran 31 yn ymdrin yn benodol ag ystyr "cyfraith amgylcheddol". Mae cwmpas swyddogaethau SLlAC yn dibynnu ar y diffiniad hwn i raddau helaeth.

167. Mae is-adran (1) yn darparu mai ystyr cyfraith amgylcheddol yw unrhyw ddarpariaeth ddatganoledig i'r graddau ei bod yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â diogelu'r amgylchedd ac nad yw wedi ei heithrio o dan is-adran

(1)(b).

168. Effaith y diffiniad yw, hyd yn oed os nad yw'r mwyafrif o Ddeddf neu set o reoliadau yn dod o fewn y diffiniad, fod unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf neu'r rheoliadau sy'n dod o fewn y diffiniadau yn "cyfraith amgylcheddol".

169. Er enghraifft, mae Deddf Coedwigaeth 1967 yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n anelu at ddiogelu'r amgylchedd. O ganlyniad, byddai'r darpariaethau hyn yn cael eu categoreiddio o dan y diffiniad o gyfraith amgylcheddol. Er enghraifft, mae adran 1(3A) yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod coedwigaeth perthnasol i ymdrechu i gael cydbwysedd rhesymol rhwng "the development of afforestation, the management of forests and the production and supply of timber" a "the conservation and enhancement of natural beauty and the conservation of flora, fauna and geological or physiographical features of special interest". Mae rhan olaf y ddyletswydd hon yn ymwneud â chadwraeth yr amgylchedd naturiol, sydd felly o fewn cwmpas cyfraith amgylcheddol. Fodd bynnag, nid yw elfennau eraill o fewn yr un Ddeddf yn dod o dan y diffiniad hwn. Er enghraifft, adran 1(2) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod coedwigaeth priodol fod wedi ei "charged with the general duty of promoting the interests of forestry, the development of afforestation and the production and supply of timber and other forest products…" Gan fod a wnelo'r ddyletswydd hon â hyrwyddo'r diwydiant coedwigaeth, nis ystyrir yn gyfraith amgylcheddol.

170. Mae is-adran (1)(b) yn eithrio'n benodol o ystyr cyfraith amgylcheddol ddarpariaethau sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth neu fynediad ati (heblaw am y darpariaethau hynny yn y Rhan hon o'r Bil), a darpariaethau sy'n ymwneud â threthiant, cyllid neu gyllidebau.

171. Mae is-adran (3) yn nodi ystyr "darpariaeth ddatganoledig" y cyfeirir ati yn is-adran (1). Mae'n golygu unrhyw ddarpariaeth sydd wedi ei chynnwys mewn Mesur Cynulliad neu Ddeddf gan Senedd Cymru (neu mewn is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Fesur neu Ddeddf o'r fath), ac unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth arall pan fyddai'r ddarpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

172. Mae is-adran (4) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth i bennu darpariaethau datganoledig sy'n dod neu nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad o gyfraith amgylcheddol. Un enghraifft o adeg y caniateir defnyddio'r pŵer hwn yw i alluogi newidiadau yn y dyfodol i'r dirwedd ddeddfwriaethol sy'n ymwneud â'r amgylchedd i gael eu hadlewyrchu yn y diffiniad o gyfraith amgylcheddol.

173. Mae is-adran (5) yn darparu, cyn gwneud rheoliadau o'r fath, fod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â SLlAC ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

**Adran 32 – Ystyr "awdurdod cyhoeddus"**

174. Mae adran 32 yn diffinio'r hyn a olygir gan "awdurdod cyhoeddus" mewn

perthynas â'r Rhan hon o'r Ddeddf (ac mae'n darparu nad yw SLlAC yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion y Rhan hon o'r Ddeddf).

175. Mae'r diffiniad hwn yn allweddol o ran pennu'r awdurdodau cyhoeddus y bydd SLlAC yn eu goruchwylio wrth arfer ei swyddogaethau. Mae'r diffiniad hwn yn dwyn ynghyd awdurdodau cyhoeddus sydd o fewn cwmpas/cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, gan gynnwys cwmnïau sy'n ymgymerwyr dŵr neu garthffosiaeth. Effaith adrannau 31 a 32 gyda'i gilydd yw y gallai awdurdod cyhoeddus sydd ag unrhyw swyddogaeth amgylcheddol fod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth SLlAC, nid dim ond y cyrff hynny sy'n gweithredu at ddibenion amgylcheddol yn unig.

## Adran 34 – Ystyr "methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol"

176. Mae adran 34 yn diffinio'r hyn a olygir gan "methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol" yn y Rhan hon. Mae'r Ddeddf yn darparu bod methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yn cyfeirio at awdurdod cyhoeddus sydd (a) yn arfer ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n groes i gyfraith amgylcheddol neu (b) yn methu ag arfer ei swyddogaethau pan fo'r methiant yn groes i gyfraith amgylcheddol. Mae hyn yn golygu y gallai methiant i gydymffurfio ddeillio o gamweithred (e.e. awdurdod rheoleiddio neu awdurdod lleol yn awdurdodi gweithgaredd nad yw'n cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol) yn ogystal â diffyg gweithredu. Er enghraifft, gallai fod diffyg gweithredu mewn amgylchiadau pan fo rheoleiddiwr yn gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd ac adnoddau naturiol ac atal niwed i'r amgylchedd, ond nad yw wedi bod yn rhagweithiol mewn cysylltiad ag arolygu risgiau i ardaloedd cadwraeth arbennig, ac yn hytrach ond wedi cymryd camau gweithredu ar ôl i niwed i'r amgylchedd ddigwydd.

## RHAN 3 – Targedau bioamrywiaeth, etc.

177. Mae Rhan 3 yn diwygio Rhan 1 o Ddeddf 2016 i wneud darpariaeth ar gyfer gosod ac adolygu targedau i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu i adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth yng Nghymru, ac ar gyfer adrodd ar y targedau hynny, yn ogystal â gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau iddi.

## Adran 35 – Targedau bioamrywiaeth

178. Mae adran 35(1) yn mewnosod wyth adran newydd yn Neddf 2016 (adrannau 6B, 6C, 6D, 6E, 6F, 6G, 6H a 6I).

*Adran 6B - Targedau bioamrywiaeth: cyffredinol*

179. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gosod targedau mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru.

180. Mae is-adran (2) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pŵer i osod targedau onid ydynt yn ystyried y byddai'r targed, pe bai'n cael ei gyrraedd, yn cyfrannu at atal neu wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth

neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth, yn benodol drwy un neu ragor o'r canlynol:

a. cynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol. Toreithrwydd rhywogaethau yw nifer yr unigolion mewn rhywogaeth sy'n bresennol mewn ardal benodol ac fe'i defnyddir yn aml fel adnodd i fesur bioamrywiaeth ac i lywio ymdrechion cadwraeth ar gyfer rhywogaethau;
b. gwella cydnerthedd ecosystemau, yn benodol yr agweddau a bennir yn adran 6(2)(a) i (e) o Ddeddf 2016. Y rhain yw – amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt; y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt; graddfa ecosystemau; cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); gallu ecosystemau i ymaddasu. Gall ecosystemau gwydn fod yn fwy bioamrywiol, gan helpu i atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, ac maent yn gallu ymaddasu i newid yn well, gan gynnwys effeithiau newid hinsawdd; neu
c. cynyddu amrywiaeth enetig. Amrywiaeth enetig yw'r amrywiaeth o nodweddion genetig o fewn rhywogaeth. Mae'n ofynnol ar gyfer goroesiad hirdymor rhywogaeth gan ei fod yn sicrhau gallu rhywogaeth i ymaddasu a goroesi mewn amgylchedd sy'n newid.

181. Wrth ystyried a fyddai targed yn cyfrannu at gynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, gwella cydnerthedd ecosystemau, neu gynyddu amrywiaeth enetig, mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i'r rhestr o rywogaethau a mathau o gynefinoedd a gyhoeddwyd ganddynt o dan adran 7 o Ddeddf 2016. Y rhain yw'r rhywogaethau a'r mathau o gynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

182. Mae is-adran (7) yn egluro mai ystyr "rhywogaethau brodorol" yw rhywogaethau sy'n bresennol yn naturiol yng Nghymru neu a oedd yn bresennol yn naturiol yn y gorffennol yno. Mae hyn yn cynnwys rhywogaethau mudol sy'n bresennol yn rheolaidd (rhywogaethau sy'n bridio a'r rhai nad ydynt yn bridio) a choloneiddwyr naturiol. Coloneiddwyr naturiol yw rhywogaethau a gyrhaeddodd Gymru ohonynt eu hunain ac sydd wedi ymsefydlu, gan gynnwys y rheini sy'n dod yn rhywogaethau mudol. Mae rhywogaethau brodorol hefyd yn cynnwys rhywogaethau sydd wedi eu hailgyflwyno yng Nghymru wedi iddynt ddiflannu yn y gorffennol.

183. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau bennu safon sydd i'w chyflawni ar gyfer unrhyw darged a osodir odanynt. Rhaid gallu ei mesur yn wrthrychol, a rhaid i'r rheoliadau hefyd bennu dyddiad erbyn pryd y mae'r safon honno i'w chyflawni. Mae is-adran (8) yn egluro y cyfeirir at y rhain fel y "safon benodedig" a'r "dyddiad penodedig", a bod yr un ystyr iddynt yn y cyfeiriadau atynt yn adrannau 6C, 6D, 6G, 6H a 6I (ac mae'r un ystyr iddynt hefyd yn y Nodiadau Esboniadol hyn). Enghraifft bosibl o safon benodedig yw rhychwant y tir, yr afonydd neu'r môr a reolir yn effeithiol ar gyfer bioamrywiaeth.

184. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth o fewn y rheoliadau ynghylch sut i fesur cynnydd tuag at gyflawni'r safon benodedig ac a yw'r safon honno wedi ei chyflawni, yn ogystal â phennu dangosyddion fel modd o fesur y pethau hynny.

185. Mae is-adran (6) yn egluro bod targed wedi ei osod pan ddaw'r rheoliadau sy'n ei osod i rym.

*Adran 6C - Dyletswydd i wneud rheoliadau sy'n gosod targedau: meysydd blaenoriaeth*

186. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer y pŵer yn adran 6B i osod targed hirdymor mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn y meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(a) a (b); gosod targed tymor byr mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn y meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(a) a (b); a, gosod targed mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn y meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(c) a (d). Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft o'r rheoliadau sy'n ofynnol o dan is-adran (1) gerbron Senedd Cymru o fewn 2 flynedd i'r dyddiad y rhoddir y Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf.

187. Mae'r meysydd blaenoriaeth wedi eu rhestru yn is-adran (2):
   a. lleihau'r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol. Gall targed yn y maes blaenoriaeth hwn ganolbwyntio, er enghraifft, ar lunio a chyflawni cynlluniau rheoli sydd â'r nod o atal dirywiad rhywogaethau brodorol sydd mewn perygl o ddiflannu a/neu'r nod o gyfrannu at boblogaethau rhywogaethau iach a gwydn;
   b. rheoli ecosystemau yn effeithiol. Gall targed yn y maes blaenoriaeth hwn ganolbwyntio, er enghraifft, ar rychwant ardaloedd gwarchodedig a reolir yn effeithiol, megis safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig;
   c. lleihau llygredd. Gall targed yn y maes blaenoriaeth hwn ganolbwyntio, er enghraifft, ar iechyd dŵr croyw drwy geisio lleihau maethynnau gormodol, plaladdwyr a chemegion peryglus iawn, a llygredd plastig;
   d. ansawdd y dystiolaeth i lywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso. Gall targed yn y maes blaenoriaeth hwn ganolbwyntio, er enghraifft, ar wella'r ddarpariaeth o'r dystiolaeth orau sydd ar gael am fioamrywiaeth, a gwella mynediad ati.

188. Mae is-adran (3) yn diffinio "targed hirdymor" fel targed a chanddo ddyddiad penodedig o leiaf 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y gosodwyd y targed.

189. Mae is-adran (4) yn diffinio "targed tymor byr" fel targed a chanddo ddyddiad penodedig sydd lai na 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y gosodwyd y targed.

190. Mae is-adran (5) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru osod targed mewn perthynas â'r maes blaenoriaeth "lleihau llygredd" os oes modd i Weinidogion Cymru osod targed mewn cysylltiad â'r mater hwnnw o dan eu pŵer i osod

targedau ansawdd aer o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024.

191. Mae is-adran (6) yn egluro bod i "rhywogaethau brodorol" yn is-adran (2)(a) yr un ystyr ag yn adran 6B(7).

*Adran 6D - Y broses o osod targedau*

192. Mae is-adran (1) yn darparu, cyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 6B, bod rhaid iddynt geisio cyngor yn gyntaf gan bersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol. Yn unol ag is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi crynodeb o unrhyw gyngor o'r fath.

193. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymhwyso'r egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol o dan adran 4 o Ddeddf 2016 pan fyddant yn gwneud rheoliadau sy'n gosod neu'n diwygio targedau o dan adran 6B. Yr egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yw - rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd; ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu; hyrwyddo cydweithio a chydweithredu, a chyfranogi ynddynt; gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau; ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch; ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau; ystyried effeithiau tymor byr, tymor canolig a hirdymor gweithredoedd; cymryd camau i atal niwed arwyddocaol i ecosystemau; ystyried cydnerthedd ecosystemau.

194. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r ymgynghori a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r rheoliadau ac unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghori.

195. Mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol na chaiff Gweinidogion Cymru osod neu ddiwygio targedau onid ydynt wedi eu bodloni y gellir eu cyrraedd.

196. Mae is-adran (6) yn darparu bod targed wedi ei gyrraedd os yw'r safon benodedig wedi ei chyflawni erbyn y dyddiad penodedig.

197. Mae is-adran (7) yn datgymhwyso'r gofynion yn is-adrannau (1) i (4) pan fydd rheoliadau'n cael eu gwneud o dan adran 6B sy'n dirymu targed sydd wedi ei gyrraedd.

*Adran 6E - Dyletswydd i gyrraedd targedau*

198. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod targedau a osodir mewn rheoliadau o dan adran 6B yn cael eu cyrraedd.

*Adran 6F - Dynodi awdurdodau cyhoeddus at ddiben adran 6(2A)*

199. Mae is-adran (1) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i ddynodi, drwy reoliadau, awdurdod cyhoeddus mewn perthynas â tharged a osodir o dan

adran 6B. Dylid darllen y pŵer hwn i ddynodi ochr yn ochr â'r ddyletswydd newydd yn adran 6(2A) o Ddeddf 2016, a fewnosodir gan adran 36 o'r Ddeddf hon, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus dynodedig gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd targed y mae wedi ei ddynodi ar ei gyfer.

200. Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r awdurdod cyhoeddus y maent yn bwriadu ei ddynodi ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

201. Ni all y rheoliadau ond dynodi awdurdod cyhoeddus o fewn is-adran newydd (11) o adran 6 o Ddeddf 2016 (a fewnosodir gan adran 36(4) o'r Ddeddf), sy'n cynnwys awdurdod Cymreig datganoledig, fel y'i diffinnir yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu gorff a restrir ym mharagraff 9(2) neu (6) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno. Ni allant ddynodi SLlAC am nad yw'n "awdurdod cyhoeddus" at ddibenion adran 6 o Ddeddf 2016 yn unol â'r diwygiad o'r diffiniad hwnnw yn adran 6(9) o Ddeddf 2016 gan adran 36(3) o'r Ddeddf.

*Adran 6G – Adolygu targedau*

202. Mae is-adran (1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru adolygu unrhyw dargedau a osodir o dan adran 6B o bryd i'w gilydd. Serch hynny, o dan is-adran (2) rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r targedau hynny os yw'n ymddangos iddynt ei bod yn bosibl na chaiff y targed ei gyrraedd neu ei bod yn bosibl nad yw'r targed yn briodol mwyach.

203. Mae is-adran (3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, o bryd i'w gilydd, adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol at ddiben penderfynu a fyddai gosod targedau pellach yn fwy effeithiol o ran cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth.

204. Mae is-adran (4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol os nad yw targed wedi ei gyrraedd erbyn ei ddyddiad penodedig neu os oes 10 mlynedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad a gwblhawyd yn fwyaf diweddar o'r holl dargedau cyfredol.

205. Mae is-adran (5) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol os nad oes unrhyw adolygiad wedi ei gynnal o dan is-adran (3) neu (4) cyn diwedd 2041.

206. Mae is-adran (6) yn darparu bod targed yn gyfredol at ddibenion is-adrannau (3) i (5) os yw wedi ei osod mewn rheoliadau sydd mewn grym ar adeg yr adolygiad ac nad yw wedi ei gyrraedd ar yr adeg honno.

207. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan bobl y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol pan fyddant yn cynnal adolygiad o dan yr adran hon. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi crynodeb o unrhyw gyngor o'r fath.

208. Ar ôl cynnal adolygiad o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol ag is-adran (9), osod datganiad gerbron y Senedd sy'n nodi ei gasgliadau, a'i gyhoeddi.

209. Os daw adolygiad o dan is-adran (1) neu (2) i'r casgliad na fydd targed yn cael ei gyrraedd neu nad yw'n briodol mwyach, mae is-adran (10) yn darparu bod rhaid i'r datganiad nodi'r rhesymau dros y casgliad hwnnw a'r camau, os oes rhai, y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r targed o ganlyniad i'r adolygiad.

210. Os daw adolygiad o dan is-adrannau (3), (4) neu (5) i'r casgliad y dylid gosod targedau pellach mewn rheoliadau, mae is-adran (11) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod drafft o reoliadau o'r fath gerbron y Senedd cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd o'r dyddiad y cwblhawyd yr adolygiad. Mae is-adran (12) yn darparu y cwblheir adolygiad at ddiben is-adrannau (4)(b), (5) ac (11) pan gyhoeddir y datganiad o dan is-adran (9).

*Adran 6H - Dirymu neu ostwng targedau*

211. Mae adran 6H yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer yn adran 6B i wneud rheoliadau sydd naill ai'n dirymu targed sydd eisoes wedi ei osod mewn rheoliadau neu'n gostwng targed i'w wneud yn haws ei gyrraedd.

212. Mae is-adran (1) yn darparu na chaiff Gweinidogion Cymru ostwng safon targed na'i ddirymu onid ydynt wedi eu bodloni:

a. oherwydd newidiadau i'r dystiolaeth yr oeddent wedi rhoi sylw iddi wrth osod y targed presennol, na fyddai ei gyrraedd yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth,
b. na fyddai cyrraedd y targed presennol o unrhyw fudd sylweddol o gymharu â pheidio â'i gyrraedd neu gyrraedd targed is,
c. oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r targed presennol gael ei osod, y byddai costau amgylcheddol, costau cymdeithasol, costau economaidd neu gostau eraill cyrraedd y targed yn anghymesur â'r buddion, neu
d. nad oes modd cyrraedd y targed presennol mwyach:
    i. oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r targed presennol gael ei osod, neu
    ii. oherwydd newidiadau i'r dystiolaeth yr oedd Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw iddi wrth osod y targed presennol.

213. Mae is-adran (2) yn nodi, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad oes modd cyrraedd y targed presennol mwyach oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers i'r targed presennol gael ei osod, neu oherwydd y byddai costau cyrraedd y targed yn anghymesur â'r buddion, bod rhaid iddynt ystyried gostwng targed yn gyntaf cyn dirymu'r targed.

214. At hynny, cyn dirymu neu ostwng targed, mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Senedd Cymru sy'n egluro pam y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y meini prawf uchod wedi eu bodloni, a'i gyhoeddi.

215. Mae is-adran (4) yn egluro bod gostwng targed yn golygu rhoi safon is yn lle'r safon benodedig neu roi dyddiad diweddarach yn lle'r dyddiad penodedig. Gall safon is, er enghraifft, olygu canran is o'r tir wedi ei adfer o gymharu â'r safon benodedig wreiddiol.

216. Mae is-adran (5) yn nodi nad yw'r cyfyngiadau yn adran 6H yn gymwys i ddarpariaethau mewn rheoliadau o dan adran 6B o Ddeddf 2016 sy'n dirymu targed sydd wedi ei gyrraedd.

*Adran 6I - Datganiad ynghylch targedau*

217. Yn unol ag is-adrannau (1) a (2), rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru, ar neu cyn dyddiad penodedig pob targed, ddatganiad sy'n nodi pa un a yw'r targed hwnnw wedi ei gyrraedd ai peidio, neu nad yw Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn gallu canfod a yw'r targed wedi ei gyrraedd a'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn canfod hynny.

218. Os nad yw'r targed wedi ei gyrraedd, yna yn unol ag is-adrannau (3) a (4), rhaid i Weinidogion Cymru, o fewn 6 mis i ddyddiad penodedig y targed, osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, adroddiad sy'n egluro pam nad yw'r targed wedi ei gyrraedd a pha gamau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i sicrhau bod y targed yn cael ei gyrraedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

219. Cyn penderfynu ar y camau i'w cymryd er mwyn cyrraedd y targed o dan is-adran (4), rhaid i Weinidogion Cymru, yn unol ag is-adran (5), geisio cyngor gan bersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol. Yn unol ag is-adran (6), rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi crynodeb o'r cyngor hwnnw.

220. Pan fo Gweinidogion Cymru yn gosod datganiad sy'n dweud nad ydynt yn gallu canfod a yw targed wedi ei gyrraedd, yna rhaid iddynt, o fewn 6 mis i'r dyddiad y gosodwyd y datganiad hwnnw, osod datganiad pellach gerbron Senedd Cymru sy'n nodi pa un a yw'r targed wedi ei gyrraedd ai peidio, neu a ydynt yn methu o hyd â chanfod a yw wedi ei gyrraedd, a'i gyhoeddi. Mae is-adran (8) yn ei gwneud yn glir bod is-adrannau (2) i (7) yn gymwys i unrhyw ddatganiad pellach o'r fath fel y maent yn gymwys i'r datganiad cyntaf a gyhoeddir o dan is-adran (1).

221. Mae is-adran (3) o adran 35 o'r Ddeddf hon yn diwygio adran 25(4) o Ddeddf 2016 i ddarparu y bydd rheoliadau o dan adran 6B, eu hunig effaith o ran sylwedd yw dirymu targedau sydd eisoes wedi eu cyrraedd, yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd.

**Adran 36 – Dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus**

222. Mae is-adran (1) o adran 36 yn mewnosod is-adran newydd (2A) yn adran 6 o Ddeddf 2016, sy'n gosod dyletswydd newydd ar unrhyw awdurdod cyhoeddus a ddynodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 6F. Mae'r ddyletswydd newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw awdurdod cyhoeddus dynodedig, wrth gydymffurfio â'i ddyletswydd bresennol o dan adran 6(1) o Ddeddf 2016, gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd y targed y mae wedi ei ddynodi mewn perthynas ag ef.

223. Mae'r ddyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf 2016 yn ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau o ran Cymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.

224. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud newidiadau eraill i adran 6 o Ddeddf 2016 mewn cysylltiad ag awdurdodau cyhoeddus. Effeithiau'r newidiadau hyn yw:
   a. cyfyngu ar yr awdurdodau cyhoeddus (i'r rhai a nodir yn is-adran newydd (11) o adran 6 o Ddeddf 2016) y mae'n ofynnol iddynt roi sylw i'r adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 6(1),
   b. eithrio SLlAC o'r diffiniad o "awdurdod cyhoeddus" ( yn adran 6(9)) fel nad yw'r ddyletswydd yn adran 6(1) yn gymwys i SLlAC, ac
   c. cyfyngu ar gwmpas pŵer Gweinidogion Cymru i ddynodi, mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6F, awdurdodau cyhoeddus (i'r rhai yn is-adran newydd (11) o adran 6 o Ddeddf 2016) y mae rhaid iddynt gymryd camau gweithredu i gyfrannu at darged bioamrywiaeth a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6B.

**Adran 37 – Cynlluniau Gweinidogion Cymru o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd**

225. Mae adran 6(6) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (ac eithrio un o Weinidogion y Goron neu un o adrannau llywodraeth y DU) gyhoeddi cynllun sy'n nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'u dyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

226. Mae adran 37 yn mewnosod is-adrannau newydd (6A), (6B) a (6C) yn adran 6 o Ddeddf 2016.

227. Mae is-adran (6A) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, ac ymgynghori, pan fyddant yn paratoi eu cynllun o dan adran 6(6). Pan fydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r cynllun hwnnw, rhaid iddynt hefyd gyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi'r ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi'r cynllun hwnnw ac unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghori.

228. Mae is-adran (6B) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi'r canlynol yn eu cynllun o dan adran 6(6):

- pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i gyfrannu at wireddu gweledigaeth y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang sef, erbyn 2050, fod bioamrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, ei gadw, ei adfer a'i ddefnyddio'n ddoeth, gan gadw gwasanaethau ecosystem, cynnal planed iach a chyflawni buddion sy'n hanfodol i'r holl bobl,

- cynigion sy'n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru,

- pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod unrhyw dargedau a osodir o dan adran 6B yn cael eu cyrraedd a phryd y maent yn bwriadu cymryd y camau hynny,

- sut y bydd y targedau, os cânt eu cyrraedd, yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth,

- pan fo'r safon a bennir o dan adran 6B(4) mewn perthynas â tharged wedi ei chyflawni, sut y maent yn bwriadu cynnal y safon honno, a

- pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i gydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 8A i hybu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth.

229. Mae is-adran (6C) yn diffinio'r "Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang" at ddibenion adran 6(6B)(a).

**Adran 38 – Adroddiadau o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd**

230. Mae adran 6(7) o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi adroddiad, bob tair blynedd o ddiwedd 2019, yn nodi'r hyn y maent wedi ei wneud i gydymffurfio â'u dyletswydd yn adran 6(1) o Ddeddf 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth.

231. Mae is-adran (1) o adran 38 yn diwygio adran 6(7) o Ddeddf 2016 fel bod rhaid i unrhyw awdurdod cyhoeddus a ddynodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6F hefyd gynnwys yn ei adroddiad adran 6(7) y camau gweithredu y mae wedi eu cymryd i gydymffurfio â'i ddyletswydd yn adran 6(2A) i gyfrannu at gyrraedd y targed y mae wedi ei ddynodi mewn perthynas ag ef.

232. Mae is-adran (2) o adran 38 yn mewnosod is-adrannau newydd (7A), (7B) a (7C) yn adran 6 o Ddeddf 2016.

233. Mae is-adran (7A) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi yn eu hadroddiad adran 6(7) pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd unrhyw dargedau a osodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6B ac a yw'r targedau hynny'n debygol o gael eu cyrraedd. Er enghraifft, gall hyn gynnwys adrodd ar gynnydd yn erbyn unrhyw ddangosydd a bennir ar gyfer y targed o dan adran 6B(5)(b).

234. Mae is-adrannau (7B) a (7C) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon eu hadroddiad adran 6(7) i SLlAC cyn gynted ag y bo'n rhesymol

ymarferol ar ôl iddynt ei gyhoeddi. Mae anfon yr adroddiad hwn i'w drin fel cais, gan Weinidogion Cymru i SLlAC, am gyngor o dan adran 13 o'r Ddeddf hon a bydd darpariaethau'r adran honno yn gymwys. Mae hyn yn golygu, os bydd SLlAC yn penderfynu peidio â rhoi cyngor, fod rhaid iddi egluro pam, ac os bydd yn rhoi cyngor, fod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddo a bod rhaid i SLlAC ei gyhoeddi.

**Adran 39 - Adroddiad gwerthuso**

235. Mae is-adran (1) o adran 39 yn mewnosod adran newydd 6A (Gwerthusiad o gamau i gynnal a gwella bioamrywiaeth) yn Neddf 2016.

236. Mae is-adrannau (1) a (2) o adran 6A yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad gwerthuso sy'n asesu effaith ac effeithiolrwydd y cynigion a nodir yn eu cynllun adran 6(6) diweddaraf a'r camau gweithredu a gymerwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r cynigion hynny. Bydd yr adroddiad gwerthuso hwn, felly, yn asesu'r cynigion a'r camau a gynigir gan Weinidogion Cymru i gydymffurfio â'u dyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn adran 6(1) o Ddeddf 2016 (fel sy'n ofynnol gan adran 6(6)) a'r cynigion a'r camau a gymerwyd mewn perthynas â'r materion a nodir yn adran 6(6B) (gweler paragraff 231 uchod), sy'n cynnwys camau gweithredu i gyrraedd y targedau a osodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6B.

237. Mae is-adran (3) o adran 6A yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad gwerthuso cyntaf cyn diwedd 2031 ac, wedi hynny, fod rhaid iddynt gyhoeddi adroddiad gwerthuso cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2031.

238. Mae is-adrannau (4) a (5) o adran 6A yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru anfon adroddiad gwerthuso i SLlAC cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt ei gyhoeddi. Mae anfon yr adroddiad hwn i'w drin fel cais, gan Weinidogion Cymru i SLlAC, am gyngor o dan adran 13 o'r Ddeddf hon a bydd darpariaethau'r adran honno yn gymwys. Mae hyn yn golygu, os bydd SLlAC yn penderfynu peidio â rhoi cyngor, fod rhaid iddi egluro pam, ac os bydd yn rhoi cyngor, fod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddo a bod rhaid i SLlAC ei gyhoeddi.

239. Mae is-adran (2) o adran 39 yn diwygio adran 24 o Ddeddf 2016 i gynnwys yr adroddiad gwerthuso yn y rhestr o ddogfennau y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio dyddiad eu llunio neu eu cyhoeddi.

**Adran 40 – Hybu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth**

240. Mae is-adran (2) yn mewnosod adran newydd 8A (Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth) yn Neddf 2016, sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth, a'r bygythiadau iddi.

241. Ymhlith yr enghreifftiau o'r ffyrdd y gallai Gweinidogion Cymru gyflawni eu dyletswydd y mae: drwy annog, cefnogi a hybu mentrau ymwybyddiaeth a gwirfoddoli lleol sy'n ymwneud â bioamrywiaeth; drwy wella'r ddarpariaeth o adnoddau bioamrywiaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd;

neu adolygu'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd am bwysigrwydd bioamrywiaeth i iechyd pobl a'u llesiant, yn ogystal â'r ffactorau sy'n sbarduno colli bioamrywiaeth, gan ystyried hygyrchedd a gofynion gwahanol grwpiau.

## RHAN 4 - CYFFREDINOL

### Adran 41 – Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol etc.

242. Mae adran 41 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth atodol, unrhyw ddarpariaeth ddeilliadol neu unrhyw ddarpariaeth ganlyniadol y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol at ddiben unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, neu ar gyfer rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf. Caiff rheoliadau o'r fath addasu unrhyw ddeddfiad (fel y'i diffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019), ac eithrio'r darpariaethau yn y Ddeddf hon.

### Adran 42 – Rheoliadau

243. Mae adran 42 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon, ac yn nodi gweithdrefn Senedd Cymru sy'n gymwys i'r rheoliadau hynny.

244. Mae is-adran (1) yn darparu bod rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol Cymreig.

245. Mae is-adran (2) yn darparu bod pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth at ddibenion gwahanol, a'r pŵer i wneud darpariaeth ategol (hynny yw, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol, neu ddarpariaeth arbed).

246. Mae is-adran (3) yn nodi darpariaethau'r Ddeddf sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, sy'n golygu na chaniateir gwneud rheoliadau oni bai bod drafft o'r offeryn sy'n eu cynnwys wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

247. Mae is-adran (4) yn nodi pan wneir rheoliadau o dan adran 41(1) byddant hefyd yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd os ydynt yn addasu unrhyw ddarpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol.

248. Mae is-adran (5) yn nodi bod unrhyw reoliadau eraill a wneir o dan adran 41(1) yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd sy'n golygu bod rheoliadau o'r fath a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'w hannilysu drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

### Adran 43 – Cyflwyno hysbysiadau a dogfennau eraill

249. Mae adran 43 yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â rhoi hysbysiadau, cyfarwyddydau neu ddogfennau eraill o dan y Ddeddf.

250. Mae is-adran (1) yn gymwys i roi hysbysiadau, cyfarwyddydau a dogfennau eraill. Mae enghreifftiau o roi'r dogfennau hyn yn y Ddeddf yn cynnwys

cyflwyno hysbysiadau cydymffurfio o dan adran 18 a rhoi hysbysiad ynghylch diswyddo neu atal dros dro aelod o SLlAC o dan baragraff 5(1) a (2) o Atodlen 1, ond nid ydynt yn gyfyngedig i hynny.

251. Mae is-adrannau (2) a (3) yn nodi'r gwahanol ddulliau cyflwyno y caniateir eu defnyddio o dan y Ddeddf, a'r amodau y mae rhaid cydymffurfio â hwy.

252. Mae is-adran (4) yn darparu pan fo dogfen neu hysbysiad etc. yn cael ei gadael neu ei adael mewn cyfeiriad, y bernir bod y ddogfen neu'r hysbysiad wedi ei chyflwyno neu ei gyflwyno ar y diwrnod y caiff ei gadael neu ei adael, oni phrofir i'r gwrthwyneb.

253. Mae is-adran (5) yn darparu, os daw dogfen i law drwy gyfathrebiad electronig y tu allan i oriau busnes arferol, y bydd yn cael ei thrin fel pe bai wedi ei chyflwyno ar y diwrnod gwaith canlynol. Os daw'r cyfathrebiad electronig i law o fewn oriau busnes arferol y person, yna bernir bod y cyfathrebiad wedi ei ddanfon yn ddisymwth. At ddibenion y ddarpariaeth hon, mae i "diwrnod gwaith" yr un ystyr ag a roddir yn Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

254. Diben is-adran (6) yw osgoi unrhyw orgyffwrdd rhwng y darpariaethau yn adran 41 a'r darpariaethau tebyg (ond ychydig yn wahanol) yn adrannau 231 a 233 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ynghylch cyflwyno dogfennau i neu gan gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned neu gyd-bwyllgor corfforedig.

## Adran 45 - Diwygiadau canlyniadol

255. Mae Atodlen 45 yn cyflwyno Atodlen 4 sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol.

## Adran 46 - Dod i rym

256. Mae is-adran (1) yn dwyn Rhan 4 o'r Ddeddf, ac eithrio adran 45 (diwygiadau canlyniadol), i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol.

257. Mae is-adran (2) yn dwyn y darpariaethau a ganlyn yn y Ddeddf i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol:

a. adrannau 1 a 2;
b. adran 6 ac adran 7, ac eithrio is-adran (1)(c);
c. adrannau 8 a 10 ac Atodlen 1, ac eithrio paragraffau 10 ac 21;
d. adran 30 ac Atodlen 3;
e. adrannau 31 i 34;
f. Rhan 3;
g. paragraffau 1 i 4 o Atodlen 4 (ac adran 45 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny).

258. Mae is-adran (3) yn dod ag adrannau 3 i 5 i rym ar 31 Mawrth 2027.

259. Mae is-adran (4) yn darparu, ac eithrio fel a ddarperir gan is-adrannau (1) i (3), ac yn ddarostyngedig i is-adran (5), y daw darpariaethau'r Ddeddf i rym ar ddiwrnod a bennir mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

260. Mae is-adran (5) yn darparu os nad yw'r darpariaethau a grybwyllir yn is-adran (6) wedi dod i rym erbyn diwedd y cyfnod o 24 o fisoedd sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol, y maent yn dod i rym ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Y darpariaethau yn is-adran (6) yw'r rheini sy'n ymwneud â swyddogaethau o sylwedd SLlAC-
   (a) adran 7(1)(c);
   (b) paragraffau 10 ac 21 o Atodlen 1;
   (c) adrannau 11 i 29 ac Atodlen 2;
   (d) paragraff 5 o Atodlen 4 (ac adran 45 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraff hwnnw).

261. Mae is-adran (7) yn darparu y caiff gorchymyn o dan is-adran (4) wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed; a/neu y caiff bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol.

262. Mae is-adran (8) yn darparu y caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (5) er mwyn rhoi cyfnod gwahanol yn lle'r cyfnod a bennir am y tro yn yr is-adran honno. Yn unol ag adran 42(3)(b), bydd unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (8) yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

263. Mae is-adran (9) yn darparu na chaiff y cyfnod a amnewidir yn unol ag is-adran (8) fod yn hwy na 48 o fisoedd sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddedddf y Cydsyniad Brenhinol. I bob diben, mae hyn yn golygu y daw'r darpariaethau o sylwedd mewn perthynas â swyddogaethau SLlAC i rym yn ddim hwyrach na 48 o fisoedd ar ôl i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol.

### Adran 47 – Enw byr

264. Mae adran 47 yn nodi enw byr y Ddeddf, y gellir ei ddefnyddio wrth enwi'r Ddeddf ac wrth gyfeirio ati. Caniateir defnyddio naill ai enw Cymraeg neu enw Saesneg y Ddeddf, gan gynnwys fel cyfeiriad mewn deddfiadau eraill.

## ATODLEN 1 – SWYDDFA LLYWODRAETHIANT AMGYLCHEDDOL CYMRU

265. Mae Atodlen 1 yn nodi cyfansoddiad SLlAC a sut y disgwylir iddi weithredu.

### Rhan 1: Statws

266. Mae paragraff 1 yn nodi nad yw SLlAC i'w hystyried yn was nac yn asiant i'r Goron, ac nad yw eiddo SLlAC i'w ystyried yn eiddo i'r Goron. Mae hyn yn wahanol i adrannau'r llywodraeth y mae eu heiddo yn dir y Goron.

### Rhan 2: Aelodaeth

267. Mae paragraff 2 yn nodi aelodaeth SLlAC. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys cadeirydd, dirprwy gadeirydd, o leiaf 3 a dim mwy na 5 person arall a phrif weithredwr. Mae'r prif weithredwr i fod yn aelod o staff SLlAC. Mae paragraff

6 yn rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â phenodi'r prif weithredwr.

268. Mae paragraff 2(3) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth, yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, i ddiwygio nifer yr aelodau a benodir i SLlAC. Cyn gwneud rheoliadau o dan y pŵer hwn, mae paragraff 2(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â phwyllgor yn Senedd Cymru y mae diogelu'r amgylchedd am y tro wedi ei gynnwys o fewn ei gylch gwaith, SLlAC, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

269. Mae paragraff 3 yn rhestru'r disgrifiadau o bersonau na ellir eu penodi yn aelod o SLlAC oherwydd eu rolau neu swydd.

270. Mae paragraff 4 yn nodi y caiff SLlAC nodi telerau penodi aelodau anweithredol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau penodol. Ni chaiff cyfnod y swydd/penodiad fod yn hwy na 4 blynedd, ac ni chaniateir penodi aelod anweithredol am fwy na 2 gyfnod yn y swydd.

271. Mae paragraff 4(4) yn egluro nad yw penodiadau fel cadeirydd, dirprwy gadeirydd a rolau anweithredol eraill ar sail interim (sy'n golygu cyfnod o 12 mis neu lai), fel y nodir ymhellach ym mharagraff 9 o'r Atodlen hon, yn cyfrif tuag at y gwaharddiad ar benodi am fwy na 2 gyfnod yn y swydd.

272. Mae paragraff 4(5) yn caniatáu i SLlAC, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, dalu tâl, treuliau a lwfansau i'w haelodau anweithredol fel y mae'n ystyried yn briodol.

273. Mae paragraff 5 yn nodi'r amgylchiadau pan ganiateir diswyddo aelod anweithredol a'r broses y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn cyn y gallant ddiswyddo aelod.

## Rhan 3: Staff

274. Mae'r prif weithredwr i'w benodi yn unol â pharagraff 6. Mae'r prif weithredwr cyntaf i'w benodi gan Weinidogion Cymru, gyda phrif weithredwyr dilynol i'w penodi yn annibynnol gan yr aelodau anweithredol. Rhaid i dâl, treuliau, lwfansau a phensiwn y prif weithredwr gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

275. Mae paragraff 7 yn darparu y caiff SLlAC benodi staff eraill a bod rhaid i'r telerau a'r amodau gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

## Rhan 4: Gofynion Penodi

276. Mae paragraff 8(1) yn nodi, wrth benodi aelodau anweithredol, fod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod yr aelodau rhyngddynt yn meddu ar brofiad ac wedi dangos galluedd o ran cyfraith amgylcheddol a pholisi amgylcheddol, gwyddor amgylcheddol ac achosion ymchwilio a gorfodi.

277. Mae gweddill paragraff 8 yn nodi gofynion eraill ar Weinidogion Cymru, gan gynnwys yr angen i ymgynghori â phwyllgor yn Senedd Cymru wrth benodi

neu ailbenodi'r cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd, a sefydlu panel, â chynrychiolydd sydd wedi ei enwebu gan y pwyllgor perthnasol yn Senedd Cymru, aelod o staff Llywodraeth Cymru a 2 aelod annibynnol, i wneud argymhellion ar benodi aelodau anweithredol a'r prif weithredwr. Mae gan Bwyllgor y Senedd 21 o ddiwrnodau (heb gynnwys diwrnodau pan fydd Senedd Cymru wedi ei diddymu neu ar doriad am fwy na 4 diwrnod) i enwebu aelod i eistedd ar y panel; os bydd yn methu ag enwebu rhywun neu fel arall nad yw'n ymateb o fewn yr 21 o ddiwrnodau, gall y broses benodi barhau heb yr enwebiad hwn. Rhaid i'r panel feddu ar brofiad o'r gofynion a nodir ym mharagraff 8(1), ac eithrio'r aelod o Senedd Cymru a enwebir. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i argymhellion y panel hwnnw. Nid oes angen dilyn y broses hon i ailbenodi aelod anweithredol neu'r prif weithredwr, pan fo'n dilyn yn union ar ôl y cyfnod cyntaf yn y swydd.

278. Mae paragraff 9 yn nodi datgymhwysiad gofynion penodi er mwyn caniatáu ar gyfer penodiadau interim o 12 mis neu lai, mewn amgylchiadau penodedig, a phan na ellir bodloni cworwm SLlAC.

## Rhan 5: Pwyllgorau a Dirprwyo

279. Mae Rhan 5 yn nodi pwerau SLlAC i sefydlu pwyllgorau ac is-bwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys pwerau mewn perthynas â thâl, hawliau pleidleisio, dirprwyo a sefydlu cyd-bwyllgorau.

280. Mae paragraff 10 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â sefydlu pwyllgor adolygu a fydd yn cynnal adolygiadau y gwneir cais amdanynt gan awdurdodau cyhoeddus ar ôl i SLlAC ddyroddi hysbysiad cydymffurfio iddynt. Yn benodol, rhaid i'r pwyllgor adolygu benodi un neu ragor o aelodau cyfetholedig o restr o bersonau sydd ag arbenigedd ym maes cyfraith amgylcheddol a pholisi amgylcheddol, gwyddor amgylcheddol ac achosion ymchwilio a gorfodi. Mae'r rhestr i'w chynnal a'i chyhoeddi gan SLlAC. Mae hyn er mwyn sicrhau mesur o annibyniaeth pan gynhelir yr adolygiad o'r penderfyniad cychwynnol a wnaed gan SLlAC i gyflwyno'r hysbysiad cydymffurfio.

## Rhan 6: Gweithdrefn etc.

281. Mae paragraff 14 yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC wneud rheolau sy'n rheoleiddio ei gweithdrefn ei hun a gweithdrefn unrhyw un neu ragor o'i phwyllgorau neu is-bwyllgorau.

282. Mae paragraff 15 yn darparu nad yw swydd wag ymhlith aelodaeth SLlAC nac unrhyw ddiffyg o ran penodi aelod yn effeithio ar ddilysrwydd gweithredoedd SLlAC na'i phwyllgorau, is-bwyllgorau na chyd-bwyllgor.

## Rhan 7: Materion Ariannol

283. Mae paragraff 16 yn darparu ar gyfer trefniadau cyllido ar gyfer SLlAC.

284. Mae is-baragraff (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu i SLlAC unrhyw symiau y maent yn ystyried eu bod yn ddigonol i alluogi SLlAC i gyflawni ei swyddogaethau.

285. Mae is-baragraff (2) yn caniatáu i daliadau Gweinidogion Cymru i SLlAC gael eu gwneud ar unrhyw adegau ac yn unol ag unrhyw amodau y maent yn penderfynu arnynt.

286. Mae paragraff 17 yn darparu mai'r prif weithredwr yw swyddog cyfrifyddu SLlAC, ond os na all y prif weithredwr gyflawni'r rôl honno rhaid i aelod arall o staff SLlAC gael ei enwebu. Mae cyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu o ran cyfrifon a chyllid SLlAC wedi eu pennu gan Weinidogion Cymru.

287. Mae paragraff 18 yn nodi dyletswyddau SLlAC mewn perthynas â llunio a chyflwyno cyfrifon ariannol a gwybodaeth am y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae paragraff 18(4) yn darparu bod y flwyddyn ariannol ar ôl sefydlu SLlAC i ddod i ben ar yr ail 31 Mawrth yn dilyn y diwrnod y mae adran 8 yn cychwyn. Mae hyn er mwyn galluogi SLlAC i fod mewn sefyllfa weithredol cyn ei bod yn ofynnol iddi lunio a chyflwyno cyfrifon ariannol, wrth barhau i wneud SLlAC yn atebol o'r diwrnod y'i sefydlir yn gyfreithiol. Ar ôl hynny, bydd angen llunio cyfrifon heb fod yn hwyrach na phob 31 Mawrth olynol.

288. Bydd paragraff 19 yw sicrhau goruchwyliaeth annibynnol, tryloywder ac atebolrwydd o ran y defnydd o gyllid cyhoeddus. Noda'r dyletswyddau mewn perthynas â phob datganiad o gyfrifon a gyflwynir i Archwilydd Cyffredinol Cymru gan SLlAC.

289. Mae paragraff 20 yn darparu y caiff Archwilydd Cyffredinol Cymru archwilio defnydd SLlAC o'i hadnoddau mewn cysylltiad â thri chategori, sef darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, ond nid oes ganddi hawlogaeth i gwestiynu rhinweddau amcanion polisi SLlAC. Mae is-baragraffau (3) a (4) yn nodi'r dyletswyddau ar Archwilydd Cyffredinol Cymru wrth gynnal archwiliad.

## Rhan 8: Gofynion Adrodd

290. Mae paragraff 21(1) yn rhoi dyletswydd ar SLlAC i lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol ac i osod copi o'r adroddiad gerbron Senedd Cymru.

291. Mae paragraff 21(2) yn darparu, pan fo SLlAC yn arfer ei disgresiwn i gynnwys datganiad yn ei hadroddiad blynyddol o ran a yw'r symiau a ddyrannwyd iddi wedi bod yn ddigonol i'w galluogi i gyflawni ei swyddogaethau, fod rhaid iddi gyflwyno'r adroddiad hwnnw i Weinidogion Cymru yn ogystal â'i osod gerbron y Senedd.

## Rhan 9: Darpariaethau Atodol

292. Mae paragraff 22 yn nodi dyletswyddau SLlAC mewn perthynas â chofrestru buddiannau ei haelodau.

293. Mae paragraff 23 yn nodi pwerau atodol SLlAC ac yn darparu y caiff SLlAC wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn briodol at ddibenion ei swyddogaethau, neu mewn cysylltiad â'i swyddogaethau, neu fel arall sy'n ddeilliadol neu'n ffafriol i arfer y swyddogaethau hynny. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys materion megis gwneud ceisiadau am adolygiad barnwrol (pan

fo'r holl ofynion cyfreithiol eraill wedi eu bodloni) a sefydlu gweithdrefnau ar gyfer cwynion, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny. Fodd bynnag, ni chaiff SLlAC godi ffioedd, cael benthyg arian, buddsoddi, rhoi grantiau, rhoi benthyg arian, na derbyn rhoddion.

## ATODLEN 2 - SWYDDFA LLYWODRAETHIANT AMGYLCHEDDOL CYMRU: STRATEGAETH

294. Mae'r Atodlen hon yn nodi darpariaethau ar gyfer cynnwys a gofynion gweithdrefnol y strategaeth y mae'n ofynnol i SLlAC ei llunio a'i chyhoeddi o dan adran 11.

*Cynnwys*

295. Mae paragraff 1 yn nodi'r hyn y mae rhaid i SLlAC ei gynnwys yn y strategaeth y mae'n ofynnol iddi ei llunio o dan adran 11. Nid yw'r gofynion penodedig hyn yn atal darparu manylion eraill yn y strategaeth.

296. Mae paragraff 1(1)(a) yn darparu bod rhaid i'r strategaeth a lunnir o dan adran 11(1) nodi sut y mae SLlAC yn bwriadu cydymffurfio â'i dyletswyddau i arfer ei swyddogaethau at y diben cyffredinol a nodir yn adran 10(a) a'i dyletswyddau o dan ddeddfiadau eraill, yn benodol o dan Ran 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

297. Mae paragraff 1(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth nodi sut y mae SLlAC yn bwriadu gweithredu yn ddiduedd, yn wrthrychol, yn gymesur ac yn dryloyw.

298. Mae paragraff 1(1)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth nodi sut y mae SLlAC yn bwriadu monitro datblygiadau o ran effeithiolrwydd deddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd sy'n gymwys neu a wneir y tu hwnt i Gymru. Er enghraifft, deddfwriaeth a wneir gan weinyddiaethau eraill y DU neu gan y Comisiwn Ewropeaidd.

299. Mae paragraff 1(1)(d) yn darparu bod rhaid i'r strategaeth nodi sut y mae SLlAC yn bwriadu cydlafurio â phersonau eraill at ddibenion arfer ei swyddogaethau.

300. Mae paragraff 1(1)(e) yn darparu bod rhaid i SLlAC nodi sut y mae'n bwriadu ceisio osgoi unrhyw orgyffwrdd ag arfer swyddogaethau comisiynwyr/cyrff eraill penodedig, yn ogystal ag unrhyw bersonau eraill yr ymddengys i SLlAC y gallai eu swyddogaethau orgyffwrdd â'i swyddogaethau ei hun.

301. Mae paragraff 1(2)(a) yn nodi sut y mae SLlAC yn bwriadu, fel rhan o arfer ei swyddogaethau o dan adran 12(1), fonitro yn annibynnol unrhyw dargedau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a osodir gan gyfraith amgylcheddol neu odani.

302. Mae paragraff 1(2)(b) ac (c) yn darparu bod rhaid i SLlAC hefyd nodi sut y mae'n bwriadu rheoli sylwadau y mae'n eu cael yn unol â'r ddogfen a gyhoeddir o dan adran 16, gan gynnwys ei pholisi ar gyhoeddi gwybodaeth a

blaenoriaethu sylwadau.

303. Mae paragraff 1(3) yn darparu bod rhaid i strategaeth SLlAC nodi ei pholisi ymchwilio gan gynnwys yr amgylchiadau y gall benderfynu cynnal ymchwiliad ynddynt, sut y mae'n bwriadu cynnal ymchwiliad a sut y mae'n bwriadu ymgysylltu ag awdurdod cyhoeddus pan fo wrthi'n cynnal ymchwiliad neu'n ystyried cynnal ymchwiliad.

304. Mae paragraff 1(4) yn darparu bod rhaid i strategaeth SLlAC nodi ei pholisi gorfodi fel bod yr awdurdodau cyhoeddus y bydd SLlAC yn eu goruchwylio yn glir ynghylch yr amgylchiadau a allai arwain at gyflwyno hysbysiad cydymffurfio, neu gyhoeddi unrhyw adroddiad gwella. Mae hyn yn cynnwys yr amgylchiadau y bydd SLlAC yn penderfynu peidio â chyflwyno hysbysiad cydymffurfio neu adroddiad gwella ynddynt. Mae paragraff 1(4)(d) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC nodi sut y bydd yn penderfynu a yw hysbysiad cydymffurfio brys yn ofynnol o dan adran 19 neu a ddylid gwneud cais i'r llys o dan adran 21. Bydd y strategaeth, felly, yn egluro'r gwahanol brosesau o ystyried y difrifoldeb posibl i awdurdod cyhoeddus os cyflwynir hysbysiad cydymffurfio brys iddo neu y'i hatgyfeirir i'r Uchel Lys am adolygiad.

*Gofynion gweithdrefnol*

305. Mae paragraff 2 yn nodi'r broses ar gyfer cyhoeddi a diwygio strategaeth SLlAC. Rhaid cyhoeddi'r strategaeth ac unrhyw strategaeth ddiwygiedig.

306. Mae paragraff 2(1) yn ei gwneud yn ofynnol i SLlAC ymgynghori â'r pwyllgor perthnasol yn Senedd Cymru, ac unrhyw bersonau priodol eraill, wrth lunio'r strategaeth.

307. Mae paragraff 2(2) yn darparu bod rhaid i SLlAC adolygu ei strategaeth cyn diwedd y cyfnod o 4 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cyhoeddir y strategaeth gyntaf, a chyn diwedd pob cyfnod dilynol o 4 blynedd.

308. Mae paragraff 2(3) yn caniatáu i SLlAC ddiwygio ei strategaeth yn dilyn yr adolygiad hwnnw. Caiff yr adolygiad o'r strategaeth nodi ffyrdd mwy effeithiol ac effeithlon i SLlAC arfer ei swyddogaethau, neu ffyrdd y gall fod angen i SLlAC newid ei dull o flaenoriaethu o ganlyniad i faterion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod 4 blynedd hwnnw. Mae caniatáu i SLlAC ddiwygio ei strategaeth yn ystyried hyn.

309. Mae paragraff 2(6) yn ei gwneud yn ofynnol i'r strategaeth (neu strategaeth ddiwygiedig) gael ei gosod gerbron Senedd Cymru cyn gynted â phosibl ar ôl iddi gael ei chyhoeddi. Bwriad hyn yw darparu tryloywder ac eglurder i Lywodraeth Cymru, Senedd Cymru, a rhanddeiliaid eraill ar fframwaith gweithredol a chyfeiriad strategol SLlAC y mae wedi penderfynu arnynt ei hun.

## ATODLEN 3 – CYNLLUNIAU TROSGLWYDDO STAFF

310. Mae Atodlen 3 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i wneud cynllun

trosglwyddo a'i addasu er mwyn i aelodau o staff Llywodraeth Cymru ddod yn aelodau o staff SLlAC. Rhaid i unrhyw gynllun a wneir gan Weinidogion Cymru gael ei osod gerbron Senedd Cymru.

## ATODLEN 4 – DIWYGIADAU CANLYNIADOL

311. Mae Atodlen 4 wedi ei chyflwyno gan adran 45. Mae'n diwygio'r Deddfau isod drwy naill ai eithrio SLlAC o'u cwmpas neu ei chynnwys yn eu cwmpas.

*Deddf yr Amgylchedd 1995*

312. Mae paragraff 1 yn diwygio adran 81B (swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus Cymreig perthnasol etc.) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i ddarparu na chaiff Gweinidogion Cymru ddynodi SLlAC yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf honno.

*Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32)*

313. Mae paragraff 2 yn diwygio adran 148 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ystyr "Welsh public records") i ddarparu y caiff ei chofnodion cyhoeddus eu dosbarthu'n "Welsh public records".

*Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1)*

314. Mae paragraff 3 yn diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i'r perwyl bod SLlAC yn agored i orfod cydymffurfio â safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredu a safonau cadw cofnodion o dan y Mesur hwnnw.

*Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (dccc 7)*

315. Mae paragraff 4 yn diwygio adran 10B (awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill yn hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 er mwyn darparu na chaniateir pennu SLlAC yn awdurdod cyhoeddus at ddiben y Ddeddf honno.

*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)*

316. Mae paragraff 5 yn diwygio adran 6(1) (ystyr "corff cyhoeddus") o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddarparu bod SLlAC yn gorff cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf honno.

## COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

317. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau at gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar: Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru)

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 2 Mehefin 2025 |
| Cyfnod 1 - Dadl | 11 Tachwedd 2025 |
| Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – ystyried y gwelliannau | 19 Rhagfyr 2025 |
| Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – ystyried y gwelliannau | 10 Chwefror 2026 |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Senedd | 24 Chwefror 2026 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | Rhagwelir Ebrill 2026 |

# Atodiad 2

## Mynegai o ofynion Rheolau Sefydlog

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod | Tudalen 9 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalen 10 – 139 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 156 – 214 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil, ac<br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Pennod 4 - Ymgynghori | Tudalen 140 - 149 |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio. | Pennod 4 - Ymgynghori | Tudalen 140 - 149 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Pennod 4 - Ymgynghori | Tudalen 149 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalen 268-314 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 156 - 246 |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 215 - 246 |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn | Pennod 5 - Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalen 150 - 154 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵe; ac<br><br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | | |
| 26.6(xi) | os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio | Pennod 6 - Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol<br><br>neu<br><br>Nid yw gofyniad Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn<br>[dilëer fel y bo'n berthnasol] | |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalen 219 |

| Rheol sefydlog | | Adran | tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Atodiad 3– Tabl Tarddiadau<br><br>neu<br><br>Nid yw’r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6B am Dabl o Ddeilliadau yn gymwys i’r Bil hwn gan fod y Bil yn ddarn o ddeddfwriaeth annibynnol ac nid yw’n deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol at ddiben diwygio neu gydgrynhoi.<br><br>[dileu fel y bo'n berthnasol] | Tudalen 315 |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau<br><br>neu<br><br>Nid yw’r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6C am Atodlen o Ddiwygiadau yn gymwys i’r Bil hwn gan nad yw’r Bil yn cynnig diwygio’n sylweddol ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol.<br><br>[dilëer fel y bo'n berthnasol] | Tudalen 315 |

# Atodiad 3 – Atodlen o Ddiwygiadau

DIWYGIADAU I'W GWNEUD GAN
FIL YR AMGYLCHEDD (EGWYDDORION, LLYWODRAETHIANT A THARGEDAU BIOAMRYWIAETH) (CYMRU)

Bwriad y ddogfen hon yw dangos sut y byddai darpariaethau'r ddeddfwriaeth ganlynol yn edrych fel y'u diwygiwyd gan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) fel y’i pasiwyd gan y Senedd.

- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024
- Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903)

Mae deunydd sydd i'w ddileu gan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) yn ymddangos gyda llinell drwodd e.e. ~~mae deunydd wedi'i hepgor yn edrych fel hyn~~. Tanlinellir y deunydd sydd i'w ychwanegu gan Fil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) e.e. mae'r deunydd ychwanegol yn edrych fel hyn. Darperir cyfeiriadau at ddarpariaethau diwygio perthnasol y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Mae nifer o ddarpariaethau cysylltiedig o'r Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, wedi'u cynnwys er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

**Rhybudd**

Paratowyd y testun hwn gan swyddogion adran Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

Fe'i lluniwyd i helpu pobl i ddeall effaith Bil yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru). Nid yw wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

| **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** | **Diwygiwyd gan** |
|---|---|
| **Adran 6 (Dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau)**<br>(1) Rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd | |

| | |
|---|---|
| ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.<br>(2) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried cydnerthedd ecosystemau, a'r agweddau a ganlyn yn benodol—<br>(a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;<br>(b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;<br>(c) graddfa ecosystemau;<br>(d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);<br>(e) gallu ecosystemau i addasu.<br><u>(2A) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus o fewn is-adran (11) sydd wedi ei ddynodi mewn rheoliadau o dan adran 6F gymryd camau i gyfrannu at gyrraedd y targed y mae wedi ei ddynodi mewn perthynas ag ef.</u><br>(3) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i—<br>(a) arfer swyddogaeth gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, neu<br>(b) arfer un neu ragor o swyddogaethau barnwrol llys neu dribiwnlys.<br>(4) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1)—<br>(a) rhaid i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru, Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru, unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron ac unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i Gonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992, a<br>(b) rhaid i unrhyw awdurdod cyhoeddus arall roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.<br>(5) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth roi sylw i—<br>(a) y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7;<br>(b) yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;<br>(c) unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal y | Adran 36(1) |

| | |
|---|---|
| mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi;<br>(d) pan fo'r awdurdod cyhoeddus yn un o fewn is-adran (11), yr adroddiad rheoli tir yn gynaliadwy a gyhoeddir o dan adran 6 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.<br>(6) Rhaid i awdurdod cyhoeddus ac eithrio unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron neu unrhyw un neu ragor o adrannau'r llywodraeth baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud er mwyn cydymffurfio ag is-adran (1). | Adran 36(2) |
| (6A) Rhaid i Weinidogion Cymru—<br>(a) pan fyddant yn paratoi eu cynllun o dan is-adran (6),<br>(i) ymgynghori â Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru, a<br>(ii) cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol,<br>(b) pan fyddant yn paratoi eu cynllun o dan is-adran (6), ymgynghori ag –<br>(i) unrhyw bersonau neu gyrff y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried yn rhesymol fod ganddynt fuddiant mewn materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru, a<br>(ii) aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, a<br>(c) pan fyddant yn cyhoeddi'r cynllun hwnnw, gyhoeddi hefyd adroddiad sy'n crynhoi—<br>(i) yr ymgynghori a gynhaliwyd wrth baratoi'r cynllun, a<br>(ii) unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghori<br>(6B) Rhaid i'r cynllun a baratoir ac a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (6) yn benodol, nodi—<br>(a) pa gamau y maent yn bwriadu ei cymryd i gyfrannu at wireddu gweledigaeth y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang sef, erbyn 2050, fod bioamrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, ei gadw, ei adfer a'i ddefnyddio'n ddoeth, gan gadw gwasanaethau ecosystem, cynnal planed iach a chyflawni buddion sy'n hanfodol i'r holl bobl, | Adran 37 |

| | |
|---|---|
| (b) cynigion sy’n ymwneud â meysydd cyfrifoldeb pob un o Weinidogion Cymru,<br>(c) pa gamau y maent yn cynnig eu cymryd i sicrhau bod y targedau a osodir mewn rheoliadau o dan adran 6B yn cael eu cyrraedd a phryd y maent yn bwriadu cymryd y camau hynny,<br>(d) sut y bydd y targedau, os cânt eu cyrraedd, yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth,<br>(e) pan fo’r safon a bennir o dan adran 6B(4) mewn perthynas â tharged wedi ei chyflawni, sut y maent yn bwriadu cynnal y safon honno, a<br>(f) pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i gydymffurfio â’r ddyletswydd yn adran 8A i hybu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth. | |
| (7) Rhaid i awdurdod cyhoeddus, cyn diwedd 2019 a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, gyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae wedi ei wneud ~~i gydymffurfio ag is-adran (1).~~—<br>(a) i gydymffurfio ag is-adran (1), a<br>(b) pan fo is-adran (2A) yn gymwys, i gyfrannu at gyrraedd y targed y mae wedi'i ddynodi mewn perthynas ag ef. | Adran 38(1) |
| (7A) Rhaid i'r adroddiad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (7), yn benodol, adrodd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyrraedd y targedau a osodir mewn rheoliadau o dan adran 6B ac a ydynt yn debygol o gael eu cyflawni. | Adran 38(2) |
| (8) O ran awdurdod cyhoeddus sydd wedi cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6)—<br>(a) rhaid iddo adolygu’r cynllun yng ngoleuni pob adroddiad a gyhoeddir ganddo o dan is-adran (7), a<br>(b) caiff adolygu’r cynllun unrhyw bryd.<br>(9) Yn yr adran hon—<br>ystyr “awdurdod cyhoeddus” (“*public authority*”) yw—<br>(a) Gweinidogion Cymru;<br>(b) Prif Weinidog Cymru;<br>(c) Cwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru;<br>(d) unrhyw un neu ragor o Weinidogion y Goron;<br>(e) corff cyhoeddus (gan gynnwys adran y llywodraeth, awdurdod lleol, cyd-bwyllgor corfforedig ac | |

| | |
|---|---|
| awdurdod cynllunio lleol), ond nid Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru;<br>(f) person sy'n dal swydd—<br>(i) o dan y Goron,<br>(ii) a grëwyd neu sy'n parhau mewn bodolaeth o ganlyniad i Ddeddf gyffredinol gyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU, neu<br>(iii) y telir tâl cydnabyddiaeth mewn perthynas â hi allan o arian a ddarperir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Senedd y DU;<br>(g) ymgymerwr statudol;<br>mae i "*Gweinidog y Goron*" yr un ystyr ag a roddir i "Minister of the Crown" yn Neddf Gweinidogion y Goron 1975 (p. 26);<br>(10) Yn is-adran (9)—<br>mae i "a*wdurdod cynllunio lleol*" yr ystyr a roddir i "local planning authority" gan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (p. 8);<br>ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir, bwrdeistref sirol neu gymuned yng Nghymru;<br>ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("corporate joint committee") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlwyd gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 oDdeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);<br>ystyr "ymgymerwr statudol" ("*statutory undertaker*") yw unrhyw un neu ragor o'r canlynol—<br>(a) person sydd wedi ei awdurdodi gan unrhyw ddeddfiad i weithredu unrhyw ymgymeriad rheilffordd, rheilffordd ysgafn, tramffordd, cludiant ar ffyrdd, cludiant ar ddŵr, camlas, mordwyo mewndirol, doc, harbwr, pier neu oleudy neu unrhyw ymgymeriad ar gyfer cyflenwi pŵer hydrolig;<br>(b) gweithredydd un o rwydweithiau'r cod cyfathrebu electronig (o fewn ystyr paragraff 1(1) o Atodlen 17 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21));<br>(c) gweithredydd maes awyr (o fewn ystyr Deddf Meysydd Awyr 1986 (p. 31)) sy'n gweithredu maes awyr y mae Rhan 5 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;<br>(d) trawsgludwr nwy (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986 (p. 44)); | Adran 36(3) |

| | |
|---|---|
| (d) deiliad trwydded o dan adran 7 neu 7AA o Ddeddf Nwy 1986 (p. 44);<br>(e) deiliad trwydded o dan adran 6(1) o Ddeddf Trydan 1989 (p. 29);<br>(f) ymgymerwr dŵr neu garthffosiaeth;<br>(g) yr Awdurdod Hedfan Sifil neu ddeiliad trwydded o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38), i'r graddau y bo'r person sy'n dal y drwydded yn cynnal gweithgareddau a awdurdodir ganddi;<br>(h) darparwr gwasanaeth cyffredinol o fewn ystyr Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Post 2011 (p. 5);<br>(11) Mae awdurdod cyhoeddus o fewn yr is-adran hon os yw-<br>(a) yn awdurdod Cymreig datganoledig o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), neu<br>(b) wedi ei restru ym mharagraff 9(2) neu (6) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno. | Adran 36(4) |
| **Adran 6A (Gwerthusiad o gamau i gynnal a gwella bioamrywiaeth)**<br>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad o dan yr adran hon ("adroddiad gwerthuso").<br>(2) Rhaid i'r adroddiad gwerthuso nodi asesiad Gweinidogion Cymru o effaith ac effeithiolrwydd y cynigion a nodir yn unol ag adran 6(6) a (6A) yn y cynllun a gyhoeddwyd ganddynt yn fwyaf diweddar a chamau a gymerwyd yn unol â'r cynigion hynny.<br>(3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r adroddiad gwerthuso cyntaf cyn diwedd 2031 ac, wedi hynny, cyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2031.<br>(4) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi adroddiad gwerthuso, rhaid i Weinidogion Cymru anfon copi ohono i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.<br>(5) Mae anfon copi o'r adroddiad o dan is-adran (4) i'w drin fel cais gan Weinidogion Cymru i Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru am gyngor o dan | Adran 39(1) |

| | |
|---|---|
| adran 13 o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026. | |
| *Targedau bioamrywiaeth*<br>**6B Targedau bioamrywiaeth: cyffredinol**<br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau osod targedau mewn cysylltiad ag unrhyw fater sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yng Nghymru.<br>(2) Caiff Gweinidogion Cymru osod targed yn y rheoliadau dim ond os ydynt yn fodlon y byddai ei gyflawni yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth, yn enwedig drwy un neu ragor o'r canlynol –<br>(a) cynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol;<br>(b) gwella cydnerthedd ecosystemau (yn enwedig yr agweddau a bennir yn adran 6(2)(a) i (e);<br>(c) cynyddu amrywiaeth enetig.<br>(3) Wrth ystyried a fyddai targed yn cyfrannu at gynyddu toreithrwydd rhywogaethau brodorol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r rhestr a gyhoeddir o dan adran 7.<br>(4) Rhaid i'r rheoliadau, mewn perthynas â phob targed—<br>(a) pennu safon i'w chyflawni, y mae rhaid gallu ei mesur yn wrthrychol, a<br>(b) pennu dyddiad erbyn pryd y mae'r safon i'w chyflawni.<br>(5) Rhaid i'r rheoliadau—<br>(a) cynnwys darpariaeth ynghylch sut i fesur—<br>(i) cynnydd tuag at gyflawni pob safon a bennir o dan is-adran (4), a<br>(ii) a yw'r safon wedi'i chyflawni, a<br>(b) pennu dangosyddion fel modd o fesur y pethau hynny.<br>(6) Mae targed o dan yr adran hon wedi ei osod pan ddaw'r rheoliadau sy'n ei osod i rym.<br>(7) Yn yr adran hon—<br>(a) ystyr "rhywogaethau brodorol" yw rhywogaethau sy'n digwydd yn naturiol | Adran 35(1) |

| | |
|---|---|
| <u>yng Nghymru neu sydd wedi digwydd yn naturiol yng Nghymru yn y gorffennol, gan gynnwys—</u><br><br><u>(i) rhywogaethau mudol sy'n digwydd yn rheolaidd (bridio a rhai nad ydynt yn bridio) a choloneiddwyr naturiol, a</u><br><br><u>(ii) rhywogaethau sydd wedi'u hailgyflwyno yng Nghymru ar ôl difodiant yn y gorffennol;</u><br><br><u>(b) ystyr "coloneiddwyr naturiol" yw rhywogaethau a gyrhaeddodd Gymru ar eu pennau eu hunain ac sydd wedi ymsefydlu, gan gynnwys y rhai sy'n dod yn rhywogaethau mudol.</u><br><br><u>(8) Yn adrannau 6D, 6G, 6H a 6I, ystyr "safon benodol" a "dyddiad penodol", mewn perthynas â tharged a osodir o dan yr adran hon, yw'r safon a'r dyddiad a bennir o dan is-adran (4).</u><br><br><u>**6C Dyletswydd i wneud rheoliadau sy'n gosod targedau: meysydd blaenoriaeth**</u><br><br><u>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru arfer y pŵer yn adran 6B i—</u><br><br><u>(a) gosod targed hirdymor mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn pob un o’r meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(a) a (b),</u><br><br><u>(b) gosod targed tymor byr mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn pob un o’r meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(a) a (b), ac</u><br><br><u>(c) gosod targed mewn cysylltiad ag o leiaf un mater o fewn pob un o’r meysydd blaenoriaeth yn is-adran (2)(c) a (d).</u><br><br><u>(2) Y meysydd blaenoriaeth yw—</u><br><br><u>(a) lleihau’r risg o ddiflaniad rhywogaethau brodorol;</u><br><br><u>(b) rheoli ecosystemau yn effeithiol;</u><br><br><u>(c) lleihau llygredd;</u><br><br><u>(d) ansawdd y dystiolaeth er mwyn llywio penderfyniadau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, mynediad at y dystiolaeth honno a'i defnyddio a'i chymhwyso.</u> | |

| | |
|---|---|
| (3) Mae targed yn "targed hirdymor" os yw'r dyddiad penodedig o leiaf 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y gosodir y targed.<br>(4) Mae targed yn "targed tymor byr" os yw'r dyddiad penodedig lai na 15 mlynedd ar ôl y dyddiad y gosodir y targed.<br>(3) Ni chaniateir gosod targedau mewn perthynas â mater o fewn y maes blaenoriaeth yn is-adran (2)(c) os caniateir gosod targed mewn perthynas â'r mater hwnnw o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (2024 dsc 2).<br>(4) Yn is-adran (2)(a), mae i "rhywogaethau brodorol" yr ystyr a roddir gan adran 6B(7).<br>(5) Rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymru sy'n cynnwys y rheoliadau sy'n ofynnol gan yr adran hon gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff Deddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026 (dsc xx) Gydsyniad Brenhinol.<br><br>**6D Proses gosod targedau**<br>(1) Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan bersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol.<br>(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi crynodeb o unrhyw gyngor o'r fath y maent yn ei gael.<br>(3) Wrth wneud rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.<br>(4) Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B sy'n gosod neu'n diwygio targed, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad sy'n crynhoi—<br>(a) yr ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r rheoliadau, a<br>(b) unrhyw sylwadau a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghori.<br>5) Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B sy'n gosod neu'n diwygio targed, rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni y gellir cyrraedd y targed neu'r targed diwygiedig. | |

| | |
|---|---|
| (6) At ddibenion y Rhan hon, mae targed wedi ei gyflawni os yw'r safon benodedig wedi ei chyflawni erbyn y dyddiad penodedig.<br>(7) Nid yw is-adrannau (1) i (4) yn gymwys i ddarpariaethau mewn rheoliadau o dan adran 6B sy'n dirymu targed sydd wedi ei gyrraedd.<br>**6E Dyletswydd i gyrraedd targedau**<br>Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y targedau a osodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6B yn cael eu bodloni.<br><br>**6F Dynodi awdurdodau cyhoeddus at ddiben adran 6(2A)**<br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddynodi awdurdod cyhoeddus o fewn adran 6(11) mewn perthynas â tharged a osodir mewn rheoliadau a wneir o dan adran 6B.<br>(2) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag –<br>(a) yr awdurdod cyhoeddus y maent yn bwriadu ei ddynodi, a<br>(b) y personau eraill hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.<br><br>**6G Adolygu targedau**<br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru, o bryd i'w gilydd, adolygu targed a osodwyd mewn rheoliadau o dan adran 6B.<br>(2) Rhaid i Weinidog Cymru adolygu targed a osodwyd mewn rheoliadau o dan adran 6B os ymddengys iddynt–<br>(a) ei bod yn bosibl na fydd y targed yn cael ei gyrraedd, neu<br>(b) ei bod yn bosibl nad yw'r targed yn briodol mwyach.<br>(3) Caiff Gweinidogion Cymru, o bryd i'w gilydd, adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol at ddiben penderfynu a fyddai gosod targedau pellach mewn rheoliadau o dan adran 6B yn fwy effeithiol o ran cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth.<br>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol at y diben a grybwyllir yn is-adran (3)— | |

| | |
|---|---|
| (a) os nad yw targed a osodwyd mewn rheoliadau o dan adran 6B wedi ei gyrraedd erbyn y dyddiad penodedig mewn perthynas â'r targed hwnnw;<br><br>(b) os oes 10 mlynedd wedi mynd heibio ers yr adolygiad a gwblhawyd yn fwyaf diweddar o dan unrhyw un o is-adran (3), yr is-adran hon neu is-adran (5).<br><br>(5) Os nad oes unrhyw adolygiad o dan is-adran (3) neu (4) wedi ei gwblhau cyn diwedd 2041, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd yr holl dargedau cyfredol at y diben a grybwyllir yn is-adran (3).<br><br>(6) Mae targed yn gyfredol at ddiben is-adrannau (3) i (5) os—<br><br>(a) yw wedi ei osod mewn rheoliadau o dan adran 6B sydd mewn grym ar adeg yr adolygiad, a<br><br>(b) nad yw wedi ei gyrraedd ar yr adeg honno.<br><br>(7) Wrth gynnal adolygiad o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan bersonau y maent yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol.<br><br>(8) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi crynodeb o unrhyw gyngor o'r fath y maent yn ei gael.<br><br>(9) Ar ôl cynnal adolygiad o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron Senedd sy'n nodi ei gasgliadau, a'i gyhoeddi.<br><br>(10) Os daw adolygiad o dan is-adran (1) neu (2) i'r casgliad na fydd targed yn cael ei gyrraedd neu nad yw'n briodol mwyach, rhaid i'r datganiad nodi'r rhesymau dros y casgliad hwnnw a'r camau, os oes rhai, y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd mewn perthynas â'r targed o ganlyniad i'r adolygiad.<br><br>(11) Os daw adolygiad o dan is-adran (3), (4) neu (5) i'r casgliad y dylid gosod targedau pellach mewn rheoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru osod drafft o offeryn statudol Cymreig sy'n cynnwys y rheoliadau hynny gerbron Senedd Cymru cyn diwedd y cyfnod o 2 flynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y cwblhawyd yr adolygiad.<br><br>(12) Cwblheir adolygiad at ddiben is-adrannau (4)(b), (5) ac (11) pan gyhoeddir y datganiad sy'n ofynnol gan is-adran (9). | |

| | |
|---|---|
| **6H Dirymu neu ostwng targedau**<br>(1) Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan adran 6B sy'n dirymu neu'n gostwng targed (y "targed presennol") onid ydynt wedi eu bodloni—<br>(a) oherwydd newidiadau i'r dystiolaeth yr oeddent yn rhoi sylw iddi wrth osod y targed presennol, na fyddai ei gyflawni yn cyfrannu at atal a gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth neu at adfer bioamrywiaeth i lefelau cydnerth,<br>(b) na fyddai cyflawni'r targed presennol o unrhyw fudd sylweddol o gymharu â pheidio â chyflawni'r targed neu gyflawni targed is,<br>(c) yn sgil newidiadau mewn amgylchiadau ers gosod y targed presennol, y byddai costau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd neu gostau eraill cyflawni'r targed yn anghymesur â'r manteision, neu<br>(d) nad oes modd cyflawni'r targed presennol mwyach—<br>(i) oherwydd newidiadau mewn amgylchiadau ers gosod y targed presennol, neu<br>(ii) oherwydd newidiadau i'r dystiolaeth yr oedd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw iddi wrth osod y targed presennol.<br>(2) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—<br>(a) y byddai costau cyrraedd y targed presennol yn anghymesur â'r manteision a grybwyllir yn is-adran (1)(c), neu<br>(b) nad oes modd cyrraedd y targed presennol mwyach fel y crybwyllir yn is-adran (1)(d),<br>rhaid iddynt, cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B sy'n dirymu'r targed, ystyried a ddylid gwneud rheoliadau sy'n gostwng y targed.<br>(3) Cyn gwneud rheoliadau o dan adran 6B sy'n dirymu neu'n gostwng targed, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, ddatganiad sy'n esbonio pam mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni fel y'i crybwyllir yn is-adran (1).<br>(4) Mae rheoliadau yn gostwng targed os ydynt, i unrhyw raddau—<br>(a) yn disodli'r safon benodedig gyda safon is, neu | |

| | |
|---|---|
| (b) yn disodli'r dyddiad penodedig gyda dyddiad diweddarach.<br><br>(5) Nid yw'r adran hon yn gymwys i ddarpariaethau mewn rheoliadau o dan adran 6B sy'n dirymu targed sydd wedi ei gyrraedd.<br><br>**6I Datganiad am dargedau**<br><br>(1) Ar y dyddiad penodedig neu cyn y dyddiad penodedig mewn perthynas â phob targed a osodir o dan reoliadau o dan adran 6B, rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, ddatganiad sy'n cynnwys yr wybodaeth ofynnol.<br><br>(2) Yr wybodaeth ofynnol yw (fel y bo'n briodol)—<br><br>(a) bod y targed wedi'i gyflawni,<br><br>(b) nad yw'r targed wedi'i gyflawni, neu<br><br>(c) nad yw Gweinidogion Cymru ar hyn o bryd yn gallu canfod p'un a yw'r targed wedi ei gyflawni, y rhesymau dros hynny a'r camau mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd er mwyn canfod p'un a yw'r targed wedi ei gyflawni.<br><br>(3) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud datganiad nad yw targed wedi ei gyflawni, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir y datganiad, osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, adroddiad.<br><br>(4) Rhaid i'r adroddiad –<br><br>(a) esbonio pam nad yw'r targed wedi ei gyflawni, a<br><br>(b) nodi'r camau y mae Gweinidogion Cymru wedi eu cymryd, neu'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd, i sicrhau y cyflawnir y safon benodedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.<br><br>(5) Cyn penderfynu ar y camau y cyfeirir atynt yn is-adran (4)(b), rhaid i Weinidogion Cymru ofyn am gyngor gan bersonau y maent yn eu hystyried yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol.<br><br>(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi crynodeb o unrhyw gyngor o'r fath y maent yn ei gael.<br><br>(7) Pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud datganiad nad ydynt yn gallu canfod eto pa un a yw targed wedi ei gyflawni, rhaid i Weinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gosodir y datganiad, osod gerbron Senedd Cymru, a chyhoeddi, ddatganiad pellach sy'n cynnwys yr wybodaeth ofynnol. | |

| | |
|---|---|
| (8) Mae is-adrannau (2) i (7) yn gymwys i ddatganiadau pellach o dan is-adran (7) fel y maent yn gymwys i ddatganiad o dan is-adran (1). | |
| *Rhestrau bioamrywiaeth*<br>**7 Rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth**<br>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd, yn eu barn hwy, o'r pwysigrwydd pennaf at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â Chymru.<br>(2) Cyn cyhoeddi rhestr o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru ("CNC") ynghylch yr organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd sydd i'w cynnwys ar y rhestr.<br>(3) Heb ragfarnu adran 6, rhaid i Weinidogion Cymru—<br>(a) cymryd pob cam rhesymol er mwyn cynnal a gwella'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a gynhwysir ar unrhyw restr a gyhoeddir o dan yr adran hon, a<br>(b) annog eraill i gymryd camau o'r fath.<br>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru, mewn ymgynghoriad â CNC—<br>(a) adolygu'n gyson unrhyw restr a gyhoeddir ganddynt o dan yr adran hon,<br>(b) gwneud y diwygiadau hynny i unrhyw restr o'r fath y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol, ac<br>(c) cyhoeddi unrhyw restr a ddiwygir yn y fath fodd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl ei diwygio.<br>(5) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. | Adran 35(2) |
| ~~*Polisi adnoddau naturiol cenedlaethol*~~ *Dyletswyddau Gweinidogion Cymru*<br>**8A Dyletswydd i hybu ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth**<br>Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd camau i hybu ymwybyddiaeth yng Nghymru o bwysigrwydd bioamrywiaeth a'r bygythiadau i fioamrywiaeth. | Adran 40 |
| *Cyffredinol*<br>**24 Pŵer i ddiwygio cyfnodau ar gyfer paratoi a chyhoeddi dogfennau** | |

| | |
|---|---|
| (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n newid erbyn pa bryd y mae'n rhaid paratoi neu gyhoeddi'r dogfennau a ganlyn—<br>(za) adroddiad gwerthuso a baratowyd o dan adran 6A;<br>(a) adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol neu ddrafft o adroddiad o'r fath;<br>(b) y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol.<br>(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth ar ffurf diwygiad i'r Rhan hon.<br>(3) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) mewn perthynas â'r dogfennau a grybwyllir yn is-adran (1)(a) neu (b), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag CNC. | Adran 39(2)(a)<br><br>Adran 39(2)(b) |
| **25 Rheoliadau o dan y Rhan hon**<br>(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon i'w arfer drwy offeryn statudol.<br>(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Rhan hon yn cynnwys pŵer—<br>(a) i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol;<br>(b) i wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.<br>(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Rhan hon gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.<br>(4) Nid yw offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau sy'n cael yr effaith sylweddol o ddirymu rheoliadau a wnaed o dan adran 22(1), a hynny'n unig, neu o ddirymu targed sydd wedi ei osod mewn rheoliadau o dan adran 6B ac sydd wedi ei gyrraedd, a hynny'n unig, yn ddarostyngedig i'r gofyniad yn is-adran (3), ond rhaid iddo gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl iddo gael ei wneud. | Adran 35(3) |
| **Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.**<br><br>Yn adran 6(1) (ystyr "corff cyhoeddus"), ar ôl paragraff (f) mewnosoder— "(fa) Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru;". | Paragraff 3(2) o Atodlen 4 |
| **Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024** | |

| | |
|---|---|
| Eithriadau ar gyfer SLIAC | |
| **Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903)**<br><br>Ar ôl erthygl 4 mewnosoder-<br><br>**“4A Llunio polisïau: egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd**<br>(1) Rhaid i’r Corff—<br>(a) rhoi sylw arbennig i'r egwyddorion amgylcheddol wrth lunio polisïau mewn perthynas â Chymru, a<br>(b) integreiddio diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisïau o'r fath.<br><br>(2) Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd ym mharagraff (1), rhaid i'r Corff roi sylw i'r canllawiau a gynhwysir yn y datganiad egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd neu'r datganiad egwyddorion amgylcheddol ac integreiddio diogelu'r amgylchedd diwygiedig a gyhoeddir o dan adran 6[j204] o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026.<br><br>(3) Yn yr erthygl hon —<br>(a) mae i "egwyddorion amgylcheddol" yr ystyr a roddir gan adran 2[j202] o Ddeddf yr Amgylchedd (Egwyddorion, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth) (Cymru) 2026,<br>(b) mae i "diogelu'r amgylchedd" yr ystyr a roddir gan adran [j403] o'r Ddeddf honno,<br>(c) mae "polisïau" yn cynnwys cynigion ar gyfer deddfwriaeth, ond nid yw'n cynnwys penderfyniad gweinyddol mewn perthynas â pherson neu achos penodol,<br>(d) mae "llunio polisïau" yn cynnwys datblygu, mabwysiadu neu adolygu polisïau, a<br>(d) mae "Cymru" yn cynnwys, i'r graddau y mae'r polisi yn ymwneud â physgota, pysgodfeydd neu iechyd pysgod, ardal parth Cymru y tu hwnt i derfyn môr y môr tiriogaethol.” | Adran 4(2) |
| **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**<br><br>Mae adran 2(1) o Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn:<br><br>Yn adran 10B (awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill yn hyrwyddo teithio llesol fel ffordd o leihau llygredd aer neu gyfyngu arno), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—<br>“(4A) Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (3) bennu Swyddfa Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru.” | Paragraff 2(2) o Atodlen 4 |
| **Deddf yr Amgylchedd 1995**<br><br>Mae adran 1(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 wedi ei diwygio fel a ganlyn: | Paragraff 1(2) o Atodlen 4 |

| | |
|---|---|
| Yn adran 81B (swyddogaethau awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru etc.), ar ôl is-adran (3) mewnosoder—<br>"(3A) Regulations under subsection (3) may not designate the Office of Environmental Governance Wales as a relevant Welsh public authority.” | |